

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

04/02/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Cynnig i Atal Rheol Sefydlog 12.20\(i\) er mwyn Caniatáu i'r Eitem Nesaf o Fusnes Gael ei Thrafod](#)
[Motion to Suspend Standing Order 12.20\(i\) to Enable the Next Item of Business to be Debated](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â Phrynu Tybaco ac yn y blaen ar ran Plant, a Gwahardd Gwerthu Nwyddau sy'n cynnwys Nicotin \(E-sigaréts ac yn y blaen\) i Bobl o dan 18 oed a Chreu Troseddau Cysylltiedig](#)
[Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in relation to the Purchase of Tobacco etc on behalf of Children, and Prohibition of Sale of Nicotine Containing Products \(E-cigarettes etc\) to Persons under 18 and the Creation of Associated Offences](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\)](#)
[Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Social Services and Well-Being \(Wales\) Bill](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Polisi Amaethyddol Cyffredin

Questions to the First Minister

Common Agricultural Policy

13:30 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin? OAQ(4)1475(FM)

1. Will the First Minister make a statement on reforms to the Common Agricultural Policy? OAQ(4)1475(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Gwnaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bywd ddatganiad ar ei benderfyniadau ynghylch taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar 14 Ionawr.

The Minister for Natural Resources and Food made a statement on his decisions on direct payments for farmers on 14 January.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:30 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gwnaeth y datganiad ynglŷn â throsglwyddo 15% mewn llythyr i Gadeirydd pwyllgor yn y Cynulliad yn hytrach nag mewn datganiad fan hyn i'r Senedd neu mewn datganiad ysgrifenedig. Gwnaethpwyd y diwygiadau hefyd, wrth gwrs, heb ein bod ni yn ymwybodol o ganlyniadau adolygiad Kevin Roberts ar gydnerthedd y diwydiant a hefyd heb wybod beth oedd bwriad y Llywodraeth o safbwynt y cynllun datblygu gwledig. Bellach mae ffermwyr Cymru wedi derbyn llythyr digon swta, yn ôl yr ymateb rwyf wedi'i dderbyn, yn dweud wrthynt fod gwerth eu 'entitlements' yn disgyn o hyd at chwarter. A ydych yn meddwl ei bod yn amser i Lywodraeth Cymru ymddiheuro am y modd dilornus y mae wedi trin ffermwyr Cymru?

The Minister made that statement on transferring 15% in a letter to a committee Chair in the Assembly, rather than in a statement here in the Senedd or in a written statement. The amendments were also made, of course, without us being aware of the result of the resilience review conducted by Kevin Roberts and also without knowing what the Government's intention was in terms of the rural development plan. Welsh farmers have now received quite a brief letter, according to the response that I have received, stating that the value of their entitlements are to fall by around a quarter. Do you think that it is about time that the Welsh Government apologised for the insulting way that it has treated Welsh farmers?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:31	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Dim o gwbl. Mae record dda dros ben gyda ni ynglŷn â'r ffordd rydym yn trin ffermwyr Cymru, ac, wrth gwrs, nod y Llywodraeth yw sicrhau bod gennym ddiwydiant sy'n gynaliadwy yn economaidd yn y dyfodol. Dyna beth yw nod y datganiadau sydd wedi cael eu gwneud gan y Gweinidog.</p>	<p>Not at all. We have an excellent record in terms of the way that we treat Welsh farmers. We ensure that we have an industry that is sustainable economically in the future. That is the objective of the statements that have been made by the Minister.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:31	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, we know that all European countries agreed a 13% cut to the CAP budget. However, your Government has decided to disadvantage Welsh farmers by implementing the maximum transfer of 15% from pillar 1 to pillar 2. Do you accept that other European countries have lower pillar transfer rates than Wales, with England at 12%, Scotland at 9.5%, Northern Ireland at 0%, France at 3% and Germany at 4.5%, and that this puts Welsh farmers at a competitive disadvantage at a time when average farm business income in Wales fell by 30%?</p>	<p>Brif Weinidog, rydym yn gwybod bod holl wledydd Ewrop wedi cytuno ar doriad o 13% i gyllideb y PAC. Fodd bynnag, mae eich Llywodraeth chi wedi penderfynu rhoi ffermwyr Cymru dan anfantais trwy weithredu'r uchafswm trosglwyddo o 15% o golofn 1 i golofn 2. A ydych chi'n derbyn bod gan wledydd Ewropeaidd eraill gyfraddau trosglwyddo rhwng colofnau is na Chymru - Lloegr yn 12%, yr Alban yn 9.5%, Gogledd Iwerddon yn 0%, Ffrainc yn 3% a'r Almaen yn 4.5%, a bod hyn yn rhoi ffermwyr Cymru dan anfantais gystadleuol ar adeg pan fu gostyngiad o 30% i incwm cyfartalog busnesau fferm yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:32	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>First of all, this is not money lost to farming; it is giving access to it in a different way through pillar 2. Secondly, of course, I believe that it is in the longer-term interest of Welsh farmers to do this. Those countries that do not put more money aside for rural development will see their farming industry decline slowly over time. In Wales, we are investing in farms to make sure that they are more sustainable economically. That is not being done in other countries and it should.</p>	<p>Yn gyntaf oll, nid yw ffermio'n colli'r arian hwn; ei wneud ar gael mewn ffordd wahanol trwy golofn 2 yw hyn. Yn ail, wrth gwrs, rwyf yn credu bod gwneud hyn o fudd mwy hirdymor i ffermwyr Cymru. Bydd y gwledydd hynny nad ydynt yn rhoi mwy o arian o'r neilltu ar gyfer datblygu gwledig yn gweld eu diwydiant ffermio yn dirywio'n araf dros gyfnod o amser. Yng Nghymru, rydym yn buddsoddi mewn ffermydd i wneud yn siŵr eu bod yn fwy cynaliadwy yn economaidd. Nid yw hynny'n cael ei wneud mewn gwledydd eraill, a dylai hynny fod yn digwydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:32	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Brif Weinidog, rydych yn sôn am orddibyniaeth ar gymorthdaliadau, ond beth sy'n ein poeni ni yw natur y symud o un system i'r llall, gan roi ffermwyr Cymru o dan anfantais o ran y ffordd y gallant gystadlu â gwledydd megis Iwerddon. A oedd hynny'n rhan o'r ystyriaeth pan wnaethpwyd y datganiad gan y Gweinidog?</p>	<p>First Minister, you talk about overdependence on grants, but what worries us is the nature of moving from one system to another, putting the farmers of Wales at a disadvantage in the way that they can compete with countries such as Ireland. Was that part of the consideration when the Minister made his statement?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:33	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Unwaith eto, mae'r argraff yn cael ei roi mai arian sydd wedi cael ei golli i ffermwyr Cymru yw hwn. Nid yw hynny'n wir; mae'r arian yn dal i fod ar gael, ond, wrth gwrs, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol. Bydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau cynaliadwyedd ffermio yng Nghymru yn y tymor hir. Dyna'r ffordd gall i symud ymlaen.</p>	<p>Once again, the impression is being given that this is funding that has been lost to Welsh farmers. That is not the case; the money is still available, but it will be used in a different way. It will be used to ensure the sustainability of farmers in the long term. That is the wise way to move forward.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Mewnfuddsoddi		Inward Investment	
13:33	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyhoeddi targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer mewnfuddsoddi? OAQ(4)1476(FM)</p>	<p>2. Will the First Minister make a statement on publicising Welsh Government inward investment targets? OAQ(4)1476(FM)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:33	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Our target for this year is 8,500 new and safeguarded jobs.</p>	8,500 o swyddi newydd ac wedi eu diogelu yw ein targed ar gyfer eleni.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:33	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, during the Welsh Conservative debate last week on our inward investment proposals—'Destination Cymru'—your Minister for Economy, Science and Transport stated that you have clear targets and that her officials have clear targets. Can you confirm that there are indeed targets, and if there are, why are you not publishing them?</p>	Brif Weinidog, yn ystod dadl Ceidwadwyr Cymru yr wythnos diwethaf ar ein cynigion buddsoddiad mewnol —'Cyrchfan Cymru'—dywedodd eich Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth bod gennych dargedau eglur a bod gan ei swyddogion hi dargedau eglur. A allwch chi gadarnhau bod targedau mewn gwirionedd, ac os oes, pam nad ydych chi'n eu cyhoeddi?	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I just said so. I do not know whether the Member heard the answer, but I have just given the answer to the question that she asked. It is on the record. [Interruption.]</p>	Rwyf newydd ddweud hynny. Nid wyf yn gwybod a glywodd yr Aelod yr ateb, ond rwyf newydd roi'r ateb i'r cwestiwn a ofynnodd. Mae ar y cofnod. [Torri ar draws.]	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Have you finished?</p>	A ydych chi wedi gorffen?	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>The question was why are you not publishing them—</p>	Y cwestiwn oedd pam nad ydych chi'n eu cyhoeddi—	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Sit down. I did not ask you to ask him another question; I asked you to be quiet.</p>	Eisteddwch i lawr. Ni ofynnais i chi ofyn cwestiwn arall iddo; gofynnais i chi fod yn dawel.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Gofynnaf y cwestiwn, felly. A ydych wedi cyhoeddi targedau ar gyfer mewnfuddsoddi yng Nghymru?</p>	I will ask the question, then. Have you published the targets for inward investment in Wales?	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod mewnfuddsoddi wedi cynyddu tua 200% dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym am sicrhau bod y twf hwnnw yn parhau yn y dyfodol.</p>	We know, of course, that inward investment has increased by up to 200% over the past year. We want to ensure that that growth continues for the future.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau</p>		<p>Questions Without Notice from the Party Leaders</p>	
13:34	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.</p>	Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:35

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

First Minister, I have asked you many times about enterprise zones, and, sadly, I have been increasingly disappointed by the response that I, and others, are getting. The Assembly's Finance Committee said in its report that there was something of a mystery about the enterprise zones that the Government has brought forward. We support the concept of enterprise zones on this side of the house, but, sadly, time and again, when you are trying to understand what impact they are making to the economy of Wales—in job creation and investment made—it is becoming increasingly impossible to try to find out these data. Why are you being so evasive as to the measures that need to be put in place to see whether enterprise zones are successful or not?

Brif Weinidog, rwyf wedi gofyn i chi droeon am ardaloedd menter, ac, yn anffodus, rwyf wedi cael fy siomi'n gynyddol gan yr ymateb yr wyf i, ac eraill, yn ei gael. Dywedodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn ei adroddiad bod yr ardaloedd menter y mae'r Llywodraeth wedi eu cyflwyno yn dipyn o ddirgelwch. Rydym ni'n cefnogi'r syniad o ardaloedd menter ar yr ochr hon i'r tŷ, ond, yn anffodus, dro ar ôl tro, pan fyddwch chi'n ceisio deall pa effaith maen nhw'n ei chael ar economi Cymru—o ran creu swyddi a'r buddsoddiad a wnaed—mae'n dod yn fwyfwy amhosibl i gael gafael ar y data hwn. Pam ydych chi mor benderfynol o osgoi rhoi ateb am y mesurau y mae angen eu rhoi ar waith i weld a yw ardaloedd menter yn llwyddiannus ai peidio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, they are a success. We know that 2,000 jobs have been created or safeguarded. We know, for example, that 30 firms have had their applications approved in terms of financial support, and we know, of course, that, when compared with the enterprise zones in England, they are far more successful, given the fact that, in England, only a tenth of the jobs that were originally planned have been created.

Wel, maen nhw'n llwyddiant. Rydym yn gwybod bod 2,000 o swyddi wedi eu creu neu eu diogelu. Rydym yn gwybod, er enghraifft, y cymeradwywyd ceisiadau 30 o gwmnïau o ran cymorth ariannol, ac rydym yn gwybod, wrth gwrs, o'u cymharu â'r ardaloedd menter yn Lloegr, eu bod yn llawer mwy llwyddiannus, o gofio'r ffaith, yn Lloegr, mai dim ond un o bob deg o'r swyddi y bwriadwyd eu creu yn wreiddiol sydd wedi eu creu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In England—since you brought it up, First Minister—I can talk about 250 new businesses created, £1.1 billion-worth of private sector investment, and over 7,000 local jobs created. What we do know in Wales is that, sadly, people are actually pulling out of the enterprise zones. Manchester Airport, for example, has just withdrawn its advertisements from the Deeside enterprise zone, because it does not think that it is commercially viable. [Interruption.] You have not chosen to actually exercise any local development Orders, which would assist the planning process in those enterprise zones, something that many businesses say is one of the biggest obstacles that they find when planning new investment. How confident are you that, at the end of this Assembly, your Government will be able to say that enterprise zones here in Wales have been a success, and have created the new jobs that we require here in Wales?

Yn Lloegr—gan i chi sôn am hynny, Brif Weinidog—gallaf siarad am 250 o fusnesau newydd a grëwyd, gwerth £1.1 biliwn o fuddsoddiad sector preifat, a chreu dros 7,000 o swyddi lleol. Yr hyn yr ydym ni'n ei wybod yng Nghymru, yn anffodus, yw bod pobl mewn gwirionedd yn gadael yr ardaloedd menter. Mae Maes Awyr Manceinion, er enghraifft, newydd dynnu ei hysbysebion yn ôl o ardal fenter Glannau Dyfrdwy, gan nad yw'n credu ei fod yn fasnachol hyfyw. [Torri ar draws.] Nid ydych chi wedi dewis rhoi unrhyw Orchmynion datblygu lleol ar waith mewn gwirionedd, a fyddai'n cynorthwyo'r broses gynllunio yn yr ardaloedd menter hynny, rhywbeth y mae llawer o fusnesau yn ei nodi fel un o'r rhwystrau mwyaf y maen nhw'n ei wynebu wrth gynllunio buddsoddiad newydd. Pa mor hyderus ydych chi, erbyn diwedd y Cynulliad hwn, y bydd eich Llywodraeth yn gallu dweud bod ardaloedd menter yma yng Nghymru wedi bod yn llwyddiant, ac wedi creu'r swyddi newydd sydd eu hangen arnom yma yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, 2,000 jobs in Wales, and 7,000 jobs in England—if you compare the populations, that is pretty good going. The Member should have done his work in terms of Manchester Airport; what actually happened was that there was an advert for Deeside enterprise zone in Manchester Airport—it was not an advert in Deeside enterprise zone. We paid for the advert for Deeside enterprise zone to be put up in the airport, and there were some in the airport who took exception to it. However, nevertheless, we did actually pay for it. I fail to see how that works as an example of someone pulling out of an enterprise zone, when we paid for the advert to go up in Manchester Airport, not the other way around. [Laughter.]

Wel, 2,000 o swyddi yng Nghymru, a 7,000 o swyddi yn Lloegr—mae hynny'n eithaf da os byddwch chi'n cymharu'r poblogaethau. Dylai'r Aelod fod wedi gwneud ei waith yng nghyswllt Maes Awyr Manceinion; yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd oedd bod hysbyseb ar gyfer ardal fenter Glannau Dyfrdwy ym Maes Awyr Manceinion—nid hysbyseb yn ardal fenter Glannau Dyfrdwy oedd e. Talwyd am yr hysbyseb ar gyfer ardal fenter Glannau Dyfrdwy gennym ni i gael ei arddangos yn y maes awyr, ac roedd rhai yn y maes awyr a oedd yn ei wrthwynebu. Fodd bynnag, er hynny, fe wnaethom ni dalu amdano. Rwy'n methu â gweld sut mae hynny'n gweithio fel enghraifft o rywun yn tynnu allan o ardal fenter, pan mai ni dalodd i'r hysbyseb ymddangos ym Maes Awyr Manceinion, nid y ffordd arall. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that what it shows is a lack of confidence in your offer to enterprise zones. I did ask you whether you are confident about the success of enterprise zones here in Wales. If I take Snowdonia enterprise zone, for example, the response that we have had about that one is that it has not yet completed being developed sufficiently to attract investment. In other words, nothing has gone in there. How on earth can you be confident, after two to two and a half years of enterprise zones existing in Wales, when we are not seeing the progress that you initially promised? Above all, trying to find out how these enterprise zones will progress is like wading through treacle, First Minister.

Rwy'n meddwl mai'r hyn y mae'n ei ddangos yw diffyg hyder yn eich cynnig i ardaloedd menter. Fe wnes i ofyn i chi a ydych chi'n hyderus am lwyddiant parthau menter yma yng Nghymru. Os cymeraf ardal fenter Eryri, er enghraifft, yr ymateb rydym ni wedi ei gael am honno yw nad yw wedi cael ei datblygu'n ddigonol eto i ddenu buddsoddiad. Mewn geiriau eraill, nid oes unrhyw beth wedi mynd i mewn yna. Sut ar y ddaear y gallwch chi fod yn hyderus, ar ôl rhwng dwy flynedd a dwy flynedd a hanner o fodolaeth ardaloedd menter yng Nghymru, pan nad ydym yn gweld y cynnydd a addawyd gennych yn wreiddiol? Yn anad dim, mae ceisio darganfod sut y bydd yr ardaloedd menter hyn yn symud ymlaen fel cerdded drwy driog, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

What we do know is that the Member does not know what he is talking about, and that he is trying to bluff his way out of it, which is the normal approach that we get from the leader of the opposition. I come back to the point that I made about the jobs that have been safeguarded and have been created. It is true to say that Deeside is easier in terms of attracting investment, at this moment in time, than Snowdonia; historically, that has been the case, and Snowdonia needs more work. However, nevertheless, we have created the enterprise zone in Snowdonia, and you can bet your bottom dollar that the UK Government would never have done that, because it would have been too hard. Let us only look at the areas that are easy—that would have been the UK Government's approach. However, if you look at all the figures with regard to enterprise zones in Wales, whether in terms of jobs created or jobs safeguarded, or in terms of businesses that are receiving support, you will see that Wales is, once again, doing better than England.

Yr hyn yr ydym ni'n ei wybod yw nad yw'r Aelod yn gwybod am beth mae'n sôn amdano, a'i fod yn ceisio blyffio ei ffordd allan ohoni, sef y dull arferol rydym ni'n ei gael gan arweinydd yr wrthblaid. Deuaf yn ôl at y pwynt a wneuthum am y swyddi sydd wedi eu diogelu ac wedi eu creu. Mae'n wir dweud bod Glannau Dyfrdwy yn haws o ran denu buddsoddiad, ar hyn o bryd, nag Eryri; mae hynny wedi bod yn wir yn hanesyddol, ac mae angen gwneud mwy o waith yn Eryri. Fodd bynnag, serch hynny, rydym ni wedi creu'r ardal fenter yn Eryri, a gallwch chi fod yn gwbl sicr na fyddai Llywodraeth y DU fyth wedi gwneud hynny, gan y byddai wedi bod yn rhy anodd. Gadewch i ni yn edrych ar yr ardaloedd sy'n rhwydd yn unig—dyna fyddai agwedd Llywodraeth y DU wedi bod. Fodd bynnag, os edrychwch chi ar yr holl ffigurau o ran ardaloedd menter yng Nghymru, boed o ran y swyddi a grëwyd neu swyddi a ddiogelwyd, neu o ran busnesau sy'n derbyn cymorth, byddwch yn gweld bod Cymru, unwaith eto, yn gwneud yn well na Lloegr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:39 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
 First Minister, as you know, Vince Cable and the Liberal Democrats have been pushing the idea of a mansion tax on properties that are worth over £2 million, which was today described as 'punitive' by the Tories. First Minister, I know that we do not always see eye to eye in the Chamber, but would you agree with me that Andrew R.T. Davies's concerns to protect super-rich property owners in the south-east of England are misplaced?
 Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae Vince Cable a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn hyrwyddo'r syniad o dreth plasty ar eiddo sydd werth dros £2 filiwn, a ddisgrifiwyd gan y Torïaid heddiw yn 'gosbol'. Brif Weinidog, rwy'n gwybod nad ydym bob amser yn cytuno yn y Siambr, ond a fydddech chi'n cytuno â mi bod pryderon Andrew R.T. Davies i ddiogelu perchnogion eiddo hynod gyfoethog yn ne-ddwyrain Lloegr yn gyfeiliornus?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 I am not surprised, but, clearly, I am concerned. It is unusual for me to be asked to comment on something that someone else has said. However, clearly, what the Conservatives have been saying is that they object strongly to something that does not actually exist in Wales. They say that the mansion tax is a disincentive to investment, even though we know that there are no houses in Wales that have been sold for more than £2 million. Again, it is an example of completely confused thinking and not thinking through things through—another example of which we saw in the Chamber earlier.
 Nid wyf yn synnu, ond, yn amlwg, mae'n peri pryder i mi. Mae'n anarferol i rywun ofyn i mi wneud sylw ar rywbeth y mae rhywun arall wedi ei ddweud. Fodd bynnag, yn amlwg, yr hyn y mae'r Ceidwadwyr wedi bod yn ei ddweud yw eu bod yn gwrthwynebu'n gryf i rywbeth nad yw'n bodoli yng Nghymru mewn gwirionedd. Maen nhw'n dweud bod y dreth plasty yn anghymhelliaid i fuddsoddiad, er ein bod yn gwybod nad oes unrhyw dai yng Nghymru a werthwyd am fwy na £2 filiwn. Unwaith eto, mae'n enghraifft o syniadau cwbl ddryslyd a methu â meddwl am bethau yn iawn—a gwelsom enghraifft arall o hynny yn y Siambr yn gynharach.
- 13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 First Minister, if we could move from the concerns of the super-rich in England to the concerns of ordinary parents in Wales, last year, your colleague and former Labour Cabinet Minister Alan Milburn said in his social mobility report that too little attention is paid to a child's first five years and that the pupil premium should be extended to all eligible nursery pupils. Has your Government carried out an assessment of the benefits of extending the pupil deprivation grant to children under five here in Wales?
 Brif Weinidog, pe gallem symud o bryderon pobl hynod gyfoethog yn Lloegr i bryderon rhieni cyffredin yng Nghymru, y llynedd, dywedodd eich cydweithiwr a'ch cyn-Weinidog Cabinet Llafur, Alan Milburn, yn ei adroddiad ar symudedd cymdeithasol, na roddir digon o sylw i bum mlynedd gyntaf plentyn ac y dylid cynnig y premiwm disgyblion i bob disgybl meithrin cymwys. A yw eich Llywodraeth wedi cynnal asesiad o fanteision cynnig y grant amddifadedd disgyblion i blant dan bump oed yma yng Nghymru?
- 13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 No, we have not, of course. The pupil deprivation grant was something that was agreed between ourselves as parties as part of budget negotiations. The PDG has been continued, but there have been no plans to extend it to the nursery level at this stage, and no costings have been done.
 Nac ydym, wrth gwrs. Roedd y grant amddifadedd disgyblion yn rhywbeth a gytunwyd rhyngom ni fel pleidiau yn rhan o drafodaethau cyllidebol. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi cael ei barhau, ond ni fu unrhyw gynlluniau i'w ymestyn i'r lefel feithrin ar hyn o bryd, ac ni wnaed unrhyw waith costio ar hynny.
- 13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Alan Milburn's report also highlighted the stark difference between pupils in England and Wales and he noted that at the age of five the poorest pupils in Wales were already falling behind their counterparts in England. First Minister, to extend the pupil premium to those under the age of five in Wales would cost £10 million and could make a real difference to the life chances of our most disadvantaged young people. Do you not agree with me that this could make a real difference at a relatively small cost, and would, finally, give a good news story for Welsh education and show that Wales was leading the way?
 Tynnodd adroddiad Alan Milburn sylw hefyd at y gwahaniaeth amlwg rhwng disgyblion yng Nghymru a Lloegr a nododd bod y disgyblion pump oed tlotaf yng Nghymru eisoes y tu ôl i'w cymheiriaid yn Lloegr. Brif Weinidog, byddai ymestyn y premiwm disgyblion i'r rhai dan bump oed yng Nghymru yn costio £10 miliwn a gallai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfluoedd bywyd ein pobl ifanc mwyaf difreintiedig. Onid ydych chi'n cytuno â mi y gallai hyn wneud gwir wahaniaeth am gost gymharol fach, ac y byddai, o'r diwedd, yn rhoi stori newyddion da i addysg yng Nghymru a dangos bod Cymru yn arwain y ffordd?

- 13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Sadly, no cost is small these days, but, certainly, it is an issue, no doubt, that the Minister for Education and Skills may well look to consider in the future. Again, we have to bear in mind the fact that money is not easy to find at this moment in time. Nevertheless, I am sure that these are matters that can be discussed, bearing in mind, of course, the current financial situation. However, I take the point that the Member makes in that we have PDG for other pupils and there may be a case for extending it to nursery pupils. That will have to be assessed and, of course, the financial situation will have to be evaluated.
- Yn anffodus, nid yw unrhyw gost yn fach y dyddiau hyn, ond, yn sicr, mae'n fater efallai y bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, heb os, yn ei ystyried yn y dyfodol. Unwaith eto, mae'n rhaid i ni gadw mewn cof y ffaith nad yw'n rhwydd dod o hyd i arian ar hyn o bryd. Serch hynny, rwy'n siŵr bod y rhain yn faterion y gellir eu trafod, o gofio, wrth gwrs, y sefyllfa ariannol bresennol. Fodd bynnag, derbynïaf y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud sef bod gennym Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer disgyblion eraill ac efallai fod dadl o blaid ei ymestyn i ddisgyblion meithrin. Bydd yn rhaid asesu hynny ac, wrth gwrs, bydd yn rhaid gwerthuso'r sefyllfa ariannol.
- 13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yn olaf, symudwn at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood. Finally, the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.
- 13:42 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru
First Minister, have your officials made an assessment of the full impact of the bedroom tax in this country? Yesterday, your party decided to support the Scottish National Party's budget in Scotland, which could lead to the effective abolition of the bedroom tax there. Can you tell us how much it would cost us to replicate that policy in Wales? Brif Weinidog, a yw eich swyddogion wedi asesu effaith lawn y dreth ystafell wely yn y wlad hon? Ddoe, penderfynodd eich plaid gefnogi cyllideb Plaid Genedlaethol yr Alban, a allai arwain at ddiddymu'r dreth ystafell wely yno fwy neu lai. A allwch chi ddweud wrthym faint y byddai'n ei gostio i ni ailadrodd y polisi hwnnw yng Nghymru?
- 13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Based on the Scottish experience, it would be somewhere along the lines of £10 million. Yn seiliedig ar brofiad yr Alban, byddai'n costio tua £10 miliwn.
- 13:42 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Scottish Government is requesting that Westminster lifts the cap on discretionary housing payments so that the bedroom tax shortfall can be made up through that mechanism. If successful, the DHP could also be used in Wales to make up the shortfall of the bedroom tax here. Will the Welsh Government be joining the calls from the Scottish Government to lift that cap? Mae Llywodraeth yr Alban yn gofyn i San Steffan godi'r cap ar daliadau tai dewisol fel y gellid gwneud iawn am y diffyg yn y dreth ystafell wely drwy'r dull hwnnw. Os bydd yn llwyddiannus, gellid defnyddio'r taliadau tai dewisol yng Nghymru hefyd, i wneud iawn am y diffyg yn y dreth ystafell wely yma. A fydd Llywodraeth Cymru yn ymuno â'r galwadau gan Lywodraeth yr Alban i godi'r cap hwnnw?
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
First of all, we have not done that so far because even if such a cap were to be lifted, we do not have the funds to fund it. I think that probably £8 million to £10 million is a more accurate assessment, but, nevertheless it is still a substantial amount of money. There is also the issue of why a devolved Government should be paying for what is the responsibility of a non-devolved Government. There is a sense of hazard there, of course. In Scotland at the moment, for reasons that we all know, the Scottish Government is promising everything and anything in terms of finance, without identifying where that money is coming from. However, my view is that the bedroom tax is inequitable. She will agree, I know, with that. It is something that should be scrapped at GB level and not something that should be forced as an extra cost on Scotland and Wales. Yn gyntaf oll, nid ydym wedi gwneud hynny hyd yn hyn oherwydd nid yw'r arian gennym i'w ariannu, hyd yn oed pe byddai cap o'r fath yn cael ei godi. Rwy'n credu bod rhwng £8 miliwn a £10 miliwn yn asesiad mwy cywir, ond, serch hynny, mae'n dal i fod yn swm sylweddol o arian. Ceir y mater hefyd o pam y dylai Llywodraeth ddatganoledig fod yn talu am yr hyn sy'n gyfrifoldeb Llywodraeth sydd heb ei datganoli. Ceir teimlad o berygl yno, wrth gwrs. Yn yr Alban ar hyn o bryd, am resymau yr ydym i gyd yn ymwybodol ohonynt, mae Llywodraeth yr Alban yn addo popeth ac unrhyw beth o ran cyllid, heb nodi o ble mae'r arian yn dod. Fodd bynnag, fy marn i yw bod y dreth ystafell wely yn annheg. Bydd hi'n cytuno, rwy'n gwybod, gyda hynny. Mae'n rhywbeth a ddylai gael ei ddiddymu ar lefel Prydain, ac nid rhywbeth y dylid ei orfodi fel cost ychwanegol ar Gymru a'r Alban.

13:43	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, you have an opportunity to do something about something that is seriously impacting on many people right throughout Wales. Another way to address the shortfall, of course, would be through the reform of the Barnett formula. That would result in at least an additional £300 million to the Welsh budget. This is something that you have now made a condition of your support for the devolution of income tax powers. You are yet to give a commitment from your party to reform Barnett should you win the UK general election in 2015. When you had the chance to do it last time, you did not take it. Therefore, why should people have any faith that you will do it next time? You have an opportunity here this afternoon, First Minister, to give me a straight answer on this. Would a Labour Government in 2015 reform the Barnett formula and introduce fair funding for Wales? 'Yes' or 'no'?</p>	<p>Brif Weinidog, mae gennych gyfle i wneud rhywbeth am rywbeth sy'n cael effaith ddifrifol ar lawer o bobl ledled Cymru. Ffordd arall o fynd i'r afael â'r diffyg, wrth gwrs, fyddai trwy ddiwygio fformiwla Barnett. Byddai hynny'n arwain at o leiaf £300 miliwn yn ychwanegol i gyllideb Cymru. Mae hyn yn rhywbeth yr ydych chi bellach wedi ei wneud yn amod o'ch cefnogaeth i ddatganoli pwerau treth incwm. Nid ydych wedi rhoi ymrwymiad gan eich plaid eto i ddiwygio Barnett pe byddech chi'n ennill etholiad cyffredinol y DU yn 2015. Pan gawsoch y cyfle i wneud hynny y tro diwethaf, ni wnaethoch chi fanteisio arno. Felly, pam y dylai pobl fod ag unrhyw ffydd y byddwch yn gwneud hynny'r tro nesaf? Mae gennych gyfle yma y prynhawn yma, Brif Weinidog, i roi ateb pendant i mi am hyn. A fyddai Llywodraeth Lafur yn 2015 yn diwygio fformiwla Barnett ac yn cyflwyno ariannu teg i Gymru? 'Byddai' neu 'na fyddai'?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:44	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is my strong view that fair funding should be introduced and I would want my party to do exactly that in terms of the general election in 2015.</p>	<p>Rwyf o'r farn gref y dylid cyflwyno ariannu teg a hoffwn i fy mhlaid wneud yn union hynny o ran yr etholiad cyffredinol yn 2015.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:44	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography</p> <p>'Yes' or 'no'?</p>	<p>'Byddai' neu 'na fyddai'?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:44	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We are not in disagreement over that. We all know that fair funding is important. We all know that Barnett has a limited shelf life. It is also worth emphasising that it is not just to do with Wales. That is why it is important that fair funding is looked at from the perspective of the whole of the UK—and we know about the situation in Wales—in the future. I believe that there is no disagreement between her and me: we both say that there is a need to examine fair funding in the future to make sure that Wales is properly funded, particularly in accordance with the evidence that we have seen from the Holtham commission.</p>	<p>Nid ydym yn anghytuno am hynny. Rydym i gyd yn gwybod bod ariannu teg yn bwysig. Rydym i gyd yn gwybod bod oes gyfyngedig i Barnett. Mae hefyd yn werth pwysleisio nad yw hyn yn ymwneud â Chymru yn unig. Dyna pam mae'n bwysig yr ystyrir ariannu teg o safbwynt y DU gyfan—ac rydym yn gwybod am y sefyllfa hon yng Nghymru—yn y dyfodol. Rwy'n credu nad oes unrhyw anghytuno rhyngddi hi a mi: mae'r ddaud ohonom yn dweud bod angen archwilio ariannu teg yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei hariannu'n iawn, yn enwedig yn unol â'r dystiolaeth yr ydym ni wedi ei gweld gan gomisiwn Holtham.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Twf Economaidd		Economic Growth	
13:45	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei bolisiau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru? OAQ(4)1462(FM)</i></p>	<p><i>3. Will the Minister outline his policies for economic growth in Wales? OAQ(4)1462(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:45	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>They are in the programme for government.</p>	<p>Maen nhw yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:45

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given that the latest gross value added figures show that Wales remains at the bottom among the 12 UK nations and regions in terms of wealth creation and the value of goods and services produced, and given the figures that show that the Welsh Government was only involved in five new companies that came to Wales last year, how do you respond to the several lost inward investors into north Wales who have written to me saying that, following engagement with the Welsh Government, they have taken the decision not to proceed? For example, a manufacturer said last summer that he had been totally disillusioned by the performance of the Welsh Government, having suffered both heavy costs in terms of time, money and loss of revenue.

O gofio bod y ffigurau gwerth ychwanegol crynswth diweddaraf yn dangos bod Cymru yn parhau i fod ar y gwaelod o blith 12 cenedl a rhanbarth y DU o ran creu cyfoeth a gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir, ac o gofio'r ffigurau sy'n dangos mai dim ond pum cwmni newydd a ddaeth i Gymru y llynedd roedd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â nhw, sut ydych chi'n ymateb i'r nifer o fewnfuddsoddwyr i ogledd Cymru a gollwyd, sydd wedi ysgrifennu ataf yn dweud, ar ôl ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, eu bod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen? Er enghraifft, dywedodd gweithgynhyrchydd yr haf diwethaf ei fod wedi cael ei ddadurithio'n llwyr gan berfformiad Llywodraeth Cymru, ar ôl dioddef costau trwm o ran amser, arian a cholli refeniw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I have no idea who they are. Unless you are prepared to name them, I cannot answer your question. That is the problem with unsolicited letters. I can tell you that if you talk to Tata Steel or to Airbus or GE, if you so want, or any number of companies across Wales, they will tell you how much they appreciate what the Welsh Government has done for them. You will see from the inward investment figures—a 191% increase—what effect we, as a Welsh Government, have had on bringing investment into Wales. You will see that the level of unemployment in Wales is at the UK average; you will see that the level of youth unemployment for those between 18 and 24 is way lower than the UK average. You will see that our anchor companies are very happy with the aftercare that we give them—a policy that the Conservatives lifted from us and tried to disguise it as their own. The reality of the situation is that the vast majority of companies who are in Wales or are looking to come to Wales are very happy with the support that they receive from the Welsh Government. If the Member is willing to provide me with the details of this company, we might be able to comment. However, I have no idea whether this company exists or what the truth of the allegations is. He does this every time, and the reality is that he is never going to get an answer unless he provides more details. However, I know, looking at the figures for unemployment and the economy, and at the response that we get from investors who are already in Wales, that they know that the Welsh Government provides an excellent service.

Nid oes gennyf unrhyw syniad pwy ydym nhw. Oni bai eich bod yn barod i'w henwi, ni allaf ateb eich cwestiwn. Dyna'r broblem gyda llythyrau digymell. Gallaf ddweud wrthyhch, os siaradwch chi â Tata Steel neu ag Airbus neu GE, os ydych yn dymuno, neu unrhyw nifer o gwmnïau ledled Cymru, y byddant yn dweud wrthyhch cymaint y maen nhw'n gwerthfawrogi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud drostynt. Fe welch o'r ffigurau mewnfuddsoddiad—cynnydd o 191%—pa effaith yr ydym ni, fel Llywodraeth Cymru, wedi ei chael ar ddod â buddsoddiad i Gymru. Byddwch yn gweld bod lefel diweithdra yng Nghymru yr un fath â chyfartaledd y DU; byddwch yn gweld bod lefel diweithdra ymhlith pobl ifanc rhwng 18 a 24 yn llawer is na chyfartaledd y DU. Byddwch yn gweld bod ein cwmnïau angori yn hapus iawn gyda'r ôl-ofal rydym ni'n ei roi iddynt—polisi y gwnaeth y Ceidwadwyr ei ddwyn oddi arnom ni a cheisio ei wneud i edrych fel un hwy eu hunain. Gwirionedd y sefyllfa yw bod y mwyafrif llethol o gwmnïau sydd yng Nghymru neu'n ystyried dod i Gymru yn hapus iawn gyda'r cymorth y maent yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Os yw'r Aelod yn barod i roi manylion y cwmni hwn i mi, efallai y gallm gynnig sylwadau. Fodd bynnag, nid oes gennyf unrhyw syniad a yw'r cwmni hwn yn bodoli na beth yw gwirionedd yr honiadau. Mae'n gwneud hyn bob tro, a'r gwir yw nad yw byth yn mynd i gael ateb oni bai ei fod yn rhoi mwy o fanylion. Fodd bynnag, mi wn, drwy edrych ar y ffigurau ar gyfer diweithdra a'r economi, ac ar yr ymateb yr ydym ni'n ei gael gan fuddsoddwyr sydd eisoes yng Nghymru, eu bod yn gwybod bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaeth rhagorol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, will you welcome the remarkable and very positive progress that has been made on apprenticeships in Wales? The completion of apprenticeships in Wales is at 85%, compared with the English average of 74%. Equally importantly, an average of 90% of those undertaking level 3 apprenticeships in Wales go on to get full-time employment. In Pontypridd, which is my constituency, the success rate in terms of achieving employment is a remarkable 97%.

Brif Weinidog, a wnewch chi groesawu'r cynnydd anhygoel a hynod gadarnhaol a wnaed o ran prentisiaethau yng Nghymru? Cwblheir 85% o brentisiaethau yng Nghymru, o'i gymharu â'r cyfartaledd o 74% yn Lloegr. Yr un mor bwysig, mae cyfartaledd o 90% o'r rhai sy'n gwneud prentisiaethau lefel 3 yng Nghymru yn mynd yn eu blaenau i gael gwaith llawn amser. Ym Mhontypridd, sef fy etholaeth i, mae'r gyfradd llwyddiant o ran sicrhau cyflogaeth yn ganran ryfeddol o 97%.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Looking at Jobs Growth Wales as an example, on 10 January, we had created 10,594 job opportunities, and 8,354 young people were in employment through Jobs Growth Wales. Our early progression figures for the programme show that 80% of the young people in the private sector strand, for example, who completed the six-month opportunity, are making a positive move into employment, an apprenticeship or higher learning. I suspect that those are the best figures of any such scheme anywhere in Europe, if not the world.
- O edrych ar Twf Swyddi Cymru fel enghraifft, ar 10 Ionawr, roeddem ni wedi creu 10,594 o gyfleoedd gwaith, ac roedd 8,354 o bobl ifanc mewn cyflogaeth drwy Twf Swyddi Cymru. Mae ein ffigurau cynnydd cynnar ar gyfer y rhaglen yn dangos bod 80% o'r bobl ifanc yn y ffrwd sector preifat, er enghraifft, a gwblhaodd y cyfle chwe mis, yn gwneud y cam cadarnhaol i gyflogaeth, prentisiaeth neu addysg uwch. Rwy'n amau mai dyna'r ffigurau gorau o unrhyw gynllun o'r fath yn unrhyw le yn Ewrop, os nad y byd.
- 13:48 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Rydym ni'n croesawu'r ffaith bod eich Llywodraeth bellach wedi ymrwmo i edrych ar y syniad sydd wedi'i gyflwyno gennym ers tro o sefydlu banc i Gymru. Mae gwaith ymchwil eang erbyn hyn yn profi'r angen am fanc buddsoddi o'r fath. Mae trafod ac ymgynghori heb roi gwir ymrwymiad i weithredu wedi dod yn nodwedd eithaf amlwg o'r ffordd y mae eich Llywodraeth yn gweithredu. A allwch chi, yn bersonol, roi ymrwymiad i gefnogi'r angen am fanc buddsoddi o'r fath i Gymru a chefnogi ei sefydlu?
- We welcome the fact that your Government is now committed to looking at the idea that we put forward some time ago of establishing a bank for Wales. Wide-ranging research has now proven the need for an investment bank of this kind. Discussions and consultation without a real commitment to act has become a prominent characteristic of the way in which your Government operates. Can you personally give us a guarantee that you will support the need for an investment bank for Wales and its establishment?
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei ystyried gan y Gweinidog ac mae'n cael ei ystyried yn fanwl ar hyn o bryd. Rydym yn croesawu unrhyw beth sy'n gallu cael ei wneud i helpu busnesau yng Nghymru i gael mynediad at gyllid, wrth gofio bod yn rhaid inni ofalu ein bod yn sefydlu banc sy'n gynaliadwy. Mae pawb yn deall hynny, ac mae'r Gweinidog wedi mynegi ei barn am hyn.
- This is something that has been considered by the Minister and which is under detailed consideration at present. Anything that can be done to assist businesses in Wales to access funding is to be welcomed, bearing in mind that we must ensure that we establish a sustainable bank. Everyone understands that, and the Minister has given her view on the matter.
- 13:49 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 First Minister, Wales's brand strategy is crucial to growth, particularly when it comes to attracting inward investment and exporting. However, notwithstanding the Just Ask Wales campaign, several key stakeholders have told the Enterprise and Business Committee recently that they do not know what Wales's brand strategy now is. Do you have a current brand strategy for Wales, and, if so, will you publish it so that all of those people who are concerned with selling Wales abroad can sing from the same hymn sheet and present a coherent and consistent message to the world?
- Brif Weinidog, mae strategaeth brand Cymru yn hanfodol i dwf, yn enwedig pan ddaw i ddenu buddsoddiad o'r tu allan ac allforio. Fodd bynnag, er gwaethaf ymgyrch Just Ask Cymru, mae nifer o randdeiliaid allweddol wedi dweud wrth y Pwyllgor Menter a Busnes yn ddiweddar nad ydynt yn gwybod beth yw strategaeth brand Cymru erbyn hyn. A oes gennych chi strategaeth brand cyfredol ar gyfer Cymru, ac, os felly, a wnewch chi ei chyhoeddi fel y gall yr holl bobl hynny sy'n ymwneud â gwerthu Cymru dramor weithredu fel un a chyflwyno neges gydylynol a chyson i'r byd?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 'Yes' and 'yes' are the answers to those questions, and, indeed, if you look at the advertising campaigns that we are running, you will see that we are looking at running adverts on the London underground, and we have marketed a particular brand as far as Wales is concerned—a brand that concentrates, if I may put it this way, on a small country that does things well. I think that is where we should place ourselves in terms of the rest of the world.
- 'Oes' a 'gwnaf' yw'r atebion i'r cwestiynau yna, ac, yn wir, os edrychwch chi ar yr ymgyrchoedd hysbysebu rydym ni'n eu rhedeg, byddwch yn gweld ein bod yn ystyried hysbysebu ar reilffordd danddaearol Llundain, ac rydym wedi marchnata brand penodol cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn—brand sy'n canolbwyntio, os caf ei roi fel hyn, ar wlad fechan sy'n gwneud pethau'n dda. Rwy'n meddwl mai dyna lle y dylem leoli ein hunain o ran gweddill y byd.

13:50

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Young people disengaged from education, employment or training have held back economic growth and cost billions yearly. It also costs young people. I welcome the recent work that your Government has done around the early identification of those at risk. As the early identification guidance recognises, this then relies on the work of partners such as youth services, schools and Careers Wales, and I am concerned that current budgetary constraints may impact on ability to deliver. How will we ensure that this is not the case? How else will the success of these initiatives be measured?

Mae pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi dal twf economaidd yn ôl ac yn costio biliynau bob blwyddyn. Mae hefyd yn costio i bobl ifanc. Rwy'n croesawu'r gwaith diweddar y mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o ran nodi'r rhai sydd mewn perygl yn gynnar. Fel y mae'r canllawiau nodi cynnar yn ei gydnabod, mae hyn yn dibynnu wedyn ar waith partneriaid fel gwasanaethau ieuencid, ysgolion a Gyrfa Cymru, ac rwy'n pryderu y gallai cyfyngiadau cyllidebol presennol effeithio ar y gallu i gyflawni. Sut y byddwn ni'n sicrhau mai nad dyma'r achos? Sut arall fydd llwyddiant y mentrau hyn yn cael ei fesur?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The example of Jobs Growth Wales has already been mentioned in terms of its success, and another example is the youth entrepreneurship strategy. We know that recent studies show that 53% of young people under 25 now have entrepreneurial aspirations, which is 9% up from 2004, and the number of young people starting up in business has also tripled since 2004, and is higher than the UK average. On top of that, we are working with organisations such as the Prince's Trust to support unemployed and disadvantaged young people aged between 18 and 30, to consider whether their business ideas are viable and whether self-employment is right for them. I believe that, with a number of young people who are NEET at the moment, they have potential to set up their own businesses, and they have good ideas; they just need to support in order to do that. I believe that using the youth entrepreneurship strategy, and working with organisations such as the Prince's Trust, we can deliver that.

Crybwyllwyd enghraifft Twf Swyddi Cymru eisoes o ran ei lwyddiant, ac mae'r strategaeth entrepreneuriaeth ieuencid yn enghraifft arall. Rydym yn gwybod bod astudiaethau diweddar yn dangos bod gan 53% o bobl ifanc dan 25 oed ddyheadau entrepreneuriaidd erbyn hyn, sydd 9% yn uwch nag yn 2004, ac mae nifer y bobl ifanc sy'n dechrau busnes hefyd wedi treblu ers 2004, ac yn uwch na chyfartaledd y DU. Yn ogystal â hynny, rydym yn gweithio gyda sefydliadau fel Ymddiriedolaeth y Tywysog i gefnogi pobl ifanc di-waith a difreintiedig rhwng 18 a 30 oed, i ystyried a yw eu syniadau busnes yn hyfyw ac a yw hunangyflogaeth yn iawn iddyn nhw. Rwy'n credu, o ran nifer o bobl ifanc sydd NEET ar hyn o bryd, bod ganddynt botensial i sefydlu eu busnesau eu hunain, ac mae ganddynt syniadau da; y cwbl sydd ei angen arnynt yw cefnogaeth i wneud hynny. Rwy'n credu y gallwn gyflawni hynny trwy ddefnyddio'r strategaeth entrepreneuriaeth ieuencid a gweithio gyda sefydliadau fel Ymddiriedolaeth y Tywysog

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cychwyn Iach Cymru

Fresh Start Wales

13:52

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgyrch Cychwyn Iach Cymru i wneud ceir yn ddi-fwg pan mae plant yn teithio ynddynt? OAQ(4)1473(FM)

4. Will the First Minister provide an update on the Fresh Start Wales campaign to make cars smoke free when children are travelling as passengers? OAQ(4)1473(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Recent campaign research shows that the percentage of people reporting that smoking was not allowed in their main car has increased to 78%. Findings also show that around 90% of respondents agreed that second-hand smoke can harm health and that parents should not smoke in their cars. The Member will have knowledge of the studies that are taking place and which will inform any future decision.

Mae gwaith ymchwil diweddar yr ymgyrch yn dangos bod canran y bobl sy'n dweud na chaniateir ysmegu yn eu prif gar wedi cynyddu i 78%. Mae canfyddiadau hefyd yn dangos bod tua 90% o ymatebwyr yn cytuno y gall mwg ail-law niweidio iechyd ac na ddylai rhieni ysmegu yn eu ceir. Bydd yr Aelod yn gwybod am yr astudiaethau sy'n cael eu gwneud ac a fydd yn hysbysu unrhyw benderfyniad yn dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:52 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As you say, there are new figures, but they still indicate that a disappointing 22% of people say that they will continue to allow smoking in their cars under any circumstance. If that figure is correct, it is clear that perhaps the dangers of exposing children to second-hand smoke just are not getting through. Can you outline the timescale for considering legislation and implementing a ban on smoking in cars when children are present?
- Fel y dywedwch, mae ffigurau newydd ar gael, ond maen nhw'n dal i ddynodi bod canran siomedig o 22% o bobl yn dweud y byddant yn parhau i ganiatáu ysmegu yn eu ceir o dan unrhyw amgylchiadau. Os yw'r ffigur hwnnw'n gywir, mae'n amlwg efallai nad yw peryglon amlygu plant i fwg ail-law yn cael eu deall. A allwch chi amlinellu'r amserlen ar gyfer ystyried deddfwriaeth a chyflwyno gwaharddiad ar ysmegu mewn ceir pan fo plant yn bresennol?
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Cardiff University was commissioned to carry out a study of primary-school-age children's exposure to second-hand smoke. Those data will be collected in the spring of this year, and the results will be available in the summer, and, dependent on those results, a decision will be taken as to whether to move ahead with the ban or not.
- Comisiynwyd Prifysgol Caerdydd i gynnal astudiaeth o amlygiad plant oed ysgol gynradd i fwg ail-law. Bydd y data hwnnw yn cael ei gasglu yng ngwanwyn eleni, a bydd y canlyniadau ar gael yn yr haf, ac, yn dibynnu ar y canlyniadau hynny, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r gwaharddiad ai peidio.
- 13:53 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, in view of your earlier reply, could you help identify and publicise key messages regarding the dangers of smoking in cars with children present? The toxic mixture of chemicals released by smoking remains in the vehicle's upholstery even when the smokers are not in the car, and children are exposed to that. Opening the car window does not disperse these chemicals.
- Brif Weinidog, o ystyried eich ateb cynharach, a allech chi helpu i nodi a hysbysebu negeseuon allweddol ynglŷn â pheryglon ysmegu mewn ceir â phlant yn bresennol? Mae'r gymysgedd wenwynig o gemegau sy'n cael ei rhyddhau gan ysmegu yn parhau i fod yng nghlustogwaith y cerbyd hyd yn oed pan nad yw'r ysmegwyr yn y car, ac mae plant yn cael eu hamlygu i hynny. Nid yw agor ffenestr y car yn cael gwared ar y cemegau hyn.
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The Fresh Start campaign has emphasised the risks. That will run until March. There has been a large amount of promotional activity—some 31,000 packs have been distributed, and Members will be aware that Fresh Start Wales sponsored the ITV Wales weather, S4C weather and 'Sgorio' during the period between autumn 2012 and August 2013. A number of outlets have been used in order to promote the campaign, and we await the results of the university's research in the summer with a view to taking a decision as swiftly as possible.
- Mae ymgyrch Cychwyn Iach wedi pwysleisio'r risgiau. Bydd honno'n rhedeg tan fis Mawrth. Bu llawer iawn o weithgarwch hyrwyddo—dosbarthwyd tua 31,000 o becynnau, a bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Cychwyn Iach Cymru wedi noddi tywydd ITV Wales, tywydd S4C a 'Sgorio' yn ystod y cyfnod rhwng hydref 2012 a mis Awst 2013. Defnyddiwyd nifer o leoedd i hyrwyddo'r ymgyrch, ac rydym yn aros am ganlyniadau gwaith ymchwil y brifysgol yn yr haf gyda'r nod o wneud penderfyniad cyn gynted â phosibl.
- 13:54 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, it is a little while since I asked you about banning smoking in cars where children are passengers. Since then, I have heard from a number of people who obviously fall in the 22% who think it is okay to continue smoking with their children in the car. They oppose the ban, arguing that their car is their private sphere and government should not intervene. Do you think adults have a right to damage their children, even in their private sphere?
- Brif Weinidog, mae cryn amser ers i mi eich holi am wahardd ysmegu mewn ceir y mae plant yn teithio ynddynt. Ers hynny, rwyf wedi clywed gan nifer o bobl sy'n amlwg yn y 22%, sy'n credu ei bod yn iawn parhau i ysmegu pan fo eu plant yn y car. Maen nhw'n gwrthwynebu'r gwaharddiad, gan ddadlau bod eu car yn eu cylch preifat hwy ac na ddylai'r llywodraeth ymyrryd. A ydych chi'n credu bod gan oedolion yr hawl i niweidio eu plant, hyd yn oed yn eu cylch preifat?

13:55	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>In terms of smoke, of course, where people wish to smoke in their own cars on their own, that is a matter for them. However, where children are in the car, that second-hand smoke damages the health of those children, who have no choice in the matter. That is the difference between banning smoking in cars full stop and banning smoking in cars where children are present. That is why it is so important for us to see what the results are of this survey and, ultimately, to take action if it is needed.</p>	<p>O ran mwg, wrth gwrs, pan fo pobl yn dymuno ysmegu yn eu ceir eu hunain ar eu pennau eu hunain, mater iddyn nhw yw hynny. Fodd bynnag, pan fo plant yn y car, mae'r mwg ail-law hwnnw yn niweidio iechyd y plant hynny, nad oes ganddynt unrhyw ddewis yn y mater. Dyna'r gwahaniaeth rhwng gwahardd ysmegu mewn ceir yn gyfan gwbl a gwahardd ysmegu mewn ceir lle mae plant yn bresennol. Dyna pam mae mor bwysig i ni weld beth yw canlyniadau'r arolwg hwn ac, yn y pen draw, i weithredu os oes angen.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Gwasanaethau Rheilffyrdd</p>		<p>Rail Services</p>	
13:55	<p>William Powell Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau rheilffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1477(FM)</i></p>	<p><i>5. Will the First Minister make a statement on rail services in Mid and West Wales? OAQ(4)1477(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:55	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Our priorities are ensuring that we have a transport infrastructure that improves economic competitiveness and provides enhanced access to jobs in all parts of Wales.</p>	<p>Ein blaenoriaethau ni yw sicrhau bod gennym seilwaith drafnidiaeth sy'n gwella'r gallu i gystadlu'n economaidd ac yn cynnig mynediad gwell at swyddi ym mhob rhan o Gymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:55	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p>I would like to thank the First Minister very much for that answer. Along with colleagues around the Chamber, I have been campaigning hard for the delivery of the hourly service on the Cambrian line, and I very much hope that that will be coming forward in the near future. However, one aspect that is sometimes forgotten is the potential impact that that enhanced service could have on those who own and farm land on either side of the line.</p>	<p>Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Ynghyd â chydweithwyr o amgylch y Siambr, rwyf wedi bod yn ymgyrchu'n galed am y ddarpariaeth o'r gwasanaeth bob awr ar reilffordd y Cambrian, ac rwy'n gobeithio yn fawr y bydd hwnnw'n cael ei gyflwyno yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, un agwedd sy'n cael ei anghofio weithiau'r yw effaith bosibl y gallai'r gwasanaeth gwell hwnnw ei chael ar y rhai sy'n berchen ar dir fferm ar y naill ochr i'r rheilffordd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>In that context, just last week I met a farmer from Llanbryn-mair who currently has to wait 20 minutes for any approaching train, in terms of crossing the line with either machinery or livestock. In that context, First Minister, will you please ensure that, working in partnership with the relevant authorities, those businesspeople and communities that are split by the line are not adversely affected and that sufficient resource is put aside to ensure that the necessary infrastructure is fully supplied?</p>	<p>Yn y cyd-destun hwnnw, cyfarfûm â ffermwr o Lanbryn-mair dim ond yr wythnos diwethaf sy'n gorfod aros 20 munud ar hyn o bryd am unrhyw drên sy'n agosáu, o ran croesi'r rheilffordd gyda pheiriannau neu dda byw. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, a wneuch chi sicrhau, gan weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau perthnasol, nad yw'r bobl fusnes a'r cymunedau hynny sy'n cael eu rhannu gan y rheilffordd yn cael eu heffeithio'n andwyol ac y rhoddir digon o adnoddau o'r neilltu i sicrhau y cyflenwir y seilwaith angenrheidiol yn llawn?</p>		
13:56	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is an interesting point. I can say that the Cambrian rail implementation group was set up to look at the recommendations of the demand surveys that took place up to 27 November. That group's report is being considered at the moment. However, the issue of those who cross the line will, I am sure, be considered as part of the process of looking to get to a situation where the service is more regular.</p>	<p>Mae'n bwynt diddorol. Gallaf ddweud y sefydlwyd grŵp gweithredu rheilffordd y Cambrian i ystyried argymhellion yr arolygon o alw a gynhaliwyd hyd at 27 Tachwedd. Mae adroddiad y grŵp hwnnw'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd mater y rhai sy'n croesi'r rheilffordd yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses o geisio cyrraedd sefyllfa lle mae'r gwasanaeth yn fwy rheolaidd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:57 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, mae gan ein seilwaith, gan gynnwys gwasanaethau rheilffyrdd, rôl hanfodol mewn hybu twristiaeth. Rwy'n croesawu'r cynnydd yn ffigurau twristiaeth Cymru, yn enwedig bod gwariant cysylltiedig lan bron 12%. Mae rheilffordd Calon Cymru wedi rhoi'r achos am gael trên golygfaol yn ystod yr haf, rhywbeth y mae wedi'i godi gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. A fydddech yn fodlon ystyried sut y gall mentrau o'r fath, gan ddefnyddio ein gwasanaethau rheilffyrdd, hybu twristiaeth yng ngorllewin Cymru?
- First Minister, our infrastructure, including rail services, has a crucial role in promoting tourism. I welcome the progress in tourist figures, particularly the increase in related spend, up almost 12%. The Heart of Wales rail line has made the case for having a scenic route during the summer months, and this is something that it has raised with the Minister for Economy, Science and Transport. Would you be willing to consider how such initiatives, using our rail services, could promote tourism in west Wales?
- 13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth diddorol dros ben. Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw gais ariannol wedi cael ei wneud. Wrth gwrs, mae'r rheilffordd yn un sy'n tynnu llawer o bobl, yn enwedig yn yr haf, i mewn i'r ardal rhwng Llanelli a'r Amwythig. Mae'n syniad diddorol dros ben, ond, ynglŷn ag unrhyw ymrwymiad o ran cyllid, byddai'n rhaid ystyried hynny yn y ffordd iawn.
- Of course, that is an extremely interesting initiative. I am not aware of any financial bid having been submitted to date. This is a great attraction and brings many people into the area between Llanelli and Shrewsbury, particularly in the summer. It is a very interesting idea, but, as regards any commitment on funding, it would have to be considered through the appropriate channels.
- 13:58 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I recently met with volunteers and key organisers of the Gwili Railway Company. They have undertaken some fantastic work to ensure that the railway between Carmarthen north and Llanpumsaint has a future. With the most recent extension to the line, they will be able to provide improved facilities for travellers. They are, however, desperately in need of significant car park extensions. Will you look at what assistance the Welsh Government can give to assist in securing land and necessary grants or funding available for this development?
- Brif Weinidog, cefais gyfarfod gyda gwirfoddolwyr a threfnwyr allweddol Cwmni Rheilffordd Gwili yn ddiweddar. Maen nhw wedi gwneud gwaith gwych i sicrhau bod gan y rheilffordd rhwng gogledd Caerfyrddin a Llanpumsaint ddyfodol. Yn dilyn yr estyniad diweddaraf i'r rheilffordd, byddant yn gallu darparu cyfleusterau gwell i deithwyr. Maen nhw, fodd bynnag, wir angen estyniadau sylweddol i feysydd parcio. A wnewch chi ystyried pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi i helpu i sicrhau tir a grantiau angenrheidiol neu gyllid sydd ar gael ar gyfer y datblygiad hwn?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I am sure that I will be able to discuss it with them, because I am, in fact, opening the extension.
- Rwy'n siŵr y byddaf yn gallu ei drafod gyda nhw, gan fy mod i, mewn gwirionedd, yn agor yr estyniad.
- 13:58 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Bydd y Prif Weinidog yn gwybod yn dda am reilffordd arfordir y Cambrian, a'r difrod mawr sydd wedi digwydd yn y stormydd diweddar. A wnaiff y Prif Weinidog sicrhau, ar ran Llywodraeth Cymru, fod cydweithrediad llawn bob amser rhwng Network Rail, sy'n brif amddiffynnydd rhag risg gorlif o'r môr am filltiroedd o'r rheilffordd honno—ac rydym yn gobeithio cyfarfod â'r corff ddydd Gwener nesaf—a Chyfoeth Naturiol Cymru, a'r holl randdeiliaid eraill, i sicrhau bod y gwaith o amddiffyn rhag risg llifogydd ar yr arfordir hwn yn cael ei gydlyn yn glir ac yn ddiogel?
- The First Minister will be well aware of the Cambrian coastline and of the great damage that has occurred due to recent storms. Will the First Minister ensure, on behalf of the Welsh Government, that there is full collaboration on all occasions between Network Rail, which is the main risk-management body in terms of coastal flooding for miles of that line—and we hope to meet with it next Friday—and Natural Resources Wales, and all other stakeholders, to ensure that flood-risk management is co-ordinated clearly and safely along that coastline?

13:59

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rwy'n credu y byddai hynny'n rhywbeth hollol synhwyrol, wrth gwrs, er mwyn lleihau'r risg yn y dyfodol. Ynglŷn â'r rheilffordd, y gobaith yw y bydd rhan o'r rheilffordd rhwng Cyffordd Dyfi a'r Bermo ar agor ddydd Llun nesaf a gweddill y rheilffordd, ymlaen i Bwllheli, ar agor yn gyfan gwbl erbyn canol mis Mai. Dyna'r amserlen a roddwyd i ni gan Network Rail ac rydym yn gobeithio y bydd hynny'n digwydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r trenau unwaith eto.

I believe that that is a completely sensible thing to do, in order to reduce the risk in future. As regards the railway line, the hope is that part of the line between Dovey Junction and Barmouth will be open next Monday and that the rest of the line, through to Pwllheli, will be fully operational by the middle of May. That is the timetable that we have been given by Network Rail and we hope that that will happen as soon as possible so that people are able to use the trains again.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ffermio yn y Rhostiroedd

Farming in the Moorlands

14:00

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol ffermio yn rhostiroedd Brycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1471(FM)

6. Will the First Minister make a statement on the future of farming in the moorlands of Brecon and Radnorshire? OAQ(4)1471(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The actions recommended to ensure a sustainable future for farming in the moorlands have recently been published in the Kevin Roberts's review. Of course, we will continue to support mechanisms through the common agricultural policy to support upland farmers.

Mae'r camau gweithredu a argymhellir i sicrhau dyfodol cynaliadwy i ffermio yn y rhostiroedd wedi cael eu cyhoeddi yn adolygiad Kevin Roberts yn ddiweddar. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i gefnogi dulliau i gefnogi ffermwyr yr ucheldir drwy'r polisi amaethyddol cyffredin.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, decisions already announced by your Minister for Natural Resources and Food will have a devastating effect on the incomes of family farms in the Elan valley. To give an illustration, one farm will see a 79% fall in its income, another 69% and yet another 76%. That is pretty typical of the situation in the valley. Contrary to the stereotypes that I often hear from Members sitting behind you, these are not asset-rich fat cats sitting on a lot of land; these are tenant farmers trying to eke out a living in some of the most difficult, inhospitable places to farm in Wales. What confidence can they have that any yet-to-be-announced schemes under pillar 2 will secure their futures and those of their families in the Elan valley?

Brif Weinidog, bydd penderfyniadau a gyhoeddwyd eisoes gan eich Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn cael effaith hynod andwyol ar incymau ffermydd teuluol yng nghwm Elan. I roi enghraifft o hyn, bydd gostyngiad o 79% i incwm un fferm, 69% mewn un arall a 76% mewn un arall eto. Mae hynny'n eithaf nodweddiadol o'r sefyllfa yn y cwm. Yn groes i'r stereoteipiau rwy'n eu clywed yn aml gan Aelodau sy'n eistedd y tu ôl i chi, nid pobl ased-gyfoethog â llawer iawn o dir yw'r rhain; ffermwyr sy'n denantiaid ydynt sy'n ceisio crafu bywoliaeth mewn rhai o'r mannau mwyaf anodd a digroeso i'w ffermio yng Nghymru. Pa hyder allan nhw ei gael y bydd unrhyw gynlluniau nad ydynt wedi eu cyhoeddi eto dan golofn 2 yn sicrhau eu dyfodol nhw a rhai eu teuluoedd yng nghwm Elan?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We are aware, of course, of the situation that faces—and has always faced—Welsh farming: without subsidies, Welsh farming simply is not viable. It needs subsidies in order to survive. That is something that I knew full well in my six years as the Minister responsible, but it does not mean that it should be like that for ever. That is why it is important that, when we look at securing extra money to make farms more viable in the longer term, that money is made available. The CAP budget will reduce—there is no question of that—over the next five, 10 or 15 years: there will be less money available to support farmers. It makes perfect sense for us to be able to provide the financial resources for farms to become more self-sufficient than they are now, because, as we know, a number of farms would not exist if they were conventional businesses. I understand the point in terms of support, but it is also important that there are sufficient resources available to help them become sustainable businesses in the future.

Rydym yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r sefyllfa sy'n wynebu ffermio yng Nghymru—ac sydd wedi ei wynebu erioed: heb gymorthdaliadau, nid yw ffermio yng Nghymru yn hyfyw. Mae angen cymorthdaliadau arno i oroesi. Mae hynny'n rhywbeth roeddwn i'n ei wybod yn iawn yn ystod fy chwe blynedd fel y Gweinidog cyfrifol, ond nid yw'n golygu y dylai fod felly am byth. Dyna pam mae'n bwysig, pan fyddwn yn edrych ar sicrhau arian ychwanegol i wneud ffermydd yn fwy hyfyw yn yr hirdymor, bod arian yn cael ei roi ar gael. Bydd cyllideb y PAC yn lleihau—nid oes amheuaeth am hynny—yn ystod y pump, 10 neu 15 mlynedd nesaf: bydd llai o arian ar gael i gefnogi ffermywr. Mae'n gwneud synnwyr perffaith i ni allu darparu'r adnoddau ariannol i ffermydd fod yn fwy hunangynhaliol nag y maen nhw ar hyn o bryd, oherwydd, fel y gwyddom, ni fyddai nifer o ffermydd yn bodoli pe byddent yn fusnesau confensiynol. Rwy'n deall y pwynt o ran cymorth, ond mae hefyd yn bwysig bod digon o adnoddau ar gael i'w helpu i fod yn fusnesau cynaliadwy yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:02

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the vice-chairman of the Farmers Union of Wales marginal land committee said:

'We have gone from a system where we had LFA payments which were administered fairly and easily, to a system where farmers have to jump through hoop after hoop after hoop. It has gone from a very simple system to one which is very complicated and restricts production. Meanwhile, our main competitors in Scotland and Ireland still receive LFA payments without the hoops or restrictions.'

First Minister, will you and your Government commit to removing those hoops and restrictions and look at an areas with natural constraints scheme that can benefit farmers, particularly those above the moorland line?

Brif Weinidog, dywedodd is-gadeirydd pwyllgor tir ymylol Undeb Amaethwyr Cymru:

Rydym wedi mynd o system lle'r oedd gennym daliadau Ardaloedd Llai Ffafirol a oedd yn cael eu gweinyddu'n deg ac yn rhwydd, i system lle mae'n rhaid i ffermywr neidio trwy gylch ar ôl cylch ar ôl cylch. Mae wedi mynd o system syml iawn i un sydd yn gymhleth iawn ac yn cyfyngu ar gynhyrchu. Yn y cyfamser, mae ein prif gystadleuwyr yn yr Alban ac Iwerddon yn dal i dderbyn taliadau ALFF heb y cylchoedd na'r cyfyngiadau.

Brif Weinidog, a wnewch chi a'ch Llywodraeth ymrwymo i gael gwared ar y cylchoedd a'r cyfyngiadau hynny ac ystyried cynllun ardaloedd â chyfyngiadau naturiol a allai fod o fudd i ffermywr, yn enwedig y rhai uwchben y llinell rhostir?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Historically, we have provided very good support to farmers in the disadvantaged areas and severely disadvantaged areas. It is slightly odd, because if this was any other sphere of business, the Conservatives would be saying, 'You need to make sure that, when you give money out, there are controls over that money.' With farming it is the complete opposite. I do not think that it is in the interest of farmers to do that. I think that it is important— [Interruption.] Well, she describes them as hoops. The reality is that, where public money is distributed, it is absolutely fair that there are controls over how that money is distributed. That is perfect common sense.

Yn hanesyddol, rydym wedi darparu cymorth da iawn i ffermywr yn yr ardaloedd dan anfantais a'r ardaloedd dan anfantais ddifrifol. Mae braidd yn rhyfedd, oherwydd pe byddai hwn yn unrhyw faes arall o fusnes, byddai'r Ceidwadwyr yn dweud, 'Mae angen i chi wneud yn siŵr, pan eich bod yn dosbarthu arian, bod mesurau rheoli'n gysylltiedig â'r arian hwnnw.' Mae'r sefyllfa'n gwbl i'r gwrthwyneb ar gyfer ffermio. Nid wyf yn credu bod gwneud hynny o fudd i ffermywr. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig— [Torri ar draws.] Wel, mae hi'n eu disgrifio fel cylchoedd. Y gwir amdani yw, pan ddosberthir arian cyhoeddus, mae'n gwbl deg bod mesurau rheoli ar gyfer sut y dosberthir yr arian hwnnw. Synnwyr cyffredin perffaith yw hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The reality of the situation is that I know full well—as will Alun Davies—that her party in London could not give a monkey's about the LFA. The Conservatives are only interested in large arable farmers and the very large farms in the lowlands of England. That is something that I have come across in the past. I know that Alun Davies has come across it. I know full well that, if her party was in charge, it would have no interest at all in small family farms. It is in hock to the very large farms that do not exist in Wales. I take no lessons from the Conservatives. I have seen the way that they operate at a European level, and the fact that they have no interest whatsoever in small family farms, particularly in the uplands of Wales. We will always make sure that we have a fair settlement for our farmers in Wales and that has always been the case.

Y gwir am y sefyllfa yw fy mod yn gwybod yn iawn—fel y bydd Alun Davies—nad oes ots o gwbl gan ei phlaid yn Llundain am yr ALFf. Dim ond mewn ffermwyr â'r mawr a ffermydd mawr iawn yn iseldiroedd Lloegr y mae gan y Ceidwadwyr ddiddordeb. Mae hynny'n rhywbeth rwyf wedi ei weld yn y gorffennol. Gwn fod Alun Davies wedi ei weld. Rwy'n gwybod yn iawn, pe byddai ei phlaid hi'n gofalu am bethau, na fyddai ganddi unrhyw ddiddordeb o gwbl mewn ffermydd teuluol bach. Mae dan reolaeth y ffermydd mawr iawn nad ydynt yn bodoli yng Nghymru. Nid wyf yn fodlon cymryd unrhyw wersi gan y Ceidwadwyr. Rwyf wedi gweld y ffordd maen nhw'n gweithredu ar lefel Ewropeaidd, a'r ffaith nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb o gwbl mewn ffermydd teuluol bach, yn enwedig yn ucheldiroedd Cymru. Byddwn bob amser yn gwneud yn siŵr bod gennym gytundeb teg i'n ffermwyr yng Nghymru a dyna fu'r achos erioed.

14:04 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rwy'n credu bod dyfodol i ffermwyr yn y rhostiroedd, ac rwy'n credu ein bod wedi gweld peth o'r dyfodol hwnnw wrth ymweld â lansiad canolfan ymchwil Pwllpeiran gyda'r Gweinidog yr wythnos diwethaf. Ar hyn o bryd, mae'r bobl sydd yn gyfrifol am y tiroedd hyn—sef, yn benodol, y ffermwyr—yn wynebu toriadau yn eu cymorthdaliadau a heb weld y weledigaeth sydd gan y Llywodraeth o beth ddaw yn eu lle, beth sy'n dod o dan biler 2 a beth fydd yn y cynllun datblygu gwledig. A allwch chi, heddiw, roi rhyw fath o arwydd i'r ffermwyr hyn o'r math o ddyfodol rydych chi'n ei weld ar eu cyfer o ran cynnal y rhostiroedd ar gyfer ffermio ac ar gyfer y dŵr glan sydd ei angen anrnom?

First Minister, I believe that there is a future for the moorland farmers and I believe that we saw some of that future in visiting the launch of the Pwllpeiran research centre with the Minister last week. However, at the moment, those responsible for those lands—essentially the farmers—are facing cuts in their subsidies and have not seen the Government's vision in terms of what is going to replace them, what will appear under pillar 2 and what will be included in the rural development plan. Can you, today, give a signal to those farmers as to the kind of future that you see for them in maintaining our moorlands for farming and for the clean water that we require?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae hynny'n hynod o bwysig. Mae'n bwysig dros ben bod ffermwyr yn deall bod yr arian hwn yn mynd yn ôl i ffermio, ond mae'n rhaid gwneud rhywbeth er mwyn cael yr arian. Mae hynny'n hollol deg, ac mae'n wir, beth bynnag, o ran piler 2. Mae gan ffermwyr Cymru rôl allweddol o ran sut y maent yn gweithio'r tir, sicrhau bod llai o ddŵr yn mynd i mewn i'r afonydd, i ddelio â llifogydd—rwyf wedi gweld hynny fy hun, o ran plannu coed ac yn y blaen—a rheoli'r tir.

That is exceptionally important. It is vital that farmers understand that the money will revert to farming but that they have to do something to get that funding. That is fair and is, of course, true of pillar 2. Welsh farmers have a crucial role as regards the way in which they work the land and the way in which they ensure that less water goes in to the rivers, dealing with floods—I have seen that for myself, in terms of planting trees and so on—and land management.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y broblem o'r blaen oedd bod gormod o ddefaid; roedd lot fawr o ddefaid yn cael eu cynnal nad oedd neb am eu prynu. Oherwydd hynny, roedd y pris yn dod i lawr i bawb, ac nid oedd hynny o fudd i unrhyw ffermwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ffermwyr yn deall beth fydd yn y cynllun datblygu gwledig a bydd y Gweinidog yn gwneud yn siŵr bod dealltwriaeth lawn ynghylch lle fydd yr arian yn mynd, o ran piler 2.

The problem previously was that there were too many sheep being kept that no-one wanted to buy. As a result, all the prices came tumbling down, which was not in the interest of any farmer. However, it is important that farmers understand the contents of the rural development plan, and the Minister will ensure that there is full understanding of where the money will be going as regards pillar 2.

Ynni Adnewyddadwy

Renewable Energy

14:06 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cymru i ddatblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)1470(FM)

7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policies to develop renewable energy in Wales? OAQ(4)1470(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Yes, they are in 'Energy Wales: A Low Carbon Transition'. Gwnaf, maen nhw yn 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel'.
- 14:06 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 It was disappointing to read the Ynni'r Fro mid-term review, which stated that it was unlikely to achieve its ambitious targets for energy generation and job creation by the end of the programme in 2015. One of the key challenges highlighted in the review was that of difficulties in obtaining planning permission and consent from local planning authorities and of Natural Resources Wales being perceived as being resistant to renewable energy and the benefit to communities. The Minister for natural resources often tells us that NRW is an enabling body but, in this circumstance, it seems that there is a difference of opinion. I wonder if you could comment on the question of who is right.
 Roedd yn siomedig darllen adolygiad canol tymor Ynni'r Fro, a oedd yn datgan ei fod yn annhebygol o gyrraedd ei dargedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu ynni a chreu swyddi erbyn diwedd y rhaglen yn 2015. Un o'r heriau allweddol a amlygwyd yn yr adolygiad oedd anawsterau i gael caniatâd cynllunio gan awdurdodau cynllunio lleol a'r dybiaeth fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthsefyll ynni adnewyddadwy a'r budd i gymunedau. Mae'r Gweinidog cyfoeth naturiol yn aml yn dweud wrthym fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff sy'n galluogi, ond, yn yr achos hwn, mae'n ymddangos bod anghytuno. Tybed a allech chi gynnig sylwadau ar y cwestiwn o bwy sy'n iawn.
- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 It is clear to me that local planning authorities are turning down a large number of planning applications for renewable energy. As far as NRW is concerned, it must make assessments when it is asked to make those assessments. However, it is also true to say that all large planning applications sit outside the purview of the Welsh Government. This has been a problem since the Assembly was set up. I know the view of his party on this, as well as mine.
 Mae'n amlwg i mi bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwrthod nifer fawr o geisiadau cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy. O ran Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n rhaid iddo wneud asesiadau pan ofynnir iddo wneud yr asesiadau hynny. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir i ddweud bod yr holl geisiadau cynllunio mawr y tu allan i gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi bod yn broblem ers sefydlu'r Cynulliad. Rwy'n ymwybodol o safbwynt ei blaid ef ar hyn, yn ogystal â fy un i.
 I encourage local planning authorities to look carefully at the community benefits that can accrue—and the register is important in that regard—when renewable energy projects are set up in their areas. It is not a case of nothing being made available to local people. There is a substantial financial dividend. He will know, in his own constituency, in Carno, how important that is to people who live in that area. I urge local planning authorities to consider the register of community benefits and make sure that they seek to get the fullest community benefit from planning applications as they consider them.
 Rwy'n annog awdurdodau cynllunio lleol i edrych yn ofalus ar y manteision cymunedol a all ddilyn—ac mae'r gofrestr yn bwysig yn hynny o beth—pan fydd prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu sefydlu yn eu hardaloedd. Nid yw'n achos o ddim yn cael ei roi ar gael i bobl leol. Ceir difidend ariannol sylweddol. Bydd yn gwybod, yn ei etholaeth ei hun, yng Ngharno, pa mor bwysig yw hynny i bobl sy'n byw yn yr ardal honno. Rwy'n annog awdurdodau cynllunio lleol i ystyried y gofrestr buddion cymunedol a gwneud yn siŵr eu bod yn ceisio cael y budd cymunedol llawnaf o geisiadau cynllunio wrth iddynt eu hystyried.
- 14:08 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Scotland has a target of generating the equivalent of 100% of its electricity consumption from renewable energy by 2020. What is your target?
 Mae gan yr Alban darged o gynhyrchu swm sy'n cyfateb i 100% o'i defnydd o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2020. Beth yw eich targed chi?

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

You know that our target is lower than that, and you know that the reason for that is that we do not have full control over energy resources and energy consents. You will know, and I have said this many times in the Chamber, that we want to see a situation where we are not disadvantaged when compared to Scotland and Northern Ireland, particularly with regard to energy consents and the subsidy system. The reality is that Scotland can throw money at marine energy projects, despite the fact that circumstances there are less promising than Wales, because they control the level of subsidy. They are in a position, in effect, where their level of subsidy is paid for by English consumers, which is a very happy place to be if you are Scotland. We do not have that, and that is why it is so crucial that we have energy consents and the subsidy system devolved in the same way as in Scotland. That will create a fair level playing field between us and the Scots.

Gwasanaethau Iechyd

14:09

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1464(FM)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi byrddau iechyd lleol i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion yng ngorllewin Cymru.

14:09

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n amlwg, Brif Weinidog, fod cau neu israddio gwasanaethau yn cael effaith ar wasanaethau eraill mewn ysbyty. Rydym wedi gweld hynny yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn ddiweddar, lle mae eich Llywodraeth chi wedi penderfynu cau'r uned gofal arbennig i fabanod, ac yn awr mae cynlluniau i israddio'r adran pediatrig. Rwy'n siŵr y bydd y penderfyniad i israddio'r adran bediatrig yn cael effaith negyddol ar yr adran frys a damweiniau. Bydd gorfodi plant a phobl i drafaelio ymhellach am wasanaethau brys yn peryglu bywydau pobl. O ystyried ei bod yn amlwg yn awr fod yr ysbyty yn cael ei hisraddio, a allwch chi ymrwmo i sicrhau y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad llawn ar ddyfodol ysbyty Llwynhelyg cyn gynted ag y bo modd?

Rydych chi'n gwybod bod ein targed ni yn is na hynny, ac rydych chi'n gwybod mai'r rheswm am hynny yw nad oes gennym reolaeth lawn dros adnoddau ynni a chydysniadau ynni. Byddwch yn gwybod, ac rwyf wedi dweud hyn droeon yn y Siambr, ein bod eisiau gweld sefyllfa lle nad ydym dan anfantis o'n cymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn enwedig o ran cydsyniadau ynni a'r system cymhorthdal. Y gwir amdani yw y gall yr Alban daflu arian at brosiectau ynni morol, er gwaethaf y ffaith bod yr amgylchiadau yno yn llai addawol nag yng Nghymru, gan eu bod yn rheoli lefel y cymhorthdal. Maen nhw mewn sefyllfa, i bob pwrpas, lle telir am eu lefel o gymhorthdal gan ddefnyddwyr yn Lloegr, sy'n sefyllfa hapus iawn i fod ynddi i'r Alban. Nid yw hynny gennym ni, a dyna pam ei bod mor hanfodol bod cydsyniadau ynni a'r system gymhorthdal ddatganoledig yn cael eu datganoli yn yr un modd ag yn yr Alban. Bydd hynny'n arwain at sefyllfa deg rhyngom ni a'r Albanwyr.

Health Services

8. Will the First Minister make statement on what the Welsh Government is doing to improve health services in west Wales? OAQ(4)1464(FM)

The Welsh Government is supporting local health boards to deliver safe, high-quality care for patients in west Wales.

It is clear, First Minister, that closing or downgrading services has an impact on other services within hospitals. We have seen this at Withybush General Hospital recently, where your Government has decided to close the special baby care unit and now there are plans to downgrade paediatric services. I am sure that the decision to downgrade the paediatric department will have a negative impact on the accident and emergency department. Forcing children and adults to travel further for A&E services will put lives at risk. Bearing in mind that it is clear now that the hospital is being downgraded, can you commit to ensuring that the Minister for Health and Social Services makes a full statement on the future of Withybush hospital as soon as possible?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn gyntaf, nid oes problem ynglŷn â dyfodol ysbyty Llwynhelyg fel ysbyty cyffredinol dosbarth. O ran yr hyn a ddywedodd yr Aelod, mae wedi dweud hyn sawl gwaith. Mae'n dweud fod penderfyniad wedi cael ei wneud gan y Gweinidog, heb ystyried y ffaith bod hwn yn benderfyniad sydd wedi cael ei wneud ar argymhelliad doctoriaid. Felly, os nad yw'r Gweinidog yn iawn, mae'r doctoriaid i gyd yn anghywir hefyd—doctoriaid obstetreg yng Nghymru a'r arbenigwyr ar y panel; maent hwy yn anghywir hefyd. Nid wyf yn credu y gall unrhyw Weinidog call osgoi argymelliad sy'n dweud 'Mae'n rhaid i chi wneud newidiadau er mwyn sicrhau bod gwasanaeth yn sâff ac yn gynaliadwy'. Dyna'n union beth oedd yr argymhelliad.

Y dewis yw Glangwili neu Llwynhelyg; nid oes modd cael y ddau fel uned lefel 2. Felly, roedd yn rhaid ystyried lle y dylai'r uned honno fod. Y broblem yn sir Benfro yw'r ffaith nad oes digon o enedigaethau i sicrhau uned lefel 2. Nid dyna beth yw barn y Llywodraeth—dyna beth yw barn y doctoriaid. Dyna beth yw barn y colegau brenhinol. O ran unrhyw fath o berygl i fywyd, nid ydym yn derbyn hynny, a dywedaf pam. Pan welais beth ddigwyddodd i sefyllfa Kate Sutton—[Torri ar draws.] Rwy'n deall yr amser, ond mae hwn yn bwysig, Lywydd. Gofynnais i'r prif swyddog meddygol ystyried beth oedd y sefyllfa er mwyn gweld a fyddai unrhyw newidiadau yn Llwynhelyg yn peryglu rhywun fel hi yn y dyfodol. Yr ateb oedd 'na', gan fod ei hachos hi yn achos argyfwng a damweiniau; byddai'n dal i fod yn iawn bod rhywun fel hi yn gallu cael triniaeth yn Llwynhelyg beth bynnag yw'r sefyllfa ynglŷn â'r penderfyniad. Mae'n bwysig dros ben i ddweud hynny. Ni allwn dderbyn bod y newidiadau sy'n mynd i gael eu gwneud gan y Gweinidog yn mynd i beryglu pobl fel hi yn y dyfodol. Barn meddygon yw hynny, ac nid barn gwleidyddion.

Dyna felly yw'r broblem: mae'n rhwydd i wleidyddion ddweud 'Mae'n rhaid ichi wneud hyn a'r llall', ond pan fo gennyh argymhellion cryf a doctoriaid yn dweud bod yn rhaid ichi gael newid, pa wleidydd call sy'n mynd i ddweud 'Rwy'n mynd i osgoi hynny'? Beth sy'n digwydd i yswiriant y doctoriaid? Ni fyddai neb yn eu hyswirio mewn amgylchiadau fel hynny. Beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun yn marw? Pwy fyddai'n cael y bai? Y Gweinidog a'r doctoriaid. Nid yw mor rhwydd. Rwy'n deall pa mor gryf yw'r teimladau yn sir Benfro, ond mae'n bwysig bod pobl yn sylweddoli beth yw'r problemau, beth yw'r heriau a beth mae'n rhaid i ni ei wneud ynglŷn â'r argymhellion er mwyn gwneud penderfyniad call a diogel.

First, there is no problem as regard the future of Worthybush hospital as a district general hospital. However, as regards what the Member said, he has said this many times. He states that a decision has been taken by the Minister without considering the fact that this is a decision taken on the recommendation of doctors. So, if the Minister is not right, all the doctors are not right either—Wales's obstetric doctors and the experts on the panel must all be wrong too. I do not believe that any sensible Minister can avoid a recommendation that says 'You have to make changes in order to ensure that the service is safe and sustainable'. That is exactly what the recommendation was.

The choice is Glangwili or Worthybush; you cannot have both as level 2 units. So, consideration had to be given to where that unit should be located. The problem in Pembrokeshire is that there is an insufficient number of births to secure a level 2 unit. That is not the Government's view—it is the view of doctors and the royal colleges. As regards any risk to life, we do not accept that, and I will tell you why. When I saw what happened in the case of Kate Sutton—[Interruption.] I understand the time issue but this is important, Presiding Officer. I asked the chief medical officer to consider the position to see whether any changes to Worthybush would endanger someone like her in the future. The answer was 'no', because her case was an A&E case; it would still be right for someone like her to be treated in Worthybush, whatever the decision. We cannot accept that the situation as regards the changes that will be made by the Minister will put people like her at risk in the future. That is the view of doctors, not the view of politicians.

That is the problem: it is fine for politicians to say 'You must do this and that', but when you have strong recommendations from doctors saying that change must happen, what sensible Minister is going to ignore it? What would happen to doctors' insurance? No-one would insure them in such a case. What would happen if somebody was to die? Who would be blamed? It would be the Minister and the doctors. It is not easy. I understand how strong the feelings are in Pembrokeshire, but it is important that people realise what the problems and the challenges are, and what we must do with regard to the recommendations in order to make sensible and safe decisions.

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, recruitment difficulties have been cited by Hywel Dda Local Health Board as a key reason for the decisions behind the service change in paediatrics, although local people and the community health council have questioned this. Will you investigate the circumstances around the failed attempts to recruit to paediatric posts so that we can be satisfied that all efforts have been made to appoint people to those positions?

Brif Weinidog, nodwyd anawsterau recriwtio gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda fel rheswm allweddol am y penderfyniadau y tu ôl i'r newid i wasanaethau ym maes pediatreg, er bod pobl leol a'r cyngor iechyd cymuned wedi cwestiynu hyn. A wnewch chi ymchwilio i'r amgylchiadau yn ymwneud â'r ymdrechion aflwyddiannus i recriwtio i swyddi pediatrig fel y gallwn fod yn fodlon bod pob ymdrech wedi ei gwneud i benodi pobl i'r swyddi hynny?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can tell the Member that Hywel Dda has experienced continued difficulties in recruiting paediatric consultants in Pembrokeshire for some time. One post has remained vacant despite being advertised for over a year, and the job description having been rewritten to make the post more attractive. At middle-grade level, there have been successive vacancies in Carmarthenshire and Pembrokeshire. This is partly because those hospitals rely heavily on recruitment from the European Union and outside. If they were not able to recruit from outside the EU, they would have enormous problems in terms of recruitment. The difficulty is that those people who come quite often move on very quickly—they move to urban areas very quickly and they do not tend to stay, although some clearly do. That is the reality of what Hywel Dda has to try to deal with. It undertook a recruitment drive within the EU, but it was not able to fill all the posts that it needed to as a result of that recruitment drive.

However, I can say that additional vacancies will be created in Withybsuh at junior doctor level when the paediatric training rota is centralised. The college said that it was not possible to have paediatric training at two sites separately; the deanery would not back that situation. So, Hywel Dda, on this occasion, has tried to recruit people into those posts, but unfortunately it has proven difficult. It is a historic problem, but, nevertheless, I am sure that they will continue to make sure that they look to recruit further in future.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod Hywel Dda wedi cael anawsterau parhaus o ran recriwtio ymgynghorwyr pediatrig yn Sir Benfro ers cryn amser. Mae un swydd wedi aros yn wag er iddi gael ei hysbysebu am dros flwyddyn, ac er i'r disgrifiad swydd gael ei ailysgrifennu i wneud y swydd yn fwy deniadol. Ar lefel ganolraddol, bu swyddi gwag olynol yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod yr ysbytai hynny yn dibynnu'n fawr ar recriwtio o'r Undeb Ewropeaidd a'r tu allan. Pe na byddent yn gallu recriwtio o'r tu allan i'r UE, byddai ganddynt broblemau enfawr o ran recriwtio. Yr anhawster yw bod y bobl hynny sy'n dod yn symud ymlaen yn gyflym iawn yn eithaf aml—maen nhw'n symud i ardaloedd trefol yn gyflym iawn ac nid ydynt yn tueddu i aros, er bod rhai yn amlwg yn gwneud hynny. Dyna wirionedd yr hyn y mae'n rhaid i Hywel Dda geisio ymdrin ag ef. Cynhaliodd ymgyrch recriwtio o fewn yr UE, ond nid oedd yn gallu llenwi'r holl swyddi yr oedd angen iddo eu llenwi o ganlyniad i'r ymgyrch recriwtio honno.

Fodd bynnag, gallaf ddweud y bydd swyddi gwag ychwanegol yn cael eu creu yn Llwynhelyg ar lefel meddygon iau pan fydd y rota hyfforddiant pediatrig yn cael ei ganoli. Dywedodd y coleg nad oedd yn bosibl cael hyfforddiant pediatrig ar ddau safle ar wahân; ni fyddai'r ddeoniaeth yn cefnogi'r sefyllfa honno. Felly, mae Hywel Dda, ar yr achlysur hwn, wedi ceisio recriwtio pobl i'r swyddi hynny, ond mae wedi bod yn anodd yn anffodus. Mae'n broblem hanesyddol, ond, serch hynny, rwy'n siŵr y byddant yn parhau i wneud yn siŵr eu bod yn ceisio recriwtio ymhellach yn y dyfodol.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, as you know, many patients in west Wales use hospitals in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board area. I attended a meeting last week, along with Bethan Jenkins, and there were a number of patients at that meeting whose families and relatives are very unhappy about their treatment. There were more than 100 people there. Those relatives felt very strongly that the current inquiries into ABMU and what has gone on in particular at the Princess of Wales Hospital were not sufficient to meet their need to have a proper investigation of their complaints. They would like to see a public inquiry looking at this particular health board. Will you consider extending the current investigation into ABMU into a public inquiry, to try to meet the concerns of those relatives and friends of patients who have suffered as a result of bad treatment in those hospitals?

Brif Weinidog, fel y gwyrddoch, mae llawer o gleifion yng ngorllewin Cymru yn defnyddio ysbytai yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mynychais gyfarfod yr wythnos diwethaf, ynghyd â Bethan Jenkins, ac roedd nifer o gleifion yn y cyfarfod hwnnw y mae eu teuluoedd a'u perthnasau yn anhapus iawn am eu triniaeth. Roedd mwy na 100 o bobl yno. Roedd y perthnasau hynny'n teimlo'n gryf iawn nad oedd yr ymchwiliadau presennol i PABM a'r hyn sydd wedi digwydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn benodol, yn ddigonol i ddiwallu eu hangen i gael ymchwiliad priodol i'w cwynion. Byddent yn hoffi gweld ymchwiliad cyhoeddus yn edrych ar y bwrdd iechyd penodol hwn. A wnech chi ystyried ymestyn yr ymchwiliad cyfredol i PABM i ymchwiliad cyhoeddus, er mwyn ceisio ymateb i bryderon perthnasau a ffrindiau'r cleifion hynny sydd wedi dioddef o ganlyniad i driniaeth wael yn yr ysbytai hynny?

14:15

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, it is important that there is an investigation, and that is happening, of course. The Minister for Health and Social Services has already said that. It is an investigation not only of current practice, but, as you said very clearly, of historic practice as well. The independent investigator is able to look at whatever they want to in terms of the report they wish to produce. My belief is that that has to be given the opportunity to report first of all. The second point is that it would be £1 million for a public inquiry, and that is a substantial financial commitment. At this stage, that would not be appropriate having already, of course, stated that there is an ongoing independent investigation. I understand that the chief nursing officer met with a group, I think this morning or yesterday, to discuss their views, and I believe that the meeting was a constructive one. However, I think that we need to make sure that the investigation takes its course, and then, of course, it will be a matter for those who are aggrieved to see that report and then decide what their view is of that report. However, changing horses halfway through at this stage would not seem to me to make sense.

Yn gyntaf oll, mae'n bwysig bod ymchwiliad yn cael ei gynnal, ac mae hynny'n digwydd, wrth gwrs. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud hynny eisoes. Mae'n ymchwiliad nid yn unig o arfer cyfredol, ond, fel y dywedasoch yn eglur iawn, o arfer hanesyddol hefyd. Gall yr ymchwilydd annibynnol edrych ar beth bynnag a fynno o ran o'r adroddiad y mae'n dymuno ei gynhyrchu. Rwyf i o'r farn bod yn rhaid iddo gael y cyfle i adrodd yn gyntaf oll. Yr ail bwynt yw y byddai'n costio £1 filiwn am ymchwiliad cyhoeddus, ac mae hynny'n ymrwymiad ariannol sylweddol. Ar hyn o bryd, ni fyddai hynny'n briodol ar ôl i ni nodi eisoes, wrth gwrs, bod ymchwiliad annibynnol parhaus yn cael ei gynnal. Rwy'n deall bod y prif swyddog nyrsio wedi cyfarfod â grŵp, bore heddiw neu ddoe rwy'n meddwl, i drafod eu safbwyntiau, a chredaf fod y cyfarfod yn un adeiladol. Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen i ni wneud yn siŵr bod yr ymchwiliad yn cael ei gyflawni, ac yna, wrth gwrs, bydd yn fater i'r rhai sy'n anhapus â'r adroddiad hwnnw i benderfynu beth yw eu barn ar yr adroddiad hwnnw. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos i mi y byddai newid ceffylau hanner ffordd drwy'r broses yn gwneud synnwyr. ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Business Statement and Announcement

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

I have one change to report to this week's business. The time allocated to tomorrow's questions to the Counsel General has been reduced. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to members electronically.

Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r amser a neilltuwyd i gwestiynau yfory i'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei leihau. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:17 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a single statement on the Royal College of General Practitioners Wales Put Patients First: Back General Practice campaign. I met a group of GPs in north Wales last week at the campaign's request to listen to what they had to say after they reported real terms spending on GP practices in Wales as having dropped by more than £27 million over three years. They highlighted a major concern in primary care. They advertised for GPs, in this case in December, but have not had a single response. They cannot get GPs to come to train in north Wales. The average age of GPs in north Wales is now over 50, and therefore it is a ticking time bomb. They need the Welsh Government to intervene and incentivise medical students to come. They talked about community services having deviated over 10 years, so now they cannot contact community nurses, district nurses and health visitors in the way that they could previously as part of a team. They have to leave messages for them. They talked about increased bedblocking because of staffing cuts in community hospitals and cuts in nursing and care homes because of regulations and much much more—[Interruption.] This is not a laughing matter. This was a large group of people who were desperately worried —
- Galwaf am ddatganiad sengl ar ymgyrch Put Patients First: Back General Practice Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru. Cefais gyfarfod â grŵp o feddygon teulu yng ngogledd Cymru yr wythnos diwethaf ar gais yr ymgyrch i wrando ar yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud ar ôl iddynt gyhoeddi bod gwario mewn termau real ar feddygfeydd teulu yng Nghymru wedi gostwng mwy na £27 miliwn dros dair blynedd. Tynnwyd sylw ganddynt at bryder mawr mewn gofal sylfaenol. Fe wnaethant hysbysebu ar gyfer meddygon teulu, ym mis Rhagfyr yn yr achos hwn, ond nid ydynt wedi cael yr un ymateb. Ni allant gael meddygon teulu i ddod i hyfforddi yng ngogledd Cymru. Mae oedran cyfartalog meddygon teulu yng ngogledd Cymru dros 50 oed bellach, ac felly mae'n sefyllfa sy'n siŵr o arwain at argyfwng yn y pen draw. Maen nhw angen i Lywodraeth Cymru ymyrryd a chymhell myfyrwyr meddygol i ddod. Trafodwyd ganddynt y ffaith fod gwasanaethau cymunedol wedi gwyro dros 10 mlynedd, felly ni allant gysylltu â nyrsys cymuned, nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd bellach yn y ffordd y gallent o'r blaen fel rhan o dîm. Mae'n rhaid iddyn nhw adael negeseuon ar eu cyfer. Trafodwyd achosion cynyddol o flocio gwelyau ganddynt oherwydd toriadau staffio mewn ysbytai cymuned a thoriadau mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal oherwydd rheoliadau a llawer iawn mwy—[Torri ar draws.] Nid yw hyn yn rhywbeth i chwerthin amdano. Roedd hwn yn grŵp mawr o bobl a oedd yn hynod bryderus—
- 14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Mark Isherwood is trying to ask an intelligent question. Will you listen? [Laughter.]
- Trefn. Mae Mark Isherwood yn ceisio gofyn cwestiwn deallus. A wnewch chi wrando? [Chwerthin.]
- 14:18 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much, Presiding Officer. Given the importance of this sincere campaign by a group of very well-intentioned people, it does demand a statement from the Welsh Government.
- Diolch yn fawr iawn, Lywydd. O ystyried pwysigrwydd yr ymgyrch ddiffuant hon gan grŵp o bobl â bwriadau da iawn, mae'n gofyn am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru.
- 14:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is a very serious campaign. I think that most Assembly Members are aware of the campaign, as indeed is the Minister for Health and Social Services. I think that what is really important is that the Minister has made it very clear that, as we go through service reconfiguration, where services are transferred from secondary to primary care, the funding, facilities and training take place alongside those services being transferred. I am sure that many Members have written to the Minister about the campaign and he will be writing back to those Members.
- Mae hi yn ymgyrch ddifrifol iawn. Rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol o'r ymgyrch, fel yn wir y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig yw bod y Gweinidog wedi ei gwneud yn eglur iawn bod, wrth i ni fynd drwy'r broses o ad-drefnu gwasanaethau, pan fo gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, bod y cyllid, y cyfleusterau a'r hyfforddiant yn digwydd ochr yn ochr â'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu trosglwyddo. Rwy'n siŵr bod llawer o Aelodau wedi ysgrifennu at y Gweinidog am yr ymgyrch a bydd yn ysgrifennu yn ôl at yr Aelodau hynny.
- 14:19 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Welsh local government performance data and the traffic light grid were published last week. Will the Minister make an oral statement on this performance data?
- Cyhoeddwyd data perfformiad llywodraeth leol Cymru a'r grid goleuadau traffig yr wythnos diwethaf. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad llafar ar y data perfformiad hwn?

14:19

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I published, on 29 January, the latest edition of the annual compendium looking at the performance data for local authority services right across Wales. I think that that publication supports the scrutiny of public services by citizens and by their elected Members acting on their behalf. Local authorities are responsible for managing and improving their own performance, but I thought that it was really important that the people of Wales could see how well their local authorities were performing. It is patchy in places, in some of the services that are provided. When we see the patchiness in those services, there is a need to challenge, or at least question, when the data show such significant variation in performance from authority to authority.

Cyhoeddais, ar 29 Ionawr, argraffiad diweddaraf y compendium blynyddol sy'n edrych ar y data perfformiad ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol ar draws Cymru gyfan. Credaf fod y cyhoeddiad hwnnw yn cefnogi'r gwaith craffu ar wasanaethau cyhoeddus gan ddinasyddion a chan eu Haelodau etholedig yn gweithredu ar eu rhan. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli a gwella eu perfformiad eu hunain, ond roeddwn yn credu ei bod yn bwysig iawn fod pobl Cymru yn gallu gweld pa mor dda yr oedd eu hawdurdodau lleol yn perfformio. Mae'n anghyson mewn manau, o ran rhai o'r gwasanaethau a ddarperir. Pan fyddwn yn gweld anghysondeb yn y gwasanaethau hynny, mae angen herio, neu o leiaf gwestiynu, pan fo'r data yn dangos amrywiad mor sylweddol rhwng perfformiad o un awdurdod i'r llall.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I heard what the First Minister said with regard to ABMU, but yesterday morning, there were five inquiries ongoing into care issues regarding care standards at ABMU. By the evening, there were eight, with the Minister for health calling a third independent review into the complaints procedure in Wales, directly as a result of what is going on at the Princess of Wales Hospital.

Weinidog, clywais yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog am PABM, ond bore ddoe, roedd pum ymchwiliad yn parhau i faterion gofal yn ymwneud â safonau gofal yn PABM. Erbyn min nos, roedd wyth, wrth i'r Gweinidog iechyd alw am drydydd adolygiad annibynnol o'r weithdrefn gwynion yng Nghymru, yn uniongyrchol o ganlyniad i'r hyn sy'n digwydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The General Medical Council has launched an investigation into a doctor who worked there and, quite separately, the Information Commissioner will look into record keeping at the hospital. This is in addition to the three separate police investigations, ABMU's own review and Professor Andrews's deep-dive review. May I ask, therefore, for a debate in Government time that will finally consider what the families have wanted all along, and what over 100 of them called for in a public meeting last week, which is a full public inquiry into this situation? You would have had to have been in the public meeting to understand the emotion that is involved in the deaths that have happened in ABMU and we cannot go on any longer waiting for answers when we should have them now.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi lansio ymchwiliad i feddyg a oedd yn gweithio yno ac, yn gwbl ar wahân, bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn ymchwilio i'r drefn cadw cofnodion yn yr ysbyty. Mae hyn yn ogystal â'r tri ymchwiliad ar wahân gan yr heddlu, adolygiad PABM ei hun ac adolygiad trylwyr yr Athro Andrews. A gaf i ofyn, felly, am ddadl yn amser y Llywodraeth a fydd yn ystyried o'r diwedd yr hyn y mae'r teuluoedd wedi bod ei eisiau o'r cychwyn, a'r hyn y galwodd 100 ohonynt amdano mewn cyfarfod cyhoeddus yr wythnos diwethaf, sef ymchwiliad cyhoeddus llawn i'r sefyllfa hon? Byddai'n rhaid i chi fod wedi bod yn y cyfarfod cyhoeddus i ddeall yr emosiwn sy'n gysylltiedig â'r marwolaethau a fu yn PABM ac ni allwn aros ddim hirach am atebion pan ddylem ni eu cael nhw nawr.

The second debate that I wish to have is on the bedroom tax. We have heard Leanne Wood today calling for the Welsh Government to act on the bedroom tax. People are suffering now and being taken to court every day. What will the Welsh Government do? We need to have that in a statement, so that we can be clear to tell tenants in Wales how they will be helped by this Welsh Government.

Mae'r ail ddadl yr wyf yn dymuno ei chael ar y dreth ystafell wely. Rydym ni wedi clywed Leanne Wood yn galw heddiw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar y dreth ystafell wely. Mae pobl yn dioddef nawr ac eir â nhw i'r llys bob dydd. Beth mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud? Mae angen i ni gael hynny mewn datganiad, fel y gallwn fod yn eglur er mwyn dweud wrth denantiaid yng Nghymru sut y bydd y Llywodraeth Cymru hon yn eu helpu.

14:22

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You did hear the First Minister's answer to both of the points that you raised. There are investigations going on; you referred to the reviews that have been started under the Minister for Health and Social Services. There are also ongoing police investigations into the care provided at both of the hospitals to which you have referred. I do not believe that any further public inquiry could be instigated that fell within the scope of those investigations.

Clywsoch ateb y Prif Weinidog i'r ddau bwynt a godwyd gennych. Mae ymchwiliadau wrthi'n cael eu cynnal; cyfeiriasoch at yr adolygiadau a gychwynwyd dan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ymchwiliadau parhaus yn cael eu cynnal gan yr heddlu hefyd i'r gofal a ddarperir yn y ddau ysbyty yr ydych chi wedi cyfeirio atynt. Nid wyf yn credu y gellid cychwyn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus pellach a fyddai o fewn cwmmpas yr ymchwiliadau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In relation to the bedroom tax, that is not an issue for this Government. It is a reserved matter. You cannot— [‘Interruption.’] The Welsh Government cannot continue to pick up issues, particularly those around the funding of the policies that are coming out of the UK Government. The bedroom tax is the UK Government’s responsibility, and as a Welsh Government, we do not have the funding to keep picking up all of these issues.

O ran y dreth ystafell wely, nid yw hwnnw’n fater i’r Llywodraeth hon. Mae’n fater a gadwyd yn ôl. Ni allwch— [‘Torri ar draws.’] Ni all Llywodraeth Cymru barhau i ymdrin â materion, yn enwedig y rhai sy’n ymwneud ag ariannu polisïau sy’n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw’r dreth ystafell wely, ac fel Llywodraeth Cymru, nid yw’r cyllid gennym i barhau i ymdrin â’r holl faterion hyn.

14:23 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo i adolygu’r system bandio o fewn ysgolion ar ddiwedd y drydedd flwyddyn. Rwy’n deall bydd adroddiad yn gynnar y flwyddyn hon. Fodd bynnag, mae cryn ddryswch yn dilyn datganiadau yn y wasg dros y penwythnos. A wnaiff y Gweinidog addysg ddatganiad o flaen y Cynulliad hwn i ddweud yn union beth sydd o dan ystyriaeth o ran y Llywodraeth?

Minister, the Government is committed to reviewing the banding system within schools at the end of the third year. I understand that a report will be published early this year. However, there is quite some confusion following statements in the press over the weekend. Will the Minister for education bring a statement to this Assembly to say exactly what he has in mind from the point of view of the Government?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for Education and Skills has made no announcements with regard to any change in the banding arrangements. You are quite right; he is on record as having committed to a review in 2014 and I understand that preparation work on this is ongoing.

Nid yw’r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gwneud unrhyw gyhoeddiadau o ran unrhyw newid i’r trefniadau bandio. Rydych chi yn llygad eich lle; mae ar y cofnod ei fod wedi ymrwymo i adolygiad yn 2014 ac rwy’n deall bod y gwaith paratoi ar gyfer hyn yn parhau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:23 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Wales Audit Office announced an investigation into the funding of Canolfan Cywain in Bala in July last year. The Record of Proceedings refers to something having taken place in connection with this inquiry in November last year, but I was denied access to that information on the website. Bearing in mind that it is six months since this was announced, and your Government has agreed to co-operate fully with that inquiry, would you undertake to either publish your evidence of that inquiry, or at least make a statement on this, bearing in mind that this Assembly has heard nothing on the matter for half a year now?

Weinidog, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ymchwiliad i ariannu Canolfan Cywain yn y Bala ym mis Gorffennaf y llynedd. Mae Cofnod y Trafodion yn cyfeirio at rywbeth a ddigwyddodd mewn cysylltiad â’r ymchwiliad hwn ym mis Tachwedd y llynedd, ond gwrthodwyd mynediad i mi at y wybodaeth honno ar y wefan. O gofio ei bod yn chwe mis ers cyhoeddi hyn, a bod eich Llywodraeth wedi cytuno i gydweithredu’n llawn â’r ymchwiliad hwnnw, a wneuch chi ymrwymo naill ai i gyhoeddi eich tystiolaeth o’r ymchwiliad hwnnw, neu i wneud datganiad ar hyn o leiaf, o gofio nad yw’r Cynulliad hwn wedi clywed unrhyw beth am y mater ers hanner blwyddyn bellach?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If the Minister’s officials are working with the organisation, I am sure that when the investigation or review is finalised, if it is appropriate, that we will bring forward a statement.

Os yw swyddogion y Gweinidog yn gweithio gyda’r sefydliad, rwy’n siŵr pan gaiff yr ymchwiliad neu’r adolygiad ei gwblhau, os yw’n briodol, y byddwn yn cyflwyno datganiad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:24 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a gaf i groesawu’n fawr iawn eich datganiad ysgrifenedig chi heddiw ar daliadau i uwch swyddogion mewn llywodraeth leol? Rwy’n credu bydd hynny’n creu proses llawer mwy tryloyw yn y dyfodol, ac rwy’n falch iawn eich bod wedi ymateb mor gadarnhaol i’r gwelliant a wnes i gyflwyno i’r Bil, pan oedd yn mynd trwy’r broses yn y fan hon.

Minister, may I welcome very much your written statement today on payments to senior officials in local government? I believe that that will create a much more transparent system in the future, and I am very pleased that you have responded so positively to the amendment that I introduced to the Bill when it went through the processes here.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

However, Minister, may I draw your attention to the two district auditor reports on Carmarthenshire and Pembrokeshire, which contain very serious findings about unlawful payments? May I ask you to contact the chief executive and the leader of Carmarthenshire County Council and to tell them in the strongest possible terms that it is not the role of local government to challenge the findings of the auditor, but that it is the duty of local government to comply with those findings, and to comply with them immediately? At the moment, Carmarthenshire County Council is challenging the integrity and the authority of the auditor's office and his role, and that has very serious consequences for local government in Wales.

Fodd bynnag, Weinidog, a gaf i dynnu eich sylw at ddau adroddiad yr archwilydd dosbarth ar Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, sy'n cynnwys canfyddiadau difrifol iawn am daliadau anghyfreithlon? A gaf i ofyn i chi gysylltu â phrif weithredwr ac arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin a'u hysbysu yn y modd cryfaf posibl mai nad swyddogaeth llywodraeth leol yw herio canfyddiadau'r archwilydd, ond ei bod yn ddyletswydd ar lywodraeth leol i gydymffurfio â'r canfyddiadau hynny, a chydymffurfio â nhw ar unwaith? Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn herio uniondeb ac awdurdod swyddfa'r archwilydd a'i swyddogaeth, ac mae gan hynny ganlyniadau difrifol iawn i lywodraeth leol yng Nghymru.

14:25

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. It would not be appropriate for me to comment on the particular circumstances to which you refer so far as there are discussions between the Crown Prosecution Service and the police. Obviously, those discussions are ongoing. Local authority pay is a matter for each authority as they are accountable to their local electorates for the decisions that they take. You refer to the written statement that I put out this morning and you are very aware, as are all Members, of the steps that I have taken to ensure that we have increased transparency and openness on senior officer pay. I wanted that written statement this morning to reinforce to Members the steps that we have taken to ensure that mechanisms are in place, and they will be in place by the beginning of April. I hear what you are saying, and I think that both of the chief executives and the leaders will have heard it. I know that discussions are ongoing, but I do not feel that it is my place to intervene.

Diolch. Ni fyddai'n briodol i mi gynnig sylwadau ar yr amgylchiadau penodol yr ydych chi'n cyfeirio atynt tra bod trafodaethau yn digwydd rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu. Yn amlwg, mae'r trafodaethau hynny'n parhau. Mae tâl awdurdodau lleol yn fater i bob awdurdod gan eu bod yn atebol i'w hetholwyr lleol am y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud. Rydych chi'n cyfeirio at y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gennyf y bore yma ac rydych chi'n ymwybodol iawn, fel y mae pob Aelod, o'r camau yr wyf wedi eu cymryd i sicrhau ein bod yn fwy tryloyw ac agored am gyflogau uwch swyddogion. Roeddwn yn dymuno i'r datganiad ysgrifenedig hwnnw y bore yma atgyfnerthu i'r Aelodau y camau yr ydym ni wedi eu cymryd i sicrhau bod dulliau ar waith, ac y byddant ar waith erbyn dechrau mis Ebrill. Rwy'n clywed yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud, a chredaf y bydd y ddau brif weithredwyr a'r arweinwyr wedi ei glywed. Gwn fod trafodaethau yn parhau, ond nid wyf yn teimlo ei bod yn briodol i mi ymyrryd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:26

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, could we have a statement on cancer services? There has been a wealth of information over the last couple of days and weeks, some of it very positive, thankfully, with some good outcomes being proven in certain areas of cancer treatment in Wales. It has been a long-standing policy of our party to have a cancer co-ordinator for the whole of Wales so that, instead of having a patchwork of delivery, we have a uniform package to offer anyone who has a diagnosis of cancer. Today, with the World Health Organization saying that the world, generally, has a tidal wave of cancer coming its way over the next six to seven years, which is quite a terrifying prospect, whilst we have good services and developed services, there is always more that we can do. I think that it would be helpful to have a statement from the Minister for health to pull together all the data that have come forward in the last couple of days, and, above all, on how the Government is going to make sure that there is a uniform approach to services across the whole of Wales, so that we end the postcode lottery of services and drugs.

Arweinydd y Tŷ, a allem ni gael datganiad ar wasanaethau cancer? Bu cyfoeth o wybodaeth yn ystod yr ychydig ddiwrnodau ac wythnosau diwethaf, rhywfaint o hynny'n gadarnhaol iawn, diolch byth, a chafwyd rhai canlyniadau da mewn meysydd penodol o driniaeth cancer yng Nghymru. Mae wedi bod yn bolisi hir-sefydlog ein plaid i gael cydgysylltydd cancer ar gyfer Cymru gyfan er mwyn sicrhau, yn hytrach na chael darpariaeth anghyson, bod gennym becyn unffurf i'w gynnig i unrhyw un sy'n cael diagnosis o ganser. Heddiw, wrth i Sefydliad Iechyd y Byd ddweud y bydd ton lanw o ganser ledled y byd yn gyffredinol yn ystod y chwech i saith mlynedd nesaf, sy'n bosibilrwydd brawychus, er bod gennym wasanaethau da a gwasanaethau datblygedig, gallwn wneud mwy bob amser. Rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol cael datganiad gan y Gweinidog Iechyd i grynhoi'r holl ddata a gyhoeddwyd yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf, ac, yn anad dim, ar sut y mae'r Llywodraeth yn mynd i wneud yn siŵr y ceir dull unffurf o ddarparu gwasanaethau ledled Cymru gyfan, fel ein bod yn dod â'r loteri cod post o ran gwasanaethau a chyffuriau i ben.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You are quite right. I think that we have seen some very good data coming forward, particularly regarding the cancer patient experience survey, with 89% of patients rating their care as either excellent or very good, which I think is a very good figure. I think that we do have a uniform approach. We have the 'Together for Health—Cancer delivery plan', which I think shows that we do not have a postcode lottery in Wales in relation to cancer services.
- Rydych chi yn llygad eich lle. Rwy'n meddwl ein bod wedi gweld rhywfaint o ddata da iawn yn cael ei gyhoeddi, yn enwedig ynghylch yr arolwg profiad cleifion cancer, wrth i 89% o gleifion ddweud bod eu gofal naill ai'n ardderchog neu'n dda iawn, sy'n ffigur da iawn yn fy marn i. Rwy'n credu bod gennym ni ymagwedd unffurf. Mae gennym 'Law yn Llaw at Iechyd—Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer', sy'n dangos, yn fy marn i, nad oes gennym loteri cod post yng Nghymru o ran gwasanaethau cancer.
- 14:28 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the ambulance response times for December will be very worrying reading for people living in my region, particularly those living in Rhondda Cynon Taf. Only 45% of emergency responses to category A, life-threatening calls arrived within the target of eight minutes. Month after month, we see that Rhondda Cynon Taf is at the bottom of that list. Month after month, we see that, in Rhondda Cynon Taf, they are missing their target, which is only 65%. Please, may I ask the Minister to investigate what specific issues in Rhondda Cynon Taf are causing these targets to be missed so badly, and perhaps to report back with a statement to the Assembly when he has some idea of how we can move forward and improve those response times?
- Weinidog, bydd darllen am yr amseroedd ymateb ambiwlansys ar gyfer mis Rhagfyr yn peri pryder mawr i bobl sy'n byw yn fy rhanbarth i, yn enwedig y rhai sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf. Dim ond 45% o'r ymatebion brys i alwadau categori A, lle y ceir perygl i fywyd, a gyrrhaeddodd o fewn y targed o wyth munud. Fis ar ôl mis, rydym yn gweld bod Rhondda Cynon Taf ar waelod y rhestr. Fis ar ôl mis, rydym yn gweld, yn Rhondda Cynon Taf, eu bod yn methu eu targed, nad yw ond 65%. Os gwelwch yn dda, a gaf fi ofyn i'r Gweinidog ymchwilio i ba faterion penodol yn Rhondda Cynon Taf sy'n achosi i'r targedau hyn gael eu methu mor wael, ac efallai i adrodd yn ôl gyda datganiad i'r Cynulliad pan fydd ganddo ryw syniad o sut y gallwn symud ymlaen a gwella'r amseroedd ymateb hynny?
- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member will be aware that we have had many statements on ambulance service performance in this Chamber. You mentioned one specific area of Wales. I think that probably the best thing to do would be for the Minister for Health and Social Services to write to you specifically on that point.
- Bydd yr Aelod yn ymwybodol ein bod wedi cael llawer o ddatganiadau ar berfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn y Siambr hon. Soniasoch am un ardal benodol o Gymru. Rwy'n credu, yn ôl pob tebyg, mai'r peth gorau i'w wneud fyddai i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atoch yn benodol ar y pwynt hwnnw.
- 14:29 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Leader of the house, you will recall that last week I asked you for a statement on the interim improvements to the M4. I noticed that it is not on your statement as to what is coming through for the next couple of weeks. Could I ask that in the interim, before the Minister makes that statement, she asks her officials to look closely at what happened this morning after a serious accident on the M4? Could she look at the response by emergency services, the flow of traffic along the southern distributor road and adjoining roads, the patterns of traffic flow along the approach roads to the M4 and the impact of such accidents on A&E at the Royal Gwent Hospital? What I am trying to get at is that, some time ago, the police changed an accident to an incident and that is what causes all these enormous delays on the road, whether the accident is serious or minor. Could I ask the Minister to persuade the police that perhaps, on some occasions, it is an accident and not an incident?
- Arweinydd y tŷ, byddwch yn cofio yr wythnos diwethaf i mi ofyn i chi am ddatganiad ar y gwelliannau interim i'r M4. Rwy'n sylwi nad yw'r hyn sy'n dod drwodd ar gyfer yr ychydig wythnosau nesaf ar eich datganiad. A gaf i ofyn yn y cyfamsr, cyn i'r Gweinidog wneud y datganiad hwnnw, iddi ofyn i'w swyddogion edrych yn ofalus ar yr hyn a ddigwyddodd y bore yma yn dilyn damwain ddifrifol ar yr M4? A allai hi edrych ar ymateb y gwasanaethau brys, llif y traffig ar hyd y ffordd ddosbarthu ddeheuol a ffyrdd cyfagos, patrymau llif y traffig ar hyd y ffyrdd sy'n arwain i'r M4 ac effaith damweiniau o'r fath ar yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Gwent? Yr hyn rwy'n ceisio ei ddweud yw bod yr heddlu, beth amser yn ôl, wedi newid damwain i ddigwyddiad, a dyna beth sy'n achosi'r holl oediadau enfawr hyn ar y ffordd, pa un a yw'r ddamwain yn ddifrifol neu'n un fach. A gaf i ofyn i'r Gweinidog ddarbwyllor heddlu efallai, ar rai achlysuron, mai damwain ydyw, ac nid digwyddiad?
- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Economy, Science and Transport did agree to give a statement on the interim improvements on the M4. I will ask her to take into account all the points you have just raised with me.
- Cytunodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i roi datganiad ar y gwelliannau dros dro ar yr M4. Byddaf yn gofyn iddi ystyried yr holl bwyntiau yr ydych chi newydd eu codi gyda mi.

14:30

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to ask for an urgent statement from your colleague, the Minister for Health and Social Services, because the First Minister did not directly answer my question in questions to the First Minister earlier. As you know, the Minister for health decided a few weeks ago that the special care baby unit at Withybush Hospital will close. Given that decision, and the decision by Hywel Dda health board to downgrade the paediatrics department, it is clear now that the hospital is being downgraded, which will have an enormous negative effect on the people whom I represent. The Minister for health said a few weeks ago, in responding to questions on his statement with regard to closing the special care baby unit, that there was nothing he could say to me regarding the slippery slope theory and that he was

'confident that Withybush hospital will continue to serve its local population'.

In view of those comments, I think it is now incumbent on him to clarify the Government's position on the future of services at the hospital, because, clearly, services are being downgraded at an extraordinary pace. I therefore urge you to press upon the Minister for health to bring forward a full oral statement on the future of the hospital as soon as possible.

Hoffwn ofyn am ddatganiad brys gan eich cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan na atebodd y Prif Weinidog fy nghwestiwn yn uniongyrchol yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog yn gynharach. Fel y gwyddoch, penderfynodd y Gweinidog iechyd ychydig wythnosau yn ôl y bydd yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg yn cau. O ystyried y penderfyniad hwnnw, a'r penderfyniad gan fwrdd iechyd Hywel Dda i israddio'r adran pediatreg, mae'n amlwg bellach bod yr ysbyty yn cael ei israddio, a fydd yn cael effaith negyddol enfawr ar y bobl yr wyf fi'n eu cynrychioli. Dywedodd y Gweinidog iechyd ychydig wythnosau yn ôl, wrth ymateb i gwestiynau am ei ddatganiad o ran cau'r uned gofal arbennig i fabanod, nad oedd unrhyw beth y gallai ei ddweud wrthyf ynglŷn â'r ddamcaniaeth drwg i waeth a'i fod yn

'hyderus y bydd ysbyty Llwynhelyg yn parhau i wasanaethu ei boblogaeth leol'.

O ystyried y sylwadau hynny, rwy'n credu ei bod yn ddyletsydd arno nawr i egluro safbwynt y Llywodraeth ar ddyfodol gwasanaethau yn yr ysbyty, oherwydd, yn amlwg, mae gwasanaethau yn cael eu hisraddio ar gyflymder rhyfeddol. Felly, rwy'n eich annog i bwysu ar y Gweinidog iechyd i gyflwyno datganiad llafar llawn ar ddyfodol yr ysbyty cyn gynted â phosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member will be aware that the Minister for Health and Social Services has made a statement regarding the services at Withybush Hospital. You will have heard the First Minister answer the question; he reassured both Members here, and the people in the area you represent, that Withybush Hospital is there to stay, the services are there to stay, and it is not being downgraded.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud datganiad ynghylch y gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg. Byddwch wedi clywed y Prif Weinidog yn ateb y cwestiwn; sicraodd yr Aelodau yma, a'r bobl yn yr ardal yr ydych chi'n ei chynrychioli, bod Ysbyty Llwynhelyg yno i aros, mae'r gwasanaethau yno i aros, ac nid yw'n cael ei israddio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As usual, Minister, as in the Enterprise and Business Committee, Eluned Parrott has beaten me to the question I was going to ask you on bringing forward a statement on ambulance response times. I would be grateful for that, and reiterate Eluned Parrott's calls for that, given the 6% drop in response times that was announced last week. Secondly, following on from the written statement last week on the Government's possible proposals for a development bank, I wonder whether we could have a debate or an oral statement in the Chamber as soon as possible about where we are with that. The sooner that that is brought forward and policy is developed, the better for businesses in Wales, which have waited far too long for the reform of Finance Wales.

Yn ôl yr arfer, Weinidog, fel yn y Pwyllgor Menter a Busnes, mae Eluned Parrott wedi gofyn y cwestiwn o fy mlaen yr oeddwn i'n mynd i'w ofyn i chi am gyflwyno datganiad ar amseroedd ymateb ambiwlansys. Byddwn yn ddiolchgar am hynny, ac rwy'n ailadrodd galwadau Eluned Parrott am hynny, o ystyried y gostyngiad o 6% i amseroedd ymateb a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Yn ail, yn dilyn y datganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf ar gynigion posibl y Llywodraeth ar gyfer banc datblygu, tybed a allem ni gael dadl neu ddatganiad llafar yn y Siambr cyn gynted â phosibl ar ein sefyllfa yn hynny o beth. Po gyntaf y cyflwynir hynny ac y datblygir polisi, y gorau y bydd i fusnesau yng Nghymru sydd wedi aros yn rhy hir o lawer am ddiwygio Cyllid Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will be aware of the statement to which you refer, and I am sure that discussions and preparatory advice to the Minister are ongoing.

Byddwch yn ymwybodol o'r datganiad yr ydych chi'n cyfeirio ato, ac rwy'n siŵr bod trafodaethau a chynngor paratoadol i'r Gweinidog yn parhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Cynnig i Atal Rheol Sefydlog 12.20(i) er mwyn Caniatáu i'r Eitem Nesaf o Fusnes Gael ei Thrafod

I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5425 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) er mwyn caniatáu i NDM5424 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth, 4 Chwefror 2014.

Motion to Suspend Standing Order 12.20(i) to Enable the Next Item of Business to be Debated

Llywydd / The Presiding

Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud y cynnig—Mark Drakeford.

Motion NDM5425 Mark Drakeford

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders 33.6 and 33.8:

Suspends Standing Order 12.20(i) to allow NDM5424 to be considered in Plenary on Tuesday 4th February 2014.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch, Lywydd. I move the motion asking Assembly Members to agree to suspend Standing Order 12.20(i) today so that we can debate an important legislative competence motion brought forward as a result of late amendments to the UK Children and Families Bill.

Diolch, Lywydd. Cynigiaf y cynnig i ofyn i Aelodau'r Cynulliad gytuno i atal Rheol Sefydlog 12.20 (i) heddiw fel y gallwn drafod cynnig cymhwysedd deddfwriaethol pwysig a gyflwynwyd o ganlyniad i ddiwygiadau hwyr i Fil Plant a Theuluoedd y DU.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â Phrynu Tybaco ac yn y blaen ar ran Plant, a Gwahardd Gwerthu Nwyddau sy'n cynnwys Nicotin (E-sigaréts ac yn y blaen) i Bobl o dan 18 oed a Chreu Troseddau Cysylltiedig

Cynnig NDM5424 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd sy'n ymwneud â phrynu neu ymgais i brynu tybaco neu bapurau sigarét ar ran personau sydd o dan 18 oed a gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed a throseddau, amddiffyniadau, cosbau a champau gorfodi etc cysylltiedig i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in relation to the Purchase of Tobacco etc on behalf of Children, and Prohibition of Sale of Nicotine Containing Products (E-cigarettes etc) to Persons under 18 and the Creation of Associated Offences

Motion NDM5424 Mark Drakeford

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Children and Families Bill relating to the purchase or attempted purchase of tobacco or cigarette papers on behalf of persons under the age of 18 and the prohibition of sale of nicotine products to persons under the age of 18 and associated offences, defences, penalties and enforcement etc. in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales should be considered by the UK Parliament.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Despite the very real concerns, which I know are felt around the Chamber, and shared by the Government, at the process we are having to follow today, I move the motion on the agenda.

I do so because it represents a further significant opportunity to take forward action on issues of relevance to tobacco use by people aged under 18. As we regularly agree here in the Senedd, it is very important that we take every action possible to reduce the harmful effects of tobacco use in Wales, which remains one of our most significant public health challenges.

The UK Government notified us on 22 January of its intention to introduce further amendments to the Children and Families Bill in relation to the proxy purchase of tobacco and a minimum age of sale of e-cigarettes and other nicotine products.

The amendment on proxy purchasing provides an opportunity to strengthen legislation relating to the ability of under 18-year-olds to access cigarettes. It is already an offence to sell them cigarettes, but we know that many young people have cigarettes bought for them by adults. Retailers, as well as public health interests, have argued for that loophole to be closed, and this LCM would allow that to happen.

With regard to e-cigarettes, Members contributed to a short debate on this issue, brought forward by Julie Morgan, on 11 December. Electronic cigarettes deliver nicotine, which is a highly addictive substance. Now, it is argued that these products can assist people who are already addicted to tobacco to tackle that addiction, and I do not dismiss those claims, even though there is as yet little published research to substantiate them. What is absolutely clear, however, is that we would not want a new generation of young people to become newly addicted to these products.

The amendment on e-cigarettes and other nicotine-containing products provides us with a first opportunity to legislate on e-cigarettes. If this LCM is approved today, then young people in Wales will be afforded equal protection, against an identical timetable, to young people in England. The amendment covers age of sale, such that e-cigarettes and other nicotine products could not be sold to those aged under 18. It also provides the opportunity for the Secretary of State to make regulations regarding the proxy purchase of nicotine products, including e-cigarettes. Consistent legislation in England and Wales would minimise burdens on businesses, aid enforcement, and support the communication of clear and consistent public health messages.

Er gwaethaf y pryderon gwirioneddol iawn, yr wyf yn gwybod sy'n cael eu teimlo o amgylch y Siambr, ac a rennir gan y Llywodraeth, am y broses yr ydym ni'n gorfod ei dilyn heddiw, cynigiad y cynnig ar yr agenda.

Rwy'n gwneud hynny oherwydd ei fod yn cynrychioli cyfle sylweddol arall i gyflwyno camau ar faterion sy'n berthnasol i ddefnydd tybaco ymhlith pobl dan 18 oed. Fel yr ydym yn cytuno yn rheolaidd yma yn y Senedd, mae'n bwysig iawn ein bod yn cymryd pob cam posibl i leihau effeithiau niweidiol defnyddio tybaco yng Nghymru, sy'n parhau i fod yn un o'n heriau iechyd cyhoeddus pwysicaf.

Fe'n hysbyswyd gan Lywodraeth y DU ar 22 Ionawr o'i bwriad i gyflwyno diwygiadau pellach i'r Bil Plant a Theuluoedd o ran prynu tybaco'n ddirprwyol ac oedran gofynnol ar gyfer gwerthu e-sigaréts a chynhyrchion nicotin eraill.

Mae'r diwygiad ar brynu dirprwyol yn rhoi cyfle i gryfhau deddfwriaeth yn ymwneud â gallu'r rhai dan 18 mlwydd oed i gael mynediad at sigaréts. Mae eisoes yn drosedd i werthu sigaréts iddyn nhw, ond rydym yn gwybod bod oedolion yn prynu sigaréts i lawer o bobl ifanc. Mae manwerthwyr, yn ogystal â buddiannau iechyd y cyhoedd, wedi dadlau i'r ddihangfa honno gael ei chau, a byddai'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn caniatáu i hynny ddigwydd.

O ran e-sigaréts, cyfrannodd yr Aelodau at ddadl fer ar y mater hwn, a gyflwynwyd gan Julie Morgan, ar 11 Rhagfyr. Mae sigaréts electronig yn darparu nicotin, sydd yn sylwedd hynod gaethiwus. Dadleuir nawr y gall y cynhyrchion hyn gynorthwyo pobl sydd eisoes yn gaeth i dybaco fynd i'r afael â'r gaethiwed honno, ac nid wyf yn diystyru'r honiadau hynny, er mai ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn i'w cadarnhau. Yr hyn sy'n gwbl amlwg, fodd bynnag, yw na fyddem eisiau i genhedlaeth newydd o bobl ifanc ddatblygu caethiwed newydd i'r cynhyrchion hyn.

Mae'r diwygiad ar e-sigaréts a chynhyrchion eraill sy'n cynnwys nicotin yn rhoi cyfle cyntaf i ni ddeddfu ar e-sigaréts. Os cymeradwyir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw, yna bydd pobl ifanc yng Nghymru wedyn yn cael yr un amddiffyniad, yn unol ag amserlen yn union yr un fath, â phobl ifanc yn Lloegr. Mae'r diwygiad yn cwmpasu oedran gwerthu, fel na cheid gwerthu e-sigaréts a chynhyrchion nicotin eraill i rai dan 18 oed. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch prynu dirprwyol o ran cynhyrchion nicotin, gan gynnwys e-sigaréts. Byddai deddfwriaeth gyson yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau bod y beichiau ar fusnesau cyn lleied â phosibl, yn helpu gwaith gorfodi, ac yn cefnogi cyfathrebu negeseuon iechyd cyhoeddus eglur a chyson.

Fodd bynnag, mae'r gwelliannau hwyr hyn wedi achosi anhawster i ni o ran amseriad. Mae'r Bil Plant a Theuluodded yn ei gamau terfynol yn Senedd y Deyrnas Unedig, a phe bai'r gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno yn cynnwys Cymru, byddai angen symud yn gyflym i gytuno ar gynnis cydsyniad deddfwriaethol. O dan y drefn arferol, byddai amser ar gael i un o bwyllgorau'r Cynulliad graffu'n llawn ar yr LCM. Yn anffodus, nid yw hyn wedi bod yn bosibl y tro hwn. Penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd cyflwyno'r gwelliannau hyn mor hwyr yn ystod taith y Bil, a, a dweud y gwir, dim ond ddydd Gwener diwethaf y cafodd y gwelliannau eu cyflwyno. Fel y mae Aelodau yn ei wybod, nid yw'n bosibl i ni gyhoeddi'r LCM cyn i'r gwelliannau gael eu cyflwyno. Dyna pam y gofynnais i'r Cynulliad atal y Rheol Sefydlog berthnasol er mwyn i ni allu trafod yr LCM. Er hynny, rwy'n credu bod hwn yn gyfle pwysig na ddylem ei gollu.

Mae ein swyddogion polisi, a'n swyddogion cyfreithiol, wedi bod yn trafod y gwelliannau gyda swyddogion yr Adran Iechyd yn San Steffan. Rydym wedi sicrhau darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael caniatâd Gweinidogion Cymru ynglŷn â'r rheoliadau ar e-sigarets, a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Dyna gyd-destun yr LCM sydd o flaen y Cynulliad, a dyna pam yr wyf yn gobeithio y byddwch chi'n cytuno ei bod yn bwysig i ni gael rhan yn y broses o lunio deddfwriaeth i Loegr a Chymru ar y materion hyn.

However, these late amendments have caused difficulties for us in terms of timing. The Children and Families Bill is in its final stages in the UK Parliament, and, if the amendments included were to include Wales, we would need to move swiftly in order to agree a legislative consent motion. Under the usual regime, time would be available for one of the Assembly Committees to scrutinise the LCM in full. Unfortunately, that has not been possible on this occasion. It was the decision of the UK Government to present these amendments at such a late stage in the Bill's journey, and, to be truthful, it was only last Friday that the amendments were tabled. As Members will be aware, it is not possible for us to publish the LCM before the amendments are tabled. That is why I asked the Assembly to suspend the relevant Standing Order so that we could discuss this LCM. However, I do believe that this is an important opportunity that we should not miss.

Our policy officials and our legal officials have been discussing these amendments with representatives of the Department of Health in Westminster. We have ensured provision that makes it a requirement of the Secretary of State to have the consent of Welsh Ministers with regard to the regulations on e-cigarettes, which would fall within the legislative competence of the Assembly.

That is the context of the LCM before the Assembly, and that is why I hope that you will agree that it is important that we have a part in this process of making legislation for England and Wales on these issues.

14:39

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, may I congratulate the Minister on managing to get through that statement? I thought that he was going to keel over at the end, but he made it. [Laughter.]

I rise to support the Minister in seeking the legislative consent motion that is before the Assembly today. Like him, I believe that this is an opportunity that we cannot afford to miss, and that we must do everything that we can to tackle the scourge of addiction to nicotine, which is prevalent across Wales. The Minister has quite rightly pointed out that, unfortunately, there are adults over the age of 18 who do buy nicotine products for young people. Regrettably, that is the case, and this, of course, will give an opportunity, if granted, for England-and-Wales legislation to be able to deal with that particular problem.

However, I am also very pleased to see some action being taken by the UK Government to tackle the problem of e-cigarettes and their availability to young people under the age of 18. There is every possibility, of course, that young people could progress from using e-cigarettes to taking up smoking, which we know is very harmful for their health. Nicotine is a very addictive substance. It is not something that I would want to encourage young people to take up as an addiction, whether that is through smoking or e-cigarettes in the future. We understand that, while the harm associated with e-cigarettes has yet to be completely researched, there is every possibility that they may found to be harmful in the future.

Yn gyntaf oll, a gaf i longyfarch y Gweinidog ar lwyddo i gael drwy'r datganiad yna? Roeddwn i'n meddwl ei fod yn mynd i lewygu tua'r diwedd, ond fe ddaeth i ben â hi. [Chwerthin.]

Rwy'n codi i gefnogi'r Gweinidog wrth ofyn am y cynnis cydsyniad deddfwriaethol sydd gerbron y Cynulliad heddiw. Fel yntau, rwy'n credu bod hwn yn gyfle na allwn fforddio ei gollu, a bod yn rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i fynd i'r afael â phla caethiwed i nicotin, sy'n gyffredin ledled Cymru. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio'n gwbl gywir at y ffaith, yn anffodus, bod oedolion dros 18 oed yn prynu cynhyrchion nicotin i bobl ifanc. Yn anffodus, mae hynny'n wir, a bydd hyn, wrth gwrs, yn rhoi cyfle, os caiff ei ganiatáu, i ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr allu ymdrin â'r broblem benodol honno.

Fodd bynnag, rwyf hefyd yn falch iawn o weld Llywodraeth y DU yn cymryd rhai camau i fynd i'r afael â'r broblem o e-sigaréts a'r ffaith eu bod ar gael i bobl ifanc dan 18 oed. Mae'n gwbl bosibl, wrth gwrs, y gallai pobl ifanc symud ymlaen o ddefnyddio e-sigaréts i ddechrau ysmegu, a gwyddom fod hynny'n niweidiol iawn i'w hiechyd. Mae nicotin yn sylwedd caethiwus iawn. Nid yw'n rhywbeth y byddwn eisiau annog pobl ifanc i ddechrau ei gymryd fel caethiwed, boed hynny trwy ysmegu neu e-sigaréts yn y dyfodol. Rydym yn deall, er nad yw'r niwed sy'n gysylltiedig ag e-sigaréts wedi cael ei ymchwilio'n llawn eto, ei bod yn gwbl bosibl y gellid canfod eu bod yn niweidiol yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Let us just put this into context. We know that 39 teenagers every day take up smoking in Wales. We know that 600,000 adults smoke in Wales. They are, simply, symptomatic of nicotine addiction. So, if we stem the tide of nicotine addiction, as I hope that measures being taken as a result of this LCM might be able to do in the future, I think that is a very positive thing we can do. Therefore, I support this LCM. It is a matter of regret that we have not had a longer opportunity to be able to discuss it, I understand that, but there is this opportunity; I believe that we have to grasp it with both hands.

Gadewch i ni roi hyn yn ei gyd-destun. Rydym yn gwybod bod 39 o bobl ifanc yn eu harddegau'n dechrau ysmegu yng Nghymru bob dydd. Rydym yn gwybod bod 600,000 o oedolion yn ysmegu yng Nghymru. Yn syml, maen nhw'n symptomatig o gaethiwed i nicotin. Felly, os gallwn ni atal y llif o ddibyniaeth ar nicotin, fel rwyf yn gobeithio y gallai mesurau a gymerir o ganlyniad i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn ei wneud yn y dyfodol, rwy'n meddwl ei fod yn beth cadarnhaol iawn y gallwn ei wneud. Felly, rwy'n cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Mae'n destun gofid nad ydym wedi cael cyfle hwy i allu ei drafod, rwy'n deall hynny, ond mae cyfle ar gael yma i ni; rwy'n credu bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn manteisio arno.

14:41

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also want to speak in support of this legislative consent motion. I know it is being done in a rush, but it is an opportunity that is too good to miss. The Minister referred to the fact that I had a short debate, just before Christmas, about e-cigarettes. I think that, in that debate, the danger to the young was particularly highlighted in view of the fact that the manufacturers of e-cigarettes, which, increasingly, are big tobacco firms, have tried to use all the wiles that they have to get young people to buy them by having a very socially-attractive, trendy way of displaying them. They often have celebrity endorsements and, really, aim to target young people in particular. I think that, by appealing to young people, the tobacco producers are trying to entice them into a life of smoking, and e-cigarettes may become a gateway for young people to actual cigarettes.

So, I support this legislative consent motion. It is another step in the preventative health agenda. We talked earlier in the Chamber about having debates on cancer and all the progress that we are making in that field, but also the huge burden that that puts on our population. I think we all know that one of the biggest things that we can do to stop that is to restrict smoking and, in particular, to stop our young people from starting to smoke. So, I support this LCM.

Rwyf innau hefyd eisiau siarad o blaid y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Rwy'n gwybod ei fod yn cael ei wneud ar frys, ond mae'n gyfle sy'n rhy dda i'w golli. Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith fy mod i wedi cael dadl fer, ychydig cyn y Nadolig, am e-sigarêts. Rwy'n credu yr amlygwyd y perygl i bobl ifanc yn enwedig yn y ddadl honno, o ystyried y ffaith fod gweithgynhyrchwyr e-sigarêts, sydd, yn gynyddol, yn gwmnïau tybaco mawr, wedi ceisio defnyddio'r holl gynllwynion sydd ganddynt i gael pobl ifanc i'w prynu trwy gael ffordd hynod ddeniadol yn gymdeithasol, a ffasiynol o'u harddangos. Fe'u cymeradwyir gan bobl enwog yn aml ac, mewn gwirionedd, eu nod yw targedu pobl ifanc yn arbennig. Credaf, trwy apelio at bobl ifanc, bod y cynhyrchwyr tybaco yn ceisio eu denu i fywyd o ysmegu, ac efallai y bydd e-sigarêts yn troi'n borth at sigarêts go iawn i bobl ifanc.

Felly, rwy'n cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Mae'n gam arall yn yr agenda iechyd ataliol. Buom yn siarad yn gynharach yn y Siambr am gael dadleuon ar ganser a'r holl gynnydd rydym ni'n ei wneud yn y maes hwnnw, ond hefyd y baich enfawr y mae hynny'n ei roi ar ein poblogaeth. Rwy'n credu ein bod i gyd yn gwybod mai un o'r pethau mwyaf y gallwn ei wneud i atal hynny yw cyfyngu ysmegu ac, yn arbennig, atal ein pobl ifanc rhag dechrau ysmegu. Felly, rwy'n cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:43

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also support this LCM, although, obviously, I would prefer that we follow our own procedures, which include consultation with interested parties, the public and, of course, full scrutiny by our own committees. However, I think that we can all accept that the Westminster legislation provides a convenient opportunity to achieve an outcome that very few people would argue with, and that is, of course, the protection of under 18s from the temptation of tobacco and nicotine products, including e-cigarettes. I heard what the Minister said, but I think that most of us would accept that e-cigarettes offer an option for those who want to take nicotine but do not want the tar from tobacco smoking. We should welcome any evidence that smokers are using e-cigarettes to give up tobacco, but we must acknowledge that nicotine in itself is a highly addictive drug, probably more addictive than cocaine.

Rwyf innau hefyd yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, er, yn amlwg, y byddai'n well gennyf ein bod yn dilyn ein gweithdrefnau ein hunain, sy'n cynnwys ymgynghori â phartion â buddiant, y cyhoedd ac, wrth gwrs, craffu llawn gan ein pwyllgorau ein hunain. Fodd bynnag, rwy'n credu y gall pob un ohonom dderbyn bod y deddfwriaeth yn San Steffan yn cynnig cyfle cyfleus i sicrhau canlyniad y byddai ychydig iawn o bobl yn dadlau ag ef, a hynny yw, wrth gwrs, amddiffyn pobl dan 18 oed rhag temtasiwn cynhyrchion tybaco a nicotin, gan gynnwys e-sigarêts. Clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, ond rwy'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn derbyn bod e-sigarêts yn cynnig dewis arall i'r rhai sydd eisiau cymryd nicotin ond nad ydynt eisiau'r tar o ysmegu tybaco. Dylem groesawu unrhyw dystiolaeth fod ysmygwyr yn defnyddio e-sigarêts i roi'r gorau i dybaco, ond mae'n rhaid i ni gydnabod bod nicotin ei hun yn gyffur hynod gaethiwus, yn fwy caethiwus na chocên yn ôl pob tebyg.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

This measure is aimed at protecting young people who may be tempted, of course, to use e-cigarettes to begin their addiction to nicotine. I understand that, but many youngsters, Minister, will, of course, have started smoking tobacco in their very early teens. They may wish to kick the habit before they are 18 and will not have the option, as adults would have, of turning to nicotine tobacco substitutes, such as e-cigarettes, as an aid to stop smoking.

I would really like to hear the Minister's view on how tobacco substitutes can be made available to young quitting smokers, or perhaps pregnant teenagers, while preventing others under 18 years old from getting their hands on a drug to which I can assure them they will remain addicted for the rest of their lives?

14:45

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his statement. I do not know about restricting cigarettes, but it sounds like that the Minister, after a year in the job, has resorted to the Woodbines today. [Laughter.] The Welsh Liberal Democrats are pleased to support the LCM before the Chamber. Like other speakers, we are aware that it is not ideal that normal practice procedures have not been followed by the Assembly in this case because of the oddities of how Westminster does its legislation. However, the opportunity is the right one to grasp today to ensure that we put similar restrictions in place to those that seek to buy tobacco for younger people and restrictions on e-cigarettes for the reasons that have been outlined by other speakers.

We note that smoking often starts during adolescence. Young people can be particularly vulnerable to the addictive nature of nicotine; therefore, any steps that we can take to prevent that from happening are to be welcomed. Julie Morgan talked about the strides that we are making in Wales in terms of cancer treatment, and they are very welcome indeed. However, today we are seeing international reports about how western countries' health systems are likely to become overwhelmed by cancer numbers in the decades to come. Therefore, policy initiatives do need to radically shift, not only to treating cancer but to preventing cancers in the first place. Restrictions on tobacco and nicotine are appropriate policy interventions to try to achieve those goals.

Nod y mesur hwn wrth gwrs yw amddiffyn pobl ifanc a allai gael eu temtio, wrth gwrs, i ddefnyddio e-sigarêts i ddechrau eu caethiwed i nicotin. Rwy'n deall hynny, ond bydd llawer o bobl ifanc, Weinidog, wrth gwrs, wedi dechrau ysmegu tybaco yn eu harddegau cynnar iawn. Efallai y byddant eisiau rhoi'r gorau i'r arfer cyn eu bod yn 18 oed ac na fyddai ganddynt ddewis, fel y byddai gan oedolion, o droi at amnewidion tybaco nicotin, megis e-sigarêts, fel cymorth i roi'r gorau i ysmegu.

Byddwn wir yn hoffi clywed barn y Gweinidog ar sut y gellir gwneud amnewidion tybaco ar gael i ysmygwyr ifanc sy'n rhoi'r gorau iddi, neu bobl yn eu harddegau sy'n feichiog efallai, gan atal pobl eraill dan 18 oed rhag cael eu dwylo ar gyffwr y gallaf eu sicrhau y byddant yn gaeth iddo am weddill eu bywydau?

Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Nid wyf yn gwybod am gyfyngu ar sigarêts, ond mae'n swnio fel bod y Gweinidog, ar ôl blwyddyn yn y swydd, wedi troi at y Woodbines heddiw. [Chwerthin.] Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn falch o gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd gerbron y Siambr. Fel y siaradwyr eraill, rydym yn ymwybodol nad yw'n ddelfrydol nad yw gweithdrefnau arfer arferol wedi eu dilyn gan y Cynulliad yn yr achos hwn oherwydd y ffordd ryfedd y mae San Steffan yn llunio ei ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae hwn yn gyfle iawn i fanteisio arno heddiw i sicrhau ein bod yn rhoi cyfyngiadau tebyg ar waith i'r rhai sy'n ceisio prynu tybaco i bobl iau a chyfyngiadau ar e-sigarêts am y rhesymau a amlinellwyd gan siaradwyr eraill.

Rydym yn nodi bod ysmegu yn aml yn dechrau yn ystod llencyndod. Gall pobl ifanc fod yn arbennig o agored i natur gaethiwus nicotin; felly, dylid croesawu unrhyw gamau y gallwn eu cymryd i atal hynny rhag digwydd. Siaradodd Julie Morgan am y camau yr ydym ni'n eu cyflawni yng Nghymru o ran triniaeth canser, ac maent i'w croesawu'n fawr iawn yn wir. Fodd bynnag, rydym ni'n gweld heddiw gwahanol adroddiadau rhyngwladol am sut mae systemau iechyd gwledydd y gorllewin yn debygol o gael eu gorlethu gan nifer yr achosion o ganser yn ystod y degawdau nesaf. Felly, mae angen i fentrau polisi symud yn sylweddol, nid yn unig i drin canser ond i atal canser yn y lle cyntaf. Mae cyfyngiadau ar dybaco a nicotin yn ymyriadau polisi priodol i geisio cyflawni'r nodau hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rebecca Evans [Bywgraffiad Biography](#)

I am also pleased to support this SLCM today, although I do regret the UK Government's timing. However, I agree that this is an opportunity that we should not miss. I am especially pleased to see the proxy purchasing of tobacco products being addressed, because the evidence repeatedly tells us that proxy purchasing is one of the most significant sources of access to tobacco for those under 18 years old. In fact, more than 40% of 15-year-olds who smoke say that they usually buy their cigarettes from other people rather than from a shop; and 95% of 11 to 15-year-olds who smoke say that they have managed to get someone else to buy cigarettes for them in the shop at least once in the last year. Proxy purchasing has been an offence in Scotland since 2011, so I would be keen to know whether there are lessons that we can learn from or build upon from the Scottish experience, and whether there has been any kind of impact assessment of it on the take-up of smoking among young people. I have not been able to find that information, but the Minister might have better knowledge than me.

Matters covered under this LCM and those relating to plain packaging, which we debated just a couple of weeks ago, will certainly go some way to preventing young people from taking up smoking, but I do not think that this is the end of the story. The matters that are not covered in the Children and Families Bill that I would like to see the Welsh Government taking forward include a more strategic approach to preventing very vulnerable children from taking up smoking. We know, for example, that smoking rates among looked-after children are particularly high, with around a third reporting that they are current smokers. When we look at children in residential care we see that the figure rises to more than two thirds. So, while the measures in the Children and Families Bill are very welcomed, I urge the Welsh Government to continue to lead on this issue, as it has done with the banning of sales of tobacco from vending machines, for example.

Rwyf innau hefyd yn falch o gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol arbennig hwn heddiw, er fy mod o'r farn bod amseriad Llywodraeth y DU yn anffodus. Fodd bynnag, rwy'n cytuno bod hwn yn gyfle na ddylem ei gollu. Rwy'n arbennig o falch o weld prynu dirprwyol o gynhyrchion tybaco yn cael sylw, gan fod y dystiolaeth yn dweud wrthym dro ar ôl tro bod prynu dirprwyol yn un o'r fffynonellau mwyaf arwyddocaol o ran mynediad at dybaco i'r rhai dan 18 oed. A dweud y gwir, mae mwy na 40% o bobl ifanc 15 mlwydd oed sy'n ysmegu yn dweud eu bod yn prynu eu sigarêts gan bobl eraill fel arfer, yn hytrach nag o siop, ac mae 95% o bobl ifanc 11 i 15 oed sy'n ysmegu yn dweud eu bod wedi llwyddo i gael rhywun arall i brynu sigarêts iddynt yn y siop o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae prynu dirprwyol wedi bod yn drosedd yn yr Alban ers 2011, felly byddwn yn awyddus i wybod a oes gwersi y gallwn eu dysgu neu adeiladu arnynt o brofiad yr Alban, a pha un a fu unrhyw fath o asesiad o effaith ar y niferoedd sy'n dechrau ysmegu ymhlith pobl ifanc. Nid wyf wedi gallu dod o hyd i'r wybodaeth honno, ond efallai y bydd gan y Gweinidog well gwybodaeth na mi.

Bydd materion a gwmpesir gan y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn a'r rhai yn ymwneud â pheynnau plaen, a drafodwyd gennym dim ond wythnos neu ddwy yn ôl, yn sicr yn gwneud cryn dipyn i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmegu, ond nid wyf yn credu mai dyma ddiwedd y stori. Mae'r materion nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Bil Plant a Theuluoedd yr hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â nhw yn cynnwys dull mwy strategol o atal plant sy'n agored iawn i niwed rhag dechrau ysmegu. Gwyddom, er enghraifft, fod cyfraddau ysmegu ymhlith plant sy'n derbyn gofal yn arbennig o uchel, gydag un o bob tri ohonynt yn dweud eu bod yn ysmegwyr ar hyn o bryd. Pan edrychwn ar blant mewn gofal preswyl, rydym yn gweld bod y ffigur yn codi i fwy na dau o bob tri. Felly, er y dylid croesawu'r mesurau yn y Bil Plant a Theuluoedd yn fawr, rwy'n annog Llywodraeth Cymru i barhau i arwain ar y mater hwn, fel y mae wedi ei wneud trwy wahardd gwerthu tybaco o beiriannau gwerthu, er enghraifft.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddatl.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I thank Members for their understanding of the process that we have to follow today, and also for their support for the LCM itself. A whole range of important points have been made in the debate. Darren Millar was absolutely right to say that 39 young people in Wales take up smoking on an average day. We know, as Rebecca Evans has mentioned, that almost all of those will have obtained their cigarettes from someone else who bought them in the first place. That is why the moves in terms of proxy purchasing that this LCM will allow are so important. I am hoping to meet the Scottish Minister for health in the next few weeks and I will certainly take the opportunity to ask him about the emerging evidence in Scotland on this point. We hope to take some of that learning into the public health White Paper that we, as a Government, will publish in the coming weeks, which takes a wider and more strategic view of the problem that Rebecca mentioned.

Kirsty Williams is completely right to say that what we are talking about here are cancers that are entirely preventable. If you look at the patient experience survey, which has been mentioned in the Chamber this afternoon, you will see that some of the starkest experiences are among people who suffer from lung cancer. That is because no matter how careful the service or how sensitively that service is provided, the news that is being given to those people is very bleak indeed. They will know that, very often, what is happening to them was eminently preventable. The LCM will help us to prevent those awful illnesses in a future generation of young people.

Jocelyn Davies raised a particular issue in relation to young people and other nicotine products that can help people to give up the use of tobacco. I will reassure the Chamber that the powers that will be given to the Secretary of State under the legislation that we are discussing this afternoon would allow the Secretary of State to exclude from the regulations the sale of nicotine products to those under 18 years old that either contain naturally occurring nicotine, as some vegetables do, and also those nicotine products that fall under the medicines regime, such as nicotine gum and patches, which will be exempted from the ban on the provision of nicotine products to those under 18 years old. Medicinal products will continue to be available to people under the age of 18 who are already addicted to tobacco, despite this general regulation.

Finally, I will re-emphasise what Julie Morgan said today. The fear about e-cigarettes is that they allow a re-normalisation of smoking—a battle in which a great deal of ground has been gained over the last 30 years. They are a gateway product and we do not want our young people to be able to use them and then go on to using something far worse. The proposals in front of the Assembly today are practical, proportionate and, where e-cigarettes are concerned, properly precautionary. I hope that Members will support the LCM.

Diolchaf i'r Aelodau am eu dealltwriaeth o'r broses y mae'n rhaid i ni ei dilyn heddiw, a hefyd am eu cefnogaeth i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ei hun. Gwnaed amrywiaeth eang o bwyntiau pwysig yn y ddadl. Roedd Darren Millar yn llygad ei le i ddweud bod 39 o bobl ifanc yng Nghymru yn dechrau ysmegu bob dydd ar gyfartaledd. Rydym yn gwybod, fel y mae Rebecca Evans wedi ei grybwyll, y bydd bron pob un o'r rheini wedi cael eu sigarêts gan rywun arall a'u prynodd nhw yn y lle cyntaf. Dyna pam y mae'r camau o ran prynu dirprwyol y bydd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn eu caniatáu mor bwysig. Rwy'n gobeithio cyfarfod â Gweinidog Iechyd yr Alban yn ystod yr wythnosau nesaf, a byddaf yn sicr yn achub ar y cyfle i ofyn iddo am y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn yr Alban ar y pwynt hwn. Rydym yn gobeithio defnyddio rhan o'r hyn a ddysgir i'w roi yn y Papur Gwyn Iechyd y cyhoedd y byddwn ni, fel Llywodraeth, yn ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf, sy'n cymryd golwg ehangach a mwy strategol ar y broblem a grybwyllwyd gan Rebecca.

Mae Kirsty Williams yn gwbl gywir i ddweud mai'r hyn yr ydym yn sôn amdano yma yw canserau y mae'n gwbl bosibl eu hatal. Os edrychwch chi ar yr arolwg profiad y claf, sydd wedi cael ei grybwyll yn y Siambr y prynhawn yma, byddwch yn gweld bod rhai o'r profiadau mwyaf llwm ymhlith pobl sy'n dioddef o ganser yr ysgyfaint. Mae hynny oherwydd waeth pa mor ofalus yw'r gwasanaeth neu ba mor sensitif darperir y gwasanaeth hwnnw, mae'r newyddion a roddir i'r bobl hynny yn llwm iawn yn wir. Byddant yn gwybod, yn aml iawn, ei bod yn amlwg y gellid fod wedi atal yr hyn sy'n digwydd iddynt. Bydd cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ein helpu i atal yr afiechydon erchyll hynny mewn cenhedlaeth o bobl ifanc yn y dyfodol.

Cododd Jocelyn Davies fater penodol yn ymwneud â phobl ifanc a chynhyrchion nicotin eraill a all helpu pobl i roi'r gorau i ddefnyddio tybaco. Byddaf yn rhoi sicrwydd i'r Siambr y byddai'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol dan y ddeddfwriaeth yr ydym ni'n ei thrafod y prynhawn yma yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol eithrio o'r rheoliadau gwerthu nwyddau nicotin i rai dan 18 oed, sydd naill ai'n cynnwys nicotin sy'n digwydd yn naturiol, fel y mae rhai llysiau, yn ogystal â'r cynhyrchion nicotin hynny sy'n dod o dan y drefn feddyginiaethau, fel gwm a chlytiau nicotin, a fydd yn cael eu heithrio o'r gwaharddiad ar ddarparu cynhyrchion nicotin i rai dan 18 oed. Bydd cynhyrchion meddyginiaethol yn parhau i fod ar gael i bobl dan 18 oed sydd eisoes yn gaeth i dybaco, er gwaethaf y rheoliad cyffredinol hwn.

Yn olaf, hoffwn ail-bwysleisio'r hyn a ddywedodd Julie Morgan heddiw. Yr ofn am e-sigarêts yw eu bod yn caniatáu i ysmegu gael ei ail-normaleiddio—brwydr lle yr enillwyd llawer iawn o dir dros y 30 mlynedd diwethaf. Maen nhw'n gynnyrch porth ac nid ydym eisiau i'n pobl ifanc gael eu defnyddio, ac yna mynd ymlaen i ddefnyddio rhywbeth llawer gwaeth. Mae'r cynigion gerbron y Cynulliad heddiw yn ymarferol, yn gymesur ac, o safbwynt e-sigarêts, yn cymryd rhagofalon priodol. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

14:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.	Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.
	<i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
14:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I now propose to suspend proceedings for a period of 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we are due to reconvene for Stage 3 proceedings on the Social Services and Well-being (Wales) Bill.	Rwyf yn awr yn bwriadu atal y trafodion am 10 munud. Caiff y gloch ei chanu bum munud cyn inni ailymgynnull i ystyried trafodion Cyfnod 3 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
	<i>Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 14:53.</i>	<i>Plenary was suspended at 14:53.</i>
	<i>Ailymgynullodd y Cynulliad am 15:03.</i>	<i>The Assembly reconvened at 15:03.</i>
15:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The National Assembly is now in session.	Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awr yn eistedd.
	Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Social Services and Well-Being (Wales) Bill
	Grŵp 1: Egwyddorion Statudol a Dyletswyddau Hollgyffredinol (Gwelliannau 293, 9A, 9B, 9, 10, 61, 62, 63, 64, 109, 110, 111, 292 a 112)	Group 1: Statutory Principles and Overarching Duties (Amendments 293, 9A, 9B, 9, 10, 61, 62, 63, 64, 109, 110, 111, 292 and 112)
15:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The lead amendment in the group is amendment 293. I call on Kirsty Williams to move and speak to the lead amendment and other amendments in the group.	Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 293. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnis y prif welliant ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
15:04	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 293 in my name.	Cynigaf welliant 293 yn fy enw i.
	Amendment 293 would place statutory principles on the face of the Bill. During the committee scrutiny stage of the legislation, the first recommendation by the Health and Social Care Committee, which was unanimously agreed by all members of the committee, was the desirability of placing statutory principles on the face of the Bill. Recommendation 1 stated,	Byddai gwelliant 293 yn gosod egwyddorion statudol ar wyneb y Bil. Yn ystod y cyfnod pan fu'r pwyllgor yn craffu ar y ddeddfwriaeth, yr argymhelliad cyntaf gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y cytunodd pob aelod o'r pwyllgor arno'n unfrydol, oedd y byddai'n ddymunol gosod egwyddorion statudol ar wyneb y Bil. Roedd argymhelliad 1 yn nodi,
	'We agree with the views of witnesses that statutory principles should be included on the face of the Bill. We believe that such principles would assist practitioners and service users in understanding the ethos of the Bill. Whilst we accept that Codes of Practice are important, we believe that statutory principles on the face of the Bill would help create a framework for delivery against Codes of Practice.'	'Cytunwn â barn tystion y dylai egwyddorion statudol gael eu cynnwys ar wyneb y Bil. Credwn y byddai egwyddorion o'r fath yn help i ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau ddeall ethos y Bil. Er ein bod yn derbyn bod Codau Ymarfer yn bwysig, credwn y byddai egwyddorion statudol ar wyneb y Bil yn help i greu fframwaith cyflawni yn erbyn Codau Ymarfer.'
	Amendment 293 reflects the wording of such statutory principles that was agreed in committee during its deliberations and consultation.	Mae gwelliant 293 yn adlewyrchu geiriad egwyddorion statudol o'r fath y cytunwyd arno yn y pwyllgor wrth iddo drafod ac ymgynghori.

Without doubt, Presiding Officer, the Bill before us today is a large and complicated piece of legislation. I believe most sincerely that it would benefit from having statutory principles on the face of it to ease public understanding of the Bill's intention.

The principles outlined in amendment 293 state quite clearly, and are in perfect harmony with, the intentions of the Deputy Minister. It is, therefore, a matter of regret to me that the Deputy Minister did not feel able to support them at an earlier stage. The principles quite clearly state that the welfare of any child in need of care and support shall be paramount in any consideration; that anything done under the auspices of this legislation in the case of an adult must seek to maximise their independence and autonomy; that any decisions made under this Act should promote dignity, safety and the wellbeing of people; and that a person must be involved, so far as is practicable, in any decision in relation to their care assessment and subsequent care and support plans and, where a person's ability to communicate is impaired through disability, age or otherwise, that appropriate support should be given to that individual to enable them to have a say over their future care. These, I think, are perfectly in tune with what the Deputy Minister hopes and states that she wants this legislation to deliver.

The call for statutory principles is one that has been made not just by the committee. The older people's commissioner stated:

'I have previously called on Welsh Government to introduce statutory principles on the face of the Bill in order to uphold the human rights of all those affected by it and I am extremely...disappointed that this is not reflected in the current draft'.

Those concerns were echoed by other groups, such as Age Cymru and the advisory group of voluntary sector and service organisations that has come together to assist an aid Assembly Members in their deliberation of this legislation. The Public Services Ombudsman for Wales also agrees. He expressed his desire for statutory principles on the face of the Bill to assist him and his work, and to ensure that, where difficulties arise out of legislation, there are clear principles. He said:

'One of the great difficulties that you face as an ombudsman, or anyone dealing with complaints, is that if there is not a precision about what somebody's entitlement is, then there is always a great possibility of misunderstanding. Therefore, the provider, on the one hand, can take a view that they are meeting the requirements, whereas the recipient could have read the legislation in an entirely different way. A lot of the time, the way to address any problems of that kind is through guidance—particularly statutory guidance'.

Heb amheuaeth, Lywydd, mae'r Bil sydd ger ein bron heddiw'n ddarn mawr a chymhleth o ddeddfwriaeth. Rwyf yn credu'n gwbl ddiffuant y byddai'n fuddiol rhoi egwyddorion statudol ar ei wyneb i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd ddeall bwriad y Bil.

Mae'r egwyddorion a amlinellir yng ngwelliant 293 yn datgan yn eithaf clir beth yw bwriadau'r Dirprwy Weinidog, ac maent mewn cytgorod llwyr â hwy. Felly, mae'n resyn gennyf nad oedd y Dirprwy Weinidog yn teimlo y gallai eu cefnogi'n gynharach yn y broses. Mae'r egwyddorion yn nodi'n eithaf clir y bydd lles unrhyw blentyn y mae arno angen gofal a chefnogaeth yn hollbwysig yn unrhyw ystyriaeth; bod yn rhaid i unrhyw beth a wneir dan adain y ddeddfwriaeth hon, yn achos oedolion, geisio hybu eu hannibyniaeth a'u hymreolaeth i'r eithaf; y dylai unrhyw benderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf hon hybu urddas, diogelwch a llesiant pobl; a bod yn rhaid cynnwys unigolyn, cyn belled ag y bo'n ymarferol, mewn unrhyw benderfyniad ynglŷn â'i asesiad gofal a'i gynlluniau gofal a chymorth dilynol, a phan fo anabledd, oed neu ffactor arall yn amharu ar allu unigolyn i gyfathrebu, y dylid rhoi cymorth priodol i'r unigolyn hwnnw i'w alluogi i gael dweud ei ddweud ynghylch ei ofal yn y dyfodol. Mae'r rhain, yn fy marn i, yn cyd-fynd yn berffaith â'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei obeithio ac yn dweud ei bod am i'r ddeddfwriaeth hon ei gyflawni.

Nid dim ond y pwyllgor sydd wedi galw am egwyddorion statudol. Dywedodd y comisiynydd pobl hŷn:

Rwyf wedi galw yn y gorffennol ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno egwyddorion statudol ar wyneb y Bil er mwyn diogelu hawliau dynol pawb y mae'n effeithio arnynt, ac rwyf yn hynod ... siomedig nad yw'r drafft presennol yn adlewyrchu hyn.

Cafodd y pryderon hynny eu hadleisio gan grwpiau eraill, megis Age Cymru a'r grŵp cyngori sy'n cynnwys sefydliadau'r sector gwirfoddol a gwasanaethau a ddaeth at ei gilydd i helpu Aelodau'r Cynulliad i drafod y ddeddfwriaeth hon. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn cytuno. Mynegodd ei awydd am egwyddorion statudol ar wyneb y Bil i'w gynorthwyo ef a'i waith, ac i sicrhau, lle ceir anawsterau sy'n deillio o ddeddfwriaeth, y ceir egwyddorion clir. Dywedodd:

Un o'r anawsterau mawr sy'n eich wynebu fel ombwdsmon, neu unrhyw un sy'n ymdrin â chwynion, yw ei bod bob amser yn bosibl iawn y ceir camddealltwriaeth oni nodir yn fanwl iawn beth yw hawliau rhywun. Felly, gall y darparwr, ar y naill law, fod o'r farn ei fod yn bodloni'r gofynion, ond gallai'r derbynnydd fod wedi darllen y ddeddfwriaeth mewn ffordd hollol wahanol. Yn aml, drwy ganllawiau y mae ymdrin ag unrhyw broblemau o'r math hwnnw—yn enwedig canllawiau statudol.

Presiding Officer, the evidence that was received by the committee was overwhelming in this regard. So much so that all members of the committee agreed on the desirability of such an amendment that was reported to the Chamber. Given the nature of the statutory principles outlined in amendment 293, I am, frankly, at a loss as to why the Government continued to resist such a move. Surely, it is in the interests of everybody that legislation is easily understood and accessible. These principles would aid practitioners and those in receipt of services in understanding what lies behind the legislation before us today.

Lywydd, clywodd y pwyllgor dystiolaeth ysgubol yn hyn o beth—i'r fath raddau nes bod holl aelodau'r pwyllgor yn cytuno y byddai'n ddymunol cyflwyno gwelliant o'r fath i'r Siambr. O gofio natur yr egwyddorion statudol a amlinellir yng ngwelliant 293, nid oes gennyf ddim syniad a dweud y gwir pam y mae'r Llywodraeth yn parhau i wrthwynebu symudiad o'r fath. Onid yw er budd pawb fod deddfwriaeth yn hawdd ei deall ac yn hygyrch? Byddai'r egwyddorion hyn yn cynorthwyo ymarferwyr a phobl sy'n derbyn gwasanaethau i ddeall yr hyn sydd y tu ôl i'r deddfwriaeth sydd ger ein bron heddiw.

15:09 **William Graham** [Bywgraffiad Biography](#)

I rise to promote amendment 9A. I speak to that amendment, and to amendments 9B, 9, 61, 62, 63 and 64.

Codaf i hybu gwelliant 9A. Siaradaf am y gwelliant hwnnw, ac am welliannau 9B, 9, 61, 62, 63 a 64.

Although we welcome the Government's amendment 9, our amendment inserts a new section on wellbeing duty. Our amendment seeks to ensure that there is a duty to provide services to a person or carer who is likely to develop needs for care and support in future. The amendment enhances the preventative intention underpinning the Bill by promoting early intervention.

Er ein bod yn croesawu gwelliant 9 y Llywodraeth, mae ein gwelliant yn mewnosod adran newydd ynghylch y ddyletswydd llesiant. Mae ein gwelliant yn ceisio sicrhau bod dyletswydd i ddarparu gwasanaethau i unigolyn neu ofalwr sy'n debygol o ddatblygu anghenion gofal a chymorth yn y dyfodol. Mae'r gwelliant yn gwella'r bwriad ataliol sy'n sail i'r Bil drwy hybu ymyrraeth gynnar.

Practitioners from the Chartered Society of Physiotherapy state that such an amendment will meet and extend the duty to provide services to a person for whom early intervention would prevent or delay the development of care and support needs and meet the intention to improve wellbeing. A duty to assess those at risk of developing care and support needs in the future will identify people who will benefit from early action and advice to support them, enabling access to preventative services and helping to avoid or minimise their risk of needing care and support services. These amendments are all supported by the British Association of Social Workers Cymru, the Chartered Society of Physiotherapy and the College of Occupational Therapists. They jointly state that they consider that these amendments reflect the intention of the Social Services and Well-being (Wales) Bill to support citizens to maximise their independence through a preventative approach.

Mae ymarferwyr o'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi'n nodi y bydd gwelliant o'r fath yn bodloni ac yn estyn y ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau i unigolion y byddai ymyrryd yn gynnar yn atal neu'n gohirio datblygiad anghenion gofal a chymorth iddynt ac yn cyflawni'r bwriad o wella llesiant. Bydd dyletswydd i asesu pobl sydd mewn perygl o ddatblygu anghenion gofal a chymorth yn y dyfodol yn clustnodi'r bobl hynny a fydd yn elwa o gyngor a gweithredu cynnar i'w cefnogi, bydd yn golygu bod modd cael gafael ar wasanaethau ataliol ac yn helpu i osgoi neu leihau eu risg o fod ag angen gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'r gwelliannau hyn i gyd wedi'u cefnogi gan gangen Cymru Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol. Maent yn datgan ar y cyd eu bod yn ystyried bod y gwelliannau hyn yn adlewyrchu bwriad Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i ddefnyddio dulliau ataliol i gynorthwyo dinasyddion i fod mor annibynnol â phosibl.

15:10 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad Biography](#)

In broad terms, I think that it is important to give a cautionary welcome to this Bill. No doubt it will transform services to meet the changing social expectations and changing demography. I certainly accept the principle that access to services should be easier and more understandable to those who need them. Users and carers will, in reality, have a much stronger voice and a greater control of the services they use.

Yn gyffredinol, credaf ei bod yn bwysig rhoi croeso pwylllog i'r Bil hwn. Diau y bydd yn trawsnewid gwasanaethau i fodloni'r disgwyliadau cymdeithasol a'r ddemograffeg sy'n newid. Rwyf yn sicr yn derbyn yr egwyddor y dylai fod yn haws i bobl gael gafael ar wasanaethau ac y dylai fod yn haws deall sut i wneud hynny i'r rhai sydd eu hangen. Bydd gan ddefnyddwyr a gofawyr, mewn gwirionedd, lais cryfach o lawer a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If there had been a move towards the integration of social services and health, I think that that would have made it a stronger Bill, and that would have been more welcomed by this side. However, we certainly support amendment 292 in the name of Darren Millar. This amendment ensures that people exercising functions under the Act have due regard for the United Nations Principles for Older Persons. I just hope that you remember that on the United Nations Convention on the Rights of the Child when we come to discuss issues later.

We strongly support the Liberal Democrat amendment 293. There is a need to enshrine on the face of the Bill the principle that people are sovereign to this Bill. I congratulate those Members.

Local authorities in Wales will have a huge part to play in this need for a focus on the delivery of this Bill. What a shame that they will have to contend with possible reorganisation and merger, and what a shame that there is no extra financial assistance, which, I think, could be a huge issue. I am not so convinced that this is a cost neutral Bill.

At stages 1 and 2, all of the issues have been thoroughly discussed from assessments and eligibility to care and support, and I congratulate the committee. Children and older people are our most vulnerable in society and, 'chwarae teg', they have been at the very heart of all of the discussions. I would take this opportunity to say that it is a credit to the Deputy Minister, to the committee chair and the committee and all of the staff involved behind the scenes, as the sheer enormity of this Bill means that it has been incredibly involved. I would also like to place on record a huge thanks to the voluntary organisations and all of the witnesses who came to the committee.

Other than some critical amendments, I think that, by and large, we are—if not in the right place—we are certainly getting to a place where we can move forward and provide first-class services, notwithstanding, Llywydd, the need to continue to scrutinise, monitor and question until we get this absolutely correct.

15:13

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rise to speak to amendment 292, tabled in my name. The purpose of this amendment is to provide for a duty on Welsh Ministers, local authorities, NHS organisations and others to have due regard to the UN Principles for Older Persons when exercising their functions under the Bill. In 2011, the Assembly legislated to place duties on Welsh Ministers to pay due regard to the UN Convention on the Rights of the Child through the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. This, of course, was a groundbreaking piece of legislation that was supported on all sides of the Welsh Parliament. Indeed, it is something of which we should all be proud.

Pe bai symudiad wedi bod tuag at integreiddio gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, rwyf yn meddwl y byddai hynny wedi ei wneud yn Fil cryfach, a byddai hynny wedi cael mwy o groeso gan yr ochr hon. Fodd bynnag, rydym yn sicr yn cefnogi gwelliant 292 yn enw Darren Millar. Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau bod pobl sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf yn rhoi sylw priodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn cofio hynny am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn pan ddown i drafod rhai materion yn nes ymlaen.

Rydym yn cefnogi'n gryf welliant 293 y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae angen ymgorffori ar wyneb y Bil yr egwyddor mai pobl sydd bwysicaf yn y Bil hwn. Hoffwn longyfarch yr Aelodau hynny.

Bydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ran enfawr i'w chwarae o ran yr angen hwn am bwyslais ar gyflawni'r Bil hwn. Dyna drueni y bydd yn rhaid iddynt wynebu'r posibilrwydd o ad-drefnu ac uno, a dyna drueni nad oes cymorth ariannol ychwanegol; credaf y gallai hynny fod yn broblem enfawr. Nid wyf yn argyhoeddedig bod hwn yn Fil cost niwtral.

Yng nghyfnodau 1 a 2, trafodwyd yr holl faterion yn drylwyr, o asesiadau a chymhwysra i ofal a chefnogaeth, ac rwyf yn llongyfarch y pwyllgor. Plant a phobl hŷn yw'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a chwarae teg, maent wedi bod wrth galon yr holl drafodaethau. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddweud bod y Dirprwy Weinidog, cadeirydd y pwyllgor a'r pwyllgor a'r holl staff a gymerodd ran y tu ôl i'r llenni, yn haeddu clod, oherwydd mae anferthedd y Bil hwn yn golygu ei fod wedi bod yn anhygoel o gymhleth. Hoffwn hefyd gofnodi diolch enfawr i'r sefydliadau gwirfoddol a phob un o'r tystion a ddaeth i'r pwyllgor.

Heblaw am rai gwelliannau pwysig, rwyf yn credu, ar y cyfan, ein bod—os nad yn y lle iawn—yn sicr yn cyrraedd rhywle lle gallwn symud ymlaen a darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf, er yr angen, Lywydd, i barhau i graffu, monitro a holi hyd nes y cawn hyn yn hollol iawn.

Codaf i siarad am welliant 292, a gyflwynwyd yn fy enw i. Diben y gwelliant hwn yw darparu ar gyfer dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau'r GIG ac eraill i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil. Yn 2011, deddfodd y Cynulliad i osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy gyfrwng Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Roedd hwn, wrth gwrs, yn ddarn arloesol o ddeddfwriaeth a gefnogwyd ar bob ochr i Senedd Cymru. Yn wir, y mae'n rhywbeth y dylem i gyd fod yn falch ohono.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, the development of children's protection through legislation has made me acutely aware of the black hole that currently exists in relation to older people. That is why I want to use the opportunity presented in the Social Services and Well-being (Wales) Bill to plug that gap. Members may recall that, just over two years ago, I used a short debate in the Senedd to draw attention to the absence of legislation on older people's rights and the need for this to be addressed. Of course, it is not just children who deserve to have their rights enshrined in Welsh law. Older people also have rights. We must remember that Wales has the highest proportion of older people in the UK, with almost one in four people over the age of 60. Indeed, it is predicted by Age Alliance Wales that, within the next 25 years, the number of people in Wales aged over 65 will increase by a third. This significant change in our demographics cannot go unnoticed. Levels of diversity and a growing older population mean that there is greater variation than ever before in the needs and requirements of our older population. Some have complained that such an increase in older people will increase pressure on some public services, such as healthcare or social services. However, we cannot underestimate the enormous contribution that older people make to our country. The WRVS—or the RVS as it has renamed itself—has estimated that people aged over 65 made a massive net contribution of £1 billion to the Welsh economy in 2010. Furthermore, it is estimated that the value of childcare provided by grandparents in Wales is in excess of £0.25 billion each year, and that volunteering efforts by older people is estimated to be at almost £0.5 billion each year. Therefore, the level of contribution to society from older people, in economic, family support or volunteering terms, is huge.

However, there are older people who need support themselves. Older people can be disproportionately impacted by the closure of facilities such as public conveniences, banks, libraries, post offices and hospitals, or by the withdrawal of public transport, such as buses. Many older people care for a spouse or a relative, such as a sibling, and, compared with the rest of the UK, Wales has a higher number of older carers who are often in poor health themselves.

Many people do not have anybody close by. A third of over 65s, and half of those over 85, live on their own. All of these situations can make older people vulnerable and put them at greater risk of having their rights violated than others. Indeed, research indicates that Wales has the highest prevalence of elder abuse in the UK, at a rate of 6%, which is double that of Northern Ireland. Therefore, having regard to the UN principles for older persons in exercising functions under the Social Services and Well-being (Wales) Bill would help to ensure that the rights of older people are fully considered when developing services for them.

The UN principles recognise older people's rights to independence, participation, care, self-fulfilment and dignity, which are things, I am sure, that everybody in this Chamber subscribes to, yet which, so often, are overlooked in the delivery of public services in Wales. That is why I am pleased to put this amendment down, and I hope that everybody in this Chamber will give it their support.

Fodd bynnag, mae datblygu amddiffyn plant drwy ddeddfwriaeth wedi fy ngwneud yn ymwybodol iawn o'r twll du sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran pobl hŷn. Dyna pam yr wyf am fanteisio ar y cyfle y mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gynnig i lenwi'r bwlch hwnnw. Dichon bod aelodau'n cofio, ychydig dros ddwy flynedd yn ôl, imi ddefnyddio dadl fer yn y Senedd i dynnu sylw at y ffaith nad oes deddfwriaeth ar hawliau pobl hŷn a'r ffaith bod angen unioni hynny. Wrth gwrs, nid dim ond plant sy'n haeddu i'w hawliau gael eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru. Mae gan bobl hŷn hawliau hefyd. Rhaid inni gofio mai yng Nghymru y mae'r gyfran uchaf o bobl hŷn yn y DU; mae bron i un o bob pedwar o bobl dros 60 oed. Yn wir, mae Cynghrair Henoed Cymru'n rhagweld, o fewn y 25 mlynedd nesaf, y bydd nifer y bobl dros 65 oed yng Nghymru draean yn fwy. Ni allwn anwybyddu'r newid sylweddol hwn i'n demograffeg. Mae lefelau amrywiaeth a phoblogaeth hŷn sy'n tyfu'n golygu bod mwy o amrywiadau nag erioed o'r blaen o ran anghenion a gofynion ein poblogaeth hŷn. Mae rhai wedi cwyno y bydd cynnydd o'r fath yn nifer y bobl hŷn yn cynyddu pwysau ar rai gwasanaethau cyhoeddus, megis gofal iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylem danbriso'r cyfraniad enfawr y mae pobl hŷn yn ei wneud i'n gwlad. Mae'r WRVS—neu'r RVS ers ei ailenwi—wedi amcangyfrif bod pobl dros 65 oed wedi gwneud cyfraniad net enfawr o £1 biliwn i economi Cymru yn 2010. Ar ben hynny, amcangyfrifir bod gwerth y gofal plant a ddarperir gan deidiau a neiniau yng Nghymru dros £0.25 biliwn bob blwyddyn, ac amcangyfrifir bod ymdrechion gwirfoddoli gan bobl hŷn yn werth bron i £0.5 biliwn bob blwyddyn. Felly, mae'r cyfraniad i gymdeithas gan bobl hŷn, yn economaidd, drwy roi cymorth i'r teulu neu drwy wirfoddoli, yn enfawr.

Fodd bynnag, mae rhai pobl hŷn ac arnynt angen cymorth eu hunain. Gall cau cyfleusterau fel toiledau cyhoeddus, banciau, llyfrgelloedd, swyddfeydd post ac ysbysai, neu gael gwared ar gludiant cyhoeddus, megis bysiau, effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn. Mae llawer o bobl hŷn yn gofalu am briod neu berthynas, fel brawd neu chwaer, ac, o'i chymharu â gweddill y DU, mae gan Gymru nifer uwch o ofalwyr hŷn y mae eu hiechyd hwythau'n wael.

Mae llawer o bobl heb neb yn agos atynt. Mae traean y bobl dros 65 oed, a hanner y rhai dros 85, yn byw ar eu pen eu hunain. Gall yr holl sefyllfaoedd hyn olygu bod pobl hŷn yn agored i niwed a bod mwy o berygl i rywun sathru ar eu hawliau hwy nag eraill. Yn wir, mae ymchwil yn dangos mai yng Nghymru y mae'r nifer uchaf o achosion o gam-drin yr henoed yn y DU, cyfradd o 6%, sef dwywaith y gyfradd yng Ngogledd Iwerddon. Felly, byddai ystyried egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn wrth arfer swyddogaethau o dan Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn helpu i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu gwasanaethau ar eu cyfer.

Mae egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn cydnabod hawl pobl hŷn i annibyniaeth, cyfranogi, gofal, hunangyflawniad ac urddas, sy'n bethau, y mae'n siŵr gennyf, y mae pawb yn y Siambur hon yn cytuno â hwy, ac eto, cânt eu hanwybyddu'n aml wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dyna pam yr wyf yn falch o gyflwyno'r gwelliant hwn, ac rwyf yn gobeithio y caiff gefnogaeth pawb yn y Siambur hon.

Y Ddirwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services

Given that this is the first group at Stage 3, I would like to take a brief few moments to make a few general remarks about Stage 3. I would like to place on record my thanks to all Members of the Assembly, particularly those of the Health and Social Care Committee for their work during Stage 2 and for the way in which they have discussed their concerns with me to date. Thank you to party spokespeople for their interaction with me during this scrutiny phase. I thank Members who have tabled the amendments we will be debating today during the Stage 3 consideration of the Bill. I also thank officials, who have worked so hard during the journey of this Bill so far.

In relation to amendment 293, Members will know that the Health and Social Care Committee discussed statutory principles during Stage 2 scrutiny on 13 November, and the amendment was not agreed. In that same group, we agreed Government amendments that brought forward new additions to the overarching duties at section 4 to include important principles that a person exercising functions under the Act must have regard to. These include the individual's views, wishes and feelings; and respecting the dignity of the individual and the characteristics, culture and beliefs of the individual, including language. These are thorough and wide-ranging amendments that were agreed by the Health and Social Care Committee and cover the most significant elements of Kirsty Williams's amendment. I therefore ask Members not to support amendment 293.

The purpose of Government amendments 9 and 10 is to separate section 4, as amended during Stage 2 proceedings, into two sections: 'well-being duty' and 'other overarching duties'. This will ensure clarity of these two key principal duties under the Bill. Amendments 9A, 9B, 61, 62, 63 and 64, tabled by William Graham, all seek to insert the phrase 'or who are likely to do so in the future' into various subsections of section 4. The effect of these amendments would be to extend the overarching duties to a wider range of people—potentially to everyone. All of us have the potential to have needs at some point in the future.

Therefore, I cannot support these amendments, especially in these times of austerity, when our resources have to be targeted to those in greatest need. It is just not realistic to apply the overarching duties potentially to the whole population. For these reasons, I ask Members not to support these amendments.

Government amendment 109 ensures that looked-after children and care leavers are captured by the provisions set out in the overarching duties at section 4. Amendments 111 and 112 are consequential to this.

Ac ystyried mai hwn yw'r grŵp cyntaf yng Nghyfnod 3, hoffwn gymryd ychydig funudau i wneud rhai sylwadau cyffredinol am Gyfnod 3. Hoffwn gofnodi fy niolch i holl Aelodau'r Cynulliad, yn enwedig y rheini ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, am eu gwaith yn ystod Cyfnod 2 ac am y modd y maent wedi trafod eu pryderon â mi hyd yma. Diolch i lefarwyr y pleidiau am ryngweithio â mi yn ystod y cyfnod craffu. Diolch i'r Aelodau sydd wedi cyflwyno'r gwelliannau y byddwn yn eu trafod heddiw yn ystod ystyriaethau Cyfnod 3 y Bil. Diolch hefyd i'r swyddogion, sydd wedi gweithio mor galed yn ystod taith y Bil hwn hyd yma.

O ran gwelliant 293, bydd yr Aelodau'n gwybod bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi trafod egwyddorion statudol yn ystod craffu Cyfnod 2 ar 13 Tachwedd, ac na dderbyniwyd y gwelliant. Yn yr un grŵp, derbyniwyd gwelliannau gan y Llywodraeth i gyflwyno ychwanegiadau newydd i'r dyletswyddau hollgyffredinol yn adran 4 i gynnwys egwyddorion pwysig y mae'n rhaid i rywun sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn; a pharchu urddas yr unigolyn a nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, gan gynnwys iaith. Mae'r rhain yn welliannau trylwyr ac eang a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac maent yn cynnwys elfennau mwyaf arwyddocaol gwelliant Kirsty Williams. Felly, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliant 293.

Diben gwelliannau 9 a 10 y Llywodraeth yw rhannu adran 4, fel y'i diwygiwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2, yn ddwy adran: 'dyletswydd llesiant' a 'dyletswyddau hollgyffredinol eraill'. Bydd hyn yn sicrhau eglurder y ddwy brif ddyletswydd allweddol hyn o dan y Bil. Mae gwelliannau 9A, 9B, 61, 62, 63 a 64, a gyflwynwyd gan William Graham, i gyd yn ceisio mewnosod yr ymadrodd 'neu y mae'n debygol y bydd arnynt angen gofal a chymorth yn y dyfodol' i wahanol isadrannau yn adran 4. Effaith y gwelliannau hyn fyddai ymestyn y dyletswyddau hollgyffredinol i ystod ehangach o bobl—o bosibl i bawb. Mae'n bosibl y bydd gan bob un ohonom anghenion ar ryw adeg yn y dyfodol.

Felly, ni allaf gefnogi'r gwelliannau hyn, yn enwedig yn y cyfnod hwn o galedi, pan fo'n rhaid targedu ein hadnoddau at y rhai sydd â'r angen mwyaf. Nid yw'n realistig gwneud y dyletswyddau hollgyffredinol yn berthnasol, o bosibl, i'r boblogaeth gyfan. Am y rhesymau hyn, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi'r gwelliannau hyn.

Mae gwelliant 109 y Llywodraeth yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu cynnwys dan y darpariaethau a nodir yn y dyletswyddau hollgyffredinol yn adran 4. Mae gwelliannau 111 a 112 yn ganlyniadol i hyn.

Government amendment 110 removes the reference to 'impairment' of communication and replaces it with a reference to a 'limitation'. The effect of this amendment is to ensure that any form of limitation on a person's communication is captured for the purposes of the duties under section 4(3) of the Bill.

Finally, amendment 292 proposes the inclusion of a reference, as we have heard from Darren Millar, to the United Nations principles for older persons in the Bill. I am grateful for Darren Millar's interest in this matter—an interest that I share with him. The Bill as drafted already takes account of many of the principles set out in the United Nations principles. Relevant provisions include the overarching duties in section 4 of the Bill, and the individual duties that apply to people. The United Nations principles, adopted in 1991, are a declaration of the United Nations General Assembly. They are not binding in international law; they are soft law.

Assembly Members will be aware of the work commissioned by the Government in response to the interest shown by Darren Millar—and I ask you to reflect on the short debate that I think started all this off some time ago—and others Members across this Chamber in respect of the rights of older people. As a result of the excellent work of the task and finish group led by the Older People's Commissioner for Wales, we are currently out to consultation on a draft declaration of rights for older people in Wales. This work was commissioned by the First Minister. I am wholly committed to this agenda and to continuing to ensure that Wales leads the way in articulating and enshrining the rights of older people into practice.

However, I do not believe that it would be appropriate to include specific reference to the United Nations principles within the Bill. We have resisted inclusion of specific references to the principles in other sectors. We have opted instead for an approach that puts securing rights and entitlements at the heart of our wellbeing definition, and for everything that is done under the Bill. For these reasons, I would ask Members not to support amendment 292, but to look forward to the launch of our own declaration of rights in Wales. We will all want to have due regard for those.

15:23

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

I place on record my thanks to the Deputy Minister and her officials for the way in which they have conducted themselves throughout this process. The Deputy Minister has, on many occasions, made herself available to discuss concerns with spokespeople about the legislation, and has proved herself to be a wily, determined and difficult opponent. Her charm is her best weapon, and sometimes it can be difficult to resist and to argue against her.

Mae gwelliant 110 y Llywodraeth yn dileu'r cyfeiriad at 'nam' cyfathrebu ac yn mewnosod 'wedi ei gyfyngu' yn ei le. Effaith y gwelliant hwn yw sicrhau bod unrhyw fath o gyfyngiad ar gyfathrebu unigolyn yn cael ei gynnwys at ddibenion y dyletswyddau o dan adran 4(3) y Bil.

Yn olaf, mae gwelliant 292 yn cynnig y dylid cynnwys cyfeiriad, fel y clywsom gan Darren Millar, at egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn yn y Bil. Rwyf yn ddiolchgar am ddiddordeb Darren Millar yn y mater hwn—rwyf yn rhannu'r diddordeb hwnnw ag ef. Mae'r Bil fel y'i drafftwyd eisoes yn ystyried llawer o'r egwyddorion a nodir yn egwyddorion y Cenhedloedd Unedig. Mae'r darpariaethau perthnasol yn cynnwys y dyletswyddau hollgyffredinol yn adran 4 y Bil, a'r dyletswyddau unigol sy'n berthnasol i bobl. Datganiad gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yw egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, a fabwysiadwyd ym 1991. Nid ydynt yn rhwymo mewn cyfraith ryngwladol; cyfraith feddal ydynt.

Bydd Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol o'r gwaith a gomisiynwyd gan y Llywodraeth i ymateb i'r diddordeb a ddangosodd Darren Millar—a gofynnaf ichi fyfyrir ar y ddatl fer a ddechreuodd hyn i gyd, rwyf yn meddwl, beth amser yn ôl—ac Aelodau eraill ar draws y Siambr hon mewn hawliau i bobl hŷn. Yn sgil gwaith rhagorol y grŵp gorchwyl a gorffen dan arweiniad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rydym yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd ar ddatganiad drafft o hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Comisiynwyd y gwaith hwn gan y Prif Weinidog. Rwyf yn gwbl ymroddedig i'r agenda hon ac i barhau i sicrhau bod Cymru'n arwain y ffordd o ran mynegi ac ymgorffori hawliau pobl hŷn yn ymarferol.

Fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddai'n briodol cyfeirio'n benodol at egwyddorion y Cenhedloedd Unedig o fewn y Bil. Rydym wedi gwrthwynebu cyfeirio'n benodol at yr egwyddorion mewn sectorau eraill. Yn hytrach, rydym wedi dewis ymagwedd sy'n sicrhau bod diogelu hawliau wrth wraidd ein diffiniad o lesiant, a phopeth a wneir o dan y Bil. Am y rhesymau hyn, byddwn yn gofyn i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliant 292, ond edrych ymlaen at lansio ein datganiad ein hunain o hawliau yng Nghymru. Byddwn i gyd yn awyddus i roi sylw dyledus i'r rheini.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion am y ffordd y maent wedi ymddwyn drwy gydol y broses hon. Mae'r Dirprwy Weinidog, ar sawl achlysur, wedi sicrhau ei bod ar gael i drafod pryderon am y ddeddfwriaeth â'r llefarwyr, ac mae wedi profi ei bod yn wrthwynebydd hirben, penderfynol ac anodd. Ei swyn yw ei harf gorau, ac weithiau gall fod yn anodd ei wrthsefyll er mwyn dadlau yn ei herbyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, I must defend amendment 293 and disagree with her on this occasion. While I acknowledge that, at committee stage and today, the Deputy Minister has tabled amendments that seek to provide reassurance around statutory principles, it is simply not the same to place a duty on local authorities as it is to have the statutory principles on the face of the Bill. They are two materially different things and, while I acknowledge that, through the power of the whips, the amendment was defeated at Stage 2, I would again remind the Assembly of the universal agreement across all political parties during the consultation and the Stage 1 scrutiny of the desirability of such statutory principles, given the overwhelming evidence that was presented to the committee for them to be included. We have had no dissenting voices from outside the Assembly on the desirability of such an amendment, and I have yet to hear a convincing argument from the Government for why statutory principles are not acceptable to it.

I welcome very much amendment 9 from the Government today relating to care, support and wellbeing. That is a positive step forward. The amendments tabled in the name of William Graham, I believe, are worthy of support. While I understand the Minister's concern, if the ethos of this Bill is to intervene earlier in people's lives and to provide them with intervention and support to prevent them needing more intensive support at a later date, William Graham's amendments are the right ones. One could think of an example of a person needing some rehabilitation very early on in their life, which could transform their ability to continue to care for themselves. I think that the amendments tabled by William Graham would provide the legal basis for local authorities to act in that regard. It is going to be a long afternoon, I suspect, Presiding Officer, and I will draw my comments to a close.

Fodd bynnag, rhaid imi amddiffyn gwelliant 293 ac anghytuno â hi ar yr achlysur hwn. Er fy mod yn cydnabod, yn ystod y cyfnod pwyllgor a heddiw, fod y Dirprwy Weinidog wedi cyflwyno gwelliannau sy'n ceisio darparu sicrwydd o ran egwyddorion statudol, mae gwahaniaeth amlwg rhwng gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a rhoi'r egwyddorion statudol ar wyneb y Bil. Maent yn ddau beth sylweddol wahanol ac, er fy mod yn cydnabod bod y gwelliant, drwy nerth y chwipiaid, wedi'i drechu yng Nghyfnod 2, byddwn yn atgoffa'r Cynulliad unwaith eto o'r cytundeb cyffredinol ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol yn ystod yr ymgynghoriad a'r craffu Cyfnod 1 y byddai egwyddorion statudol o'r fath yn ddymunol, ac ystyried y dystiolaeth lethol a gyflwynwyd i'r pwyllgor o blaid eu cynnwys. Nid ydym wedi clywed dim lleisiau anghydsyniol o'r tu allan i'r Cynulliad am ddymunoldeb gwelliant o'r fath, ac nid wyf wedi clywed dadl argyhoeddiadol gan y Llywodraeth i egluro pam nad yw egwyddorion statudol yn dderbyniol iddi.

Croesawaf yn fawr welliant 9 y Llywodraeth heddiw sy'n ymwneud â gofal, cefnogaeth a llesiant. Mae'n gam cadarnhaol ymlaen. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw William Graham, yn fy marn i, yn haeddu cefnogaeth. Er fy mod yn deall pryder y Gweinidog, os mai ethos y Bil hwn yw ymyrryd yn gynharach ym mywydau pobl a rhoi ymyrraeth a chefnogaeth iddynt i sicrhau na fydd angen cymorth mwy dwys arnynt yn ddiweddarach, gwelliannau William Graham yw'r rhai cywir. Gallai rhywun feddwl am enghraifft lle bo angen rhywfaint o adsefydlu'n gynnar iawn ym mywyd unigolyn, a allai weddnewid ei allu i barhau i ofalu amdano'i hun. Rwyf yn meddwl y byddai'r gwelliannau a gyflwynwyd gan William Graham yn darparu'r sail gyfreithiol i awdurdodau lleol i weithredu mewn achos o'r fath. Bydd yn brynhawn hir, rwyf yn amau, Lywydd, felly rhof ddiwedd ar fy sylwadau.

15:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As there are objections to amendment 293, I propose to move straight to an electronic vote.

Gan fod gwrthwynebiad i welliant 293, bwriadaf symud yn syth at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 293.](#)

[Result of the vote on amendment 293.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 293: O blaid 28, Yn erbyn 30, Ymatal 0.

Amendment 293 not agreed: For 28, Against 30, Abstain 0.

Grŵp 2: Ystyr Llesiant (Gwelliannau 82, 108 a 241)

Group 2: Meaning of Well-being (Amendments 82, 108, 241)

15:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in the group is amendment 82. I call on William Graham to move amendment 82 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 82. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 82 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

15:27 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 82 in my name.

Cynigaf welliant 82 yn fy enw i.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In moving the lead amendment in this group, I wish to take the opportunity to join in those thanks to the Deputy Minister, who has persuaded us on occasion against our better judgment and who has been very good in really going through those amendments that we proposed in the spirit in which they were proposed. On occasion, she has been able to incorporate those in the Bill. We know that subtle and simple minds alike have been fixed on attempts at perfection. We also know that the hearts of men are fickle and, although no-one would presume that this Bill before us today is in any way an example of complete perfection, it is a genuine and sincere effort to remedy where possible and to bring together all those strands, so many and varied, that will help to improve the lives of all the citizens of Wales.

Some of those who will speak today would, no doubt, with the utmost conviction and great persuasiveness, have us acknowledge that perfection is possible though not immune from the rusts of time. Many live so intimately with their ideals that they are persuaded of their reality though, in truth, their practical application is quite impossible. Fortunately, life as we know it cannot bar the gate against the ideal and, if seeking to improve this Bill becomes an impossible dream, it is a dream we could live by, and a dream we live by is more real than a reality we ignore. The Welsh Conservatives feel that this amendment would include the vision of dignity in the statutory principles to be inserted by amendment 293. The statutory principles do not currently incorporate the principle of promoting and respecting the dignity of a person in need of care or of a carer.

The Care Bill currently going through the Westminster Parliament states that it is the duty of the local authority to promote individuals' wellbeing, and wellbeing is stated on the face of the Bill as incorporating individuals' personal dignity. Therefore, our amendment would bring the Social Services and Well-Being (Wales) Bill in line with the definition of dignity as set out in the Care Bill.

Wrth gynnig y prif welliant yn y grŵp hwn, hoffwn innau hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog, sydd wedi dwyn perswâd arnom yn groes i'r graen ar adegau ac sydd wedi bod yn dda iawn wrth fynd drwy'r gwelliannau hynny a gynigiwyd gennym yn yr ysbryd y cawsant eu cynnig. Ar adegau, y mae wedi llwyddo i ymgorffori'r rheini yn y Bil. Gwyddom fod meddyliau cynnil a syml fel ei gilydd wedi bod yn canolbwyntio ar geisio sicrhau perffeithrwydd. Gwyddom hefyd fod calonnau dynion yn anwadal ac, er na fyddai neb yn tybio bod y Bil hwn ger ein bron heddiw mewn unrhyw fodd yn enghraifft o berffeithrwydd llwyr, mae'n ymdrech gonest a diffuant i unioni pethau lle bo hynny'n bosibl ac i ddod â'r holl feysydd hynny, sydd mor niferus ac amrywiol, at ei gilydd i helpu i wella bywydau holl ddinasyddion Cymru.

Byddai rhai o'r rhai a fydd yn siarad heddiw, yn ddiau, yn llawn argyhoeddiad a pherswâd, am inni gydnabod bod perffeithrwydd yn bosibl er nad yn ddiogel rhag rhwd amser. Mae llawer mor agos at eu delfrydau nes eu bod yn gwbl sicr eu bod yn wir, ond mewn gwirionedd, mae'n amhosibl eu rhoi ar waith yn ymarferol. Yn ffodus, ni all ein bywydau gau'r gjât ar y ddelfryd, ac os daw ceisio gwella'r Bil hwn yn freuddwyd amhosibl, mae'n freuddwyd y gallem fyw'n unol â hi, ac mae hynny'n fwy real na'r realiti yr ydym yn ei anwybyddu. Mae Ceidwadwyr Cymru'n teimlo y byddai'r gwelliant hwn yn cynnwys gweledigaeth o urddas yn yr egwyddorion statudol y byddai gwelliant 293 yn eu mewnosod. Nid yw'r egwyddorion statudol ar hyn o bryd yn cynnwys yr egwyddor o hybu a pharchu urddas rhywun y mae arno angen gofal neu ofalwr.

Mae'r Bil Gofal sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy Senedd San Steffan yn datgan mai dyletswydd yr awdurdod lleol yw hybu llesiant unigolion, a nodir ar wyneb y Bil fod llesiant yn ymgorffori urddas personol unigolion. Felly, byddai ein gwelliant yn sicrhau bod Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyd-fynd â'r diffiniad o urddas a nodir yn y Bil Gofal.

15:30

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

I rise to support William Graham in his attempt to include the word 'dignity' on the face of the Bill, which is an important addition. We have recently witnessed across the UK—this is not an issue that is particularly difficult for Wales—concerns about the ability to provide care and support in a dignified way, upholding the dignity of those who are in receipt of those services. Let us be absolutely clear: the legislation that we are talking about and discussing today is the legal underpinning of some of the most intimate care and support services that any individual will ever access. We are talking about legislation that will underpin the domiciliary care service of individuals going into people's homes—to toilet people, to bathe people and to carry out the most intimate of tasks.

Codaf i gefnogi William Graham yn ei ymgais i gynnwys y gair 'urddas' ar wyneb y Bil, sydd yn ychwanegiad pwysig. Rydym wedi gweld yn ddiweddar ledled y DU—nid yw hwn yn fater sy'n arbennig o anodd i Gymru—bryderon am y gallu i ddarparu gofal a chymorth mewn modd urddasol, gan gynnal urddas y rhai sy'n derbyn y gwasanaethau hynny. Gadewch inni fod yn gwbl glir: mae'r ddeddfwriaeth yr ydym yn sôn amdani ac yn ei thrafod heddiw yn sail gyfreithiol i rai o'r gwasanaethau gofal a chymorth mwyaf personol y bydd unrhyw un yn eu derbyn byth. Rydym yn sôn am ddeddfwriaeth a fydd yn sail i wasanaethau gofal yn y cartref lle mae unigolion yn mynd i mewn i gartrefi pobl—i'w helpu i ddefnyddio'r toiled a'r baddon ac i wneud y tasgau mwyaf personol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I should like to take this opportunity to commend those individuals who work in this sector. They are often under-regarded and they are certainly underpaid, but we simply could not cope, as a society, without their efforts. However, their ability to do that job is sometimes impaired because of the constraints put upon them. I believe that the inclusion of 'dignity' on the face of the Bill would be a timely reminder to all those who are commissioning and providing these services that this should be one of the watchwords at the forefront of their minds when developing planning and delivering these services.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ganmol yr unigolion hynny sy'n gweithio yn y sector hwn. Yn aml ni roddir digon o ystyriaeth iddynt, ac yn sicr nid ydynt yn cael digon o dâl, ond ni allem ymdopi, fel cymdeithas, heb eu hymdrechion. Fodd bynnag, weithiau mae'r cyfyngiadau sydd arnynt yn amharu ar eu gallu i wneud y gwaith hwnnw. Credaf y byddai cynnwys 'urddas' ar wyneb y Bil yn ffordd amserol o atgoffa pawb sy'n comisiynu ac yn darparu'r gwasanaethau hyn y dylai hwn fod yn un o'r arwyddeduriau sydd ym mlaen eu meddyliau wrth ddatblygu, cynllunio a chyflwyno'r gwasanaethau hyn.

15:31

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The effect of William Graham's amendment 82 would be to add personal dignity as an aspect of wellbeing at section 2 of the Bill. Members will be aware that, during Stage 2 proceedings, a Government amendment was passed to insert into the overarching duties at section 4 of the Bill a provision that a person exercising functions under the Act

Effaith gwelliant 82 William Graham fyddai ychwanegu urddas personol fel agwedd ar lesiant yn adran 2 y Bil. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol, yn ystod trafodion Cyfnod 2, y derbyniwyd gwelliant gan y Llywodraeth i fewnosod darpariaeth yn y dyletswyddau hollgyffredinol yn adran 4 y Bil fod yn rhaid i rywun sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf

'must have regard to the importance of promoting and respecting the dignity of the individual'.

'roi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn'.

In my view, therefore, amendment 82 is unnecessary, as it seeks to achieve a similar effect to the provision already contained within section 4.

Yn fy marn i, felly, mae gwelliant 82 yn ddiangen, gan ei fod yn ceisio cyflawni effaith debyg i'r ddarpariaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys yn adran 4.

Government amendment 108 is a minor technical amendment to change 'or' to 'and' in the definition of wellbeing at section 2 relating to education, training and recreation. Government amendment 241 is necessary as a consequence of William Graham's amendment, agreed at Stage 2, to add 'suitability of living accommodation' in section 2 of the Bill. It will amend section 153 so as to ensure consistency between co-operation in relation to children under the Children Act 2004 and the meaning of wellbeing under section 2 of the Bill.

Mae gwelliant 108 y Llywodraeth yn fân welliant technegol i newid 'neu' i 'a' yn y diffiniad o lesiant yn adran 2 wrth sôn am addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden. Mae gwelliant 241 y Llywodraeth yn angenrheidiol oherwydd gwelliant William Graham, a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2, i ychwanegu 'addasrwydd llety preswyl' yn adran 2 y Bil. Bydd yn diwygio adran 153 er mwyn sicrhau cysondeb rhwng cydweithrediad mewn perthynas â phlant o dan Ddeddf Plant 2004 ac ystyr llesiant o dan adran 2 y Bil.

15:33

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I record my gratitude to the Deputy Minister for fulfilling her undertaking at Stage 2 to bring in, as she has here, amendment 241. However, we have to disagree with her; we feel that this amendment substantially strengthens the Bill. We are most grateful to Kirsty Williams for giving us all a very valuable insight into the work of care services.

Cofnodaf fy niolch i'r Dirprwy Weinidog am gyflawni ei hymrwymiad yng Nghyfnod 2 i gyflwyno gwelliant 241, fel y gwnaeth yma. Fodd bynnag, rhaid inni anghytuno â hi; rydym o'r farn bod y gwelliant hwn yn cryfhau'r Bil yn sylweddol. Rydym yn hynod ddiolchgar i Kirsty Williams am roi cipolwg gwerthfawr iawn inni i gyd ar waith y gwasanaethau gofal.

15:33

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As there has been an objection, we will move straight to the vote.

Oherwydd bod gwrthwynebiad, symudwn yn syth at y bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 82.](#)

[Result of the vote on amendment 82.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 15:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the Deputy Minister to move amendment 108. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 108.
- 15:34 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 108 in my name. Cynigiau welliant 108 yn fy enw i.
- 15:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 108 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, amendment 108 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 108. A oes gwrthwynebiadau? Gwelaf nad oes. Felly, mae gwelliant 108 wedi ei dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 108 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 108 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Grŵp 3: Cymhwyso'r Ddeddf i Oedolion mewn Carchar, Llety Cadw Ieuentid neu Llety Mechniaeth etc (Gwelliannau 7, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56 a 58)

Group 3: Application of the Act to Persons in Prison, Youth Detention Accommodation or Bail Accommodation etc (Amendments 7, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56 and 58)

- 15:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The lead amendment in the group is amendment 7. I call on the Deputy Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 7. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig y prif welliant ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
- 15:35 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 7 in my name. Cynigiau welliant 7 yn fy enw i.
- The Law Commission report in May 2011 called for the removal of ambiguity regarding adult prisoners' eligibility for social care services. In responding to this, both England and Wales agreed to address the matter through their forthcoming Bills—the Care Bill, and our own Social Services and Well-being (Wales) Bill. The amendments in this group give effect to that commitment. There are benefits of extending social care to adult prisoners. It better prepares prisoners to manage their care needs, to support independent living while they are in prison, and, by doing so, benefits them when they are released into the community. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ym mis Mai 2011 yn galw am gael gwared ar amwysedd ynghylch cymhwysra carcharorion sy'n oedolion i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Wrth ymateb i hyn, cytunodd Cymru a Lloegr ill dwy i ymdrin â'r mater mewn Biliau newydd—y Bil Gofal, a'n Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ni. Mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn rhoi'r ymrwymiad hwnnw ar waith. Mae manteision i estyn gofal cymdeithasol i garcharorion sy'n oedolion. Mae'n sicrhau bod carcharorion wedi'u paratoi'n well i reoli eu hanghenion gofal, i barhau i fyw'n annibynnol tra byddant yn y carchar, a, thrwy hynny, mae o fudd iddynt pan gânt eu rhyddhau i'r gymuned.
- When the UK Government's Care Bill gains Royal Assent, those adult prisoners serving sentences in English prisons, including prisoners from Wales, would have access to care and support provided by the relevant local authority. Without a similar approach in Wales, those prisoners serving their sentences in prisons in Wales would not have the same access. This is an inequitable approach, and it is for these reasons that I am persuaded to adopt this complementary policy for Wales. Pan gaiff Bil Gofal Llywodraeth y DU Gydsyniad Brenhinol, byddai'r oedolion hynny sy'n garcharorion mewn carchardai yn Lloegr, gan gynnwys carcharorion o Gymru, yn cael derbyn gofal a chymorth wedi'u darparu gan yr awdurdod lleol perthnasol. Heb ymagwedd debyg yng Nghymru, ni fyddai'r gofal a'r cymorth hwnnw ar gael yn yr un modd i garcharorion mewn carchardai yng Nghymru. Mae hynny'n anghyfiawn, ac am y rhesymau hynny rwyf wedi fy argyhoeddi i fabwysiadu'r polisi cyflenwol hwn i Gymru.

There are cost implications. Social care is a devolved matter, and the amendments before you mean that, for adults, the local authority in which the prison is located will be responsible for meeting the care and support needs. This will fall, currently, to local authorities in Cardiff, Swansea, Monmouthshire and Bridgend. However, we must also consider the cost implication of not providing this in human terms. Both I and the Minister for Health and Social Services recently visited facilities in Swansea and Bridgend, and saw first-hand the needs of prisoners, many of whom are now older, as those aged 60 and over are the fastest-growing age group in the prison estate. This is something that many of us in this Chamber have heard the Commissioner for Older People in Wales speak about with concern for the implications.

However, the amendments that I am proposing today are more comprehensive than their counterparts in England. They also clarify local authorities' responsibilities for children in custody. These responsibilities are currently contained within the Children Act 1989, and within relevant associated case law. Throughout the development and the scrutiny of this Bill, I have continuously reinforced my intention that there should be no dilution of the rights and the entitlements of children resulting from our incorporation of those rights, and duties, contained in Part 3 of and Schedule 2 to the Children Act 1989 into our Bill. The existing duties under the 1989 Act of a local authority in respect of children in custody were further supplemented to encompass children who are remanded under the UK Government's Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012.

As a result of these existing responsibilities, and having given serious consideration to the alternative options, I have taken the decision that the duties and the responsibilities under the Bill that local authorities have to children in the secure estate should remain with the local authority in which the child was resident before entering custody. Members will recognise that our approach to children and adults under the Bill is different, and that this has the potential to exacerbate sometimes difficult issues around the transition to adulthood. Others may question how this is consistent with what I have said, that the Bill is based on the people model. 'How can that be so?', you may ask, and it is a valid question.

There are two key reasons that have influenced my decision: first, the existing rights and entitlements that are owed to these potentially very vulnerable children; and, secondly, because the UK Government's Care Bill amendments are limited to the social care needs of adults, the reciprocal arrangements that will be in place for adults will not extend to children. That means that those young people, predominantly those from north Wales, who are placed in Hindley youth offending institution, would be disadvantaged further, as they are placed outside Wales. That is not acceptable to me or to my Cabinet colleagues. I am sure that Members will agree with me that all young people from Wales should be treated equally. I, therefore, ask Members to support the amendments in this group.

Mae goblygiadau o ran costau. Mae gofal cymdeithasol yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ac mae'r gwelliannau ger eich bron yn golygu mai'r awdurdod lleol lle mae'r carchar fydd yn gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr oedolion hynny. Ar hyn o bryd, bydd y cyfrifoldeb hwnnw'n berthnasol i awdurdodau lleol yng Nghaerdydd, Abertawe, Sir Fynwy a Phen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd ystyried y goblygiadau o ran costau yn sgil peidio â darparu hyn mewn termau dynol. Bùm i a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymweld yn ddiweddar â chyfleusterau yn Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, a gwelsom anghenion y carcharorion drosom ein hunain. Mae llawer ohonynt bellach yn hŷn, gan mai'r rhai 60 oed a throsodd yw'r grŵp oedran sy'n tyfu gyflymaf yn ystâd y carchardai. Mae hyn yn rhywbeth y mae llawer ohonom yn y Siambr hon wedi clywed Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n siarad amdano â phryder am y goblygiadau.

Fodd bynnag, mae'r gwelliannau yr wyf yn eu cynnig heddiw'n fwy cynhwysfawr na'r rhai cyfatebol yn Lloegr. Maent hefyd yn egluro cyfrifoldebau awdurdodau lleol dros blant yn y ddalfa. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989, ac mewn cyfraith achosion gysylltiedig berthnasol. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil hwn a chraffu arno, rwyf wedi ategu fy mwriad na ddylid gwahau hawliau plant o gwbl o ganlyniad i ymgorffori'r hawliau, a'r dyletswyddau, a gynhwysir yn Rhan 3 ac Atodlen 2 Deddf Plant 1989 yn ein Bil. Cafodd dyletswyddau presennol awdurdodau lleol dan Ddeddf 1989 o ran plant yn y ddalfa eu hategu ymhellach i gynnwys plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 Llywodraeth y DU.

Yn sgil y cyfrifoldebau presennol hyn, ac ar ôl ystyried y dewisiadau eraill o ddifrif, rwyf wedi penderfynu y dylai'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol dros blant yn yr ystâd ddiogel o dan y Bil aros gyda'r awdurdod lleol lle'r oedd y plentyn yn byw cyn mynd i'r ddalfa. Bydd yr Aelodau'n cydnabod bod ein hymagwedd tuag at blant ac oedolion o dan y Bil yn wahanol, ac y gallai hyn o bosibl waethygu materion a all fod yn anodd ynghylch tyfu i fod yn oedolion. Efallai y bydd eraill yn cwstyynu sut y mae hyn yn gyson â'r hyn yr wyf wedi'i ddweud, sef bod y Bil yn seiliedig ar fodel pobl. 'Sut y gall hynny fod?', gallech ofyn, ac mae'n gwestiwn dilys.

Mae dau reswm allweddol sydd wedi dylanwadu ar fy mhenderfyniad: yn gyntaf, yr hawliau sydd eisoes yn ddyledus i'r plant hyn a all fod yn agored iawn i niwed, ac, yn ail, oherwydd bod gwelliannau Bil Gofal Llywodraeth y DU wedi'u cyfyngu i anghenion gofal cymdeithasol oedolion, ni fydd y trefniadau cyfatebol a fydd ar gael i oedolion yn ymestyn i blant. Mae hynny'n golygu y byddai'r bobl ifanc hynny, sy'n dod o'r gogledd yn bennaf, ac sy'n cael eu rhoi yn sefydliad troseddau ieuencid Hindley, dan anfantais bellach, gan eu bod wedi'u lleoli'r tu allan i Gymru. Nid yw hynny'n dderbyniol i mi nac i'm cydweithwyr yn y Cabinet. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno â mi y dylid trin pob person ifanc o Gymru'n gyfartal. Felly, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn.

15:40	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I have no speakers. Do you wish to add any more, Deputy Minister?	Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. A ydych am ychwanegu mwy, Ddirprwy Weinidog?	Senedd.tv Fideo Video
15:40	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Yes, I move.	Ydw, rwyf yn cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
15:40	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 7 is agreed.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 7 wedi ei dderbyn.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
	Grŵp 4: Ystyr Gofal a Chymorth (Gwelliannau 8 ac 11)		Group 4: Meaning of Care and Support (Amendments 8 and 11)	
15:40	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The lead amendment in this group is amendment 8. I call on the Deputy Minister to move amendment 8 and to speak to it and the other amendment in the group.	Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 8. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 8 ac i siarad amdano a'r gwelliant arall yn y grŵp.	Senedd.tv Fideo Video
15:40	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	I move amendment 8 in my name.	Cynigiai welliant 8 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video
		Amendment 8 seeks to re-insert at a more appropriate location in the Bill the meaning of 'care and support', which is currently stated at section 4(7). Members will recall that this reference to 'care and support' was inserted at Stage 2, by virtue of an amendment by Kirsty Williams. Amendment 11 has the reverse effect of amendment 8 as it seeks to remove from the Bill the current location of the meaning of 'care and support'. These are straightforward amendments and I ask that Members support them.	Mae gwelliant 8 yn ceisio ailosod ystyr 'gofal a chymorth' mewn lleoliad mwy addas yn y Bil; caiff ei ddatgan ar hyn o bryd yn adran 4(7). Bydd yr Aelodau'n cofio y cafodd y cyfeiriad hwn at 'ofal a chymorth' ei fewnosod yng Nghyfnod 2, diolch i welliant gan Kirsty Williams. Mae gwelliant 11 yn cael effaith groes i welliant 8 gan ei fod yn ceisio dileu lleoliad presennol ystyr 'gofal a chymorth' o'r Bil. Gwelliannau syml yw'r rhain a gofynnaf i'r Aelodau eu cefnogi.	
15:41	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	As the Deputy Minister said, the concern expressed during the committee stage was that at no point could a local authority wriggle out of its requirements to provide care and support because of the way in which that was phrased within the legislation. Could she confirm and put on the record today that care and support are two different and separate concepts and that no client would be required to need both care and support before they would be eligible for care, and that local authorities should consider them as separate concepts?	Fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, y pryder a fynegwyd yn ystod y cyfnod pwyllgor oedd na allai awdurdod lleol ar unrhyw adeg osgoi'r gofynion i ddarparu gofal a chymorth oherwydd y ffordd y mae hynny wedi'i eirio yn y ddeddfwriaeth. A wnaiff gadarnhau a rhoi ar gofnod heddiw fod gofal a chymorth yn ddau gysyniad gwahanol a chwbl ar wahân ac na fyddai'n rhaid bod ar gleientiaid angen gofal a chymorth cyn bod yn gymwys i dderbyn gofal, ac y dylai awdurdodau lleol eu hystyried fel cysyniadau ar wahân?	Senedd.tv Fideo Video
15:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The Deputy Minister to reply.	Y Dirprwy Weinidog i ateb.	Senedd.tv Fideo Video
15:42	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Yes, I move the amendment.	Ydw, rwyf yn cynnig y gwelliant.	Senedd.tv Fideo Video

15:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>If amendment 8 is not agreed to, then amendment 57 falls. The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 8 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Oni dderbynnir gwelliant 8, bydd gwelliant 57 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 8 wedi ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 8 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>
15:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on the Deputy Minister to move amendment 9.</p>	<p>Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 9.</p>
15:42	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Sorry? Group 5?</p>	<p>Mae'n ddrwg gen i? Grŵp 5?</p>
15:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Just formally move amendment 9.</p>	<p>Dim ond cynnig gwelliant 9 yn ffurfiol.</p>
15:42	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Sorry?</p>	<p>Mae'n ddrwg gen i?</p>
15:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Formally move. Yes?</p>	<p>Cynnig yn ffurfiol. Ie?</p>
15:42	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Group 5, yes.</p>	<p>Grŵp 5, ie.</p>
15:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>No, no. We are on amendment 9. I just want you to formally move.</p>	<p>Na, na. Rydym ar welliant 9. Rwyf am i chi ei gynnig yn ffurfiol.</p>
15:42	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Oh right. [Laughter.]</p>	<p>O, iawn. [Chwerthin.]</p>
15:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Do you formally move? Yes?</p>	<p>A ydych yn ei gynnig yn ffurfiol? Ydych?</p>
15:42	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 9 in my name.</p>	<p>Cynigiau welliant 9 yn fy enw i.</p>
15:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>As there are amendments to amendment 9, we will dispose of those first. I call on William Graham to move amendment 9A.</p>	<p>Gan fod gwelliannau i welliant 9, byddwn yn ymdrin â'r rheini'n gyntaf. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 9A.</p>
15:43	William Graham Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 9A in my name.</p>	<p>Cynigiau welliant 9A yn fy enw i.</p>
15:43	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 9A be agreed to. Does any Member object? There is an objection, therefore we will move to an electronic vote.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9A. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.</p>

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 9A.](#)

[Result of the vote on amendment 9A.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 9A: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Amendment 9A not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

15:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to amendment 9B. I call on William Graham to move amendment 9B.

Symudwn yn awr at welliant 9B. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 9B.

15:43 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 9B in my name.

Cynigiau welliant 9B yn fy enw i.

15:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 9B be agreed to. Does any Member object? There is an objection, therefore we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9B. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 9B.](#)

[Result of the vote on amendment 9B.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 9B: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Amendment 9B not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20 the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to amendment 9. The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore, amendment 9 is agreed.

Symudwn yn awr at welliant 9. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, mae gwelliant 9 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 9 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Deputy Minister to move amendment 10.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 10.

15:44 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 10 in my name.

Cynigiau welliant 10 yn fy enw i.

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 10 is agreed to, amendments 61 and 62 will fall. The question is that amendment 10 be agreed to. Does any Member object? There is an objection, therefore we will move to an electronic vote.

Os derbynir gwelliant 10, bydd gwelliannau 61 a 62 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 10. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 10.](#)

[Result of the vote on amendment 10.](#)

Derbyniwyd gwelliant 10: O blaid 45, Yn erbyn 13, Ymatal 0.

Amendment 45 is agreed: For 45, Against 13, Abstain 0.

Methodd gwelliannau 61 a 62.

Amendments 61 and 62 fell.

- 15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We now move to amendment 63. William Graham. Symudwn yn awr at welliant 63. William Graham.
- 15:45 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 63 in my name. Cynigiaf welliant 63 yn fy enw i.
- 15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 63 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 63. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 63.](#) [Result of the vote on amendment 63.](#)
- Gwrthodwyd gwelliant 63: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0. Amendment 63 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.
- Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.* *As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*
- 15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on William Graham to move amendment 64. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 64.
- 15:45 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 64 in my name. Cynigiaf welliant 64 yn fy enw i.
- 15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 64 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 64. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 64.](#) [Result of the vote on amendment 64.](#)
- Gwrthodwyd gwelliant 63: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0. Amendment 63 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.
- Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.* *As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*
- 15:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Deputy Minister to move amendment 109. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 109.
- 15:46 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 109 in my name. Cynigiaf welliant 109 yn fy enw i.

15:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	If amendment 109 is not agreed, amendments 111, 112 and 100 fall. The question is that amendment 109 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 109 is agreed.	Oni dderbynnir gwelliant 109, bydd gwelliannau 111, 112 a 100 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 109. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 109 wedi ei dderbyn.
	<i>Derbyniwyd gwelliant 109 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 109 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
15:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Deputy Minister to move amendment 110.	Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 110.
15:46	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 110 in my name.	Cynigïaf welliant 110 yn fy enw i.
15:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 110 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 110 is agreed.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 110. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 110 wedi ei dderbyn.
	<i>Derbyniwyd gwelliant 110 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 110 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
15:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Deputy Minister to move amendment 111.	Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 111.
15:46	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 111 in my name.	Cynigïaf welliant 111 yn fy enw i.
15:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 111 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 111 is agreed.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 111. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 111 wedi ei dderbyn.
	<i>Derbyniwyd gwelliant 111 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 110 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
15:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on Darren Millar to move amendment 292.	Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 292.
15:46	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 292 in my name.	Cynigïaf welliant 292 yn fy enw i.
15:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 292 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will have an electronic vote.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 292. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 292.	Result of the vote on amendment 292.
	<i>Derbyniwyd gwelliant 292: O blaid 29, Yn erbyn 28, Ymatal 1.</i>	<i>Amendment 292 agreed: For 29, Against 28, Abstain 1.</i>

15:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The amendment is agreed.	Mae'r gwelliant wedi ei dderbyn.
15:47	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Hear, hear.	Clywch, clywch.
15:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Deputy Minister, amendment 112. [Interruption.]	Ddirprwy Weinidog, gwelliant 112. [Torri ar draws.]
15:47	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	It is closed.	Mae wedi'i gau.
15:47	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	No.	Na.
15:47	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	It is done.	Mae ar ben.
15:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Am I wrong or am I right? I am right; I am sorry.	A wyf yn anghywir, ynteu a wyf yn gywir? Rwyf yn gywir; mae'n ddrwg gennyf.
15:47	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Someone abstained.	Ymatalodd rhywun.
15:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Deputy Minister, we now move to amendment 112.	Ddirprwy Weinidog, rydym yn awr yn symud at welliant 112.
15:47	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 112 in my name.	Cynigiaf welliant 112 yn fy enw i.
15:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 112 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 112 is agreed.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 112. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 112 wedi ei dderbyn.
	<i>Derbyniwyd gwelliant 112 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 112 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
15:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Deputy Minister to move amendment 11.	Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 11.
15:47	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 11 in my name.	Cynigiaf welliant 11 yn fy enw i.
15:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 11 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 11 is agreed.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 11. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 11 wedi ei dderbyn.

Grŵp 5: Cod mewn perthynas a Chanlyniadau Llesiant o dan Adran 6 (Gwelliant 12)

Group 5: Code in relation to Well-being Outcomes under Section 6 (Amendment 12)

15:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The lead and only amendment in the group is amendment 12. I call on the Deputy Minister to move amendment 12 and to speak to it.

Y prif welliant, a'r unig welliant, yn y grŵp yw gwelliant 12. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 12 ac i siarad amdano.

15:48 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 12 in my name.

Cynigaf welliant 12 yn fy enw i.

This amendment clarifies the procedures to be followed in relation to the issue, approval and revocation of codes under section 6. It provides for consultation and for the draft code to be laid before the Assembly. It is consistent with the approach taken to codes issued under section 135 of the Bill. I ask Members to support this Government amendment.

Mae'r gwelliant hwn yn egluro'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn cyhoeddi, cymeradwyo a dirymu codau dan adran 6. Mae'n darparu ar gyfer ymgynghori ac ar gyfer cyflwyno'r cod drafft gerbron y Cynulliad. Mae'n gyson â'r ymagwedd a gymerwyd tuag at godau a gyhoeddir o dan adran 135 y Bil. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn gan y Llywodraeth.

15:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have no speakers. The question is that amendment 12 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 12 is agreed.

Nid oes gennyf ddim siaradwyr. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 12. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 12 wedi ei dderbyn.

Grŵp 6: Technegol (Rhannau 1 i 4 o'r Ddeddf) (Gwelliannau 113, 116, 117, 118, 119, 13, 14, 15, 16, 17, 120, 121, 128, 129, 130, 132, 134, 135, 138, 140, 145, 147, 149, 150, 151, 152, 154, 155 a 165)

Group 6: Technical (Parts 1 to 4 of the Act) (Amendments 113, 116, 117, 118, 119, 13, 14, 15, 16, 17, 120, 121, 128, 129, 130, 132, 134, 135, 138, 140, 145, 147, 149, 150, 151, 152, 154, 155 and 165)

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 113. I call on the Deputy Minister to move amendment 113 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 113. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 113 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

15:49 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 113 in my name.

Cynigaf welliant 113 yn fy enw i.

It is important that the Government is able to deal with technical or drafting issues that emerge during the course of the scrutiny process. These technical amendments address some of these issues and I ask Members to support them.

Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn gallu ymdrin â materion technegol neu faterion drafftio a ddaw i'r amlwg yn ystod y broses graffu. Mae'r gwelliannau technegol hyn yn ymdrin â rhai o'r materion hyn a gofynnaf i'r Aelodau eiddo cefnogi.

15:49

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I appreciate very much what the Deputy Minister has said about the need to address technical amendments and drafting errors. I certainly have concerns about the large number of technical amendments that have come forward at this stage.

The preparation of this Bill has been a long one. There was a consultation on a White Paper, there has been significant consultation on the Bill over many months, and it is of concern to me that, even at this late stage, we have such a large number of technical amendments to deal with. I appreciate that policy amendments will continue to come in at a very late stage, and that is perfectly appropriate, but I do have concerns about such a large number of technical amendments at this stage. Obviously, for the sake of good law, they will need to be passed today, but one has to reflect on whether this is the appropriate way for legislation to be drafted.

Rwyf yn gwerthfawrogi'n fawr iawn yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog am yr angen i roi sylw i welliannau technegol a gwallau drafftio. Rwyf yn sicr yn pryderu am y nifer mawr o welliannau technegol sydd wedi'u cyflwyno yn cyfnod hwn.

Bu'r broses o baratoi'r Bil hwn yn un hir. Cafwyd ymgynghoriad ar Bapur Gwyn, cafwyd ymgynghori sylweddol ar y Bil dros fisoedd lawer, ac mae'n destun pryder imi, hyd yn oed mor hwyr â hyn, fod gennym gynifer o welliannau technegol i ymdrin â hwy. Rwyf yn sylweddoli y bydd gwelliannau polisi'n parhau i ddod i mewn yn hwyr iawn, ac mae hynny'n gwbl briodol, ond mae gennyf bryderon am gynifer o welliannau technegol yn y cyfnod hwn. Yn amlwg, er mwyn cyfraith dda, bydd angen eu derbyn heddiw, ond rhaid i rywun ofyn tybed ai dyma'r ffordd briodol o ddrafftio deddfwriaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:50

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am aware of the recent media coverage surrounding the Bill and some criticisms levelled at the quality of drafting within the Welsh Government. I want to say here and now that I disagree completely with those criticisms. In relation to the drafting of the Bill, this is the largest and most complex Bill yet debated by the Assembly, and it is absolutely critical that we get it right. I make no apology, therefore, for the number of amendments, technical or otherwise, that I have tabled. It is inevitable, I think, in a Bill of this size and public importance, that changes arise, not least because of my genuine desire to engage widely with and listen to those who are affected by this Bill, including local government, the third and independent sectors, citizens, and, of course, Assembly Members.

Rwyf yn ymwybodol o'r sylw diweddar yn y cyfryngau i'r Bil a rhywfaint o feirniadu ar safon y drafftio o fewn Llywodraeth Cymru. Hoffwn ddweud yn awr fy mod yn anghytuno'n llwyr â'r beirniadaethau hynny. O ran drafftio'r Bil, dyma'r Bil mwyaf a'r mwyaf cymhleth y mae'r Cynulliad erioed wedi'i drafod, ac mae'n hollbwysig ein bod yn ei wneud yn iawn. Nid wyf yn ymddiheuro, felly, am nifer y gwelliannau, technegol neu fel arall, yr wyf wedi'u cyflwyno. Mae'n anochel, yn fy marn i, mewn Bil sydd mor fawr ac mor bwysig i'r cyhoedd â hwn, fod newidiadau'n codi; un o'r prif resymau am hynny yw fy awydd gwirioneddol i ymgysylltu'n eang â phobl y mae'r Bil hwn yn effeithio arnynt a gwranddo arnynt, gan gynnwys llywodraeth leol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, dinasgyddion, ac, wrth gwrs, Aelodau'r Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 113 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 113 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddyldid derbyn gwelliant 113. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 113 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 113 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 113 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 7: Asesu Anghenion am Ofal a Chymorth, Cymorth i Ofalwyr a Gwasanaethau Ataliol (Gwelliannau 300 a 294)

Group 7: Assessment of Needs for Care and Support, Support for Carers and Preventative Services (Amendments 300 and 294)

15:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment is amendment 300. I call on Elin Jones to move amendment 300 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yw gwelliant 300. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 300 ac i siarad amdano a'r gwelliant arall yn y grŵp.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:52

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiau welliant 300 yn fy enw i.

I move amendment 300 in my name.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn ystod Cyfnod 2 o'r Bil hwn, cyflwynais gyfres o welliannau a oedd yn cryfhau'r Bil yng nghyd-destun sicrhau gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer unigolion a oedd yn dewis ac eisiau gwasanaethau yn yr iaith honno. Trechwyd y rhan fwyaf o'r gwelliannau hynny, oni bai am un gwelliant a fyddwn yn ei drafod nes ymlaen pan fydd y Llywodraeth yn ei gyflwyno. Ar gyfer y drafodaeth Cyfnod 3 y prynhawn yma, rwyf wedi cynnig un gwelliant yn unig a ffocysu'r gwelliant o ran gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar roi dyletswydd benodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd, pan ydynt yn asesu ar y cyd, i gymryd y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg os taw dyna brif iaith yr unigolyn sy'n cael ei asesu.

Rydym yn gwybod, wrth gwrs, fod polisi'r Dirprwy Weinidog, a pholisi'r Llywodraeth, yn wir, ar ehangu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn bolisi clodwiw. Yr hyn sydd yn wendid yw gweithredu'r dyheadau polisi hynny mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru. Felly, dyna pam rwy'n cyflwyno'r gwelliant hwn y prynhawn yma i roi asesiad o anghenion unigolion o ran yr angen i gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar wyneb y Bil ac mewn deddfwriaeth gynradd. Mae'r Dirprwy Weinidog, yn ei hymateb hyd yn hyn ar y materion hyn yn y pwyllgor ac mewn trafodaethau gyda fi, wedi dweud y gellid cynnwys dyletswyddau o'r math hwn am asesu anghenion ieithyddol mewn rheoliadau a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth gynradd hon.

Fodd bynnag, yn amlach na pheidio, yr hyn rydym yn ei weld wrth ddatblygu a chyflwyno rheoliadau yw bod y rheoliadau hynny yn dilyn ysbryd y Ddeddf gychwynnol. Os yw'r ddeddfwriaeth gynradd yn dawel ar y Gymraeg, yna mae posibilrwydd real iawn y bydd y rheoliadau a fydd yn deillio maes o law hefyd yn dawel ar yr angen i gyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Gwelsom hynny yn y drafodaeth ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, lle gwnaed nifer o gyfeiriadau at y ffaith y gellid edrych ar gyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl yn y Gymraeg mewn rheoliadau maes o law, ond pan ddaeth hi'n amser cyflwyno'r rheoliadau hynny, roeddent yn dawel ar yr iaith Gymraeg. Y rhesymau, mae'n debyg, yr oedd cyfreithwyr yn eu cyflwyno oedd nad oedd unrhyw gyfeiriad at hynny yn y ddeddfwriaeth gynradd gychwynnol.

Mae'n bosibl hefyd fod y Dirprwy Weinidog o'r farn bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau sydd yn deillio o'r Mesur hwnnw hefyd yn fodd i gyflwyno'r amcan polisi yr wyf eisiau gweld yn cael ei gyflwyno drwy'r gwelliant hwn heddiw, a gall cyflwyno hynny a sicrhau gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r Mesur a'r safonau sydd yn deillio ohono. O'r hyn rwyf wedi ei gweld o'r safonau hyd yn hyn, sydd wedi eu cyhoeddi mewn ffurf drafft, yn sicr nad ydynt yn mynd yn ddigon pell i gyraedd sefyllfa lle byddai angenion person ag anghenion gofal am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu sicrhau drwy'r safonau hynny. Nid wyf yn credu bod unrhyw sicrwydd y byddem yn gweld hynny'n digwydd. Felly, rwyf dal o'r farn fod angen gosod y cymal hwn a'r angen hwn i hyrwyddo darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r unigolion sydd eisiau ac angen hynny, ar wyneb y Bil y prynhawn yma.

During Stage 2 of this Bill, I tabled a series of amendments that strengthened the Bill in the context of securing social services through the medium of Welsh for individuals who sought services in that language. Those amendments were defeated, for the most part, apart from one amendment that we will discuss later when the Government will present it. For the purposes of this afternoon's Stage 3 debate, I have submitted just one amendment and have focused that amendment in relation to Welsh-medium services on placing a specific duty on local authorities and health boards, when jointly assessing, to take the steps that need to be taken in order to provide services through the medium of Welsh if that is the main language of the individual who is being assessed.

We know, of course, that the policy of the Deputy Minister, and, indeed, of the Government, on enhancing health and social services through the medium of Welsh is a praiseworthy policy. What is a weakness is the implementation of those policy aspirations in many parts of Wales. That is why I have brought forward this amendment this afternoon to provide an assessment of individual needs in terms of the requirement for a Welsh-medium service on the face of the Bill and in primary legislation. The Deputy Minister, in her response thus far to these issues in the committee and in discussions with me, has said that duties of this kind to assess linguistic needs could be included in the regulations that will emerge from this primary legislation.

However, more often than not, what we see in the development and introduction of regulations is that those regulations follow the spirit of the initial Act. If the primary legislation is silent on the issue of the Welsh language, then there is a very real possibility that the regulations that will emerge in due course will also be silent on the need to provide services through the medium of Welsh. We saw that in the discussion on the Mental Health (Wales) Measure 2010, where there were a number of references to the fact that mental health services through the medium of Welsh could be introduced in regulations in due course, but, when it came to bringing those regulations forward, they were silent on the issue of the Welsh language. The reasons, it appears, that lawyers were putting forward was that there was no reference to that in the initial primary legislation.

It is also possible that the Deputy Minister is of the opinion that the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and the standards emerging from that Measure are also a means of achieving the policy objective that I want to see delivered through this amendment today, and that that could be introduced and a service through the medium of Welsh provided via the Measure and the standards that emerge from it. From what I have seen of the standards to date, which have been published in draft form, they certainly do not go far enough to reach a position where the needs of an individual who has care needs for a service through the medium of Welsh could be secured through those standards. I do not believe that there is any assurance that we would see that happen. Therefore, I remain of the opinion that we need to place this clause and this requirement on the promotion of the provision of services through the medium of Welsh for those individuals who want and require that, on the face of the Bill this afternoon.

I will begin by saying that the Welsh Liberal Democrats will support Elin Jones's amendment 300. She raises a very important point. If the legislation is about delivering high standards of quality care, the ability to receive care through your first language is surely a vital component in achieving that goal. My own amendment in this group is amendment 294, which seeks to insert in section 11 a statement, which is:

'Regulations made under this section shall clarify that visits to deliver personal care in an adult's home should not normally be commissioned to last less than thirty minutes'.

The use of 15-minute care slots has significantly increased across the UK. Figures from the summer of 2013 showed that the vast majority of local authorities in Wales commission 15-minute care slots. The use of 15-minute care slots has been of increasing concern to those who are in receipt of care and those who are required to deliver it. As I stated earlier, some of these domiciliary care visits are used to carry out the most intimate care, as well as some very basic provisions, such as providing a meal. There is testimony that sometimes domiciliary care workers have the choice of bathing or toileting an individual or providing them with a meal, and find it impossible to do that in the time that is allowed to them.

Also, there is the issue of the concept of rehabilitation in this Bill. The Minister says that this Bill is about providing care and support in a way that enhances independence. The reality is that, if you are a hard-pressed domiciliary care worker with the job of ensuring that your client has eaten, it is far easier to make that cup of tea or to make that meal rather than assist the person in the making of that cup of tea or in the making of that meal. So, actually, 15-minute care slots can denude a person of their independence. It can de-skill an individual, because that worker simply has to get in and out of there quickly, and cannot take the time to assist the person to carry out those tasks. Thus, very quickly, it can make that person very dependent on those care slots, rather than the care being used as a way of promoting independence.

I appreciate that there may be circumstances in which a visit of less than 30 minutes is acceptable. For instance, perhaps the task is simply to ensure that a person has got up, has eaten or has taken their medication, and perhaps 30 minutes is not required for that particular visit, but there is nothing in this amendment that prevents those slots from being made available. However, it sends a very clear message to those who are commissioning services that, under normal circumstances, care slots should not be commissioned for less than 30 minutes. That should be the norm. Indeed, 30 minutes in itself is not a long time in which to deliver these services. This is not a blanket approach that does not provide for some flexibility should a care slot of less than 30 minutes be acceptable.

Dechreuaf drwy ddweud y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi gwelliant 300 Elin Jones. Mae hi'n codi pwynt pwysig iawn. Os yw'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â darparu gofal o ansawdd da at safon uchel, mae gallu derbyn gofal drwy gyfrwng eich iaith gyntaf yn sicr yn hanfodol er mwyn cyflawni'r nod hwnnw. Fy ngwelliant i yn y grŵp hwn yw gwelliant 294, sy'n ceisio mewnosod datganiad yn adran 11, sef:

'Bydd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn egluro na ddylai ymweliadau i ddarparu gofal personol yng nghartref oedolyn gael eu comisiynu fel arfer i bara llai na thri deg munud'.

Mae defnyddio slotiau gofal 15 munud ar gynydd sylweddol ledled y DU. Mae ffigurau haf 2013 yn dangos bod y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol yng Nghymru'n comisiynu slotiau gofal 15 munud. Mae defnyddio slotiau gofal 15 munud wedi bod yn destun pryder cynyddol i bobl sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gorfod rhoi'r gofal. Fel y dywedais yn gynharach, defnyddir rhai o'r ymweliadau gofal cartref hyn i roi'r gofal mwyaf personol, yn ogystal â rhai darpariaethau sylfaenol iawn, megis darparu pryd o fwyd. Mae tystiolaeth bod gweithwyr gofal cartref weithiau'n gorfod dewis golchi unigolyn neu ei helpu i ddefnyddio'r toiled neu ddarparu pryd o fwyd, ac yn ei chael yn amhosibl gwneud hynny yn yr amser a ganiateir iddynt.

Hefyd, mae mater cysyniad adsefydlu yn y Bil hwn. Dywed y Gweinidog fod y Bil hwn yn ymwneud â darparu gofal a chymorth mewn modd sy'n hybu annibyniaeth. Y gwir amdani yw, os ydych yn weithiwr gofal cartref dan bwysau yn y gwaith i sicrhau bod eich cleient wedi bwyta, mae'n haws o lawer gwneud y baned o de neu wneud y pryd bwyd na chynorthwyo'r unigolyn i wneud y baned o de neu i wneud y pryd bwyd. Felly, mewn gwirionedd, gall slotiau gofal 15 munud dynnu annibyniaeth oddi ar unigolyn. Gall ddatgilio unigolyn, oherwydd mae'n rhaid i'r gweithiwr fynd i mewn ac allan oddi yno'n gyflym, ac ni all gymryd yr amser i gynorthwyo'r unigolyn i gyflawni'r tasgau hynny. Felly, yn gyflym iawn, gall wneud yr unigolyn hwnnw'n ddibynnol iawn ar y slotiau gofal hynny, yn hytrach na bod y gofal yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o hybu annibyniaeth.

Rwyf yn cydnabod y gall ymweliad o lai na 30 munud fod yn dderbyniol o dan rai amgylchiadau. Er enghraifft, efallai mai'r unig dasg yw sicrhau bod unigolyn wedi codi, wedi bwyta neu wedi cymryd meddyginiaeth, ac efallai na fydd angen 30 munud ar gyfer yr ymweliad penodol hwnnw, ond nid oes dim yn y gwelliant hwn sy'n atal trefnu'r slotiau hynny. Fodd bynnag, mae'n anfon neges glir iawn i bobl sy'n comisiynu gwasanaethau na ddylid comisiynu slotiau gofal am lai na 30 munud, dan amgylchiadau arferol. Dyna ddylai fod y norm. Yn wir, nid yw 30 munud ychwaith yn llawer o amser i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Nid ymagwedd gyffredinol yw hon nad yw'n darparu ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd pe bai slot gofal byrrach na 30 munud yn dderbyniol.

At Stage 2, in resisting these amendments, the Deputy Minister said that her aim for this Bill was all about quality. Well, one really has to wonder whether a quality service can be delivered in less than 30 minutes. The Deputy Minister also stated at Stage 2 that she acknowledged the concerns that there were out there about 15-minute care slots. She said that she would go back to her officials to consider the spirit of my amendment and would work with her officials to see what could be accomplished in future legislation around inspection regimes. I hope that the Deputy Minister will take this opportunity, if she intends to continue to resist the amendment, to tell us what progress she has made with officials in discussing this and whether, if this is not the appropriate place to take forward amendments restricting 15-minute care slots, it is her Government's intention to do so in future inspection legislation that she intends to bring to the Chamber.

Yng Nghyfnod 2, wrth wrthsefyll y gwelliannau hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog bod ei nod ar gyfer y Bil hwn yn gwbl seiliedig ar ansawdd. Wel, mae'n rhaid i rywun ofyn tybed a ellir darparu gwasanaeth o safon mewn llai na 30 munud. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd yng Nghyfnod 2 ei bod yn cydnabod y pryderon am slotiau gofal 15 munud. Dywedodd y byddai'n mynd yn ôl at ei swyddogion i ystyried ysbryd fy ngwelliant ac y byddai'n gweithio gyda'i swyddogion i weld beth y gellid ei gyflawni mewn deddfwriaeth yn y dyfodol o ran cyfundrefnau arolygu. Rwyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn manteisio ar y cyfle hwn, os yw'n bwriadu parhau i wrthsefyll y gwelliant, i ddweud wrthym pa gynnydd y mae wedi'i wneud o ran trafod hyn â swyddogion, ac, os nad dyma'r man priodol i fwrw ymlaen â gwelliannau'n cyfyngu ar slotiau gofal 15 munud, a yw ei Llywodraeth yn bwriadu gwneud hynny mewn deddfwriaeth arolygu y mae'n bwriadu ei chyflwyno i'r Siambr yn y dyfodol.

16:01

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I speak to amendment 295, tabled in the name of Kirsty Williams. A very close relative of mine was employed by a domiciliary care company and I asked her to detail for me the most that she was expected to do in a 15-minute slot. She had to let herself in and telephone the company to log in that she had arrived, read the care plan, prepare a meal, feed the client, prompt him to use the loo, change him into his nightclothes after washing his hands and his face, put him to bed, close the house up for the night, write up the notes, telephone to let the company know that she was leaving, and then lock the door and leave. She has a very talented mother, but she could not deliver that in 15 minutes; I do not think that anybody could. It is impossible to achieve those things in that time slot. None of her visits could be delivered within 15 minutes, she said, so she often took much longer. The knock-on effect is that she is late for the next visit; the clients and workers become stressed and she often returned home at the end of her shift highly distressed. She was very sad that it is quicker to put a nappy on somebody than it is to supervise them on the toilet. We really need to think about that, because we are providing care for old and vulnerable people on the very cheap, and the people subsidising that care are the workers who are delivering it. So, I am all for the amendment that ensures a minimum slot of 30 minutes, but we need to ensure that all the tasks that are allotted to a time slot can be achieved in that half an hour. My fear is that there will be more tasks piled up, to the detriment of the client and the workers delivering the care.

My father-in-law had several 15-minute visits a day during the last year or so of his life. He had dementia, which meant that he just needed a prompt to take his medication and someone to check that he had eaten his lunch and to give him a drink. What he really wanted, of course, was someone to sit with him and have a chat while he drank his cup of tea. In fact, I think that he would rather have had the chat than the drink. We will be supporting the amendments in this group so that appropriate care and meaningful human contact can be achieved in absolutely every visit.

Siaradaf am welliant 295, a gyflwynwyd yn enw Kirsty Williams. Roedd perthynas agos iawn imi'n gweithio i gwmni gofal cartref, a gofynnais iddi roi manylion imi am y mwyaf yr oedd disgwyl iddi ei wneud mewn slot 15 munud. Roedd yn rhaid iddi fynd i mewn i'r cartref a ffonio'r cwmni i gofnodi ei bod wedi cyrraedd, darllen y cynllun gofal, paratoi pryd o fwyd, bwydo'r cleient, ei annog i ddefnyddio'r tŷ bach, ei newid i'w ddillad nos ar ôl golchi ei ddwylo a'i wyneb, ei roi yn y gwely, cloi'r tŷ am y nos, ysgrifennu'r nodiadau, ffonio'r cwmni i ddweud ei bod yn gadael, ac yna gloi'r drws a gadael. Mae ganddi fam dalentog iawn, ond ni allai gyflawni hynny mewn 15 munud; nid wyf yn credu y gallai neb. Mae'n amhosibl cyflawni'r pethau hynny yn y slot amser hwnnw. Ni allai gyflawni dim o'i hymweliadau o fewn 15 munud, meddai hi, felly roedd hi'n aml yn cymryd llawer mwy o amser. Y sgil effaith yw ei bod yn hwyr i'r ymweliad nesaf; mae'r cleientiaid a'r gweithwyr yn dechrau teimlo'r straen ac roedd hi'n aml yn dychwelyd adref ar ddiwedd ei shift mewn trallod mawr. Roedd hi'n drist iawn ei bod hi'n gynt rhoi cewyn ar rywun na'i oruchwyllo ar y toiled. Mae gwir angen inni feddwl am hynny, oherwydd rydym yn darparu gofal i bobl hen a bregus yn rhad iawn, a'r bobl sy'n sybsideiddio'r gofal hwnnw yw'r gweithwyr sy'n ei ddarparu. Felly, rwyf yn sicr o blaid y gwelliant sy'n sicrhau slotiau o 30 munud o leiaf, ond mae angen inni sicrhau ei bod yn bosibl cyflawni'r holl dasgau sydd wedi'u neilltuo i slot amser o fewn yr hanner awr. Fy ofn yw y caiff mwy o dasgau eu pentyrru, ar draul y cleient a'r gweithwyr sy'n darparu'r gofal.

Cafodd fy nhad-yng-nghyfraith sawl ymweliad 15 munud y dydd yn ystod blwyddyn neu ddwy olaf ei fywyd. Roedd dementia arno, a oedd yn golygu mai'r cwbl yr oedd ei angen arno oedd anogaeth i gymryd ei feddyginiaeth a rhywun i wneud yn siŵr ei fod wedi bwyta ei ginio a rhoi diod iddo. Yr hyn yr oedd ei eisiau arno mewn gwirionedd, wrth gwrs, oedd rhywun i eistedd gydag ef a chael sgwrs pan oedd yn yfed ei baned. Yn wir, rwyf yn meddwl y byddai'n well ganddo fod wedi cael y sgwrs na'r ddioid. Byddwn yn cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn er mwyn gallu darparu gofal priodol a chyswllt dynol ystyrlon ym mhob un ymweliad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n codi yn benodol i siarad o blaid gwelliant 300 yn enw Elin Jones, ond rwyf hefyd eisiau ychwanegu fy nghefnogaeth innau i'r gwelliant yn enw Kirsty Williams. Yn fy mhrofiad i, mae 30 munud yn aml iawn yn troi'n 20 munud o ofal go iawn, ac mae 15 munud yn troi'n 10 munud, ac nid oes gwerth i'r person sy'n derbyn gofal o dan y gyfundrefn honno. Rwy'n meddwl bod egwyddor yr hyn y mae Kirsty wedi'i gynnal heddiw yn un pwysig i ni i gyd er mwyn cael system gofal gwell a mwy dyngarol. Trof yn benodol at y prif welliant yn y grŵp hwn, sef gwelliant 300 yn enw Elin Jones. Yn benodol yn fy etholaeth i, rwy'n aml iawn yn dod ar draws cwynion gan bobl y mae eu mam-gu neu eu tad-cu yn derbyn gofal lle nad yw'r gofal ar gael yn Gymraeg o gwbl. Maent yn holi pam nad yw'n ddewis. Er enghraifft, ym mholisi iaith bwrdd iechyd Hywel Dda, mae dewis clir, sef dylai'r claf gael derbyn y gofal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Fodd bynnag, yn syml iawn, nid yw hynny'n digwydd. Rydym yn gwybod pam—nid yw'r gweithlu sydd gennym yn y maes hwn yn adlewyrchu'r patrwm ieithyddol yn lleol, ac nid yw'n weithlu sy'n derbyn hyfforddiant—dyna'r peth pwysig—i'w galluogi, efallai, i ymroi i roi gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwyf wedi gweld hyn yn fy nheulu fy hun, lle'r oedd dyn a oedd yn perthyn i mi eisiau'r gofal hwn. Byddai'n dechrau pob sgwrs yn Gymraeg, lle bynnag yr oedd—nid jyst yng Nghymru, ond unrhyw le yn y byd; dyna pa mor gefnogol ydoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, ni chafodd eiliad neu funud o ofal yn ei gartref drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr ysbyty, roedd pethau ychydig yn wahanol, ond yn ei gartref, roedd yn amhosibl i fynnu cael y gwasanaeth hwnnw.

Felly, mae'n amlwg bod yn rhaid inni osod y cywair a'r ethos cywir yn y Bil hwn i sicrhau bod y neges yn mynd allan—nid ar gyfer rhywbeth sydd wedi cael ei greu dros nos, ond fel bod y gweithlu yn cael ei baratoi ar gyfer cynnal gofal yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae'r maes hwn wedi cael ei gydnabod eisoes. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dewis y maes hwn fel ei maes cyntaf, o dan adran 7 Mesur y Gymraeg a basiwyd gan y Cynulliad blaenorol, i gynnal ymchwiliad cyhoeddus. Mae hi'n casglu'r dystiolaeth ar hyn o bryd, a bydd yn cyhoeddi eleni ffrwyth y dystiolaeth honno. Drwy basio'r gwelliant hwn byddwn yn paratoi'r ffordd i weithredu yn sgil tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg. Ni fyddem yn pasio yn y fan hon unrhyw beth o ran rheoliadau ac nid ydym yn cynnal unrhyw beth o ran canllawiau, neu unrhyw beth sy'n newid pethau ar lawr wlad. Pasio'r egwyddor fyddem ni, ac fe fyddem yn gallu ffurfio rheoliadau a chanllawiau yn sgil yr hyn sy'n cael ei ganfod gan ymchwiliad y comisiynydd a phobl eraill sy'n gweithio yn y maes hwn.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:06.

I rise to speak in support of amendment 300 in the name of Elin Jones in particular, but I also want to add my support to the amendment in the name of Kirsty Williams. In my experience, 30 minutes often turns into 20 minutes of real care, and 15 minutes becomes 10 minutes, and there is no value to the individual receiving care under that regime. I do believe that the principle behind what Kirsty has proposed today is important to us all in order to get a better and more humane care system. I turn to the lead amendment in this group, namely amendment 300 in the name of Elin Jones. Specifically in my constituency, I often come across complaints from people whose grandparents receive care where that care is not available through the medium of Welsh. They ask why it is not an option. For example, in Hywel Dda health board's language policy, there is a clear option, which is that the patient should be able to receive care through the medium of Welsh or English. However, quite simply, that does not happen. We know why it does not happen—it is because the workforce that we have in this area does not necessarily reflect the linguistic pattern locally, and it is not a workforce that is provided with the necessary training—that is the important thing—to enable them to commit to providing social care through the medium of Welsh. I have seen it within my own family, where a gentleman who was a relative of mine started every conversation in Welsh wherever he was, not just in Wales, wherever he was anywhere in the world; that is how supportive he was in terms of the use of the Welsh language. However, he had not been given a single second or minute of care in his home through the medium of Welsh. In hospital, it was a little different, but at home it was impossible for him to access that service through the medium of Welsh.

So, it is clear that we need to set the correct tone and ethos in this Bill to ensure that the message gets out there—not for something that is going to be achieved overnight, but so that the workforce can be prepared to deliver services through the medium of both languages in Wales. This area has been recognised already. The Welsh Language Commissioner has chosen this area as her first area of inquiry under section 7 of the Welsh Language Measure passed by the previous Assembly to hold a public inquiry. She is currently taking evidence, and she is about to publish this year the outcome of that evidence gathering. In passing this amendment, we will prepare the way to take action in the light of the evidence that will be reported to us by the Welsh Language Commissioner. We are not passing anything here in terms of regulation and we are not proposing anything in terms of guidance or anything that makes a significant change at grass-roots level. We are passing simply the principle, and we could then formulate regulations and guidance in the light of what is found by the commissioner and others working in this area.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:06.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y peth olaf yr wyf eisiau gwneud yn y cyd-destun hwn yw gofyn i chi beidio â dibynnu ar safonau'r iaith Cymraeg i ddelifro'r hyn sydd, gobeithio, yn fwrriad ac yn amcan gan bawb yma, sef darparu gofal yn newis iaith y claf. Mae'n amlwg i mi fod safonau'r Cymraeg yn y gors, fel y dywedodd rhywun. Yn sicr, maent yn anodd dod o hyd iddynt. Nid yw'r byrddau iechyd yn rhan o'r rhai cyntaf. Mae'r awdurdodau yn gynwysedig, ac o bosibl y gwasanaethau cymdeithas, ond nid yw'r byrddau iechyd wedi'i cynnwys. Mae cymaint o'r gwaith hwn yn gorwedd rhwng y byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Felly, os ydym am sicrhau bod gofal cymdeithasol ar gael i glaf yn ei ddewis iaith, yn Gymraeg neu'n Saesneg, rhaid gosod hynny ar wyneb y Bil hwn. Felly, rwy'n erfyn ar y Cynulliad i gefnogi'r hyn y mae Elin Jones wedi ei gynneg heddiw.

The final thing that I want to do in this context is to ask you not to depend on Welsh language standards to deliver what will hopefully be the objective of everyone here, namely care available in the language of the patient's choice. It is clear to me that the Welsh language standards are in the mire, as someone said. Certainly, it is difficult to find them. The health boards are not captured under the first set of standards. The authorities and possibly social services are there, but the health boards are not. So much of this work lies between the health service and the social care service. So, if we are to ensure that there is a choice of language available to the patient receiving social care through the medium of Welsh or through the medium of English, then we must set the tone on the face of this Bill. I urge the Assembly, therefore, to support Elin Jones's amendment.

16:08

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar iawn i'm cydweithiwr Simon Thomas am gyfeirio ataf. Rhag achosi unrhyw ofid i'r llefarydd ar y pwnc hwn, sydd hefyd yn chwip i'm plaid, byddaf yn pleidleisio dros y gwelliant. Fodd bynnag, rwyf eisiau rhoi rhybudd hollol glir ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn dechrau deddfu yn dameidiog ar ieithoedd swyddogol Cymru—y Gymraeg a'r Saesneg. A fyddwn, bob tro y down i ddeddfu ar wasanaeth cyhoeddus, yn creu isadran o ddeddfwriaeth ynglŷn â'r iaith Gymraeg, fel sy'n cael ei wneud gan y gwelliant hwn, neu a fyddwn yn dyrchafu'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg, neu unrhyw gyfathrebu ieithyddol—ac mae hynny'n cynnwys darpariaeth mewn ieithoedd eraill hefyd, o ystyried dinasyddiaeth ieithyddol gymysg Cymru; ac mae'n rhaid dweud nad ydym wedi gwneud hanner digon yn y cyfeiriad hwnnw ychwaith, yn fy marn i—i'r lefel y mae'n perthyn, sef fel sail i ddinasyddiaeth pobl ac fel rhywbeth sy'n gyffredinol ar gael mewn gwasanaethau cymdeithasol? Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn nad ydym yn mynd i sefyllfa lle rydym yn teimlo bod yn rhaid inni ychwanegu rhyw gais i wneud rheoliadau penodol am y Gymraeg, ochr yn ochr â'r Saesneg, mewn darpariaeth mewn Biliâu o'r natur yma.

I am very grateful to my colleague Simon Thomas for alluding to me. Rather than causing any concern to the spokesperson, who is also my whip, I will be voting for the amendment. However, I want to say clearly that we are now taking a piecemeal approach to the official languages of Wales—Welsh and English. Every time we come to make public legislation, are we going to create a subsection of legislation on the Welsh language, as is done through this amendment, or will we actually raise up and elevate the English and Welsh languages, or any other linguistic communication—and that includes provision in other languages, given the mixed linguistic citizenship of Wales; and it must be said that we have not done half enough in that direction, in my view—to the level where it belongs, namely as the basis of people's citizenship and as something that is generally available in public services? Therefore, I think that it is exceptionally important that we do not get into a position where we feel that we have to add requests to make specific regulations for the Welsh language, side by side with the English language, in provision in Bills of this nature.

Felly, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni bwylllo pan fyddwn yn deddfu yn y ffordd hon, oherwydd mae'n dameidiog, mae'n ddryslyd, ac mae'n ychwanegu at ddeddfwriaeth ieithyddol aneffeithiol ac anghyson. Mae'n ein gosod mewn sefyllfa lai eglur o lawer na'r sefyllfa pan oeddwn yn gweithredu Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ragorol Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig.

So, I believe that we must, in my view, be cautious when we legislate in this manner. It is piecemeal and consuming, and it adds to inconsistent and ineffective linguistic legislation. It places us in a position that is much less clear than when I implemented the excellent Welsh Language Act 1993 of the UK Conservative Government.

16:10

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The amendments in this group seek to amend section 11 of the Bill. In relation to amendment 300, I thank Elin Jones for bringing this forward and support her continuing commitment to raising the profile of the Welsh language in public services. During Stage 2 proceedings, we discussed the issue of whether there should be specific reference, to take the point that Dafydd Elis-Thomas has made, to the Welsh language in a number of sections of the Bill. The amendments tabled at that stage where not passed. The Health and Social Care Committee did, however, agree a Government amendment at Stage 2 to introduce a section 4(3)(c)—a very important overarching duty that requires those exercising functions under the Act to

Nod y gwelliannau yn y grŵp hwn yw ceisio diwygio adran 11 y Bil. O ran gwelliant 300, hoffwn ddiolch i Elin Jones am gyflwyno hyn a chefnogaf ei hymrwymiad parhaus i godi proffil y Gymraeg yn y gwasanaethau cyhoeddus. Yn ystod trafodion Cyfnod 2, trafodwyd a ddylid cyfeirio'n benodol, a chymryd pwynt Dafydd Elis-Thomas, at y Gymraeg mewn nifer o adrannau yn y Bil. Ni chafodd y gwelliannau a gyflwynwyd yn y cyfnod hwnnw eu derbyn. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar welliant gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 2 i gyflwyno adran 4(3)(c)—dyletswydd hollgyffredinol bwysig iawn sy'n mynnu bod pobl sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf yn

'have regard to the characteristics, culture and beliefs of the individual (including, for example, language)'.

This duty applies across the whole of the Bill, and does, in my view, address the intent of Elin Jones's amendment. For this reason, my position remains as stated during Stage 2—to include separate reference to the Welsh language within an individual section is unnecessary.

Turning next to amendment 294, this, again, is an issue that was considered and not agreed during Stage 2 proceedings on 13 November. This amendment seeks to ensure that visits to deliver personal care, as we have heard from Kirsty Williams and Jocelyn Davies, in an adult's home are commissioned to last no less than 30 minutes. My view on the amendment remains unchanged; what is important is the quality of care provided, not the amount of time. While such matters do need addressing, the Bill is not the place to do this. This is more appropriate for the service standards that are developed as part of the commissioning and monitoring arrangements. I take very seriously the comments that have been made this afternoon and I will commit to return to this in the context of legislation relating to regulation and inspection. I ask, therefore, that Members do not support either amendment in this group.

'rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith)'.

Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol ar draws y Bil cyfan, ac mae, yn fy marn i, yn cyflawni bwriad gwelliant Elin Jones. Am y rheswm hwnnw, nid yw fy safbwynt wedi newid ers Cyfnod 2—nid oes angen cyfeirio ar wahân at y Gymraeg o fewn adran unigol.

A throi nesaf at welliant 294, mae hwn, unwaith eto, yn fater a ystyriwyd ac na chafodd ei dderbyn yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 13 Tachwedd. Mae'r gwelliant hwn yn ceisio sicrhau bod ymweliadau i ddarparu gofal personol, fel yr ydym wedi'i glywed gan Kirsty Williams a Jocelyn Davies, yng nghartref oedolyn yn cael eu comisiynu i bara o leiaf 30 munud. Nid wyf wedi newid fy marn am y gwelliant; ansawdd y gofal a ddarperir sy'n bwysig, nid faint o amser a dreulir. Er bod angen rhoi sylw i faterion o'r fath, nid y Bil yw'r lle i wneud hyn. Mae hyn yn fwy priodol i'r safonau gwasanaeth a ddatblygir fel rhan o'r trefniadau comisiynu a monitro. Rwyf yn cymryd y sylwadau sydd wedi'u gwneud y prynhawn yma o ddirif, ac ymrwymaf i ddychwelyd at hyn yng nghyd-destun deddfwriaeth yn ymwneud â rheoleiddio ac arolygu. Gofynnaf, felly, i'r Aelodau beidio â chefnogi'r naill welliant na'r llall yn y grŵp hwn.

16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Elin Jones to reply.

Galwaf ar Elin Jones i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:12 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ymateb i'r sylwadau sydd wedi cael eu gwneud ynglŷn â gwelliant 300 yn fy enw i ddechrau, dim ond i gadarnhau, fel y dywedais yn fy nghyflwyniad, nad gwelliannau tameidiog yw'r rhai yr wyf yn eu cyflwyno o ran yr iaith Gymraeg a'r Bil hwn. O bosibl, gellid fod wedi dehongli beth y cyflwynais yng Nghyfnod 2 felly, ond nid y gwelliant sydd o'n blaenau y prynhawn yma—mae'n benodol a 'specific' iawn, sef bod yna ofyniad ar wyneb y Bil fod asesiad o anghenion gofal unigolyn yn cynnwys asesiad o angen iaith unigolyn.

If I may respond to the comments made on the amendment in my name, amendment 300? First of all, I would just like to confirm, as I said in my introduction, that this is not a piecemeal approach to amendments in terms of the Welsh language and this Bill. What I tabled at Stage 2 could possibly have been interpreted in this way, but not the amendment before us this afternoon—it is very specific indeed, namely that there is a requirement on the face of the Bill that there is an assessment of the care needs of an individual, including an assessment of the linguistic needs of an individual.

Os byddai gennyf unrhyw ffydd fod y safonau drafft, fel y maent wedi'u cyflwyno gan y Llywodraeth hon i awdurdodau lleol, yn fodd o sicrhau hynny, yna ni fyddem wedi cyflwyno'r gwelliant hwn. Os byddai gennyf unrhyw ffydd fod y gwasanaethau sydd ar gael i'm hetholwyr i, lle mae angen gofal arnynt yn eu cartrefi neu mewn sefyllfaoedd cartrefi cymdeithasol, a'r ddarpariaeth honno wedi bod yna yn ôl eu hangen ac yn eu dewis iaith o dan yr 20 mlynedd ddiwethaf o ddeddfwriaeth wych, fel y dywedodd Dafydd Elis-Thomas, yna ni fyddem wedi cyflwyno gwelliant o'r math hwn y prynhawn yma. Felly, gwelliant penodol iawn yw hwn i edrych ar asesiadau unigolion sydd angen gwasanaeth pan maent ar eu mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Felly, rwy'n bwriadu parhau â'r gwelliant hwn y prynhawn yma.

If I had any faith that the draft standards, as they have been brought forward by this Government and local authorities, were a means of ensuring that, then I would not have tabled this amendment in the first place. If I had any faith that the services available to my constituents, where they need care in their homes or in social care home circumstances, had been in place, according to their needs and in their language of choice, over the past 20 years of excellent legislation, as Dafydd Elis-Thomas referred, then I would not have tabled an amendment of this kind this afternoon. So, it is a very specific amendment looking at the assessment of individuals who require a service when they are at their most vulnerable in our society. Therefore, I will proceed with this amendment this afternoon.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 300 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 300. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly awn ymlaen at bleidlais electronig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 300.](#)

[Result of the vote on amendment 300.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 300: O blaid 16, Yn erbyn 42, Ymatal 0.

Amendment 300 not agreed: For 16, Against 42, Abstain 0.

- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on Kirsty Williams to move amendment 294. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 294.
- 16:15 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 294 in my name. Cynigiau welliant 294 yn fy enw i.
- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 294 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will proceed to an electronic vote. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 294. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly awn ymlaen at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 294.](#)

[Result of the vote on amendment 294.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 294: O blaid 16, Yn erbyn 42, Ymatal 0.

Amendment 294 not agreed: For 16, Against 42, Abstain 0.

Grŵp 8: Strategaeth i Ofalwyr (Gwelliannau 114, 115 a 83)

Group 8: Carers Strategy (Amendments 114, 115 and 83)

- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The lead amendment in the group is amendment 114. I call on the Deputy Minister to move amendment 114 and to speak to it and the other amendments in the group. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 114. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 114 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
- 16:15 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 114 in my name. Cynigiau welliant 114 yn fy enw i.
- If I may, I want to place on record my thanks for the work of the Wales Carers Alliance and other stakeholders in helping us to ensure that the Bill builds on the excellent progress that has been made in Wales in supporting carers and their families. I hope very much that they will continue to work with me and my officials in the development of the regulations and codes of practice that will give effect to this Bill. Os caf, hoffwn gofnodi fy niolch am waith Cynghrair Cynhalwyr Cymru a rhanddeiliaid eraill i'n helpu i sicrhau bod y Bil yn adeiladu ar y cynnydd rhagorol sydd wedi ei wneud yng Nghymru i gynorthwyo gofalwyr a'u teuluoedd. Gobeithiaf yn fawr iawn y byddant yn parhau i weithio gyda mi a'm swyddogion i ddatblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer a fydd yn rhoi grym i'r Bil hwn.
- Amendment 114 is a technical amendment to achieve consistency of drafting throughout the Bill. Amendment 115 fulfils a commitment I made following representation from, among others, the Wales Carers Alliance. I will insert into section 11 of the Bill a new subsection to amend section 40 of the National Health Services (Wales) Act 2006. This will place a duty on local health boards to submit any part of their health and wellbeing strategy that relates to carers to Welsh Ministers. Its effect will be to maintain the leadership role of local health boards, as set out in the Carers Strategies (Wales) Measure 2010. Gwelliant technegol yw gwelliant 114 i sicrhau cysondeb o ran drafftio drwy'r Bil i gyd. Mae gwelliant 115 yn cyflawni ymrwymiad a roddais ar ôl cael sylwadau gan Gynghrair Cynhalwyr Cymru, ymhlith eraill. Byddaf yn mewnosod is-adran newydd yn adran 11 y Bil i ddiwygio adran 40 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd hyn yn ei gwneud yn ddyletswydd ar fyrdau iechyd lleol i gyflwyno unrhyw ran o'u strategaeth iechyd a llesiant sy'n ymwneud â gofalwyr i Weinidogion Cymru. Effaith hyn fydd cadw swyddogaeth arwain y byrddau iechyd lleol, fel y nodir ym Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.

William Graham's amendment 83 was considered at Stage 2 on 27 November 2013 and not passed. My views on this amendment have not changed: I consider it is unnecessary and potentially conflicting. I know that concerns have been raised by both Members and stakeholders about the intention to repeal the carers Measure and William Graham's amendment is clearly a response to those concerns. I want to take the opportunity now to reiterate my view that I do not believe my decision to repeal the Measure will in any way dilute the focus on carers that the Measure sought to develop.

My letter to the Health and Social Care Committee of 18 December, published on the Assembly's website, included a detailed comparison of the existing provisions of the Carers Strategies (Wales) Measure 2010 and the new provisions in the Bill. This demonstrates that there are substantial gains for carers under the new Bill, including an enhanced system of entitlements. Members will also know that I published yesterday a comprehensive written statement about carers, fulfilling a commitment that I gave during an earlier stage. Again, this reinforces the advantages and potential benefits for carers and their families.

Ystyriwyd gwelliant 83 William Graham yng Nghyfnod 2 ar 27 Tachwedd 2013, ac ni chafodd ei dderbyn. Nid yw fy marn am y gwelliant hwn wedi newid: rwyf o'r farn ei fod yn ddiangen ac o bosibl yn gwrthdaro. Gwn fod Aelodau a rhanddeiliaid wedi codi pryderon am y bwriad i ddiddymu'r Mesur gofalwyr ac mae gwelliant William Graham yn amlwg yn ymateb i'r pryderon hynny. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yn awr i ddweud eto fy mod o'r farn na fydd fy mhenderfyniad i ddiddymu'r Mesur mewn unrhyw ffordd yn gwanhau'r pwyslais ar ofalwyr yr oedd y Mesur yn ceisio ei ddatblygu.

Roedd fy llythyr at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 18 Rhagfyr, a gyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad, yn cynnwys cymhariaeth fanwl o ddarpariaethau presennol Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 a'r darpariaethau newydd yn y Bil. Mae hyn yn dangos enillion sylweddol i ofalwyr o dan y Bil newydd, gan gynnwys system well o ran hawliau. Bydd yr Aelodau hefyd yn gwybod fy mod ddoe wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig cynhwysfawr am ofalwyr, gan gyflawni ymrwymiad a roddais yn gynharach. Unwaith eto, mae hyn yn atgyfnerthu'r manteision a'r buddion posibl i ofalwyr a'u teuluoedd.

16:18

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This amendment inserts a new section into the Bill and places a duty on local authorities, along with health boards, to publish a carers' strategy. Several respondents raised concerns during Stage 1 committee evidence about support for carers; the Wales Carers Alliance said that it was extremely disappointed with the Deputy Minister's plans to repeal the Carers Strategies (Wales) Measure 2010. It is not convinced that, although the strategy provides for joint working between health and social services, health services will continue this work at the same momentum if they are no longer leading on the work to prepare and publish the strategies. It further states that, for carers, being identified in the first instance is key to knowing how to find practical and financial help and is critical in reducing carers' stress.

During Stage 2 proceedings, all parties raised concerns about the repeal of the carers Measure. One of the majority party Members commented that they had continuing concerns about the repeal of the carers Measure and asked the Deputy Minister to look at the issue ahead of Stage 3, so that we can see whether we can replicate that duty on health to be fully involved in identifying and supporting carers. Another echo of those calls that said, 'I wonder whether the Deputy Minister could take another look at the issue of the current relationship with local health boards, before Stage 3, to try to ensure the protection offered within the carers Measure is fully reflected within this group.'

Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod adran newydd yn y Bil ac yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol, ynghyd â byrddau iechyd, i gyhoeddi strategaeth ar gyfer gofalwyr. Cododd llawer o ymatebwyr bryderon am gymorth i ofalwyr yn ystod tystiolaeth i'r pwyllgor yng Nghyfnod 1; dywedodd Cyngwraig Cynhalwyr Cymru eu bod yn hynod siomedig â chynlluniau'r Dirprwy Weinidog i ddiddymu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010. Er bod y strategaeth yn darparu ar gyfer cydweithio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, nid ydynt yn argyhoeddedig y bydd gwasanaethau iechyd yn parhau â'r gwaith hwn â'r un momentwm os nad ydynt mwyach yn arwain y gwaith o baratoi a chyhoeddi'r strategaethau. Maent hefyd yn datgan bod cael eu hadnabod yn y lle cyntaf yn allweddol i ofalwyr er mwyn iddynt wybod sut i ddod o hyd i gymorth ymarferol ac ariannol ac yn hanfodol o ran lleihau'r straen ar ofalwyr.

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, mynegodd pob plaid bryderon ynghylch diddymu'r Mesur gofalwyr. Dywedodd un o Aelodau'r blaid fwyafrifol fod ganddynt bryderon o hyd am ddiddymu'r Mesur gofalwyr a gofynnodd i'r Dirprwy Weinidog edrych ar y mater cyn Cyfnod 3, er mwyn gweld a allwn ategu'r ddyletswydd honno o ran iechyd i ymwneud yn llawn ag adnabod a chefnogi gofalwyr. Adlais arall o'r galwadau hynny a oedd yn dweud, 'Tybed a allai'r Dirprwy Weinidog edrych eto ar y berthynas ar hyn o bryd â byrddau iechyd lleol, cyn Cyfnod 3, i geisio sicrhau bod y diogelwch a gynigir yn y Mesur gofalwyr wedi'i adlewyrchu'n llawn o fewn y grŵp hwn.'

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Deputy Minister, at that time, responded that she did not think that a decision to repeal the Measure would dilute the focus on the carers, as she said today. However, the social services Bill advisory group stated that it still has serious issues over the loss of status and detail when local carers strategies are subsumed into the wider health and wellbeing plans as well as about removing a vital legal obligation on LHBs to be the lead agency for the local carers strategies. Although we welcome the Minister's statement, this has not happened, hence the amendment. It is vital that carers have access to the information and services that they need to help them to care, in order to protect their own physical and mental health. We feel that by requiring local authorities and health boards to publish a strategy for carers, that will help to address concerns and ensure that carers are provided with the support that they so richly deserve.

Ar y pryd, ateb y Dirprwy Weinidog oedd nad oedd yn meddwl y byddai penderfyniad i ddi-ddymu'r Mesur yn gwanhau'r pwyslais ar y gofawlyr, fel y dywedodd heddiw. Fodd bynnag, dywedodd grŵp cynghori'r Bil gwasanaethau cymdeithasol fod ganddynt bryderon difrifol o hyd ynglŷn â cholli statws a manylder pan gaiff strategaethau ar gyfer gofawlyr lleol eu cynnwys yn y cynlluniau iechyd a llesiant ehangach yn ogystal ag am gael gwared ar y rhwymedigaeth gyfreithiol hollbwysig ar fyrdau iechyd lleol i fod yn asiantaeth arweiniol i'r strategaethau gofawlyr lleol. Er ein bod yn croesawu datganiad y Gweinidog, nid yw hyn wedi digwydd, a dyna pam y cyflwynwyd y gwelliant. Mae'n hollbwysig bod gofawlyr yn gallu cael y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i ofalu, er mwyn diogelu eu hiechyd corfforol a meddyliol eu hunain. Rydym o'r farn y bydd mynnu bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cyhoeddi strategaeth ar gyfer gofawlyr yn helpu i leddfau pryderon a sicrhau bod gofawlyr yn cael y cymorth y maent yn ei haeddu'n fawr.

16:21 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be brief. On the carers strategy, we strongly support the rights of carers to have the same rights as those whom they care for. Family and other informal carers save the health and social services millions of pounds every year in Wales. Without them, in my opinion, Wales would close down.

Byddaf yn gryno. O ran y strategaeth gofawlyr, rydym yn cefnogi'n gryf hawliau gofawlyr i gael yr un hawliau â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae teuluoedd a gofawlyr anffurfiol eraill yn arbed miliynau o bunnoedd i iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol bob blwyddyn yng Nghymru. Hebddynt, yn fy marn i, byddai Cymru'n dod i stop.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Amendment 83 underlines our policy that health and social services should not only work closely together, but that they should be merged into one unified organisation. Constant calls for collaboration are all well and good, but that will not prevent a serious lack of co-ordination, where, all too often, people who need care and support do not know where to turn and are victims of poor liaison and, as a consequence, of poor standard of service. Therefore, we will be supporting, in particular, amendment 83.

Mae gwelliant 83 yn tanlinellu ein polisi y dylai iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol nid yn unig weithio'n agos gyda'i gilydd, ond y dylent gael eu cyfuno mewn un corff. Mae galwadau cyson am gydweithio'n ddigon teg, ond ni fydd hynny'n atal diffyg cyd-drefnu difrifol, lle nad yw pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, yn rhy aml, yn gwybod i ble i droi ac maent yn dioddef cyswllt gwael ac, yn sgil hynny, wasanaeth o safon isel. Felly, byddwn yn cefnogi gwelliant 83 yn benodol.

16:21 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Liberal Democrats remain concerned over the repeal of the Carers Strategies (Wales) Measure 2010, which only came into force in 2012. At that time, we welcomed very much the specific duty that was placed on LHBs, trusts and local authorities to produce local carers information and consultation strategies, thus providing a clear joint-planning mechanism for carers with health very much in the lead as the lead agency. We believe it is vital that that very positive legislation that was passed at the Assembly at the time is not diluted, especially as the vast majority of carers deal primarily with health services in their caring function.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n dal i bryderu am ddi-ddymu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofawlyr (Cymru) 2010; dim ond yn 2012 y daeth i rym. Bryd hynny, roeddem yn croesawu'n fawr y ddyletswydd benodol a roddwyd i fyrdau iechyd lleol, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol i gynhyrchu gwybodaeth i ofawlyr lleol a strategaethau ymgynghori, gan ddarparu mecanwaith cynllunio ar y cyd clir i ofawlyr, a'r gwasanaeth iechyd yn amlwg ar y blaen fel asiantaeth arweiniol. Rydym yn credu ei bod yn hollbwysig peidio â gwanhau'r ddeddfwriaeth gadarnhaol iawn a basiwyd yn y Cynulliad bryd hynny, yn enwedig gan fod y mwyafrif helaeth o ofawlyr yn ymdrin yn benaf â gwasanaethau iechyd yn eu swyddogaeth ofalu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Amendment 115 places a specific duty on the LHBs, and I welcome the Deputy Minister's attempts to do that. It potentially has the benefit of embedding carers into the unified local strategic planning mechanisms that were outlined in 'Shared Purpose—Shared Delivery'. However, again, because of the framework nature of this particular piece of legislation, the amendment is vague and provides no detail on exactly what the LHB will be responsible for reporting on, including the content, the format or how that would fit into existing single integrated plans.

I would like the Deputy Minister to take this opportunity in the Stage 3 debate today to flesh out what her policy intention is for amendment 115, to give reassurances to those outside of this Chamber that the good work that was previously achieved, under the carers Measure, will not be lost, and to give a very clear steer to local health boards in terms of what their responsibilities are, should 115 be passed today. Also, I would like the Deputy Minister to take this opportunity to state clearly on the record that the detailed information contained within the existing carers strategies provided by regulation in the Measure will be transferred into regulations for this new Act.

Mae gwelliant 115 yn rhoi dyletswydd benodol i'r byrddau iechyd lleol, ac rwyf yn croesawu ymdrechion y Dirprwy Weinidog i wneud hynny. Mantais bosibl hynny yw gwneud gofalwyr yn rhan annatod o'r mecanweithiau cynllunio strategol lleol unedig a amlinellwyd yn 'Cydamcanu—Cydymdrechu'. Fodd bynnag, unwaith eto, oherwydd natur fframwaith y darn arbennig hwn o ddeddfwriaeth, mae'r gwelliant yn amwys ac nid yw'n rhoi dim manylion am beth yn union y bydd y byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am adrodd amdano—y cynnwys, y fformat na sut y byddai'n cyd-fynd â'r cynlluniau integredig sengl sydd eisoes yn bodoli.

Hoffwn i'r Dirprwy Weinidog gymryd y cyfle hwn yn y ddatl Cyfnod 3 heddiw i ymhelaethu ar ei bwriad polisi ar gyfer gwelliant 115, i roi sicrwydd i'r rhai y tu allan i'r Siamb hon na chollir y gwaith da a gyflawnwyd eisoes o dan y Mesur gofalwyr, ac i roi arweiniad clir iawn i fyrddau iechyd lleol o ran beth yw eu cyfrifoldebau, pe câi 115 ei basio heddiw. Hefyd, hoffwn i'r Dirprwy Weinidog fanteisio ar y cyfle hwn i ddatgan yn glir ar gofnod y caiff y wybodaeth fanwl a gynhwysir yn y strategaethau presennol ar gyfer gofalwyr a ddarperir drwy reoliad yn y Mesur ei throsglwyddo i reoliadau ar gyfer y Ddeddf newydd hon.

16:24 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am absolutely clear that the Bill builds on the carers Measure, by strengthening the focus and attention devoted to carers rights and in service planning and delivery. I hope that Members will read my statement on carers' rights and familiarise themselves with the important improvements that the Bill will bring to carers' lives.

I will commit to consulting widely on the regulations that will develop from this, and I am convinced that there will be no dilution of what is covered by the existing Measure, and I will give that commitment today.

Rwyf yn gwbl glir bod y Bil yn adeiladu ar y Mesur gofalwyr, drwy gryfhau'r pwyslais a'r sylw a roddir i hawliau gofalwyr ac i gynllunio a darparu gwasanaethau. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n darllen fy natganiad am hawliau gofalwyr ac yn ymgyfarwyddo â'r gwelliannau pwysig y bydd y Bil yn eu creu ym mywydau gofalwyr.

Ymrwymaf i ymgynghori'n eang ar y rheoliadau a fydd yn datblygu o hyn, ac rwyf yn argyhoeddedig na chaiff yr hyn sy'n dod o dan y Mesur presennol ei wanhau o gwbl, a rhoddaf yr ymrwymiad hwnnw heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 114 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 114 is agreed.

Derbyniwyd gwelliant 114 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 114. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 114 wedi ei dderbyn.

Amendment 114 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister to move amendment 115.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 115.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:25 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 115 in my name.

Cynigaf welliant 115 yn fy enw i.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 115 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 115. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly awn ymlaen at bleidlais electronig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 115.](#)

[Result of the vote on amendment 115.](#)

Grŵp 9: Gwasanaethau Ataliol (Gwelliannau 301, 302 and 318)

Group 9: Preventative Services (Amendments 301, 302 and 318)

16:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in this group is amendment 301. I call on Elin Jones to move amendment 301 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 301. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 301 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:26

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiau welliant 301 yn fy enw i.

I move amendment 301 in my name.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Un o gryfderau'r Bil sydd o'n blaen ni y prynhawn yma yw'r pwyslais y mae'n ei roi ar roi sail ddeddfwriaethol i wasanaethau ataliol. Yn adran 11, bydd gofyniad ar awdurdodau lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau ataliol o'r fath. Gwasanaethau yw'r rhain a fydd yn lleihau yr angen yn y pen draw, gobeithio, am wasanaethau iechyd aciwt.

One of the strengths of the Bill before us this afternoon is the emphasis that it gives to providing a legislative foundation for preventative services. In section 11, there will be a requirement on local authorities to plan and provide such preventative services. These are services that will, hopefully, ultimately reduce need for acute health services.

Bwriad polisi y Llywodraeth hon yw sicrhau gwell integreiddiad rhwng wasanaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd, sef amcan y mae Plaid Cymru yn ei lawngfyni. Fodd bynnag, gwendid yr adran benodol hon—adran 11—fel mae wedi ei chyflwyno ar hyn o bryd yw bod y ddyletswydd i hyrwyddo a chynllunio gwasanaethau ataliol yn cael ei gosod ar awdurdodau lleol yn unig. Yn adran 12(5), mae'n dweud y dylai byrddau iechyd roi sylw i bwysigrwydd gwasanaethau ataliol, yn hytrach na rhoi dyletswydd arnynt i gyflawni a chydweithio ar wasanaethau o'r fath gydag awdurdodau lleol. Felly, mae'r gofyniad ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn wahanol yn y ddeddfwriaeth, er bod y polisi yn edrych i integreiddio fwyfwy y gwasanaethau hyn.

The intention of Government policy in this area is to secure better integration of services between local authorities and health boards, which is an objective that Plaid Cymru fully supports. However, the weakness of this particular section—section 11—as currently drafted is that the duty to promote and plan preventative services is placed on local authorities alone. In section 12(5), it says that health boards should give due regard to the importance of preventative services rather than placing a duty upon them to collaborate on such services with local authorities. Therefore, the requirement on local authorities and health boards is different in the legislation, although the policy does seek to increasingly integrate those services.

Bwriad fy ngwelliant yw gosod yr un dyletswydd ar fyrdau iechyd i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ataliol yn hytrach na'r hyn sy'n bodoli yn y Bil yn barod, sef rhoi'r gofyniad hwnnw ar awdurdodau lleol. Felly, pwrpas y gwelliant yw sicrhau bod sail ddeddfwriaethol gryfach i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal. Yn ystod trafodaeth Cyfnod 3, byddaf yn dod yn ôl â sawl gwelliant y prynhawn yma a'r wythnos nesaf a fydd yn edrych i gryfhau'r Bil yn y ffordd hon. O ran y gwelliant penodol hwn ar wasanaethau ataliol, ei fwriad yw sicrhau bod y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn cael dyletswyddau sy'n gyffredin i'r ddau wrth iddynt, gobeithio, weithio fwyfwy gyda'i gilydd yn y dyfodol.

The aim of my amendment is to place the same duty on health boards to provide or to arrange for the provision of preventative services rather than what is currently in the Bill, which is to place that requirement upon local authorities. Therefore, the purpose of the amendment is to ensure that there is a stronger legislative basis for the integration of health and care services. During the Stage 3 proceedings, I will return with a number of amendments, this afternoon and next week, to seek to strengthen the Bill in this way. In terms of this specific amendment on preventative services, I am seeking to ensure that health boards and local authorities have duties that are common to both, as they, hopefully in future, collaborate more and more.

16:28

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Amendment 318 seeks to replace 'people' with 'person'. As currently drafted, the Bill means that although there will be a duty to provide preventative services for people, that is based on the needs of a whole population. There is widespread concern that, in doing so, the duty does not apply to an individual person.

Mae gwelliant 318 yn ceisio dileu 'pobl' a rhoi 'person' yn ei le. Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, mae'r Bil yn golygu, er y bydd dyletswydd i ddarparu gwasanaethau ataliol i bobl, fod hynny'n seiliedig ar anghenion poblogaeth gyfan. Mae pryder cyffredinol, wrth wneud hynny, nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i unigolyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If an individual person needs access to something specific, the local authority, it would seem as currently drafted, does not have the duty to provide it. The difference is essentially between providing preventative services and planning for those services on a population basis. If you conform to the nature of your population within your area, that is fine—there will probably be preventative services available for you. However, if you have very specific needs that perhaps set you aside from the majority of the population in your area, potentially, the local authority will not have a duty to provide those preventive services for you. Therefore, we would have preferred the section to have been drafted using the word 'persons' rather than 'people' and would seek reassurance that those individual citizens who need support from preventive services would be able to get those.

Now, I understand that there is some legalese that, for 'person' read 'people' and for 'people' read 'persons'. If the Deputy Minister can clarify that my concerns are unfounded and that any interpretation of the word 'people' could, indeed, include that of an individual and she is able to put that on the record this afternoon, I would be content not to move the amendment but would seek clarification from the Deputy Minister about her intentions with regard to the rights of an individual to receive a preventive service rather than persons on a general population basis.

Os oes ar unigolyn angen mynediad at rywbeth penodol, byddai'n ymddangos yn ôl y drafft presennol nad yw'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w ddarparu. Mae'r gwahaniaeth yn y bôn rhwng darparu gwasanaethau ataliol a chynllunio ar gyfer y gwasanaethau hynny ar sail y boblogaeth. Os ydych yn cydymffurfio â natur eich poblogaeth o fewn eich ardal, popeth yn iawn—yn ôl pob tebyg bydd gwasanaethau ataliol ar gael ichi. Fodd bynnag, os oes gennych anghenion penodol iawn sydd efallai'n eich gwneud yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn eich ardal chi, mae'n bosibl na fyddai'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu'r gwasanaethau ataliol hynny i chi. Felly, byddai'n well gennym pe bai'r adran wedi'i drafftio gan ddefnyddio'r gair 'personau' yn hytrach na 'phobl' a byddem yn gofyn am sicrwydd y byddai'r dinasyddion unigol hynny y mae arnynt angen cymorth oddi wrth y gwasanaethau ataliol yn gallu cael y cymorth hwnnw.

Yn awr, rwyf ar ddeall fod rhyw iaith gyfreithiol, lle mae 'person' yn gallu golygu 'pobl' a 'phobl' yn gallu golygu 'personau'. Os gall y Dirprwy Weinidog ei gwneud yn glir bod fy mhryderon yn ddi-sail ac y gallai unrhyw ddehongliad o'r gair 'pobl', yn wir, gynnwys ei ddehongli fel unigolyn ac os gall hi roi hynny ar gofnod y prynhawn yma, byddwn yn fodlon peidio â chynnig y gwelliant ond byddwn yn gofyn am sicrwydd gan y Dirprwy Weinidog ynglŷn â'i bwriadau o ran hawliau unigolyn i dderbyn gwasanaeth ataliol yn hytrach na phersonau ar sail poblogaeth gyffredinol.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister to reply.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:31 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Amendment 301 tabled by Elin Jones was debated as amendment 472 during Stage 2 proceedings on 13 December. During that debate, I said that the amendment goes further than the intention of the Bill by placing a new duty on local health boards to provide or arrange the provision of preventative services rather than to contribute towards such services. I also said that, due to the way it is drafted, it is potentially confusing and that significant powers and duties of this nature already exist in legislation governing the health sector. I would also like to remind Members that the Health and Social Care Committee made three recommendations in relation to preventative services in its Stage 1 report, all of which I accepted. I have not, however, changed my view on amendment 301 tabled by Elin Jones, and I ask Members not to support this amendment or amendment 302, which is consequential to it.

Diolch yn fawr. Roedd gwelliant 301 a gyflwynwyd gan Elin Jones yn destun dadl fel gwelliant 472 yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 13 Rhagfyr. Yn ystod y ddadl honno, dywedais fod y gwelliant yn mynd ymhellach na bwriad y Bil drwy osod dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd lleol i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ataliol yn hytrach na chyfrannu at wasanaethau o'r fath. Dywedais hefyd, oherwydd y ffordd y cafodd ei ddrafftio, y gallai fod yn ddryslyd a bod pwerau a dyletswyddau sylweddol o'r math hwn eisoes yn bodoli mewn deddfwriaeth sy'n rheoli'r sector iechyd. Hoffwn hefyd atgoffa'r Aelodau fod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud tri argymhelliad am wasanaethau ataliol yn ei adroddiad Cyfnod 1, a fy mod wedi derbyn pob un. Nid wyf, fodd bynnag, wedi newid fy marn am welliant 301 a gyflwynwyd gan Elin Jones, a gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi'r gwelliant hwn na gwelliant 302, sy'n ganlyniadol iddo.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Amendment 318 tabled by Kirsty Williams seeks to specify that any reference to 'people' in section 12 can also mean an individual person. The local authority duty in section 12(1) is to provide, or arrange for the provision of, the range and level of services that it considers will achieve the purposes in subsection (2) in its area. I am advised that the effect of reading the word 'people' to include 'a person' does not change the duty in subsection (1). As such, if the intention of this amendment is to change a general duty to an individual one, it is unclear whether this intention would be realised by this amendment. Even if section 12 were amended in this way, the local authority could reasonably be said to be discharging this duty by having in place a range and level of services aimed at achieving these purposes even if an individual does not think that those services meet their specific needs. Members should also be aware that a similar amendment has not been made in the case of references to children. That is to say that a reference to 'children' should be read as including 'a child'. This creates an interpretative issue, where there is different treatment for the purposes relating to children alone. This is clearly not appropriate for a Bill that takes an approach based on people rather than adults and children. For these reasons, I would ask Members not to support amendment 318.

Mae gwelliant 318 a gyflwynwyd gan Kirsty Williams yn ceisio nodi y gall unrhyw gyfeiriad at 'bobl' yn adran 12 hefyd olygu unigolyn. Y ddyletswydd ar awdurdod lleol yn adran 12(1) yw darparu, neu drefnu ar gyfer darparu, yr ystod o wasanaethau ar lefel briodol i gyflawni'r dibenion yn is-adran (2) yn ei ardal. Dywedir wrthyf nad yw effaith darllen y gair 'pobl' i gynnwys 'person' yn newid y ddyletswydd yn is-adran (1). Felly, os mai bwriad y gwelliant hwn yw newid dyletswydd gyffredinol yn un unigol, nid yw'n glir a fyddai'r gwelliant hwn yn gwireddu'r bwriad hwnnw. Hyd yn oed pe bai adran 12 yn cael ei diwygio fel hyn, gellid dweud yn rhesymol fod yr awdurdod lleol yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy roi ar waith ystod o wasanaethau ar lefel sy'n ceisio cyflawni'r dibenion hyn, hyd yn oed os nad yw unigolyn yn credu bod y gwasanaethau hynny'n bodloni ei anghenion penodol. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol nad oes gwelliant tebyg wedi ei wneud yn achos cyfeiriadau at blant. Hynny yw, dylid darllen cyfeiriad at 'blant' fel petai'n cynnwys 'plentyn'. Mae hyn yn creu problem ddeongliadol, lle ceir triniaeth wahanol at y dibenion sy'n ymwneud â phlant yn unig. Yn amlwg, nid yw hyn yn briodol ar gyfer Bil y mae ei ymagwedd yn seiliedig ar bobl yn hytrach nag ar oedolion a phlant. Am y rhesymau hyn, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliant 318.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Elin Jones to reply.

Galwaf ar Elin Jones i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:34 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dywedodd y Dirprwy Weinidog taw un o'r prif resymau dros wrthod y gwelliant yn fy enw i oedd y ffaith fod y gwelliant yn mynd ymhellach na bwriad gwreiddiol y Bil, sy'n ymwneud yn bennaf â gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol o dan oruchwyliaeth awdurdodau lleol. Y gwahaniaeth rhyngom yw'r ffaith fy mod i'n awyddus i ymestyn y Bil er mwyn cynnwys y dyhead i weld gwasanaethau yn cael eu hintegreiddio ar lefel ymarferol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, ac, yn y maes ac adran penodol hyn, gwasanaethau ataliol, sef yr union wasanaethau sy'n pontio rhwng y gwasanaethau sydd yn draddodiadol wedi bod o dan yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau hynny sydd o dan yr awdurdodau iechyd. Rwy'n credu, yn wir, bod lle i roi'r un gofyniad a'r un ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Felly, rwy'n awyddus i beidio â cholli cyfle'r ddeddfwriaeth hon i roi sail ddeddfwriaethol i fyrddau iechyd yn ogystal ag awdurdodau lleol integreiddio a chreu gwasanaethau ar y cyd er lles yr unigolion ag arnynt angen y gwasanaethau hynny.

The Deputy Minister said that one of the main reasons for rejecting the amendment in my name was the fact that the amendment went further than the original aim of the Bill, which mainly deals with social services and social services overseen by local authorities. The difference between us is that I am eager to extend and enhance the Bill to include the aspiration to see services integrated on a practical level between health and social services and, in this specific area and this specific sector, preventive services, which are the very services that act as a bridge between the services that have traditionally been provided by local authorities and those services and those services that come under the health authorities. Indeed, I believe that there is scope to give local authorities and health boards the same requirement and duty. Therefore, I am keen not to miss the opportunity afforded by this legislation to provide a legislative foundation for health boards as well as local authorities to integrate and create joint services for the benefit of the individuals who need those services.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 301 be agreed to. Does any Member object? There are objections, therefore we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 301. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiadau, felly awn ymlaen at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 301.](#)

[Result of the vote on amendment 301.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 301: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Amendment 301 not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister to move amendment 116.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 116.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 16:36 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 116 in my name. Cynigiau welliant 116 yn fy enw i.
- 16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 116 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 116 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 116. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 116 wedi ei dderbyn.
Derbyniwyd gwelliant 116 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. *Amendment 116 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on Elin Jones to move amendment 302. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 302.
- 16:36 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Cynigiau welliant 302 yn fy enw i. I move amendment 302 in my name.
- 16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 302 be agreed to. Does any Member object? There are objections, therefore, we will proceed to an electronic vote. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 302. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiadau, felly, awn ymlaen at bleidlais electronig.
[Canlyniad y bleidlais ar welliant 302.](#) [Result of the vote on amendment 302.](#)
Gwrthodwyd gwelliant 302: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0. *Amendment 302 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*
Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. *As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*
- 16:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Deputy Minister to move amendment 117. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 117.
- 16:37 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 117 in my name. Cynigiau welliant 117 yn fy enw i.
Amendment 155 agreed: For 40, Against 18, Abstain 0.

18:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Deputy Minister to move amendment 156.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 156.

18:07 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 156 in my name.

Cynigiai welliant 156 yn fy enw i.

18:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 156 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 156 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 156 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 156 yn cael ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 156 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 156 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 17: Taliadau Uniongyrchol (Gwelliannau 157, 158, 19, 20 ac 21)

Group 17: Direct Payments (Amendments 157, 158, 19, 20 and 21)

18:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 157. I call on the Deputy Minister to move amendment 157 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 157. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 157 ac i siarad am hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:07 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 157 in my name.

Cynigiai welliant 157 yn fy enw i.

These amendments relate to the further provision associated with direct payments in section 44 of the Bill. Amendments 157 and 158 are technical amendments to achieve consistency of drafting throughout the Bill. Amendment 20 seeks to remove an inconsistency in the charging regime in relation to provision of care and support for certain persons. As currently drafted, the Bill allows a local authority to seek a contribution from a person with parental responsibility for a child aged 16 or 17 with needs for care and support towards the cost of providing that care and support, but only where they are receiving direct service provision from the local authority. In cases where that child is in receipt of a direct payment to meet their needs for care and support, the local authority has no powers to seek any contribution from those persons with parental responsibility for that child. This creates an incongruous system of charging in these circumstances, and does not accord with the approach to promoting fairness that has been taken throughout the Bill. It could also deter people from choosing direct service provision.

Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol yn adran 44 o'r Bil. Gwelliannau technegol yw gwelliannau 157 a 158 i sicrhau cysondeb drafftio trwy'r Bil. Mae gwelliant 20 yn ceisio dileu'r anghysondeb yn y drefn o godi tâl o safbwynt darparu gofal a chymorth i rai pobl. Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, mae'r Bil yn caniatáu i awdurdod lleol ofyn am gyfraniad gan berson â chyfrifoldeb rhiant am blentyn 16 neu 17 oed sydd ag anghenion gofal a chymorth, tuag at gost darparu'r gofal a chymorth hwnnw, ond dim ond pan fydd yn derbyn gwasanaeth uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. Mewn achosion lle mae plentyn yn derbyn taliad uniongyrchol i ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth, nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw bwerau i ofyn am unrhyw gyfraniad gan y bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hwnnw. Mae hyn yn creu system anghyson o godi tâl yn yr amgylchiadau hyn, ac nid yw'n cyd-fynd â'r ymdrech i hyrwyddo tegwch trwy'r Bil cyfan. Gallai hefyd atal pobl rhag dewis darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol.

Amendments 19 and 21 are consequential to this amendment. Rectifying this inconsistency will also ensure that the Bill provides equal treatment in the application of the charging regime, in line with the expectations of the European Convention on Human Rights, while also feeding into the set of amendments that I have brought forward relating to charging 16 and 17-year-olds.

I ask Members to support these amendments.

Mae gwelliannau 19 a 21 yn ganlyniad i'r newid hwn. Trwy unioni'r anghysondeb hwn hefyd, gellir sicrhau bod y Bil yn darparu triniaeth gyfartal wrth weithredu'r drefn codi tâl, yn unol â disgwyliadau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn ogystal â bwydo i mewn i'r gyfres o welliannau yr wyf wedi'u dwyn ymlaen yn ymwneud â chodi tâl ar rai 16 a 17 oed.

Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

18:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 157 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 157.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 157: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 157 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

[Result of the vote on amendment 157.](#)

Amendment 157 agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister to move amendment 158.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 158.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:09 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 158 in my name.

Cynigiai welliant 158 yn fy enw i.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 158 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 158.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 158: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 158 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

[Result of the vote on amendment 158.](#)

Amendment 158 agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister to move amendment 19.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 19.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 19 in my name.

Cynigiai welliant 19 yn fy enw i.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 19 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 19.](#)

Y cwestiwn yw bod gwelliant 19 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

[Result of the vote on amendment 19.](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwrthodwyd gwelliant 19: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Amendment 19 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

- 18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Deputy Minister to move amendment 20. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 20.
- 18:10 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 20 in my name. Cynigiau welliant 20 yn fy enw i.
- 18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 20 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 20 is agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliant 20 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 20 wedi ei dderbyn.
Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.
- 18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Deputy Minister to move amendment 21. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 21.
- 18:10 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 21 in my name. Cynigiau welliant 21 yn fy enw i.
- 18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 21 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote. Y cwestiwn yw bod gwelliant 21 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.
[Canlyniad y bleidlais ar welliant 21.](#) [Result of the vote on amendment 21.](#)
- Gwrthodwyd gwelliant 21: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0. Amendment 21 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*
- Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. As required by Standing Order 6.20 the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*
- Grŵp 18: Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Iechyd (Gwelliannau 308 a 309)** **Group 18: Direct Payments for Health (Amendments 308 and 309)**
- 18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The lead amendment in the group is amendment 308. I call on Elin Jones to move amendment 308 and to speak to it and the other amendment in the group. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 308. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 308 ac i siarad am hwnnw a'r gwelliant arall yn y grŵp.
- 18:11 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Cynigiau welliant 308 yn fy enw i. I move amendment 308 in my name.

Mae gwelliant 308 yn amlinellu beth yw ystyr taliadau uniongyrchol am ofal iechyd, ac mae gwelliant 309 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu rheoliadau i ganiatáu taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd. Gwnaeth adroddiad y pwyllgor yng Nghyfnod 1 gefnogi'r ffaith bod lle yn awr i symud i ganiatáu, mewn achosion penodol ar sail anghenion unigolion, taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd, yn ogystal, wrth gwrs, â'r taliadau uniongyrchol sy'n weithredol ar hyn o bryd ar gyfer gofal cymdeithasol.

Mae unigolion yn ein cymdeithas gydag anghenion gofal cymhleth iawn sy'n gymwys am ofal cymdeithasol yn ogystal â gofal iechyd 'NHS continuing care'. Mae taliad uniongyrchol ar gael ar gyfer yr agwedd gymdeithasol ar eu gofal ond ddim yn uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd. Rwy'n gallu meddwl am achos yn fy etholaeth i lle byddai unigolyn a'i theulu yn elwa'n fawr o fedru comisiynu'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd yn uniongyrchol ar gyfer y gofal hwnnw.

Yn wir, byddai'r bwrdd iechyd, rwy'n credu, yn falch pe byddai ganddo'r pwerau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y taliadau a chomisiynu'r gwaith hwnnw yn uniongyrchol. Clywsom yn ein tystiolaeth yn ystod Cyfnod 1 fod byrddau iechyd yn dweud y byddent yn dymuno, mewn achosion penodol, cael y pwerau hyn. Yn wir, datgelodd un ohonynt bod taliad uniongyrchol am ofal iechyd yn cael ei wneud mewn un achos roedd y bwrdd iechyd hwnnw yn ymwybodol ohono, er nad oes, ar hyn o bryd, sail ddeddfwriaethol i wneud y taliad uniongyrchol hwnnw.

Pwerau greu rheoliadau yw'r gwelliannau hyn y prynhawn yma. Rwy'n derbyn ac yn deall bod y Llywodraeth ar hyn o bryd yn ystyried newid polisi i'r cyfeiriad hwn, ond o basio'r gwelliant y prynhawn yma, byddem yn rhoi'r pwerau i Weinidogion maes o law i fedru gweithredu, pe baent yn dymuno, ar unrhyw newid polisi i gyflwyno'r hawl i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ganiatáu taliadau uniongyrchol am ofal iechyd yn ogystal â gofal cymdeithasol, ac i wneud hynny er mwyn sicrhau integreiddiad llawn y gofal i unrhyw unigolyn sydd â'r angen amdano.

Amendment 308 outlines the meaning of direct payments for healthcare, and amendment 309 gives Welsh Ministers the powers to formulate regulations to allow direct payments for healthcare. The committee's Stage 1 report supported the fact that there is now scope to move to allow, in specific cases based on the needs of individuals, direct payments for healthcare, in addition to, of course, the direct payments currently in operation for social care.

There are individuals in our society who have very complex needs who are eligible for social care as well as NHS continuing healthcare. Direct payments are available for the social aspect of their care but not for their healthcare. I can think of a case in my constituency of an individual and her family who would benefit greatly from being able to commission social services and health services directly for that care.

Indeed, the health board would, I think, be pleased if it had the power to transfer responsibility for paying for and commissioning that work directly. We heard in our Stage 1 evidence that health boards said that they would welcome these powers in specific cases. Indeed, one divulged that a direct payment for healthcare was being made in one case of which it was aware, even though there is currently no legislative basis on which to make that direct payment.

These amendments this afternoon are regulation-making powers. I accept and understand that the Government is currently considering a change of policy in this direction, but in passing this amendment this afternoon, we would be giving Ministers, in good time, the powers to act, if they so wished, to implement any change of policy to introduce the ability for health boards and local authorities to allow direct payments for healthcare as well as social care, and to do so in order to secure the full integration of care for any individual who needed it.

18:14

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will support amendments 308 and 309. Clearly, they state that Welsh Ministers 'may' make regulations about health direct payments. We would have preferred 'must', but it is better than the alternative, which is omission altogether; therefore, it is clearly a step in the right direction.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau 308 a 309. Yn amlwg, maent yn datgan y 'caiff' Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau am daliadau uniongyrchol iechyd. Byddai 'rhaid' wedi bod yn well gennym, ond mae'n well na'r dewis arall, sef hepgor yn gyfan gwbl; felly, mae'n amlwg yn gam i'r cyfeiriad cywir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Disabled people in particular in Wales should not be denied the independence, choice and control available to disabled people living in Scotland and England. When I proposed my Member's Bill on community care direct payments, it recognised the need to offer carers and service users choice, control and independence while recognising that many would want to benefit from that, but that, clearly, many would not and that they should not be required to do so. Support would have been received from MS Society Cymru, and the agenda had been influenced by Disability Wales and many other charities throughout the Independent Living Now campaign. I said that personal budgets had been rolled out in England in 2008 under Labour and that the Social Care (Self-directed Support) (Scotland) Act 2013 had placed a requirement on local authorities to offer individual choices on options for how people could receive their care payments. Thanks to Labour legislation in England and regulations introduced under a Labour First Minister in Scotland, health and social services direct payments there can be pooled.

The Deputy Minister generously said that she would like the principles in my Bill to be taken forward in this Bill. I agreed, therefore, to work with the Welsh Government and to withdraw my motion on that basis.

On the amendment before us that would allow or require a health board to make direct health payments, the Deputy Minister has, I believe, responded that problems arise where that person has become eligible for continuing NHS healthcare, when the whole cost is picked up by the NHS, meaning that the individual would lose the right to receive direct payments even for the social care elements of the package. That would surely apply to social care direct payments whether or not health direct payments were included. The Deputy Minister has also argued that enabling health boards to provide direct payments could place increased pressure on the NHS as well as an administrative burden and that further investigation into the potential for health direct payments would be needed before such a change could be made.

However, in England, section 75 partnership agreements are legally provided by the National Health Service Act 2006, introduced under Labour, allowing budgets to be pooled between local health and social care organisations and authorities, with resources and management structures integrated and functions allocated between partners. Legal mechanisms allow budgets to be pooled, enabling greater integration between health and social care and more locally tailored services. The arrangements allow for the commissioning of existing or new services as well as the development of provider arrangements to be joined up.

Ni ddylid gwrthod rhoi i bobl anabl yn benodol yng Nghymru yr annibyniaeth, y dewis a'r rheolaeth sydd ar gael i bobl anabl sy'n byw yn yr Alban a Lloegr. Pan gynigiais fy Mil Aelod ar daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymunedol, roedd yn cydnabod yr angen i gynnig dewis, rheolaeth ac annibyniaeth i ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth gan gydnabod y byddai llawer yn awyddus i elwa o hynny, ond, yn amlwg, y byddai llawer nad oeddent yn awyddus ac na ddylai fod yn ofynnol iddynt wneud hynny. Byddai cefnogaeth wedi dod i law oddi wrth MS Society Cymru, a dylanwadwyd ar yr agenda gan Anabledd Cymru a llawer o elusennau eraill drwy gydol yr ymgyrch Byw'n Annibynnol Nawr. Dywedais fod cyllidebau personol wedi eu cyflwyno yn Lloegr yn 2008 o dan Lafur a bod Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymorth Hunan-gyfeiriedig) (yr Alban) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig dewisiadau unigol ar gyfer sut y gallai pobl dderbyn eu taliadau gofal. Diolch i ddeddfwriaeth gan y blaid Lafur yn Lloegr a rheoliadau a gyflwynwyd o dan Brif Weinidog Llafur yn yr Alban, gellir cronni taliadau uniongyrchol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yno.

Roedd y Dirprwy Weinidog yn ddigon hael i ddweud y byddai'n hoffi i'r egwyddorion yn fy Mil i gael eu cynnwys yn y Bil hwn. Cytunais, felly, i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac i dynnu fy nghynnig yn ôl ar y sail honno.

O ran y gwelliant ger ein bron a fyddai'n caniatáu neu'n mynnu bod bwrdd iechyd yn gwneud taliadau uniongyrchol ar iechyd, mae'r Dirprwy Weinidog, rwyf yn credu, wedi ymateb fod problemau'n codi pan fo'r person hwnnw wedi dod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus gan y GIG, pryd y byddai'r GIG yn ysgwyddo'r gost gyfan, sy'n golygu y byddai'r unigolyn yn colli'r hawl i dderbyn taliadau uniongyrchol hyd yn oed ar gyfer elfennau gofal cymdeithasol y pecyn. Byddai hynny'n sicr yn berthnasol i daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol p'un a yw taliadau uniongyrchol ar gyfer iechyd yn cael eu cynnwys ai peidio. Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd wedi dadlau y gellid rhoi mwy o bwysau ar y GIG yn ogystal â baich gweinyddol trwy alluogi byrddau iechyd i ddarparu taliadau uniongyrchol, ac y byddai angen ymchwilio ymhellach i'r potensial ar gyfer taliadau uniongyrchol ar gyfer iechyd cyn y gellid gwneud newid o'r fath.

Fodd bynnag, yn Lloegr, darperir yn gyfreithiol ar gyfer cytundebau partneriaeth adran 75 gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, a gyflwynwyd o dan y blaid Lafur. Caniateir i gyllidebau gael eu cronni rhwng sefydliadau ac awdurdodau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, gan integreiddio adnoddau a strwythurau rheoli a dyrannu swyddogaethau rhwng partneriaid. Mae mecanweithiau cyfreithiol yn caniatáu i gyllidebau gael eu cronni, gan alluogi mwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a theilwra mwy ar wasanaethau'n lleol. Mae'r trefniadau'n caniatáu ar gyfer cydgyssylltu prosesau comisiynu gwasanaethau presennol neu newydd yn ogystal â datblygu trefniadau darparwyr.

In Scotland, the June 2012 report on the support test site evaluation carried out by NHS Lothian and NHS Fife with Fife Council for the Scottish Government, said that it was clear that these issues were complex and challenging—I agree with the Deputy Minister on this—but that, with the forthcoming integration of health and social care, some of the complexities would have to be addressed. It said that the test sites had provided the majority of service users involved with positive outcomes, ranging from improved wellbeing to the ability to return to work. These outcomes did not involve huge amounts of money being spent and demonstrated the value of self-directed support in allowing people to find the best inputs at the right time for them to improve their own situation.

I will leave the last word to the charity Hafal, which the Deputy Minister has also credited in her policy formulation. Hafal believes that the Bill should be strengthened to make it a requirement that, where a person needs both—in this case mental health and social care—services, there should be a duty on both health boards and local authorities to pool budgets, to have a single assessment process and to have fully integrated processes and systems in place with the client/patient having maximum control and being right at the heart of the decision making. It concludes that the new Social Services and Well-being (Wales) Bill must grasp the opportunity and introduce radical changes to make sure that people who need both health and social services have real choices and real control over what those services are. Let us give these people in Wales the same rights that they have in the other nations of the United Kingdom.

Yn yr Alban, roedd adroddiad mis Mehefin 2012 ar y gwerthusiad o'r safleoedd prawf a gynhaliwyd gan GIG Lothian a GIG Fife gyda Chyngor Fife ar gyfer Llywodraeth yr Alban, yn dweud bod y materion hyn yn amlwg yn gymhleth ac yn heriol—rwy'n cytuno â'r Dirprwy Weinidog am hyn—ond y byddai'n rhaid rhoi sylw i rai o'r cymhlethdodau, yn sgil integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n dweud bod y safleoedd prawf wedi darparu canlyniadau cadarnhaol i'r mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth dan sylw, yn amrywio o well lles i'r gallu i ddychwelyd i'r gwaith. Nid oedd y canlyniadau hyn yn golygu gwario symiau mawr o arian ac roeddent yn dangos gwerth cymorth hunangyfeiriedig i alluogi pobl i ganfod y cyfraniadau gorau ar yr adeg iawn i wella eu sefyllfa eu hunain.

Gadawaf y gair olaf i'r elusen Hafal, y mae'r Dirprwy Weinidog hefyd wedi ei chrybwyll yn ei pholisi. Mae Hafal yn credu y dylai'r Bil gael ei gryfhau i'w gwneud yn ofynnol, lle y mae ar rywun angen y ddau wasanaeth—iechyd meddwl a gofal cymdeithasol yn yr achos hwn—y dylai fod yn ddyletswydd ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gronni cyllidebau, i gael proses asesu sengl ac i sicrhau bod ganddynt brosesau a systemau cwbl integredig gan roi'r rheolaeth fwyaf posibl i'r cleient / claf ac yntau/hithau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n dod i'r casgliad bod yn rhaid i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd fanteisio ar y cyfle a chyflwyno newidiadau radical i wneud yn siŵr bod pobl sydd ag angen gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael dewisiadau gwirioneddol a rheolaeth wirioneddol dros y gwasanaethau hynny. Gadewch inni roi'r un hawliau i'r bobl hyn yng Nghymru ag sydd ganddynt yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

18:19

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

These amendments put forward by Elin Jones and Plaid Cymru are indeed very radical. I remember from previous Assemblies, when I and fellow Welsh Liberal Democrats talked about extending direct payments into healthcare, we were accused of trying to dismantle the NHS. I believed then, and I believe now, that there is a case for moving towards more person-centred self-directed care, not just in social care, but in healthcare. That would have to be carefully thought through, because it could have widespread consequences for the planning and commissioning of NHS services. However, in certain individual cases, there is definitely scope for greater integration between health and social care, for those individuals who have very complex needs, and, as quoted by Mark Isherwood, for those suffering from mental health illnesses.

The reality is that it would be far from dismantling the NHS in that field. Many of the most complex mental health NHS services are commissioned from the private sector already. It is a myth to think that it is the Welsh NHS that delivers them. The Welsh NHS contracts with them, but the reality is that it is the private sector that provides those services. Sometimes, that leads to a lack of choice for those suffering from mental health illnesses about the types of intervention, help and support that they can have, in terms of the medical side of helping them to manage their condition.

Mae'r gwelliannau hyn a gyflwynwyd gan Elin Jones a Phlaid Cymru yn radical iawn yn wir. Rwy'n cofio Cynulliadau blaenorol, pan siaradais i a chyd-Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru am ymestyn taliadau uniongyrchol i ofal iechyd, ein bod wedi ein cyhuddo o geisio datgymalu'r GIG. Roeddwn yn credu bryd hynny, ac rwy'n credu'n awr, fod achos dros symud tuag at fwy o ofal hunan-gyfeiriedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, nid yn unig ym maes gofal cymdeithasol, ond mewn gofal iechyd. Byddai'n rhaid ystyried hynny'n ofalus, oherwydd y gallai arwain at ganlyniadau eang ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau'r GIG. Fodd bynnag, mewn rhai achosion unigol, yn bendant mae lle i integreiddio mwy ar iechyd a gofal cymdeithasol, ar gyfer yr unigolion hynny sydd ag anghenion cymhleth iawn, ac, fel y nododd Mark Isherwood, ar gyfer y rhai sy'n dioddef o salwch meddwl.

Y realiti yw y byddai ymhell o fod yn datgymalu'r GIG yn y maes hwnnw. Mae llawer o wasanaethau iechyd meddwl mwyaf cymhleth y GIG yn cael eu comisiynu gan y sector preifat eisoes. Myth yw meddwl mai'r GIG yng Nghymru sy'n eu darparu. Mae GIG Cymru yn eu contractio, ond y gwir amdani yw mai'r sector preifat sy'n darparu'r gwasanaethau hynny. Weithiau, mae hynny'n arwain at ddiffyg dewis ar gyfer y rhai sy'n dioddef o salwch meddwl ynglŷn â'r mathau o ymyriad, cymorth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt, o ran ochr feddygol eu helpu i reoli eu cyflwr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I believe that by passing these amendments today, we could begin to have a debate and be able to construct a regulatory framework for those, in the first place, suffering with mental health issues, and we could move towards direct payments for their healthcare so that they could access the services that they feel best fit their needs, rather than them being told what is available to them in their area with a take-it-or-leave-it approach. How far that agenda can go into more general NHS services is a complex area, as I said, and is one for debate. However, I believe that the amendments are worthy of support here this afternoon.

Rwy'n credu y gallem, trwy basio'r gwelliannau hyn heddiw, ddechrau cael dadl a gallu datblygu fframwaith rheoleiddio ar gyfer y rhai, yn y lle cyntaf, sy'n dioddef â phroblemau iechyd meddwl. Gallem symud tuag at daliadau uniongyrchol ar gyfer eu gofal iechyd er mwyn iddynt allu cael gafael ar y gwasanaethau y maent yn teimlo sy'n gweddu orau i'w hanghenion, yn hytrach na chael gwybod beth sydd ar gael iddynt yn eu hardal gyda'r dewis o dderbyn hynny neu beidio. Mae'n faes cymhleth, fel y dywedais, ac yn un i'w drafod i ba raddau y gellid datblygu'r agenda honno o fewn gwasanaethau mwy cyffredinol y GIG. Fodd bynnag, rwy'n credu bod y gwelliannau'n werth eu cefnogi yma brynhawn heddiw.

18:22

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Amendment 308 seeks to give the Welsh Ministers the powers to either require or allow local health boards to make direct payments to meet needs for care and support through services provided by those boards under the National Health Service (Wales) Act 2006. This is a regulation-making power that would also allow regulations permitting LHBs to make direct payments for services under section 117 of the Mental Health Act 1983. That section is concerned with after-care for people who have been detained under that Act.

Mae gwelliant 308 yn ceisio rhoi pwerau i Weinidogion Cymru naill ai i fynnu neu ganiatáu i fyrddau iechyd lleol wneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth drwy wasanaethau a ddarperir gan y byrddau hynny o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hwn yn bŵer i wneud rheoliadau a fyddai hefyd yn golygu bod modd gwneud rheoliadau yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol wneud taliadau uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r adran hon yn ymwneud ag ôl-ofal ar gyfer pobl sydd wedi cael eu cadw o dan y Ddeddf honno.

Amendment 309 needs to be read with amendment 308 and elaborates on how the scheme for direct payments for healthcare would work. It details what the Welsh Ministers could include in regulations governing health direct payments. Taken together, these amendments seek to use the Bill to introduce a new kind of direct payment: a direct payment in lieu of healthcare provision. As I said during Stage 2, extending direct payments in the way proposed would be a fundamental change to the legislation that governs the NHS in Wales. These amendments run counter to this Government's policy. My view is that such a significant change would necessitate the establishment of a new legal framework to enable this to happen and where the consequences of such an important change could be fully worked out. I do not believe that the Social Services and Well-being (Wales) Bill is the appropriate vehicle for such a significant change. I ask Members to reject these amendments.

Mae angen darllen gwelliant 309 gyda gwelliant 308 ac mae'n ymhelaethu ar sut y byddai'r cynllun i ddarparu taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd yn gweithio. Mae'n rhoi manylion am yr hyn y gallai Gweinidogion Cymru ei gynnwys mewn rheoliadau sy'n llywodraethu taliadau uniongyrchol iechyd. Gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau hyn yn ceisio defnyddio'r Bil i gyflwyno math newydd o daliad uniongyrchol: taliad uniongyrchol yn lle darpariaeth gofal iechyd. Fel y dywedais yn ystod Cyfnod 2, trwy ymestyn taliadau uniongyrchol yn y ffordd arfaethedig byddem yn newid yn sylfaenol y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r GIG yng Nghymru. Mae'r gwelliannau hyn yn mynd yn groes i bolisi'r Llywodraeth hon. Fy marn i yw y byddai newid mor sylweddol yn golygu bod angen sefydlu fframwaith cyfreithiol newydd i alluogi hyn ac i ddadansoddi'n llawn beth fyddai canlyniadau newid mor bwysig. Nid wyf yn credu mai'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw'r cyfrwng priodol ar gyfer newid mor arwyddocaol. Gofynnaf i'r Aelodau wrthod y gwelliannau hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:23

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Elin Jones to reply to the debate.

Elin Jones i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:23

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will start by thanking Mark Isherwood for reminding us, as a Chamber, that the ability to make direct payments for healthcare is already operational in Scotland and England. Kirsty Williams, it does me no end of good in my political party to be called 'radical' by a Lib Dem. It may be radical in Wales to introduce such a change, but it is already operational in other parts of the UK. It is a fundamental change; I accept that. However, that is why I chose to word this amendment as regulation-making powers for Welsh Ministers. It is enabling and it would allow a Welsh Government to fully consult on the actual practice of enabling local health boards to make direct payments, to get those regulation-making powers right and to learn from experiences. So, I am very disappointed that the Welsh Government is not being radical enough to grasp this opportunity, to use this legislative opportunity, to allow for a legislative base to move towards, if Government at any point decides that it wants to use the powers that passing these amendments today would give to a future Government to allow direct payments for healthcare, as well as for social care, for those individuals who are in exceptional circumstances and in need of both health and continuing care, and to allow their packages of care to be fully integrated and fully commissioned in accordance with their needs, and not in accordance with the institutional arrangements that currently exist in legislation.

Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i Mark Isherwood am ein hatgoffa, fel Siambr, bod y gallu i wneud taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd eisoes yn weithredol yn yr Alban a Lloegr. Kirsty Williams, mae'n gwneud daioni enfawr i mi yn fy mhlaid wleidyddol i gael fy ngalw'n 'radical' gan aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gall fod yn radical i gyflwyno newid o'r fath yng Nghymru, ond mae eisoes yn weithredol mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n newid sylfaenol; rwy'n derbyn hynny. Fodd bynnag, dyna pam y dewisais i eirio'r gwelliant hwn fel pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Mae'n galluogi a byddai'n caniatáu i Lywodraeth Cymru ymgynghori'n llawn ar yr arfer o alluogi byrddau iechyd lleol i wneud taliadau uniongyrchol, er mwyn cael y pwerau hynny i wneud y rheoliadau yn iawn ac i ddysgu o brofiadau. Felly, rwy'n siomedig iawn nad yw Llywodraeth Cymru yn ddigon radical i achub ar y cyfle hwn, i ddefnyddio'r cyfle deddfwriaethol hwn, i ganiatáu ar gyfer sylfaen deddfwriaethol i symud tuag ato, pe byddai'r Llywodraeth ar unrhyw adeg yn penderfynu ei bod am ddefnyddio'r pwerau y byddai pasio'r gwelliannau hyn heddiw yn eu rhoi i Lywodraeth yn y dyfodol er mwyn caniatáu taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd, yn ogystal ag ar gyfer gofal cymdeithasol, i'r unigolion hynny sydd mewn amgylchiadau eithriadol ac angen gofal iechyd a gofal parhaus, ac i ganiatáu i'w pecynnau gofal gael eu hintegreiddio'n llawn a'u comisiynu'n llawn yn unol â'u hanghenion, ac nid yn unol â'r trefniadau sefydliadol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y ddeddfwriaeth.

18:26

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 308 is not agreed, amendment 309 falls. The question is that amendment 308 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore, we will move to an electronic vote.

Os nad yw gwelliant 308 yn cael ei dderbyn, mae gwelliant 309 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 308 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Ceir gwrthwynebiad, felly, symudwn i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 308.](#)

[Result of the vote on amendment 308.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 308: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Amendment 308 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.

Methodd gwelliant 309.

Amendment 309 falls.

Grŵp 19: Adolygu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Gwelliannau 159, 160, 161, 162, 163, 164, 176, 177, 178, 179, 180 a 181)

Group 19: Review of Care and Support Plans (Amendments 159, 160, 161, 162, 163, 164, 176, 177, 178, 179, 180 and 181)

18:26

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 159. I call on the Deputy Minister to move amendment 159 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 159. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 159 ac i siarad am hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:26

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 159 in my name.

Cynigiai welliant 159 yn fy enw i.

Earlier on, we agreed amendments to the Bill that mean the Welsh Ministers may, by regulations, make provision about the review of needs assessments. In this group, I am bringing forward similar amendments. The similarity is intentional as it ensures equity between the areas where a review process is being placed. The amendments in this group relate to decisions taken about an individual's care and support plan.

During Stage 2, an amendment to provide for an appeals process in this area was tabled by Lindsay Whittle. At that time, I put on record my concerns with this approach, which I have already explained today under group 13. In short, I said that I did not wish to create a two-tier process by having a complaints procedure as set out in Part 10 of the Bill and, in addition, a separate formal appeals process.

During Stage 2, I acknowledged that there was merit in clarifying expectations and I am pleased to speak to my amendments today, which I believe address the intent of Lindsay Whittle's original amendments.

Amendment 159 amends section 45 regarding the review and revision of care and support plans or support plans. The effect is to place a duty on local authorities to re-assess a person in circumstances where the local authority considers that there has been a change in a person's circumstances that affects the working of their care and support or support plan. Amendment 162 is consequential to amendment 159.

Amendment 176 provides for the same duty, but in relation looked-after children, at section 74. Amendment 179 is consequential to amendment 176.

Amendment 160 states that regulations under section 45(4)(c) must specify the persons who may request the review of a plan, and the circumstances in which a local authority may or may not refuse to do so. Amendment 177 does the same, but at section 74, so that there is consistency for children looked after by a local authority.

Amendment 161 sets out very clearly who must be involved in the preparation, review or revision of a plan under section 45. Amendment 178 ensures that looked-after children benefit from the same provision.

As well as setting out an important aspect of the review process, this amendment also addresses another issue that Lindsay Whittle raised at Stage 2, namely the need to involve people and their carers in the development of plans. Amendment 163 in this group makes provision in this regard in section 45, and amendment 180 does the same in section 74.

Yn gynharach, cytunwyd ar welliannau i'r Bil sy'n golygu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch adolygu asesiadau o anghenion. Yn y grŵp hwn, rwy'n cyflwyno gwelliannau tebyg. Mae'r tebygrwydd yn fwiadol gan ei fod yn sicrhau cydraddoldeb rhwng y meysydd lle y mae proses adolygu yn cael ei lleoli. Mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir am gynllun gofal a chymorth unigolyn.

Yn ystod Cyfnod 2, cyflwynodd Lindsay Whittle welliant i ddarparu ar gyfer proses apelio yn y maes hwn. Ar y pryd, nodais ar gof a chadw fy mhryderon ynglŷn â'r ymdriniaeth hon, ac rwyf eisoes wedi eu hegluro heddiw o dan grŵp 13. Yn gryno, dywedais nad wyf yn dymuno creu proses ddwy haen trwy gael trefn gwynion fel y'i nodir yn Rhan 10 o'r Bil, yn ogystal â phroses apelio ffurfiol ar wahân.

Yn ystod Cyfnod 2, roeddwn yn cydnabod bod gwerth mewn egluro disgwyliadau ac rwy'n falch o siarad am fy ngwelliannau heddiw. Credaf eu bod yn mynd i'r afael â bwriad gwelliannau gwreiddiol Lindsay Whittle.

Mae welliant 159 yn diwygio adran 45 ynghylch adolygu a diwygio cynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau cymorth. Yr effaith yw rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ailasesu rhywun mewn sefyllfa lle mae'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau unigolyn wedi newid mewn modd sy'n effeithio ar weithrediad ei gynllun gofal a chymorth neu ei gynllun cymorth. Mae welliant 162 yn ganlyniad i welliant 159.

Mae welliant 176 yn darparu ar gyfer yr un ddyletswydd, ond mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal, yn adran 74. Mae welliant 179 yn ganlyniad i welliant 176.

Mae welliant 160 yn datgan bod yn rhaid i reoliadau o dan adran 45(4)(c) bennu'r personau a gaiff ofyn am adolygu'r cynllun, ac o dan ba amgylchiadau y caiff neu na chaiff awdurdod lleol wrthod gwneud hynny. Mae welliant 177 yn gwneud yr un peth, ond yn adran 74, fel bod cysondeb i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Mae welliant 161 yn nodi'n glir iawn pwy sy'n gorfod bod yn rhan o baratoi, adolygu neu ddiwygio cynllun o dan adran 45. Mae welliant 178 yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn elwa ar yr un ddarpariaeth.

Yn ogystal â nodi agwedd bwysig ar y broses adolygu, mae'r welliant hwn hefyd yn ymdrin â mater arall a gododd Lindsay Whittle yng Nghyfnod 2, sef yr angen i gynnwys pobl a'u gofawyr wrth ddatblygu cynlluniau. Mae welliant 163 yn y grŵp hwn yn gwneud darpariaeth yn y maes hwn yn adran 45, ac mae welliant 180 yn gwneud yr un fath yn adran 74.

Amendments 164 and 180 are technical amendments to clarify drafting intent in sections 46 and 75 respectively. The overall effect is to ensure that other people connected to a person with care and support needs can be involved appropriately. This can be further elaborated through regulations if necessary, allowing greater flexibility than Lindsay Whittle's original amendment. It is a significant addition to the provisions in the Bill, ensuring that the voice of those affected by issues about how to meet need is heard. I hope, therefore, that Lindsay Whittle and all Members here today can support these amendments.

Gwelliannau technegol yw gwelliannau 164 a 180, y cyntaf i egluro'r bwriad drafftio yn adran 46 a'r ail i egluro'r bwriad drafftio yn adran 75. Yr effaith gyffredinol yw sicrhau bod modd cynnwys yn briodol unrhyw bobl eraill sy'n gysylltiedig ag unigolyn ag anghenion gofal a chymorth. Gellir ymhelaethu ymhellach trwy reoliadau os oes angen, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd na gwelliant gwreiddiol Lindsay Whittle. Mae'n ychwanegiad arwyddocaol i'r darpariaethau yn y Bil, gan sicrhau y clywir llais y rhai a effeithir gan faterion ynglŷn â sut i ddiwallu angen. Rwy'n gobeithio, felly, y gall Lindsay Whittle a'r holl Aelodau yma heddiw gefnogi'r gwelliannau hyn.

- 18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have no other speakers, so the question is that amendment 159 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 159 is agreed.
- Derbyniwyd gwelliant 159 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*
- Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill, felly y cwestiwn yw bod y gwelliant 159 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 159 yn cael ei dderbyn.
- Amendment 159 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Deputy Minister to move amendment 160.
- Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 160.
- 18:30 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I move amendment 160 in my name.
- Cynigaf welliant 160 yn fy enw i.
- 18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The question is that amendment 160 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 160 is agreed.
- Y cwestiwn yw bod gwelliant 160 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 160 yn cael ei dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 160 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*
- Amendment 160 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Deputy Minister to move amendment 161.
- Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 161.
- 18:30 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I move amendment 161 in my name.
- Cynigaf welliant 161 yn fy enw i.
- 18:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The question is that amendment 161 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 161 is agreed.
- Y cwestiwn yw bod gwelliant 161 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 161 yn cael ei dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 161 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*
- Amendment 161 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 18:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Deputy Minister to move amendment 162.
- Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 162.
- 18:31 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I move amendment 162 in my name.
- Cynigaf welliant 162 yn fy enw i.

18:31	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 162 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 162 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 162 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 162 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 162 yn cael ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 162 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:31	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Deputy Minister to move amendment 163.</p>	<p>Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 163.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:31	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 163 in my name.</p>	<p>Cynigiau welliant 163 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 37 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. The amendment is therefore agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 37 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae'r gwelliant wedi ei dderbyn.	
	<i>Derbyniwyd gwelliant 37 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 37 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
18:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Deputy Minister to move amendment 38.	Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 38.	
18:49	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 38 in my name.	Cynigiau welliant 38 yn fy enw i.	
18:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 38 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. The amendment is therefore agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 38 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae'r gwelliant wedi ei dderbyn.	
	<i>Derbyniwyd gwelliant 38 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 38 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	

18:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Deputy Minister to move amendment 39.	Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 39.
18:50	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 39 in my name.	Cynigiau welliant 39 yn fy enw i.
18:50	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 39 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 39 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly cynhelir pleidlais electronig.
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 39.	Result of the vote on amendment 39.
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 39: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 39 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.</i>
	<i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i>	<i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i>
18:50	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Deputy Minister to move amendment 40.	Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 40.
18:50	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 40 in my name.	Cynigiau welliant 40 yn fy enw i.
18:50	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 40 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 40 is therefore agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 40 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 40 ei dderbyn.
	<i>Derbyniwyd gwelliant 40 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 40 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
18:50	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Deputy Minister to move amendment 41.	Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 41.
18:50	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 41 in my name.	Cynigiau welliant 41 yn fy enw i.
18:50	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 41 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 41 is therefore agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 41 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 41 ei dderbyn.
	<i>Derbyniwyd gwelliant 41 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 41 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
18:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Deputy Minister to move amendment 42.	Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 42.
18:51	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 42 in my name.	Cynigiau welliant 42 yn fy enw i.

18:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 42 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 42 is therefore agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 42 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 42 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 42 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 42 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>
18:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on the Deputy Minister to move amendment 43.</p>	<p>Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 43.</p>
18:51	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 43 in my name.</p>	<p>Cynigiaf welliant 43 yn fy enw i.</p>
18:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 43 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 43 is therefore agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 43 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 43 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 43 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 43 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>
18:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on the Deputy Minister to move amendment 44.</p>	<p>Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 44.</p>
18:51	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 44 in my name.</p>	<p>Cynigiaf welliant 44 yn fy enw i.</p>
18:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 44 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 44 is therefore agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 44 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 44 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 44 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 44 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>
18:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on the Deputy Minister to move amendment 45.</p>	<p>Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 45.</p>
18:51	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 45 in my name.</p>	<p>Cynigiaf welliant 45 yn fy enw i.</p>
18:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 45 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 45 is therefore agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 45 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 45 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 45 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 45 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>

Grŵp 25: Apelio yn Erbyn Penderfyniadau Awdurdod Lleol (Gwelliannau 319 a 321)

Group 25: Appealing Against Decisions Taken by the Local Authority (Amendments 319 and 321)

18:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 319. I call on Kirsty Williams to move and speak to the lead amendment and to speak to the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 319. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig y prif welliant ac i siarad am hwnnw ac am y gwelliant arall yn y grŵp.

18:51 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 319 in my name.

Cynigiai welliant 319 yn fy enw i.

The amendments tabled in my name in this group are amendments 319 and 321. They seek to insert a new section. Earlier this afternoon, we had a debate on Government amendment 142. The difference of opinion between my group and the Government is over the nature of any appeals mechanism that should be put in place. Government amendment 142 sought to create a review procedure. However, we are of the opinion that a formal appeals system would be preferable. An individual's right to challenge a decision about their care is a critical one. Challenging a decision made on your social care is not simply a case of making a complaint about the process the council undertook. There are mechanisms to allow individuals to do that if they think that the council has not followed the correct procedure. This is about the right to challenge a council's assumption and conclusion on what your social care could be. Fundamentally, if the wrong decision is made on social care for an individual, it could mean the difference between someone being able to live their life independently and someone not being able to do that. These are potentially life-changing decisions that local authorities will be making, and I believe that the ability to challenge them—not simply to have a review of them, but to challenge the decision—should be included on the face of the Bill. I recognise that there are procedural, cost and capacity implications for local authorities, but I believe that a robust appeals system would actually be an incentive for local authorities to get the decision right first time. Too many times, I have seen in my own local authority decisions being taken only to be subsequently overturned, and that creates cost for the local authority. Getting things right first time is not only good for the individual but, actually, is a cost-effective way to deliver your service if you are a local authority. The implications of not having a robust appeal system, I think, could be potentially devastating to individuals who might find themselves caught up in that situation, especially where, as I have already stated, we may be in a situation where the eligibility criteria move significantly higher up the scale.

Y gwelliannau a gyflwynir yn fy enw i yn y grŵp hwn yw gwelliannau 319 a 321. Maent yn ceisio mewnosod adran newydd. Yn gynharach y prynhawn yma, cawsom ddatl ar welliant 142 y Llywodraeth. Mae'r gwahaniaeth barn rhwng fy ngrŵp i a'r Llywodraeth yn ymwneud â natur unrhyw fecanwaith apelio y dylid ei roi ar waith. Roedd gwelliant 142 y Llywodraeth yn ceisio creu gweithdrefn adolygu. Fodd bynnag, rydym ni o'r farn y byddai system apelio ffrifol yn well. Mae hawl unigolyn i herio penderfyniad ynglŷn â'i ofal yn un hollbwysig. Nid mater o wneud cwyn yn unig am y broses a ddilynodd y cyngor yw herio penderfyniad a wnaed ynglŷn â'ch gofal cymdeithasol. Mae mecanweithiau ar waith i ganiatáu i unigolion wneud hynny os ydynt yn credu nad oedd y cyngor wedi dilyn y weithdrefn gywir. Mae hyn yn ymwneud â'r hawl i herio rhagdybiaeth a chasgliad y cyngor ynglŷn â ffurf bosibl eich gofal cymdeithasol. Yn y bôn, os yw'r penderfyniad anghywir yn cael ei wneud ynglŷn â gofal cymdeithasol unigolyn, gallai olygu'r gwahaniaeth rhwng gallu byw bywyd yn annibynnol a methu â gwneud hynny. Mae'r penderfyniadau hyn gan awdurdodau lleol yn rhai a allai newid bywydau pobl, ac rwy'n credu y dylai'r gallu i herio—nid yn unig i gael eu hadolygu, ond i herio'r penderfyniau—gael ei gynnwys ar wyneb y Bil. Rwy'n cydnabod bod goblygiadau i awdurdodau lleol o safbwynt gweithdrefnau, cost a staffio, ond rwy'n credu y byddai system apelio gadarn mewn gwirionedd yn gymhellant i awdurdodau lleol wneud y penderfyniad cywir y tro cyntaf. Yn rhy aml, rwyf wedi gweld penderfyniadau'n cael eu gwneud yn fy awdurdod lleol fy hun ac wedyn yn cael eu gwrthdroi'n ddiweddarach, ac mae hynny'n creu cost i'r awdurdod lleol. Mae'n dda ar gyfer yr unigolyn os gwneir pethau'n iawn y tro cyntaf, ond, mewn gwirionedd, mae hefyd yn ffordd gost effeithiol o ddarparu eich gwasanaeth os ydych chi awdurdod lleol. Credaf y gallai goblygiadau peidio â chael system apelio gadarn fod yn aruthrol i unigolion a allai eu cael eu hunain yn y sefyllfa honno, yn enwedig gan ei bod yn bosibl, fel yr wyf eisoes wedi dweud, y byddwn mewn sefyllfa lle y bydd meini prawf cymhwysedd yn symud yn sylweddol uwch i fyny'r raddfa.

My understanding, Deputy Presiding Officer, is that the Care Bill in England will include the right to appeal. Not voting for this amendment today will ensure that Welsh citizens who find themselves interacting with the social care system will have fewer rights to challenge decisions than if they lived across the border. I want social services in Wales to be the very best that they can be and to be responsive to individuals. Any system that has fairness at its heart should have the ability for an individual to appeal that decision, not simply to have it reviewed.

Fy nealltwriaeth i, Ddirprwy Lywydd, yw y bydd y Bil Gofal yn Lloegr yn cynnwys yr hawl i apelio. Trwy beidio â phleidleisio am y gwelliant hwn heddiw, byddwn yn sicrhau y bydd gan ddinasyddion Cymru sy'n canfod eu hunain yn rhyngweithio â'r system gofal cymdeithasol lai o hawliau i herio penderfyniadau na phe byddent yn byw ar draws y ffin. Rwyf am i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru fod y gorau y gallant fod, a bod yn ymatebol i unigolion. Dylai unrhyw system sydd â thegwch wrth ei gwraidd gynnwys y gallu i unigolyn apelio yn erbyn penderfyniad, nid dim ond cael ei adolygu.

18:55 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is important to support Kirsty Williams in these amendments to provide for independent appeal mechanisms. They do have stronger forms of wording to the Government amendments and you might feel that it is quite strange that I supported the Government amendments in group 13, and amendment 142, but I did so as a responsible member of an opposition party. We are responsible—and I am not suggesting for one moment that Kirsty Williams is not responsible—but I felt that it was important that we had something again in the Bill. That is important. It is there, but this does strengthen it and therefore I am pleased to give it our full support.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cefnogi Kirsty Williams yn y gwelliannau hyn i ddarparu ar gyfer mecanweithiau apêl annibynnol. Mae eu geiriad yn gryfach na gwelliannau'r Llywodraeth ac efallai y byddwch yn teimlo'i bod yn eithaf rhyfedd fy mod yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth yng ngrŵp 13, a gwelliant 142, ond rwyf yn gwneud hynny fel aelod cyfrifol o un o'r gwrthbleidiau. Rydym yn gyfrifol—ac nid wyf yn awgrymu am funud nad yw Kirsty Williams yn gyfrifol—ond roeddwn i'n teimlo ei bod yn bwysig bod gennym rywbeth eto yn y Bil. Mae hynny'n bwysig. Mae yno, ond mae hyn yn ei gryfhau, ac felly rwy'n falch i roi ein cefnogaeth lawn iddo.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister to respond.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:56 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As Kirsty Williams has explained, the purpose of her amendments 319 and 321 are to impose a duty on the Welsh Ministers to make regulations that provide for a system of appeals against certain local authority decisions. I am also aware of the amendments tabled to the Care Bill by Norman Lamb, the Minister of State for Care and Support on this matter. They seek to include powers for an appeal process to be set out through regulations. They do not include a duty to do so, as do amendments 319 and 321.

Fel y mae Kirsty Williams wedi esbonio, pwrpas ei gwelliannau 319 a 321 yw gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer system i apelio yn erbyn rhai penderfyniadau gan awdurdodau lleol. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil Gofal gan Norman Lamb, y Gweinidog Gwladol ar gyfer Gofal a Chymorth ar y mater hwn. Maent yn ceisio cynnwys pwerau i sefydlu proses apelio trwy reoliadau. Nid ydynt yn cynnwys dyletswydd i wneud hynny, fel y mae gwelliannau 319 a 321.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

As I mentioned earlier, during groups 13 and 19, and in the last group—group 24—the matter of appeals was discussed during Stage 2, following a series of amendments tabled by Lindsay Whittle and Elin Jones. My position regarding the formal and adversarial nature of appeals remains. While I agree that, in order to place people at the heart of decision making, we must make sure that they have a voice, particularly at what can be key moments in their lives. I do not agree that a formal appeals process is the right way to achieve it. This is why I brought forward a number of amendments in relation to the review of assessments and charging decisions, which I am pleased that Members felt able to support earlier. Lindsay Whittle has mentioned that.

Fel y soniais yn gynharach, yn ystod grwpiau 13 a 19, ac yn y grŵp olaf—grŵp 24—trafodwyd yr apeliadau yn ystod Cyfnod 2, yn dilyn cyfres o welliannau a gyflwynwyd gan Lindsay Whittle ac Elin Jones. Mae fy safbwynt i o ran natur ffurfiol a gwrthwynebol apeliadau yr un fath o hyd. Rwyf yn cytuno bod yn rhaid inni wneud yn siŵr bod gan bobl lais, er mwyn eu rhoi wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, yn enwedig ar adegau a all fod yn allweddol yn eu bywydau. Er hynny, nid wyf yn cytuno mai proses apelio ffurfiol yw'r ffordd gywir o gyflawni hynny. Dyma pam y cyflwynais nifer o welliannau ym maes adolygu asesiadau a phenderfyniadau codi tâl, ac rwyf yn falch fod yr Aelodau'n teimlo y gallent eu cefnogi yn gynharach. Mae Lindsay Whittle wedi sôn am hynny.

Following the agreement of my amendments, to accept amendments 319 and 321 tabled by Kirsty Williams would potentially create a three-tier system containing provisions for reviews, appeals and complaints. I believe that such a system would be overly confusing for all those involved, and would be contrary to one of the key aims of this Bill to reduce complexity. I also remind Members that local authorities already have a statutory duty to investigate complaints about their social services functions. I am revising the process for dealing with such complaints at present to reflect views that the current process should be more straightforward and more in line with processes in place in other public services. In doing so, I am taking into account the views expressed by the Health and Social Care Committee at Stage 1. I would also remind Members that there is already an independent element to this, which is provided for by the Public Services Ombudsman for Wales. This is the bottom line for all public services. This Bill extends the duties of the ombudsman even further to take account of those who pay for their own care.

Ar ôl cytuno ar fy ngwelliannau i, byddai derbyn gwelliannau 319 a 321 a gyflwynwyd gan Kirsty Williams o bosibl yn creu system tair haen â darpariaethau ar gyfer adolygiadau, apeliadau a chwynion. Rwy'n credu y byddai system o'r fath yn rhy ddryslyd i bawb sy'n ymwneud â hi, ac y byddai'n groes i un o amcanion allweddol y Bil hwn sef lleihau cymhlethdod. Hoffwn atgoffa'r Aelodau hefyd bod gan awdurdodau lleol eisoes ddyletswydd statudol i ymchwilio i gwynion ynglŷn â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rwy'n adolygu'r broses ar gyfer ymdrin â chwynion o'r fath ar hyn o bryd, er mwyn adlewyrchu'r farn y dylai'r broses bresennol fod yn fwy syml a chyd-fynd yn agosach â phrosesau sydd ar waith mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill. Wrth wneud hynny, rwy'n ystyried y farn a fynegwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghyfnod 1. Byddwn hefyd yn atgoffa Aelodau y ceir elfen annibynnol i hyn eisoes, a ddarperir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dyma ddiwedd y gân ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus. Mae'r Bil hwn yn ymestyn dyletswyddau'r ombwdsmon ymhellach fyth i ystyried y rhai sy'n talu am eu gofal eu hunain.

18:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Kirsty Williams to reply.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:59 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Deputy Minister says that this system becomes very complicated. That is why the Liberal Democrats did not vote for amendment 142 earlier in the day. I think that it is absolutely crucial to distinguish between something that the ombudsman would look at, which is basically the process of maladministration, a council not following a set procedure, and the difference between being able to appeal a decision on your care and support. A council could follow all of the procedures, and could carry out the review to the letter of the regulation and the law, yet come to a conclusion that the person in receipt of that care would find perverse and does not meet their needs. There is a big distinction between process, which can be looked at through a complaints procedure and can be looked at by the ombudsman, and the ability to appeal a decision on the nature of your care.

Dwyed y Dirprwy Weinidog fod y system hon yn dod yn gymhleth iawn. Dyna pam na wnaeth y Democratiaid Rhyddfrydol bleidleisio o blaid gwelliant 142 yn gynharach yn y dydd. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hanfodol gwahaniaethu rhwng rhywbeth y byddai'r ombwdsmon yn ei ystyried, sef y broses o gamweinyddu yn y bôn, cyngor nad yw'n dilyn gweithdrefn benodol, a'r gwahaniaeth rhwng gallu apelio yn erbyn penderfyniad ynglŷn â'ch gofal a chymorth. Gallai cyngor ddilyn pob un o'r gweithdrefnau, a gallai gynnal yr adolygiad yn gwbl yn unol â'r rheoliad a'r gyfraith, ac eto ddod i gasgliad a fyddai'n ymddangos yn wrthun i'r sawl sy'n derbyn y gofal hwnnw, a heb fod yn diwallu ei anghenion. Mae gwahaniaeth mawr rhwng y broses, y gellir edrych arni drwy weithdrefn gwynion ac y gall yr ombwdsmon ei hystyried, a'r gallu i apelio yn erbyn penderfyniad ar natur eich gofal.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

What we are trying to do today is not to supercede the complaints procedure or to add further bureaucracy, but the complaints procedure and the ombudsman look at very different things. If I were to go to the ombudsman and say, 'I don't like the decision that the council has taken about my care and support', the ombudsman would not look at it. I would have to demonstrate maladministration on the part of the council. The council could have followed its procedures and come to that conclusion, and I would have nowhere else to go. Under our proposals, there would be a formal ability to appeal that decision; under the Government's consideration, there would not have been, as there was only an opportunity to have a review, and I do not believe that that goes far enough. There are two very different principles at stake here, and that is why I intend to press the amendment to a vote.

Nid ydym yn ceisio disodli'r drefn gwyno heddiw nac ychwanegu rhagor o fiwrocratiaeth, ond mae'r drefn gwyno a'r ombwdsmon yn edrych ar bethau gwahanol iawn. Pe byddwn yn mynd at yr ombwdsmon a dweud, 'Nid wyf yn hoffi'r penderfyniad y mae'r cyngor wedi'i wneud ynglŷn â'm gofal a'm cymorth', ni fyddai'r ombwdsmon yn ei ystyried. Byddai'n rhaid i mi ddangos bod y cyngor wedi camweinyddu. Gallai'r cyngor fod wedi dilyn ei weithdrefnau a dod i'r casgliad hwnnw, ac ni fyddai gennyf unman arall i fynd. O dan ein cynigion ni, byddai gennyf allu ffurfiol i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw; dan ystyriaeth y Llywodraeth, ni fyddai gallu o'r fath, gan nad oedd ond cyfle i gael adolygiad, ac nid wyf yn credu bod hynny'n mynd yn ddigon pell. Mae dwy egwyddor wahanol iawn yn y fantol yma, a dyna pam yr wyf yn bwriadu pwysu i gael pleidlais ar y gwelliant.

19:01	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>If amendment 319 is not agreed to, amendments 321 and 317 will fall. The question is that amendment 319 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will have an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 319.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 319: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p>	<p>Os nad yw gwelliant 319 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 321 a 317 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 319 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly cynhelir pleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 319.</p> <p><i>Amendment 319 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:01	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Members have to be much quicker in voting. We are trying to help you from the chair, but when a vote is called, please vote immediately.</p> <p>Grŵp 26: Dehongliad o Berson Ifanc sy'n Derbyngofal gan Awdurdod Lleol (Gwelliant 170)</p>	<p>Rhaid i Aelodau bleidleisio'n llawer cyflymach. Rydym yn ceisio eich helpu o'r gadair, ond pan elwir pleidlais, os gwelwch yn dda pleidleiswch ar unwaith.</p> <p>Group 26: Interpretation of a Young Person Being Looked After by a Local Authority (Amendment 170)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:02	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The lead and only amendment in the group is amendment 170. I call on the Deputy Minister to move amendment 170 and to speak to it.</p>	<p>Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 170. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 170 ac i siarad amdano.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:02	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 170 in my name.</p> <p>Amendment 170 is a minor technical amendment to the definition of a 'child or young person looked after by a local authority' under section 65. This amendment clarifies drafting intent to ensure that a distinction is made between young persons and children being looked after by a local authority. The phrase 'young persons' can also include young people who have turned 18 but were looked after when they were still children. I ask Members to support this amendment.</p>	<p>Cynigiai welliant 170 yn fy enw i.</p> <p>Gwelliant technegol bach i'r diffiniad o 'blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol' dan adran 65 yw gwelliant 170. Mae'r gwelliant hwn yn egluro'r bwriad wrth ddrafftio, i sicrhau y gwahaniaethir rhwng pobl ifanc a phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol. Gall yr ymadrodd 'pobl ifanc' hefyd gynnwys pobl ifanc sydd wedi troi 18 oed ond a oedd yn derbyn gofal pan oeddent yn dal i fod yn blant. Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:02	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on Kirsty Williams to speak.</p>	<p>Galwaf ar Kirsty Williams i siarad.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:03	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>No, it is fine.</p>	<p>Na, mae'n iawn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:03	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 170 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 170 is agreed to.</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 170 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 170 yn cael ei dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Grŵp 27: Parhad Llety ar gyfer Plant a Fu Gynt yn Derbyn Gofal gyda'u Cyn-rieni Maeth Awdurdod Lleol (Gwelliannau 1, 1A, 1B, 2, 3, 75A, 75B, 75C, 75, 76A, 76, 77, 331, 4, 332 a 5)

Group 27: Continuation of Accommodation for Former Looked-after Children with their Former Local Authority Foster Parents (Amendments 1, 1A, 1B, 2, 3, 75A, 75B, 75C, 75, 76A, 76, 77, 331, 4, 332 and 5)

19:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 1. I call on William Graham to move amendment 1 and to speak to it.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 1. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 1 ac i siarad amdano.

19:03

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 1 in my name, supported by Kirsty Williams.

Cynigiau welliant 1, a gefnogir gan Kirsty Williams, yn fy enw i.

Young people leave foster care in Wales between the ages of 16 and 18. The average age for leaving home in the United Kingdom is 24. Children and young people enter the care system for many reasons, but most will have experienced great distress and upheaval in their childhood. For these reasons, young people in care will be less equipped to deal with independence than their peers.

Mae pobl ifanc yn gadael gofal maeth yng Nghymru rhwng 16 a 18 oed. Yr oedran cyfartalog ar gyfer gadael cartref yn Deyrnas Unedig yw 24. Mae plant a phobl ifanc yn dod yn rhan o'r system ofal am nifer o resymau, ond bydd y rhan fwyaf wedi profi gofid a chythrwfl mawr yn eu plentyndod. Am y rhesymau hyn, ni fydd pobl ifanc mewn gofal mewn sefyllfa gystal â'u cyfoedion i ymdopi ag annibyniaeth.

Care leavers are too often forced into independence too early. They are more likely to have a mental illness, be homeless, misuse substances, be unemployed or imprisoned than their peers. They are four times more likely to commit suicide in adulthood. If these young people had more time with their foster carers to develop the skills they need to live independently, they would have a much greater chance of success.

Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn rhy aml yn cael eu gorfodi i fod yn annibynnol yn rhy gynnar. Maent yn fwy tebygol o gael salwch meddwl, o fod yn ddi-gartref, o gamddefnyddio sylweddau, o fod yn ddi-waith neu o gael eu carcharu na'u cyfoedion. Maent bedair gwaith yn fwy tebygol o gyflawni hunanladdiad pan fyddant yn oedolion. Pe byddai gan y bobl ifanc hyn fwy o amser gyda'u gofalwyr maeth i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol, byddai ganddynt lawer mwy o siawns o lwyddo.

Young people tell us that having a stable person you can trust and rely on makes all the difference. Research shows that young people do much better in adulthood when they are able to stay with their foster carers longer. They are more likely to get qualifications, less likely to abuse alcohol or other substances, less likely to use mental health services and less likely to be arrested or end up in prison. Supporting these young people to remain with their foster carers longer saves money in the long term. If we support young people by giving them the opportunities and tools they need to succeed, they are more likely to be happy active adults in good health and employment. The estimated cost of the scheme to allow foster care to continue after 18 in Wales is approximately £1.1 million per annum. The average age, as we have already said, is 24 in the United Kingdom, yet vulnerable young people in care are often expected to live independently and to leave care at 16, 17 or 18. Many young people in care do not reach the same level of development as their peers by the same age. The trauma that has so often characterised their lives before they entered care can have a devastating impact on their development. This means that they are often not ready or able to make a successful move to independence at such a young age. However, this is what is currently expected of them. They are being set up to fail.

This transition is often described as the 'cliff edge', when familiar and stable emotional and practical support is lost and young people face the world largely alone. This can mean losing the feeling of being part of a family or having someone to talk through a problem with or other types of much-needed support. Young people require stable relationships with people they can trust, and this is what has to change. In Wales, we have a new opportunity to improve the lives of young people leaving care. The Welsh Government and local government in Wales are currently trialling a scheme called When I am Ready, and I pay tribute to Ken Skates for his immense help in this particular respect. The scheme gives young people in foster care the option to remain with their foster carer beyond 18 if that is what they both want. The scheme has been making positive inroads, but the Welsh Conservatives believe that this should be a consistent entitlement for young people to be able to access, irrespective of where in Wales they live. This is why a mandatory obligation on local authorities is so important. Based on the numbers of young people in foster care in Wales, Landman Economics and Virtual Worlds Research estimate that the scheme will cost no more than £1.1 million. This figure is representative of the number of young people who would take part in the scheme and the amount of time they would remain in the foster care placement. This means that the cost of the scheme to Welsh Government is not immense. It equates to 0.86% of the Welsh Government's 2013-14 budget allocated to supporting children, young people and families.

Mae pobl ifanc yn dweud wrthym ei bod yn gwneud byd o wahaniaeth i gael rhywun sefydlog y gallwch ymddiried ynddo a dibynnu arno. Dengys gwaith ymchwil fod pobl ifanc yn gwneud yn llawer gwell pan fyddant yn oedolion os gallant aros yn hirach gyda'u gofalwyr maeth. Maent yn fwy tebygol o gael cymwysterau, yn llai tebygol o gamddefnyddio alcohol neu sylweddau eraill, yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac yn llai tebygol o gael eu harestio neu fynd i'r carchar. Trwy gefnogi'r bobl ifanc hyn i aros yn hirach gyda'u gofalwyr maeth, byddem yn arbed arian yn y tymor hir. Os cefnogwn y bobl ifanc hyn trwy roi'r cyfleoedd a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i lwyddo, maent yn fwy tebygol o fod yn oedolion egniol a hapus mewn cyflogaeth ac iechyd da. Amcangyfrifir y byddai'r cynllun i ganiatáu i ofal maeth barhau ar ôl 18 oed yng Nghymru yn costio tua £1.1 miliwn y flwyddyn. Yr oedran cyfartalog, fel yr ydym eisoes wedi'i ddweud, yw 24 yn y Deyrnas Unedig, ond yn aml mae disgwyl i bobl ifanc agored i niwed mewn gofal fyw'n annibynnol a gadael gofal yn 16, 17 neu 18 oed. Nid yw llawer o bobl ifanc mewn gofal yn datblygu i'r un lefel â'u cyfoedion erbyn yr un oedran. Gall y trawma sydd mor aml wedi nodweddu eu bywydau cyn iddynt ddo yn rhan o'r system ofal gael effaith ddinistriol ar eu datblygiad. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn aml yn barod neu'n gallu symud yn llwyddiannus i fod yn annibynnol a hwythau mor ifanc. Fodd bynnag, dyma beth a ddisgwylir ar hyn o bryd. Maent yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle maent yn sicr o fethu.

Mae'r cyfnod pontio hwn yn cael ei ddisgrifio'n aml fel 'ymyl y clogwyn', pan fydd cefnogaeth emosiynol ac ymarferol cyfarwydd a sefydlog yn cael ei cholli a phobl ifanc yn wynebu'r byd ar eu pennau eu hunain i raddau helaeth. Gall hyn olygu colli'r teimlad o fod yn rhan o deulu neu gael rhywun i siarad am broblem gyda nhw neu fathau eraill o gymorth mawr ei angen. Mae pobl ifanc angen perthynas sefydlog gyda phobl y gallant ymddiried ynddynt, a dyma beth sydd raid ei newid. Yng Nghymru, mae gennym gyfle newydd i wella bywydau pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru yn treialu cynllun o'r enw Pan Fydda i'n Barod, ac rwy'n talu teyrnged i Ken Skates am ei gymorth aruthrol yn y mater penodol hwn. Mae'r cynllun yn rhoi dewis i bobl ifanc mewn gofal maeth aros gyda'u gofalwr maeth y tu hwnt i 18 oed os mai dyna beth y mae'r ddau ei eisiau. Mae'r cynllun wedi gwneud gwaith cadarnhaol, ond mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai hon fod yn hawl i bob person ifanc, ni waeth ble yng Nghymru y maent yn byw. Dyma pam mae dyletswydd orfodol ar awdurdodau lleol mor bwysig. Yn seiliedig ar nifer y bobl ifanc mewn gofal maeth yng Nghymru, mae Landman Economics and Virtual Worlds Research yn amcangyfrif na fydd y cynllun yn costio dim mwy nag £1.1 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli nifer y bobl ifanc a fyddai'n cymryd rhan yn y cynllun ac am faint o amser y byddent yn aros yn y lleoliad gofal maeth. Mae hyn yn golygu nad yw cost y cynllun i Lywodraeth Cymru yn enfawr. Mae'n cyfateb i 0.86% o gyllideb 2013-14 Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd.

There is a strong social and economic case for investing in care leavers now. In the long-term, the cost per child actually works out at a £130,000-saving due to increased job chances and the lack of reliance on the state from ages 18 to 46. The Social Services and Well-Being (Wales) Bill should make clear that local authorities have a duty to provide arrangements for young people and a legal duty to give much-needed clarity to everyone, and a clear obligation is the only way we will ensure that young people in Wales have a consistent opportunity to remain with their foster carers. The new obligation on local authorities must be adequately resourced and effectively implemented to make a difference to young people's lives.

There has been no ministerial statement regarding plans for implementation of any proposed legal power or on the role of regulations or guidance. Without clarity on the plans for the implementation of these arrangements, it is impossible to judge the difference it will make to people's lives. The amendment will extend the age to which foster care provision may be made to 21. This means that a local authority may provide accommodation for young people up to the age of 21 if the person and foster carer wish this to happen. The Who Cares? Trust, which campaigns for and supports children in care and young people leaving care, said the move was

'absolutely fantastic news for thousands of young people in foster care',

and that it represented

'the most significant reform to the support children in care are given in a generation'.

The chief executive commented:

'Time and again we hear from young people who are extremely anxious about having to leave their carers when they turn 18 and effectively no longer having somewhere they can call home, especially when the average age for young people who aren't in care to finally leave home is 24 to 27.'

Our amendment is supported by Action for Children. The charity states that

'Care leavers are too often forced into independence too early. They are more likely to have a mental illness, be homeless, misuse substances, be unemployed or in prison than their peers.'

and that

'nearly half of 19 year old care leavers in Wales are not in education, training or employment or in touch with their local authority.'

Mae achos cymdeithasol ac economaidd cryf dros fuddsoddi mewn pobl sy'n gadael gofal nawr. Yn y tymor hir, byddai'r cynllun mewn gwirionedd yn arbed £130,000 fesul plentyn oherwydd y cynnydd mewn cyfleoedd swyddi a'r ffaith na fyddent yn dibynnu ar y wladwriaeth o 18 i 46 oed. Dylai'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei gwneud yn glir bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu trefniadau ar gyfer pobl ifanc a dyletswydd gyfreithiol i roi eglurder mawr ei angen i bawb, a rhwymedigaeth glir yw'r unig ffordd y byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru'n cael cyfle cyson i aros gyda'u gofalwyr maeth. Mae'n rhaid sicrhau adnoddau digonol ar gyfer y rhwymedigaeth newydd ar awdurdodau lleol, a rhaid ei rhoi ar waith yn effeithiol i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad gweinidogol ynghylch cynlluniau ar gyfer gweithredu unrhyw bŵer cyfreithiol arfaethedig nac ar swyddogaeth y rheoliadau neu ganllawiau. Heb i'r cynlluniau ar gyfer rhoi'r trefniadau hyn ar waith fod yn eglur, nid oes modd barnu pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud i fywydau pobl. Bydd y gwelliant yn ymestyn yr oed y gellir gwneud darpariaeth gofal maeth i 21. Mae hyn yn golygu y gall awdurdod lleol ddarparu llety i bobl ifanc hyd at 21 oed os yw'r person ifanc a'r gofalwr maeth yn dymuno i hyn ddigwydd. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Who Cares?, sy'n cefnogi ac yn ymgyrchu dros blant mewn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal, fod y cam hwn yn

newyddion gwych i filoedd o bobl ifanc mewn gofal maeth,

a'i fod yn cynrychioli'r

diwygiad mwyaf sylweddol mewn cenhedlaeth i'r gefnogaeth a roddir i blant mewn gofal.

Dyweddodd y prif weithredwr:

Dro ar ôl tro rydym yn clywed gan bobl ifanc sydd yn hynod o bryderus am orfod gadael eu gofalwyr pan fyddant yn 18 oed a bod heb rywle y gallant ei alw'n gartref mwyach i bob pwrpas, yn enwedig pan fydd pobl ifanc nad ydynt mewn gofal rhwng 24 a 27 ar gyfartaledd cyn gadael cartref yn y diwedd.

Mae ein gwelliant yn cael ei gefnogi gan Gweithredu dros Blant. Mae'r elusen yn datgan bod

Pobl ifanc sy'n gadael gofal yn rhy aml yn cael eu gorfodi i fod yn annibynnol yn rhy gynnar. Maent yn fwy tebygol o gael salwch meddwl, o fod yn ddigartref, o gamddefnyddio sylweddau, o fod yn ddi-waith neu o fynd i'r carchar na'u cyfoedion.

a bod

bron i hanner y rhai 19 oed sy'n gadael gofal yng Nghymru ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth neu ddim mewn cysylltiad â'u hawdurdod lleol.

Amendment 2 enables regulation to be made in respect of the new section inserted by amendment 1. This amendment also defines the meaning of 'former local authority foster parent' and 'relevant person' for clarity and consistency. Amendment 3 will mean that Welsh Ministers will need to comply with this section prior to making regulations under section 67, which deals with accommodation for children without parents or who are lost or abandoned. Before making any regulations, Welsh Ministers will need to consult local authorities and other bodies likely to be affected. They must then lay before the Assembly a document that explains the proposals and gives details of the consultation. This amendment will ensure that comprehensive stakeholder engagement and a thorough scrutiny of any changes to regulations take place before any changes come into effect.

Amendment 75A inserts a new section concerning pathway assessments and plans for post-18 living arrangements. The effect of the amendment is to place a duty on the local authority to give consideration to arrange for the accommodation of category 1 young persons who are placed with local authority foster parents after they reach their eighteenth birthday. Our amendment will ensure that the responsible local authority must provide advice and support, including financial support under this Part in order to facilitate post-18 living arrangements.

Amendment 75B will enable regulations to be made in respect of the new section set up by amendment 75.

Amendment 75C ensures that local authorities publicise post-18 living arrangements for the young person in foster care, and that their foster parents are fully aware of the measures in place to facilitate living arrangements once the young person has reached their eighteenth birthday.

Amendment 76A places a duty on local authorities to monitor post-18 living arrangements and to provide advice and support to any young person and their former foster parents who are making arrangements. Our amendment will ensure that young people and the former foster parent are provided with financial support if required.

Amendment 4 will mean that a statutory instrument containing regulations under section 67 may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by, the National Assembly. This will mean that any proposed regulation receives thorough Assembly scrutiny. This will ensure transparency by enabling the Assembly to question new regulations or changes to existing regulations.

Finally, amendment 5 makes reference to the fact that the Minister must adhere to procedures set out under the new section to be inserted by amendment 3. This amendment is a signpost to the relevant section that must be complied with.

Mae gwelliant 2 yn golygu bod modd gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r adran newydd a fewnosodwyd gan welliant 1. Mae'r gwelliant hwn hefyd yn diffinio ystyr 'rhieni maeth awdurdod lleol blaenorol' a 'person perthnasol' ar gyfer eglurder a chysondeb. Bydd gwelliant 3 yn golygu y bydd angen i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r adran hon cyn gwneud rheoliadau o dan adran 67, sy'n ymdrin â llety ar gyfer plant heb rieni neu sydd ar goll neu wedi cael eu gadael. Cyn gwneud unrhyw reoliadau, bydd angen i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau lleol a chyrrff eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio. Yna, rhaid iddynt osod gerbron y Cynulliad ddogfen sy'n esbonio'r cynigion ac sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad. Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau yr ymgysylltir yn gynhwysfawr â rhanddeiliaid ac y cynhelir proses drylwyr o graffu ar unrhyw newidiadau i reoliadau cyn i unrhyw newidiadau ddod i rym.

Mae gwelliant 75A yn mewnosod adran newydd yn ymwneud ag asesiadau a chynlluniau llwybr ar gyfer trefniadau byw ar ôl 18. Effaith y gwelliant yw rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i roi ystyriaeth i drefnu llety ar gyfer pobl ifanc categori 1 sy'n cael eu lleoli gyda rhieni maeth awdurdod lleol ar ôl iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Bydd ein gwelliant yn sicrhau bod yn rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol roi cyngor a chymorth, gan gynnwys cymorth ariannol o dan y Rhan hon er mwyn hwyluso trefniadau byw ôl-18.

Bydd gwelliant 75B yn golygu modd modd gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r adran newydd a sefydlwyd gan welliant 75.

Mae gwelliant 75C yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd i drefniadau byw ar ôl 18 oed ar gyfer y person ifanc mewn gofal maeth, a bod ei rieni maeth yn gwbl ymwybodol o'r mesurau ar waith i hwyluso trefniadau byw unwaith y bydd y person ifanc wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Mae gwelliant 76A yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro trefniadau byw ôl-18 ac i ddarparu cyngor a chefnogaeth i unrhyw berson ifanc a'i gyn-rieni maeth sy'n gwneud trefniadau. Bydd ein gwelliant yn sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i'r bobl ifanc a'r cyn-riant maeth os oes angen.

Bydd gwelliant 4 yn golygu na cheir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 67 onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a'i gymeradwyo ganddo. Bydd hyn yn golygu y bydd y Cynulliad yn craffu'n drylwyr ar unrhyw reoliad arfaethedig. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder trwy alluogi'r Cynulliad i gwestiynu rheoliadau newydd neu newidiadau i reoliadau presennol.

Yn olaf, mae gwelliant 5 yn cyfeirio at y ffaith bod yn rhaid i'r Gweinidog gadw at weithdrefnau a nodwyd o dan yr adran newydd a fewnosodir gan welliant 3. Mae'r gwelliant hwn yn cyfeirio at yr adran berthnasol y mae'n rhaid cydymffurfio â hi.

I will speak to amendments 1A, 1B, 331 and 332 in my name.

The purpose of the amendments is to place a duty on local authorities to extend foster care up to the age of 22 and to provide support, including financial support, as well as advice, for those in foster care up to the age of 22. A strong body of evidence shows that giving young people in foster care more time can have significant benefits for the young people and for Wales as a country. Increasingly, the age at which young people leave foster care has a positive and significant effect on their secondary educational attainment and completion, and on their entry into post-secondary education. It reduces the likelihood of subsequent alcohol and substance abuse among those care leavers. It reduces the subsequent use of mental health services. It is cost-effective for Wales, which is very useful in these austere times, and it gives young people a fair shot at life. In short, it is a chance to stay with the foster carers who will make a difference, and that is what this Bill is all about—making the difference.

Young people leave foster care in Wales between the ages of 16 and 18. The average age at the moment for leaving home is 24, and rising, I believe—it certainly is in many homes. We have also been told that because of financial circumstances, more and more young people have to remain with their parents until they are 30. Some of you look quite aghast. [Laughter.]

We have clear evidence that care leavers are more likely than other young people to suffer from mental illness, to be homeless, to misuse substances, to be unemployed or in custody, and, worst of all, are four times more likely to commit suicide. Young people have told Action for Children that having a stable person that they can rely on makes all the difference. Imagine if, at the age of 16 or 17, you had to find your own accommodation, to make sure you had enough money for food, to carry on with your education or find a decent job. What we are saying in these amendments is that we should not just be empowering local authorities to provide this foster care and support until the young people reach the age of 22, but that local authorities will have a duty to do so. These amendments are not going to break the bank. It has been calculated that it will take only an extra £1.1 million to provide foster care and support up to the age of 22. What is more, more money than this will be saved by young people having a better chance of getting qualifications and jobs, and contributing to the economy.

Byddaf yn siarad am welliannau 1A, 1B, 331 a 332 yn fy enw i.

Diben y gwelliannau yw gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymestyn gofal maeth hyd at 22 oed ac i ddarparu cymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, yn ogystal â chyingor, ar gyfer y rhai mewn gofal maeth hyd at 22 oed. Mae corff cryf o dystiolaeth yn dangos y gellir sicrhau manteision sylweddol i bobl ifanc ac i Gymru fel gwlad trwy roi mwy o amser i bobl ifanc mewn gofal maeth. Yn gynyddol, mae'r oedran y mae pobl ifanc yn gadael gofal maeth yn cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar eu cyrhaeddiad addysgol uwchradd ac i ba raddau y maent yn cwblhau'r addysg honno, ac ar eu mynediad i addysg ôl-uwchradd. Mae'n golygu bod y bobl hynny sy'n gadael gofal yn llai tebygol o gamddefnyddio alcohol a sylweddau yn ddiweddarach. Mae'n lleihau'r defnydd dilynol ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae'n gost effeithiol i Gymru, sy'n ddefnyddiol iawn yn y cyfnod llwm hwn, ac mae'n rhoi cyfle teg mewn bywyd i bobl ifanc. Yn gryno, mae'n gyfle i aros gyda'r gofaluwr maeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth, a dyna yw bwriad y Bil hwn—gwneud gwahaniaeth.

Mae pobl ifanc yn gadael gofal maeth yng Nghymru rhwng 16 a 18 oed. Mae pob ar hyn o bryd yn gadael cartref yn 24 oed ar gyfartaledd, ac mae'r oed yn cynyddu, rwy'n credu—yn sicr mewn llawer o gartrefi. Rydym hefyd wedi cael gwybod bod mwy a mwy o bobl ifanc yn gorfod aros gyda'u rhieni nes eu bod yn 30, oherwydd amgylchiadau ariannol. Mae rhai ohonoch yn edrych yn eithaf syfrdan. [Chwerthin.]

Mae gennym dystiolaeth glir bod pobl sy'n gadael gofal yn fwy tebygol na phobl ifanc eraill o ddiodeff o salwch meddwl, o fod yn ddigartref, o gamddefnyddio sylweddau, o fod yn ddi-waith neu yn y ddalfa, ac, yn waeth na dim, bedair gwaith yn fwy tebygol o gyflawni hunanladdiad. Mae pobl ifanc wedi dweud wrth Gweithredu dros Blant fod cael person sefydlog y gallant ddibynnu arno yn gwneud byd o wahaniaeth. Dychmygwch pe byddech chi wedi gorfod dod o hyd i'ch llety eu hunain, gwneud yn siŵr bod gennych ddigon o arian ar gyfer bwyd, parhau â'ch addysg neu ddod o hyd i swydd dda, pan oeddech yn 16 neu'n 17 oed. Yr hyn yr ydym ni'n ei ddweud yn y gwelliannau hyn yw nad grymuso awdurdodau lleol yn unig y dylem i ddarparu gofal maeth a chymorth nes bod y bobl ifanc yn cyrraedd 22 oed, ond y bydd gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud hynny. Nid yw'r gwelliannau yn mynd i dorri'r banc. Cyfrifwyd na fydd ond yn cymryd £1.1 miliwn ychwanegol i ddarparu gofal maeth a chefnogaeth hyd at 22 oed. Ar ben hynny, bydd mwy o arian na hyn yn cael ei arbed wrth i bobl ifanc gael gwll cyfle o gael cymwysterau a swyddi, a chyfrannu at yr economi.

At this point, I want to pay tribute to foster carers in Wales. We have all been receiving lots of e-mails, some of which have been quite heartbreaking. Dare I say it, I want to pay tribute to the Welsh Government as well. I want to pay tribute to foster carers who take on the responsibility of looking after children and young people who are often very vulnerable. I also wish to pay tribute to the Welsh Government's clear commitment to caring about the welfare of children, by establishing the first children's commissioner, in Wales. Now, in England, they are thinking about the same issue—not the children's commissioner, but extending the period of foster care. Well, let us be one step ahead again in Wales by doing something about it.

I will close with just a few words from some young people in care, if I may, which are quite moving. This is what one young man, aged 16, said:

'We get rushed out of care when we are 16—it's not fair. Being in foster care is supposed to be like a family. I'm sure they wouldn't rush me out at 16. It feels so great to forget about everything, but the day after, all of my troubles are back—even more—because you have done silly things. Sometimes I think I want to die'.

Well, we can make a difference. That is why I am really pleased to submit my amendments, and I hope that they will get the full support of this Senedd.

19:16

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that, since 1999, this Assembly—and successive Welsh Assembly Governments—has taken this agenda very, very seriously indeed. It has acknowledged the problems that exist in the system and has tried to take steps to level the playing field for children who find themselves in the looked-after sector. Deputy Presiding Officer, you yourself have been at the forefront of that campaign. I, too, like William Graham, would like to pay tribute to Ken Skates for the work that he has done in this area since joining this National Assembly, and to the Welsh Government for its response to the overtures from across parties to try to make progress on this agenda.

The Government's amendments, from 75 through to 77, are a step forward. However, in my view, they do not go far enough, and it is only by passing the amendments tabled by Lindsay Whittle that we will mandate local authorities to act in this area and achieve the change that I am sure we all want to see.

Ar y pwynt hwn, hoffwn dalu teyrnged i ofalwyr maeth yng Nghymru. Mae pob un ohonom wedi bod yn derbyn llawer o negeseuon e-bost, rhai ohonynt wedi bod yn eithaf torcalonnus. Os mentraf ddweud, rwyf am dalu teyrnged i Lywodraeth Cymru hefyd. Hoffwn dalu teyrnged i ofalwyr sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ofalu am blant a phobl ifanc sydd yn aml yn agored iawn i niwed. Rwyf hefyd yn dymuno talu teyrnged i ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i ofalu am les plant, drwy sefydlu'r comisiynydd plant cyntaf, yng Nghymru. Yn awr, yn Lloegr, maent yn ystyried yr un mater—nid y comisiynydd plant, ond ymestyn cyfnod gofal maeth. Wel, gadewch i ni fod un cam ar y blaen eto yng Nghymru drwy wneud rhywbeth am y peth.

Rwyf am gloi, os caf, gyda dim ond ychydig o eiriau eithaf ingol gan rai pobl ifanc mewn gofal. Dyma beth ddywedodd un gŵr ifanc, 16 oed:

Rydym yn cael ein rhuthro allan o ofal pan fyddwn yn 16—nid yw'n deg. Mae bod mewn gofal maeth i fod fel teulu. Rwy'n siwr na fyddent yn fy ngwthio fi allan yn 16 oed. Mae'n teimlo mor wych anghofio am bopeth, ond y diwrnod wedyn, mae fy holl drafferthion yn ôl—mwy hyd yn oed—oherwydd eich bod wedi gwneud pethau gwirion. Weithiau rwy'n credu fy mod eisiau marw .

Wel, gallwn wneud gwahaniaeth. Dyna pam yr wyf yn hynod o falch i gyflwyno fy ngwelliannau, ac rwy'n gobeithio y byddant yn cael cefnogaeth lawn y Senedd hon.

Rwy'n meddwl bod y Cynulliad hwn, ers 1999—a Llywodraethau Cynulliad Cymru olynol—wedi rhoi sylw difrifol iawn, iawn yn wir i'r agenda hon. Mae wedi cydnabod y problemau sy'n bodoli yn y system ac wedi ceisio cymryd camau i greu sefyllfa decach i blant sy'n eu cael eu hunain yn y sector gofal. Ddirprwy Lywydd, rydych chi eich hun wedi bod ar flaen y gad yn yr ymgyrch honno. Byddwn innau, hefyd, fel William Graham, yn hoffi talu teyrnged i Ken Skates am y gwaith y mae wedi'i wneud yn y maes hwn ers ymuno â'r Cynulliad Cenedlaethol, ac i Lywodraeth Cymru am ei hymateb i'r cynigion ar draws y pleidiau i geisio bwrw ymlaen â'r agenda hon.

Mae gwelliannau'r Llywodraeth, o 75 hyd at 77, yn gam ymlaen. Fodd bynnag, yn fy marn i, nid ydynt yn mynd yn ddigon pell, a dim ond trwy basio'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lindsay Whittle y byddwn yn rhoi mandad i awdurdodau lleol weithredu yn y maes hwn a chyflawni'r newid yr wyf yn siŵr ein bod i gyd am ei weld.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Every Christmas, I am starkly reminded of the really challenging circumstances that young people in my own constituency face. My local young farmers' club collects Christmas hampers, which they give to care leavers over the Christmas period. It is a stark reminder of how very alone many of those young people are, at a time when the rest of us are looking forward to spending time with our families. I am sure that those of us who are parents would probably be horrified at the prospect of one of our children, if they had turned around at 16—or, in my case, if they turn around at 16—and felt that they wanted to leave home. I remember myself at that age, and I certainly would not have been capable of handling the complex things of modern life—accommodation, money, school, college, education—at that young age. As I said, I am sure that those of us who are parents of children who have yet to get to 16 would be horrified at the prospect of turning them out into the world at that age, even when they might have great support networks at home.

We are talking about children who often do not have any of those support networks around them to help make that transition into adulthood a success. I really hope that we can take this opportunity today to mandate local authorities to make the service available for children, if they want to stay—and, of course, it is their choice, and the choice of their foster carers, as to whether they want to stay—that they have the opportunity to do that. Perhaps some people will not want to, for very good reasons, and they will feel able and ready to take on the challenges of adult life. However, they should not be forced to do so because of an arbitrary age limit, and this amendment, tabled by Lindsay Whittle, will give us the opportunity to provide the services for those who want them, and I will be supporting it today.

Bob Nadolig, caf fy atgoffa'n blaen o'r amgylchiadau heriol iawn y mae pobl ifanc yn fy etholaeth yn eu hwynebu. Mae fy nghlwb ffermwyr ifanc lleol yn casglu hamperi Nadolig a'u rhoi i bobl sy'n gadael gofal dros gyfnod y Nadolig. Mae'n ein hatgoffa'n eglur o ba mor unig y mae llawer o'r bobl ifanc hynny, ar adeg pan mae'r gweddill ohonom yn edrych ymlaen at dreulio amser gyda'n teuluoedd. Rwy'n siŵr y byddai'r rhai ohonom sy'n rhieni yn ôl pob tebyg yn arswydo wrth feddwl am un o'n plant, pe byddent wedi dweud yn 16 oed neu, yn fy achos i, pe byddent yn dweud yn 16 oed—eu bod yn awyddus i adael cartref. Rwy'n cofio fy hun yn yr oedran hwnnw, ac yn sicr, ni fyddwn wedi gallu ymdopi â chymhlethdodau bywyd modern —llety, arian, ysgol, coleg, addysg—ar oedran mor ifanc. Fel y dywedais, rwy'n siŵr y byddai'r rhai ohonom sy'n rhieni i blant nad ydynt eto'n 16 oed yn arswydo wrth feddwl am eu troi allan i'r byd ar yr oedran hwnnw, hyd yn oed pe byddai ganddynt rwydweithiau cefnogaeth gwych yn y cartref.

Rydym yn sôn am blant nad oes ganddynt yn aml y rhwydweithiau cymorth hynny o'u cwmipas er mwyn eu helpu i bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolion. Rwyf wir yn gobeithio y gallwn fanteisio ar y cyfle hwn heddiw i roi mandad i awdurdodau lleol sicrhau bod y gwasanaeth ar gael i blant, a bod y cyfle ar gael iddynt aros os ydynt am wneud hynny—ac, wrth gwrs, nhw, a'u gofalwyr maeth sydd i ddewis a ydynt eisiau aros. Efallai na fydd rhai pobl yn dymuno, am resymau da iawn, a byddant yn teimlo eu bod yn gallu a'u bod yn barod i ymgymryd â heriau bywyd fel oedolyn. Fodd bynnag, ni ddylid eu gorfodi i wneud hynny oherwydd y terfyn oedran mympwyol, ac mae'r gwelliant hwn, a gyflwynwyd gan Lindsay Whittle, yn rhoi cyfle inni ddarparu gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd eu heisiau, a byddaf yn ei gefnogi heddiw.

19:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:19 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have listened very carefully to the comments made here this afternoon by William Graham, Lindsay Whittle, and Kirsty Williams. I acknowledge the commitment that they have shown to looked-after children and those leaving care by tabling the amendments that they have. This is a commitment that I wholeheartedly share. It is in continuing this commitment that I have also listened to the calls from third sector organisations and the young people themselves regarding arrangements for post-18 accommodation, and have brought forward amendments 75, 76 and 77 as a result.

Rwyf wedi gwranddo'n ofalus iawn ar y sylwadau a wnaed yma brynghawn heddiw gan William Graham, Lindsay Whittle, a Kirsty Williams. Rwy'n cydnabod yr ymrwymiad y maent wedi'i ddangos i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal trwy gyflwyno eu gwelliannau. Mae hwn yn ymrwymiad yr wyf yn ei rannu'n llwyr. Wrth barhau â'r ymrwymiad hwn rwyf hefyd wedi gwranddo ar y galwadau gan fudiadau trydydd sector a'r bobl ifanc eu hunain ynglŷn â threfniadau ar gyfer llety ôl-18, ac wedi cyflwyno gwelliannau 75, 76 a 77 o ganlyniad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Amendment 75 inserts a new section into the Bill. It places a clear and explicit duty on local authorities, as part of their wider pathway assessment and care planning duties, to determine whether it would be appropriate for a category 1—I do not like that term, but we have not been able to come up with anything better—young person currently placed with local authority foster parents to continue that placement following their eighteenth birthday. The continuation of such a placement must be consistent with the young person's wellbeing and would be called a 'post-18 living arrangement', which is also defined within this amendment. Should a local authority determine that such an arrangement is appropriate for both the young person and the former local authority foster parent, this amendment then places a duty on the local authority to provide advice and support to both parties. This is to facilitate such an arrangement at the appropriate time.

Amendment 76 amends section 100 of the Bill, on support for category 3 young people. This amendment places further explicit duties on any local authority responsible for a young person for whom a post-18 living arrangement is in place. The duties introduced by this amendment ensure that a local authority monitors a post-18 living arrangement so as to satisfy itself that the arrangement continues to be consistent with the young person's wellbeing. Where a local authority continues to be satisfied, it must continue to provide advice and support to both parties in order to maintain that arrangement. Amendment 77 clarifies that any support provided to the young person or the former local authority foster parent in maintaining a post-18 living arrangement may be in kind or financial—that is, in cash.

As I said, I have brought forward these amendments in response to representations from organisations and young people themselves. However, I would like to emphasise, on the record, that while these amendments clarify and strengthen the provisions in the Bill for children who are in, or are leaving, care, the power for local authorities to facilitate these arrangements already exists. It is on this existing legislative base that the When I am Ready scheme is being pioneered—I pay tribute to the role that Ken Skates played in developing that scheme—building on the examples of good practice in a number of local authorities in Wales that already provide for these arrangements as part of their wider corporate parenting responsibilities. While the When I am Ready scheme is being implemented in a phased way, and the implementation of the Bill is scheduled to take place by 2016, I would not want any local authority to think that it is precluded from providing post-18 living arrangements until these implementation programmes are complete. Local authorities are not.

Mae gwelliant 75 yn mewnosod adran newydd yn y Bil. Mae'n gosod dyletswydd glir ac eglur ar awdurdodau lleol, fel rhan o'u dyletswyddau ehangach o ran cynnal asesiad llwybr a chynllunio gofal, i benderfynu a fyddai'n briodol i berson ifanc categori 1—nid wyf yn hoffi'r term hwnnw, ond nid ydym wedi gallu meddwl am ddim gwell—a leolir ar y pryd gyda rhieni maeth awdurdod lleol barhau â'r lleoliad yn dilyn eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Mae'n rhaid i barhad lleoliad o'r fath fod yn gyson â lles y person ifanc a byddai'n cael ei alw'n 'drefniant byw ôl 18', sydd hefyd yn cael ei ddiffinio yn y gwelliant hwn. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod trefniant o'r fath yn briodol ar gyfer y person ifanc a'r cyn-riant maeth awdurdod lleol, mae'r gwelliant hwn wedyn yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r ddwy ochr. Bwriad hyn yw hwyluso trefniant o'r fath ar yr adeg briodol.

Mae gwelliant 76 yn diwygio adran 100 y Bil, ar gymorth ar gyfer pobl ifanc categori 3. Mae'r gwelliant hwn yn gosod rhagor o ddyletswyddau penodol ar unrhyw awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc y mae trefniant byw ôl-18 wedi'i sefydlu ar ei gyfer/ei chyfer. Mae'r dyletswyddau a gyflwynwyd gan y gwelliant hwn yn sicrhau bod awdurdod lleol yn monitro trefniant byw ôl-18 er mwyn ei fodloni ei hun bod y trefniant yn parhau i fod yn gyson â lles y person ifanc. Pan fo awdurdod lleol yn parhau i fod yn fodlon, rhaid iddo barhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r ddwy ochr er mwyn cynnal y trefniant hwnnw. Mae gwelliant 77 yn egluro y gall unrhyw gymorth a ddarperir i'r person ifanc neu'r rhiant maeth awdurdod lleol blaenorol er mwyn cynnal trefniant byw ôl-18 fod ar ffurf nwyddau neu'n ariannol—hynny yw, mewn arian parod.

Fel y dywedais, rwyf wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn mewn ymateb i sylwadau gan sefydliadau a phobl ifanc eu hunain. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio, ar gof a chadw, bod y gwelliannau hyn yn egluro ac yn cryfhau'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer plant sydd mewn gofal, neu sy'n gadael gofal, ond bod y pŵer i awdurdodau lleol hwyluso'r trefniadau hyn eisoes yn bodoli. Mae'r cynllun Pan Fyddai'n Barod yn cael ei arloesi ar y sylfaen deddfwriaethol bresennol hon—rwy'n talu teyrnged i gyfraniad Ken Skates tuag at ddatblygu'r cynllun hwnnw—gan ddatblygu'r enghreifftiau o arfer da mewn nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd eisoes yn darparu ar gyfer y trefniadau hyn fel rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach. Er bod y cynllun Pan Fyddai'n Barod yn cael ei weithredu'n raddol, ac y bwriadwyd i'r Bil gael ei weithredu erbyn 2016, ni fyddwn am i unrhyw awdurdod lleol feddwl nad oed hawl ganddo i ddarparu trefniadau byw ôl-18 hyd nes bydd y rhaglenni gweithredu hyn yn gyflawn. Nid oes dim i awdurdodau lleol rhag gwneud hynny.

Amendments 75A and 76A, tabled by William Graham AM, seek to amend the provisions that I have tabled in order to include specific reference to financial support. While I support the principle of these amendments, I am concerned that the drafting of these amendments creates an ambiguity in relation to financial support across this Part of the Bill. Further, the Bill, in conjunction with my amendment 77 in particular, already provides for financial support to children, young people and those who care for them in these situations. These amendments are, therefore, also unnecessary. I do, however, understand the strength of feeling with regard to this issue. I have listened carefully to William Graham's comments on this, and, therefore, I will consider these amendments further with a view to returning to this issue at Report Stage.

Amendments 75B and 75C, also tabled by William Graham, seek to further amend my amendment 75. Amendment 75B seeks to include a power to make regulations to make further provision in relation to post-18 living arrangements. This amendment is unnecessary, as there are already sufficient regulation-making powers contained under sections 78, 98(7) and 98(8).

Amendment 75C seeks to make provision regarding the publicity of post-18 living arrangements. Again, while I welcome the spirit of this amendment, it is unnecessary. There is already provision for ensuring that local authorities make information available about the range of services that they provide through section 14. Those who would wish to be aware of post-18 arrangements would be informed through the pathway assessment and care-planning assessment.

However, as I stated in my written statement on 29 January, I intend to ask my When I am Ready monitoring group to consider and bring forward ideas regarding publicity of these arrangements, and how those ideas can be put into practice. I hope that these commitments are sufficient to enable William Graham to withdraw these amendments. However, if he proceeds to move them to the vote, I ask that Members do not support amendments 75A, 75B, 75C and 76A.

I will turn now to William Graham's amendments 1, 2, 3, 4 and 5. While I appreciate the intended effect behind these amendments, I do not consider that they achieve the effect in legal or practical terms. Amendment 1 inserts a power for local authorities to provide post-18 living arrangements under section 67. Section 67 provides for a duty on local authorities to accommodate children who are lost, abandoned, or have no parents to care for them. These children are not subject to any care order, and while they may be accommodated with a foster parent, they are not looked-after children or those preparing to cease to be looked after. Therefore, amendment 1 will not capture those young persons who would particularly benefit from the provision.

Amendments 2, 3, 4 and 5 make further provision as a consequence of amendment 1. Amendments 1A and 1B, tabled in the name of Lindsay Whittle AM, seek to change William Graham's amendment from a power to a duty, and to extend that duty to apply to persons up to the age of 22.

Mae gwelliannau 75A a 76A, a gyflwynwyd gan William Graham AC, yn ceisio diwygio'r darpariaethau yr wyf i wedi'u cyflwyno er mwyn cynnwys cyfeiriad penodol at gymorth ariannol. Er fy mod yn cefnogi egwyddor y gwelliannau hyn, rwy'n pryderu bod y modd y drafftwyd y gwelliannau hyn yn creu amwysedd o ran cymorth ariannol ar draws y Rhan hon o'r Bil. Yn ogystal, mae'r Bil, ar y cyd â gwelliant 77 yn arbennig a gyflwynais i, eisoes yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn y sefyllfaoedd hyn. Mae'r gwelliannau hyn, felly, hefyd yn ddiangen. Rwyf yn deall cryfder y teimladau ynglŷn â'r mater hwn, fodd bynnag. Rwyf wedi gwrandod'n ofalus ar sylwadau William Graham ar hyn, ac felly, byddaf yn ystyried y gwelliannau hyn ymhellach gyda'r bwriad o ddychwelyd at y mater hwn yn y Cyfnod Adrodd.

Mae gwelliannau 75B a 75C, a gyflwynwyd hefyd gan William Graham, yn ceisio gwella ymhellach ar welliant 75 a gyflwynwyd gennyf i. Mae gwelliant 75B yn ceisio cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach o ran trefniadau byw ôl-18. Mae'r gwelliant hwn yn ddiangen, gan fod digon o bwerau i wneud rheoliadau wedi'u cynnwys eisoes dan adrannau 78, 98(7) a 98(8).

Mae gwelliant 75C yn ceisio gwneud darpariaeth ynghylch cyhoeddusrwydd i drefniadau byw ôl-18. Unwaith eto, er fy mod yn croesawu ysbryd y gwelliant hwn, mae'n ddiangen. Mae darpariaeth eisoes trwy adran 14 ar gyfer sicrhau bod awdurdodau lleol yn trefnu bod gwybodaeth ar gael am yr ystod o wasanaethau y maent yn eu darparu. Byddai'r rhai a fyddai'n dymuno bod yn ymwybodol o drefniadau ôl-18 yn cael gwybod drwy'r asesiad llwybr a'r asesiad cynllunio gofal.

Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy natganiad ysgrifenedig ar 29 Ionawr, rwy'n bwriadu gofyn i fy ngrŵp monitro Pan Fydda' i'n Barod ystyried a chyflwyno syniadau ynghylch cyhoeddusrwydd i'r trefniadau hyn, a sut y gellir rhoi'r syniadau hyn ar waith. Rwy'n gobeithio bod yr ymrwymadau hyn yn ddigonol i alluogi William Graham i dynnu'r gwelliannau hyn yn ôl. Fodd bynnag, os bydd yn symud ymlaen i'w cynnig i bleidlais, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 75A, 75B, 75C a 76A.

Trof yn awr at welliannau 1, 2, 3, 4 a 5 gan William Graham. Er fy mod yn gwerthfawrogi'r effaith y bwriedir i'r gwelliannau hyn ei chael, nid wyf o'r farn eu bod yn cyflawni'r effaith yn gyfreithiol nac yn ymarferol. Mae gwelliant 1 yn mewnosod pŵer i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau byw ôl-18 o dan adran 67. Mae adran 67 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety ar gyfer plant sydd ar goll, wedi'u gadael, neu nad oes ganddynt rieni i ofalu amdanynt. Nid yw'r plant hyn yn destun unrhyw orchymyn gofal, ac er y byddant o bosibl yn cael eu lletya gyda rhiant maeth, nid ydynt yn blant sy'n derbyn gofal nac yn rhai sy'n paratoi i roi'r gorau i dderbyn gofal. Felly, ni fydd gwelliant 1 yn cwmpasu'r bobl ifanc hynny a fyddai'n cael budd arbennig o'r ddarpariaeth.

Mae gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn gwneud darpariaeth ychwanegol o ganlyniad i welliant 1. Mae gwelliannau 1A ac 1B, a gyflwynwyd yn enw Lindsay Whittle AC, yn ceisio newid gwelliant William Graham o bŵer i ddyletswydd, ac ymestyn y ddyletswydd honno i fod yn berthnasol i bersonau hyd at 22 oed.

I will now turn to amendments 331 and 332, tabled by Lindsay Whittle. Again, I support the intended effect of these amendments. However, they will not achieve their intended outcome as currently drafted. Amendment 331 inserts a new section also intended to provide for post-18 living arrangements. However, the way in which it is drafted simply provides a duty on local authorities to provide advice and support in order to facilitate and maintain such an arrangement. It also could be construed to mean that the only person to whom the duty to provide such advice and support applies is the young person involved in the arrangement and not the former local authority foster parent. In addition, this amendment does not provide for the consideration or determination during the care planning process in order to establish whether such an arrangement would be suitable for either party and be consistent with the young person's wellbeing.

Trof yn awr at welliannau 331 a 332, a gyflwynwyd gan Lindsay Whittle. Unwaith eto, rwy'n cefnogi effaith arfaethedig y gwelliannau hyn. Fodd bynnag, ni fyddant yn cyflawni'r canlyniad a fwriedir fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd. Mae gwelliant 331 yn mewnosod adran newydd y bwriedir hefyd iddi ddarparu ar gyfer trefniadau byw ôl-18. Fodd bynnag, nid yw'r ffordd y mae wedi ei ddrafftio ond yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor a chymorth er mwyn hwyluso a chynnal trefniant o'r fath. Gellid hefyd ei ddehongli i olygu mai'r unig berson y mae'r ddyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth o'r fath yn berthnasol iddo yw'r person ifanc y mae'r trefniant yn berthnasol iddo ac nid y cyn-riant maeth awdurdod lleol. Yn ogystal, nid yw'r gwelliant hwn yn darparu ar gyfer ystyriaeth neu benderfyniad yn ystod y broses cynllunio gofal er mwyn sefydlu a fyddai trefniant o'r fath yn addas ar gyfer y naill barti ac a fyddai'n gyson â lles y person ifanc.

I appreciate, Deputy Presiding Officer, that I have gone into great detail during this group, and I thank you for allowing me to do so. However, given the importance of the issue, and the strength of feeling across all parties, I felt it pertinent that I make my position clear, and explain fully, for the record and for us in this room, the intended effect of my amendments 75, 76 and 77. I urge Members to support them.

Rwy'n sylweddoli, Ddirprwy Lywydd, fy mod wedi mynd i lawer o fanylder yn ystod y grŵp hwn, a hoffwn ddiolch ichi am ganiatáu imi wneud hynny. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd y mater, a chryfder y teimlad ar draws pob plaid, roeddwn yn teimlo'i bod yn berthnasol imi wneud fy safbwynt yn glir, ac esbonio'n llawn, ar gyfer y cofnod ac i ni yn yr ystafell hon, yr effaith y bwriedir i welliannau 75, 76 a 77 ei chael. Anogaf yr Aelodau i'w cefnogi.

19:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that the length of debate on this section is entirely appropriate, and I now call William Graham to reply.

Rwy'n meddwl bod hyd y drafodaeth ar yr adran hon yn gwbl briodol, ac rwy'n awr yn galw ar William Graham i ymateb.

19:29 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that Lindsay and I read from the same brief. His extract from a care-leaver was a powerful statement. I am grateful to Kirsty for acknowledging that problems exist and that we are now, hopefully, coming to a solution. She made a particular point about empowering the individual and those foster parents who look after the person in care.

Credaf fod Lindsay a minnau'n darllen o'r un briff. Roedd ei ddeholiad gan un a oedd wedi gadael gofal yn ddatganiad grymus. Rwy'n ddiolchgar i Kirsty am gydnabod bod problemau'n bodoli ac ein bod yn awr, gobeithio, yn nesau at gael ateb. Gwnaeth bwynt penodol ynglŷn â grymuso'r unigolyn a'r rhieni maeth sy'n gofalu am y person mewn gofal.

In view of the Deputy Minister's undertaking, I will withdraw amendments 1, 2, 3, 4, 5, 75A, 75B, 75C and 76A with the leave of the Assembly. I am most grateful for the way in which the Deputy Minister gave a detailed explanation on this particular issue; we all intend that it should go forward.

O ystyried ymrwymiad y Dirprwy Weinidog, byddaf yn tynnu gwelliannau 1, 2, 3, 4, 5, 75A, 75B, 75C a 76A yn ôl gyda chaniatâd y Cynulliad. Rwy'n hynod ddiolchgar am y ffordd y rhoddodd y Dirprwy Weinidog esboniad manwl ar y mater penodol hwn; rydym i gyd yn bwriadu y dylai fynd yn ei flaen.

19:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As there are amendments to amendment 1, we will dispose of those first. Lindsay Whittle, would you like to move amendment 1A?

Gan fod gwelliannau i welliant 1, byddwn yn cael gwared ar y rheini'n gyntaf. Lindsay Whittle, a hoffech chi gynnis gwelliant 1A?

19:30 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendment 1A in my name.

Cynigaf welliant 1A yn fy enw i.

19:30	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 1A be agreed to. Does any Member object? There are objections, so we will move to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 1A.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 42, Ymatal 0.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1A. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiadau, felly symudwn i bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 1A.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 16, Against 42, Abstain 0.</i></p>
19:30	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Lindsay Whittle, will you move amendment 1B?</p>	<p>Lindsay Whittle, a wnech chi gynnig gwelliant 1B?</p>
19:30	Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 1B in my name.</p>	<p>Cynigiau welliant 1B yn fy enw i.</p>
19:30	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 1B be agreed to. Are there any objections? There are objections, so we will move to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 1B.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 42, Ymatal 0.</i></p>	<p>Y cwestiwn y dylid derbyn gwelliant 1B. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Ceir gwrthwynebiadau, felly symudwn i bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 1B.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 16, Against 42, Abstain 0.</i></p>
19:31	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>If amendment 1 is not agreed, amendments 2, 3, 4 and 5 will fall.</p> <p>The question is that amendment 1 be agreed to. [Interruption.] Amendment 1 has been moved, but it can be withdrawn if every Member agrees that we do not proceed. Does any Member object to amendment 1 being withdrawn? There are objections, so we will move to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 1.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p><i>Methodd gwelliannau 2 a 3.</i></p>	<p>Os nad yw gwelliant 1 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn methu.</p> <p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. [Torri ar draws.] Mae gwelliant 1 wedi cael ei gynnig, ond gellir ei dynnu'n ôl os bydd pob Aelod yn cytuno nad ydym yn symud ymlaen. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu i dynnu gwelliant 1 yn ôl? Ceir gwrthwynebiadau, felly symudwn i bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 1.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p><i>Amendments 2 and 3 fell.</i></p>
19:32	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Deputy Minister, will you move amendment 171?</p>	<p>Ddirprwy Weinidog, a wnech chi gynnig gwelliant 171?</p>
19:32	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I move amendment 171 in my name.</p>	<p>Cynigiau welliant 171 yn fy enw i.</p>

19:32	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 171 be agreed to. Does any Member object? There are objections, so we will move to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 171.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 171 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiadau, felly symudwn i bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 171.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Grŵp 28: Llety i Blant sy'n Cael eu Hamddiffyn gan yr Heddlu, neu Sydd o dan Gadwad neu ar Remand etc (Gwelliannau 172 a 173)			
19:33	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The lead amendment in the group is amendment 172. I call on the Deputy Minister to move amendment 172 and to speak to it and the other amendment in the group.</p>	<p>Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 172. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 172 ac i siarad amdano a'r gwelliant arall yn y grŵp.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:33	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 172 in my name.</p> <p>These technical amendments ensure that the provisions of section 68 reflect the full range of healthcare bodies that may provide accommodation to a child. I ask Members to support these amendments.</p>	<p>Cynigiai welliant 172 yn fy enw i.</p> <p>Mae'r gwelliannau technegol hyn yn sicrhau bod darpariaethau adran 68 yn adlewyrchu'r ystod lawn o gyrrff gofal iechyd a all ddarparu llety i blentyn. Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:33	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 172 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 172 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 172 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 172 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 172 yn cael ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 172 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:34	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Deputy Minister, will you move amendment 173?</p>	<p>Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi gynnig gwelliant 173?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:34	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 173 in my name.</p>	<p>Cynigiai welliant 173 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
19:34	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 173 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 173 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 173 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 173 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 173 yn cael ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 173 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

19:34

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Now, in accordance with Standing Order 12.18, I am adjourning proceedings for the day. For the record, sections 2 to 68 of the Bill have been deemed to be agreed. That brings today's proceedings to a close.

Yn awr, yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, rwy'n gohirio'r trafodion am y diwrnod. Ar gyfer y cofnod, ystyriwyd bod adrannau 2 i 68 o'r Bil wedi cael eu derbyn. Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:34.

The meeting ended at 19:34.